Ond ni fawl beddau byth mo'r Jon;
Y meirw s'yno'n tewi ſon.

6 Gelynion f'enaid, ymadêwch;
Meddyliau 'nobaith, ymaith ewch:
Duw, 'r hwn a glybu ' nghwynfan tlawd,
Jachâ ſy nghalon i a'm cnawd.

SALM VII.

Gofal Duw *am ei Bobl, a Choſpedigaeth Erlidwyr.*

1 FY Nuw, ſy Nghyfaill nefol i,
Rhois arnat ti ſy ngoglud:
Rhag dynion s'am ſy ngwaed yn gwau,
Tyr'd, cadw'n glau ſy mywyd.

2 Mewn llid a balchder maent, heb baid,
Yn llarpio f'enaid beunydd:
Fel llewod dig a rwygai'r prae,
Y pryd na bae gwaredydd.

3 Os darfu ' mi gyffrôi eriôed
Fy ngelyn, doed i'm dala:
A ſathred f'einioes yn y llwch
Trwy'r diyſtyrwch eitha'.

4 A phe bai falais ynof fi,
Mae'th Lygaid di yn canfod:
Byth nid appeliwn i mor hy
At Dduw, ag ſy'n f'adnabod.

5 Duw, cyfod, dyrcha'th Law yn ſerth;
Rheola'u nerth a'u balchder:
A deffro i farn; i'm henaid dod
Ollyngdod o'i gyfyngder.

Gorphwyſiad.

6 [Caiff pechaduriaid â'u broch mawr
Eu goſtwng ' lawr i'r eigion:
A Duw'r Gwirioned yn ddi-os
'Ymddiffyn achos cyſion.

7 Duw

7 Duw ſy'n adnabod calon dŷn,
Ymddiffyn gyſion cywyr:
Mae 'fwa ef mewn annel dyn
Yn erbyn yr erlidwyr.

8 Cloddiaſant bwll i mi'n eu gwŷn;
I'r cyfryw un tramcwydden':
Gwnaeth Duw i'w drygau hwynt a'u trâ
Droi ar eu coppa'u hunen.]

9 Yr holl erlidwyr gwaedlyd hyf,
Cânt deimlo'i gleddyf 'ſgeler:
Fy enaid, deffro, mola 'nawr
Ras Duw a'i fawr Gyſiawnder.

SALM VIII. Meſur hir.

Penllywodraeth a Daioni DUW; *ac Arglwyddiaeth Dŷn ar y Creaduriaid.*

1 O Arglwydd, Brenhin nef a llawr,
Ardderchog yw dy Enw mawr:
D'Ogoniant trwy'r holl ddaear aeth,
Ac uwch y nef dyrchafu 'wnaeth.

2 Fy ngolwg pan ddyrchafw'i draw,
A gweled gwaith dy gywrain Law:
Y lloer a'r ſer, mor ddiſglair ſy
Yn harddu'r wybren dywŷll fry;

3 Pa beth yw dŷn? abwydyn gwael,
Annheilwng o'r fath ffafor hael:
Neſa'th Angylion dodaiſt ef,
Yn arglwydd pob peth dan y nef.

4 Coronaiſt ef a bri a braint,
An'feiliaid iddo ufuddhaent:
Ehediaid awyr deneu oer,
A'r pyſgod mawr ſy'n hollti'r môr.

5 Llioſog yw dy Ddoniau llawn!
A'th Ffyrdd ſydd yn rhyfeddol jawn:

O lwch a phryfed y gwnai di
Golofnau braf o glod a bri.

6 [O enau plant gogoniant cai,
A'th ryfedd Ras a eglurhai:
Fel hyn y peraiſt ynthynt rym
I oſteg llid y cablwyr llym.]

SALM VIII. Meſur cyffredin.

Daroſtyngiad a Gogoneddiad Criſt; neu, *wneuthur* Duw *yn Ddyn.*

1 O Arglwydd! aeth dy Enw mawr
Uwch nef a llawr mewn Moliant:
Cyhoedded gwŷr a phlant un wedd
Dy Fawredd a'th Ogoniant.

2 Pan dremiwyf ar y nefoedd faith,
A gweled gwaith dy Ddwylo:
Mor hardd yw'r lloer a'r ſer yn llu,
Mewn wybren fry'n diſgleirio;

3 Duw, beth yw dŷn, na neb o'i ryw,
Yr hwn ſy'n byw mor iſel:
I ti ymwel'd ag ef â'th Ras,
A'i ddwyn i dras mor uchel!

4 I'th Fab trag'wyddol, y Duw pur,
Gymmeryd natur ddynol:
Is nâ'i Angylion ef ei hun,
I wared pryfyn marwol!

5 [Tra bu ef' ar y ddaear hon,
A dynion ni's adweunent:
Y moroedd mawr a'r pyſg ynghŷd
Ei Dduwdod cydnabyddent.

6 Y môr o'i flaen a waſtadh'ôdd;
A'r pyſg, pan archodd, daethant:
I rwydau *Peder* liaws mawr,
A'r dreth i'w law rhoddaſant.

7 Gwel'd

7 Gwel'd rhan o 'Goniant *Criſt* a wnawd;
Trwy'r llen o gnawd llewyrchai:
'Nawr gwelwn hwn ar orſedd nef;
Duw ydyw ef, rhaid adde'.]

8 Coroner ef â pharch hyd nen,
Am blygu ' Ben hyd angau:
Cyhoedded pawb o berchen chwŷth
Ei Foliant byth â'u genau.

9 *Jeſu*, ein Harglwydd ni, mor fawr'
Aeth d'Enw 'nawr mewn moliant:
Cyhoedded yr holl fyd, trwy ras,
Dy Urddas a'th Ogoniant.

SALM VIII. Adn. 3, &c.

gwedi eu heſponio.

Addaf *a* CHRIST, *Arglwyddi 'r hen Greadigaeth a'r newydd.*

Meſur hir.

1 DUW, beth oedd dŷn, pan gynt y gwnaed
Addaf o hil y llwch a gaed:
I ti ei oſod ef a'i ryw
Ond 'chydig îs nag Angel Duw?

2 I ti ddyrchafu ' natur ef,
A'i wneud yn arglwydd pawb îs nef:
Gwneud anifeiliaid, hediaid clau,
A'r pyſgod, iddo ufuddhâu?

3 Ond pa Ogoniant mwy nâ'r haul
Fydd yn coroni *Adda*'r ail:
Pa Barch a haeddai'th Fab o hŷd,
Am blygu ' hono ' i eni i'r byd?

4 Is nâ'i Angylion ef a wnawd;
Bu yn y bedd â'i wedd yn dlawd:
I achub dynol-ryw o'u trâ;
Mewn nerth teyrnaſu etto ' wna.

5 Y byd a ddaw'n ol ei ryddhâu
O holl drueni'r cwymp yn glau:
Fydd hardd a newydd yn y nef,
Wrth Draed yr *Jesu* 'moſtwng ef.

SALM IX. Y Rhan gyntaf.

Llid a Thrugaredd o'r Frawdle.

1 A'M calon oll dyrchafaf gân;
Dy Wyrthiau glân caf draethu:
Pur farnu'r jawn a'r cam y wnai;
Fy nghas ti a'i c'wilyddy.

2 Dy Ras a'th Fawredd fydd fy nghaingc;
Par'toiſt orſeddfaingc union:
I farnu'r byd wrth gyfion far,
A dial ar ddrwgddynion.

3 Bryd hynny'r Arglwydd fydd yn Borth
A Noddfa i'r gorthrymmedig:
Gwaredu'i anwyl blant y wna,
Ac eſmwythâ'r blinedig.

4 Y rhai ' adwaenant Enw Duw,
A gredant i'w Raſlondeb:
Can's gado'r cyfion byth ni wnai,
A iſel geiſiai'i Wyneb.

5 O cenwch Fawl i'r cyfion Dduw,
Yr hwn ſy'n byw yn *Seion:*
Ei Air bygythiol fe'i cwplâ,
A'i raſol Addewidion.

SALM IX. Adn. 12. Yr ail Ran.

Doethineb ac Uniondeb Rhagluniaeth.

1 PAN ymoſyno'r Barnwr pur
Am waed gan dreiſwyr creulon:
Yr holl gyſtuddiol raſol ryw
Cânt weled Duw yn ffyddlon.

2 O byrth dychrynllyd angau du
Mae Duw'n dyrchafu ' bobol:
Yn *Seion* byrth, â llawen llef,
Y molant ef yn firiol.

3 Syrth ei elynion yn y ffos
Heb achos a gloddiaſant:
Ac yn y rhwyd o'u gwaith eu hun,
Mewn athriſt lun, y trengant.

4 Fel hyn, Duw, wrth dy Farnau pur
Adwaenir dy ddwfn Amcan:
Pan fagler y drygionus draw
Yngwaith ei law ei hunan.

Gorphwyſiad.

5 I uffern yr annuwiol â;
A'th Lid a ddifa'r dynion:
Sydd yn dy ollwng di dros go',
Ne'n ddibris o'th Orch'mynion.

6 Er bod y Saint yn cael eu dwyn
I achwyn dan hir flinder:
Duw nid anghofia byth mo'u cri,
A'u gobaith ni bydd ofer.

7 [O cyfod, Duw, i Faingc y Frawd,
I farnu'r tlawd, a'i ſafio:
A chryned pobloedd ger dy fron;
Na ad i ddynion dyccio.

8 Dy daran tery'r beilchion draw;
Dŷd boen a braw'n eu calon;
Addefant mai Duw wyt yn lân,
A hwy ond egwan ddyniqn.]

SALM X.

Gwrando Gweddi, ac achub y Saint; neu, *Goſpi Balcher, Didduwiaeth, a Thrais.*

1 DUW pa'm y ſaif mor bell? ac heb
Ddatguddio'i Wyneb tyner:

Pan yw'n ymddangos amſer drwg
I'n golwg, a chyfyngder?

2 Ai byth y gwawdia drygwyr hy
Dy Allu a'th Gyfiawnder:
Mewn balchder codi ' pennau maent,
I ddifa'th Saint, bob amſer.

3 O'u golwg dodant heibio'th farn,
A chadarn yr ymgodant:
I ſathru'r tlawd; a boſtio'n ſyth,
O'u huchder byth na chwympant.

4 Duw, cyfod, dyrcha dy Law gref;
Rho gluſt i lef ein gweddi:
Ni ſaif o'i flaen un gelyn byw,
Pan godo Duw i fynu.

Gorphwyſiad.

5 Paham y terfyſg gwŷr y byd,
Gan dd'wedyd yn dra beilchion:
" *Ni ymladd Arglwydd nef wrth raid*
" *Ddim byth o blaid i* Seion?

6 Ond tydi byth yw'n Harglwydd ni;
Ac mae'th Law di'n alluog:
Fel pan ddifaiſt o *Ganaan* dir
Genhedloedd wŷr llioſog.

7 Ti a bar'tôi'n calonnau ni,
A'th Gluſt goſtyngi'n barod:
I wrando'r hyn a dd wetto'th blant;
A'r byd a ofnant rhagod.

8 Ac yna ni waſg treiſwyr mwy
Mo'r Saint yn hŵy, nâ'u gwatwar:
Fe addef pechaduriaid trwch,
Nad ŷnt ond llwch a daear.

SALM

SALM XI.

Duw a gâr y Cyfion, ac a gasâ'r Drygionus.

1 DUW'r Cariad yw fy Noddfa gref;
Paham y llef gelynion mwy:
Gan erchi im' ffoi i'r bryniau ar frys,
Fel c'lommen ofnus rhagddynt hwy?

2 Pe troid llywodraeth oll i'r llwch,
(Seilfeini'r heddwch mae Duw'n roi:)
A chodi'n lle cyfiawnder, drais,
Am nawdd p'le cais y cyfion ffoi?

3 Mae'r Arglwydd ar orſeddfaingc nef,
A'i Lygaid ef yn gwel'd y byd:
Pob peth yn hyſpys iddo mae;
Prawf ei Amrantau bawb i gŷd.

4 Os coſpa Duw ei Saint mor bell,
I brofi'n well eu ſerch a'u gras:
Troſeddwyr cânt eu coſpi'n fwy;
Eu holl ffyrdd hwy ſydd gantho'n gas.

5 Ar ddynion drwg y glawia ef
Dymheſtl gref o ſtormus wynt:
A thân a brwmſtan, yr un wedd
Ag ar waſtadedd *Sodom* gynt.

6 Yr Arglwydd cyfion, 'fe a gâr
Yr annichellgar gyfion ddyn:
Fe edrych gyd â golwg fwyn.
Ar bawb fy'n dwyn ei ddull a'i lun.

SALM XII. Meſur cyffredin.

Achwyniad o Lygriad Moeſau; neu,
Addewid ac Arwyddion o Ddyfodiad
Criſt *i'r Farn.*

1 HELP, Arglwydd; can's mae ffyddlon Wŷr,
A Chrefydd bur, yn pallu:

A meib-

A meibion trais ſy'n dwyn y dydd;
Bradwriaeth ſydd yn ffynnu.

2 Eu llw a'u haddewidion glân
A dorran' yn g'wilyddus:
Gwenhieithio maent â gwefus fwyn,
A'u calon hwy'n dwyllodrus.

3 Ac os ceryddwn hwy am hyn,
Eu llid a 'nyn yn ebrwydd:
"*On'd ni biau'n tafod?*" meddant hwy;
"*Ac arnom pwy ſydd Arglwydd?*

4 Ymddengys gwawdwyr o bob tu;
Y mannau hynny coder:
Rai gwael i awdurdodol le;
Fo'n dwyn y cledde'n ofer.

Gorphwyſiad.

5 Pan fo anwiredd yn amlhâu,
A chablau hy'n ymgodi:
A Ffydd yn anhawdd jawn i'w chael,
A Chariad hael yn oeri;

6 On'd yw dydd barn ymron nesâu?
Can's dyma rai o'r nodau:
On'd allwn ni hyderu a byw
Ar Air ein Duw, heb ammeu?

7 "Gellwch (medd Duw) cyfodi 'wnaf,
"Ymlidiaf eich gorthrymwyr:
"Dof er eu dychryn, cyn bo hir;
"Rhyddhâf fy ngwir was'naethwyr.

8 Dy Air, fel arian pur ſaith waith,
Dros oeſoedd maith a bery:
A gredant yn d'Addewid wir,
Cânt wel'd mai ſicir ydy'.

SALM

SALM XIII. Meſur hir.

Pledio â Duw, *pan guddio ei Wyneb*; neu, *Obaith mewn Tywyllwch.*

1 PA hŷd y caf fi, Arglwydd mwyn,
Fel un yn ofer, dd'we'yd fy nghwyn:
A elli guddio'th Wyneb gwiw,
Heb wrando 'ngweddi byth, O Duw?

2 A gaf fi 'ngadael byth dros go',
Fel un yn ddibris gennyt fo:
A'm henaid anobeithio o hŷd
O weled byth dy Wyneb-pryd?

3 Pa hŷd y caiff fy nghalon flin
Gan fath feddyliau toſt ei thrin:
A Satan, fy ngwrth'nebwr mawr,
Yn gorfoleddu 'ngwel'd ar lawr?

4 O Arglwydd, clyw; rho gyſur clau,
Cyn y dêl angau i gwpla 'ngwae:
Os gwel'd dy nefol wawl ni chaf,
Mewn nos drag'wyddol huno 'wnaf.

5 Och, fel y boſtia uffern oll,
Os un gweddïwr â ar goll:
Ond yn dy Ras mae'm hyder i;
Caf etto wel'd dy Wyneb di.

6 Beth bynna' dd'wed gelynion hy,
Fy Ngobaith wyt, a'm Cyſur cry':
Caf etto brofi 'th Ras a'th Hedd,
A'th foli'n wir yn llon fy ngwedd.

SALM XIII. Meſur cyffredin.

Achwyniad dan Demtaſiynau'r Diafol.

1 PA hŷd y cuddi'th Wyneb-pryd,
A'th hyfryd lewyrchiadau:
Pa bryd y dont, O Duw! i'm cwrdd,
I yrru 'ffwrdd fy ofnau?

2 Pa

2 Pa hŷd y caiff fy enaid gwan
Ymdrechu dan anghyfur:
Dy Air a ddichon fy nghryfhâu,
Ac efmwythâu fy nolur.

3 Gwel, fel'' mae t'wyfog uffern goll
Yn profi ' holl gelfyddyd:
Gwafgaru'i niwl o'm hamgylch mae,
A thaflu faethau tanllyd.

4 Duw, Haul a Tharian ym' bydd di,
A chadw fi'n dy Freichiau:
Cyn cau o'm llygaid nos a dydd
Yng nghwfg tragywydd angau.

5 Och, fel y boftia'r gelyn mawr,
Pe cai fo 'nawr fy ngorfod:
A beilch yw plant y nos i gŷd,
Dy wel'd di cy'd yn dyfod.

6 Ond wrth dy Gerydd ffoant hwy,
A Satan mwy a ymgudd:
Fe edwyn fraw d'Edrychiad clau,
A dychrynfau'th Leferydd.

7 Ti eglurhai dy hollawl Ras,
Lle rhois fy addas obaith:
A'm tafod i a fawl fy Jôr,
A'm cân fydd Goruchafiaeth.

SALM XIV. Y Rhan gyntaf.

Pawb wrth Natur yn Bechaduriaid.

1 YR ynfyd yn ei galon d'wed,
O'i ddirgel gred anufudd:
Nad oes i farnu dŷn un Duw;
Mai ofer yw pob Crefydd.

2 O'r fath feddyliau drwg, di-râs,
Daw 'madrodd atgas allan:
Ac yn eu dwylo ceir un wedd
Weithredoedd ffiedd aflan.

3 Yr

3 Yr Arglwydd fry, o'i Orſedd fawr,
'Edrychodd ' lawr ar ddynion:
'Oedd neb yn ymgais am Ras Duw,
Neu'n chwennych byw yn gyfion.

4 Wrth natur ciliodd pob rhyw ddyn;
Aeth pawb o'r un arferion:
Ni chaid a ofnai'r Arglwydd byw,
Neu ' garai Duw o'i galon.

5 A'u tafod y llafarent dwyll,
Ac athrod dibwyll erthwch:
A'u traed a aent at ddrwg yn glau,
Heb 'nabod llwybrau heddwch.

6 Had pechod (y gwraidd chwerw hyn)
Sy 'nghalon pob dŷn etto:
Ni ddwg ond ffrwythau ſurion cas,
Nes delo Gras i'w phuro.

SALM XIV. Yr ail Ran.

Ffolineb Erlidwyr.

1 AAeth troſeddwyr mor ddi-fraw,
A chodi llaw i ddrygu:
A difa'th bobol raſol ryw,
Heb ofni Duw, na'i Allu?

2 O Duw! datguddia'th Enw mawr;
Par iddynt 'nawr arſwydo:
N'âd hwy ddibrifio'th Ddigter di,
Na'n gobaith ni g'wilyddio.

3 Ond gyd â'th Saint y trigi di,
A'n gwatwar ni mae dynion:
Am gredu yn dy Enw da;
Duw Mawr, c'wilyddia'r beilchion.

4 Ac, O na ddeuai'r llawen ddydd
A'n gwnai yn rhŷdd o'n caeth-fyd:
Pan ddygo Duw ei blant i dref,
Ni ' molwn ef yn hyfryd.

SALM

SALM XV. Meſur cyffredin.

Nodau Dinaſwyr Seion; neu, *Gynheddfau Criſtion.*

1 O Dduw'r Sanctteiddrwydd! pwy a fydd
O fewn dy ddedwydd Annedd:
Neu, pwy a drig i'th Fynydd draw
Dros byth ger llaw dy Orſedd?

2 Y dŷn ſy'n rhodio yn Ffyrdd Duw,
A'i fryd ar fyw yn gyfion:
Sy'n credu i'w Addewid bur,
A gwneuthur ei Orch'mynion.

3 Fe dd'wed y gwir yn ol ei dyb,
Ac ni rydd enllib dauog:
Braidd credu un drwg air y wna,
Ac ni ſarhâ'i gymmydog.

4 Ar ddrygddyn brigog ni ddyd bri;
Câr bawb ſo'n ofni'r Arglwydd:
A'r gwir a dwng, er drwg er da;
A'i air 'fe'i cwplâ'n ebrwydd.

5 Ei law, ni lygrir hon ag aur;
A'r tlawd ni chair hi'n waſgu:
Hwn ydyw'r dŷn dros byth fydd byw,
A chyd â Duw'n teyrnaſu.

SALM XV. Meſur hir.

Dyledſwyddau tu ag at Dduw *a Dŷn*; neu, *Gymhwyſiadau Criſtion.*

1 DUW, pwy a ddring i'th nefoedd fry,
I fyw ger bron dy Wyneb cu:
Y dŷn ſy 'nawr yng *Nghriſt* yn byw,
Gan rodio'n iſel gyd â Duw.

2 Un â llaw lân, a chalon bur;
Ni thraetha'i wefus ond y gwir:

Ar

Ar dafod hwn ni thrig drwg air;
A gwneuthur cam â neb ni's cair.

3 [Ni dderbyn enllib, ac ni's dwg,
I wneuthur i'w gymmydog ddrwg:
Gwael yw'r drygionus ger ei fron;
Ond Saint 'fe'u hanrhydedda'n llon.]

4 [Saif hwn yn ſicir wrth ei air,
A ffyddlon i'w addewid cair:
Y peth a dwng, ni newid chwaith,
Pa golled bynna' ddwg o'r gwaith.]

5 [Ymdrîn â gwobron aur ni's gwna;
Gwel'd gwerthu uniondeb a'i triſtâ:
Tra gwaſgo rhai y tlawd di-ſtôr,
Trig cariad peraidd wrth ei ddor.]

6 Fe gâr ei gas, gweddïa'n rhwydd
Dros a'i melldithio yn ei ŵydd:
Gan wneud yn waſtad i bob dŷn
'Rhyn a ddymunai iddo'i hun.

7 Pan wnel ei holl weithredoedd da,
Ar Ras yn unig pwyſo' wna:
Hwn yw y dŷn caiff weled Duw,
A gyd ag e'n drag'wyddol fyw.

SALM XVI. Y Rhan gyntaf.

Meſur hir.

Cyffes o'n Tlodi; a'r Saint y Gyfeillach oreu; neu, *Weithredoedd da yn llesâu Dŷn, nid* Duw.

1 DUW, cadw fi, pan fyddo rhaid;
At Orſedd Gras y dof am blaid:
Ond pledio haeddiant ni wnaf fi;
Fy na, nid yw ef' ddim i ti.

2 Addefais lawer gwaith yn brûdd,
Mor wag, mor dlawd wyf, a di-fudd:

Ni all fy mawl chwanegu'th Fri,
D'Ogoniant, na'th Ddedwyddwch di.

3 Ond etto'th Saint all gael llesâd
Oddiwrth fy na a'm rhoddion rhad:
Hwy yw'r gymdeithas oreu'i bri;
Hwy yw ' nghyfeillion pennaf i.

4 Dewiſed eraill ger eu bron,
I flaſu'u gwin, gellweirwyr llon:
Mi garaf wŷr o nefol ryw,
Sy'n meddu Dawn a Delw Duw.

SALM XVI. Yr ail Ran.

Meſur hir.

Holl-ddigonedd Criſt.

1 MOR ſuan y daw ing a gwae
I'r rhai a fryſiant at dduw gau:
Ni phrofaf fi mo'u haberth cas,
Na'u hoffrwm gwaedlyd byth trwy Ras.

2 Gwell Cwppan a ddarparodd Duw,
Ac amgen Fwyd im' arno fyw:
Offrymmai ' anwyl Fab yn ffri
Yn Aberth dros fy mywyd i.

3 Ei Gariad yw ' ngwaſtadol wledd;
Byth moler f'Arglwydd am ei hedd:
Mae'n fy nghynghori 'rhŷd y dydd;
A'r nos, per Addyſg im' a rydd.

4 O'n blaen yn waſtad rhoes fy Nuw;
Ar fy neheulaw parod yw:
I gadw f'enaid rhag pob braw,
Ac byth f'ymddiffyn yma a thraw.

SALM XVI. Y drydedd Ran.

Meſur hir.

Calondid yn Angau, a Gobaith o'r Adgyfodiad.

1 TR'O Duw ger llaw, mae'm ffydd yn gref;
Fy nghynnal mae'i Fraich rymmus ef:

Fy nghalon cân a llawenhâ;
Fy nghnawd a drig mewn gobaith da.

2 Er dodi 'mhen dan ddaear ddu,
Ni edy Duw mo'm henaid cu:
I aros gyd â'r meirw oll,
Na llwch ei blant i fyn'd ar goll.

3 Fy nghnawd, pan alwech yn y ſan,
A gwyd o lwch y bedd i'r lan:
Arweini fi, trwy'r nefol len,
I'th Orſedd bur ſydd fry uwch ben.

4 Mae yno ffrydiau per eu blas,
A datguddiadau llawn o'th Ras:
(Ni chawſom yma o' rhai'n ond rhan)
Maent yno'n llonni yr holl ſan.

SALM XVI. 1—8. Y rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Cynhaliaeth a Chyngor oddi wrth DDUW, *heb eu haeddu.*

1 DUW, rhag pob gelyn gwared fi;
Rhois ynot ti f'ymddiried:
Er nad yw 'na i'n haeddu dim
O'th Ffafor im' ('rwy'n gweled.)

2 Ond os Duw 'eſtyn f'einioes fer,
Gall hyn fod er daioni:
I'r Saint, gogoniant y ddae'r hon,
Y dynion wyf yn hoffi.

3 Gadêwch i'r di-gred fyn'd heb oed
I 'ddoli coed a meini:
Fy nghoelbren i ſyrthiedig yw
Lle mae am DDUW oleuni.

4 Ei Law a ddarpar im' fwrdd llawn,
A chwppan cyflawn, beunydd:
'Rwy'n foddlon i'r preſennol dda,
Ond gwell 'obeithia' ryw-ddydd.

5 Fy Rhan a'm Cyſur i yw Duw;
Ei Gyfraith yw ' ngoleuni:
Rhydd gyngor melus im' y dydd,
A'r nos y bydd i'm dyſgu.

6 Dymunwn roi ' meddyliau'n rhwydd
Byth yn ei ŵydd, heb ddichell:
Nid angau prûdd a'm dŷd mewn braw,
Tra bo ger llaw'r fath Gyfell.

SALM XVI. Yr ail Ran. Meſur cyffredin.

Marwolaeth ac Adgyfodiad Criſt.

1 " GOfodais f'Arglwydd ger fy mron;
" Mae'n dal fy nghalon ' fynu:
" Fy nghnawd a drig mewn gobaith llawn;
" 'Rwy'n llawen jawn am hynny.

2 " Ni edy'r Jôn mo'm hyſpryd byth
" I drigo 'mhlith y meirw:
" Na'm corph i aros yn y bedd,
" I weled llygredd hwnnw.

3 " Datguddi ffordd y bywyd fry,
" Gan fy nyrchafu i'th Orſedd:
" Lle mae hyfrydwch ger dy Fron,
" Llawenydd llon di-ddiwedd.

4 [Fel hyn, yn Enw *Criſt*, trwy ffydd,
Y Prophwyd *Dafydd* canodd:
A'i Brophwydoliaeth e'n ddi-lai
Rhagluniaeth a'i cyflawnodd.

5 *Jeſu*, Anwylyd y Saint, ' gadd
Ei hoelio, ' ladd, a'i gladdu:
A'r bedd rhoes ' fynu Gorph Mab Duw;
Ac wele, byw yw'r *Jeſu*.

6 Pa bryd y caiff fy enaid fyn'd
I'r nefol Fryn trag'wyddol:
Criſt ar Ddeheulaw Duw ſy fry;
A'r Tad yn gwenu'n firiol.]

SALM

SALM XVII. Adn. 13, &c.

Meſur cyffredin.

Rhan Saint a Phechaduriaid; neu, *Obaith ac Anobaith yn Angau.*

1 DUW, cyſod; gyr i ffoi ar frys
Y rhai drygionus anfad:
Nid ŷnt ond gwialen Gerydd dau,
I yrru'th Seintiau attad.

2 Wele'r pechadur marw 'wna,
Er maint ei ddâ a'i feddiannau:
Mae'n cael ei wynfyd yma i gŷd;
Tu draw i'r byd, mae'i boenau.

3 Gadêwch i hwn falchïo'n fawr,
A boſtio'i ddirfawr dryſor:
Duw yw fy Etifeddiaeth i;
Fy enaid ni chais ragor.

4 Caf etto weled Duw a'i Wedd
Mewn cyflawn hedd a chariad:
A bod yn gyfion ger ei fron,
Trwy Waed fy nghyfion Geidwad.

5 Caf nefoedd newydd yn fy rhan,
O angau pan fwy'n deffro:
A'm gwiſgo â Delw *Criſt* ei hun,
A byw heb derfyn yno.

SALM XVII. Meſur hir.

1 DUW, d'eiddo wyf; ond profi di
F'amynedd, ffydd, a'm cariad i:
I'm herbyn os gwŷr drwg a ddaw,
Hwynt-hwy yw'r cleddyf, ti biau'r llaw.

2 Mae'u gobaith a'u 'tifeddiaeth hwy
Yn hyn o fyd; ni cheiſiant fwy:
Mwynhânt eu rhan o hwn, tra bônt;
A'r gweddill rhwng eu plant a ront.

3 Eu tryſor a ddibriſiaf fi;
Duw, digon im' dy ſeddu di:
Caf wel'd dy Wyneb dedwydd llon,
Mewn pur gyfiawnder ger dy Fron.

4 Y bywyd hwn ſydd freuddwyd brau;
I fyd o ſylwedd 'wy'n nesâu:
Lle mae llawenydd gwell yn llaw;
Pa bryd y caf ddi-huno draw!

5 O ddedwydd awr! O Drigfan wiw!
Caf fod ger llaw, ac fel fy Nuw:
Ac ni thyr pechod mwy, na chnawd,
Ddiddanwch tlws fy enaid tlawd.

6 Fy nghnawd a gwſg yn llwch y llawr,
Nes clywed ſain yr udgorn mawr:
Ac yna tyr ef' rwymau'r bedd,
A chwyd ar Ddelw *Criſt* mewn hedd.

SALM XVIII. Y Rhan gyntaf.

Meſur hir. Adn. 1—6, 15—18.

Ymwared o Anobaith; neu, *Orchſygu Profedigaethau.*

1 TYDI a garaf, Arglwydd nef,
Fy Nghraig, fy Nhŵr, fy Noddfa gref:
I'th rymmus Fraich y credaf fi;
Ce's Jachawdwriaeth trwyddi hi.

2 Angau a dychrynfeydd y bedd
Amgylchent fi mewn erchyll wedd:
A'r llif o demtaſiynau mawr,
Nes ſoddi f'enaid gwan i lawr.

3 Mi welais byrth uffernol ffau,
Lle mae wylofain byth, a gwae:
Ni ddichon neb dd'we'yd doſted yw,
Ond y damnedig s'yno'n byw.

4 Yn fy nghyfyngder gelwais Duw;
Braidd gall'ſwn dd'we'yd, Fy eiddo yw:

Goſtyngai

Goſtyngai ' Gluſt i wrando'm cwyn,
A'i Ras ' amlygodd imi'n fwyn.

5 [Mewn brys i'm cadw hedeg ' wnaeth;
Fel ar adenydd Cerub daeth:
Ofnadwy, fynn, a diſglair ſyw
Fel mellten, ydoedd Gwedd fy Nuw.

6 Profedigaethau ffoiſant ' ffwrdd,
Pan ddaeth ei gerydd ef i'w cwrdd:
Anfonodd jachawdwriaeth ' lawr,
A thynnodd fi o'r dyfnder mawr.]

7 Gelynion aml, a mawr eu grym,
A mwy eu llid, oedd imi'n llym:
Ond *Criſt* fy'n dwyn y dydd heb goll
Ar ddiafol a'i fyddinoedd oll.

SALM XVIII.

Yr ail Ran. Adn. 20—26. Meſur hir.

Profi Diragrithrwydd, a'i wobrwyo.

1 DI-dwyll yw f'enaid, gwel, O Dduw!
Dy Wir a'th Gariad amlwg yw:
O'm blaen y rhois dy Ddeddfau di;
Arddelaiſt f'achos cyfiawn i.

2 Er pan adnabum dy Ffyrdd glân,
Yn uniawn rhodiais i o'th fla'n:
Neu os fy nhraed o'th Ffyrdd a drodd,
Nid o ddim bwriad, nac o'm bodd.

3 Pa demtaſiynau i'm blino fydd?
Pa ryfel yn fy nghalon brûdd:
Ond trwy Ras Duw, o'm mewn y fy,
'Rwy'n cadw rhag fy mhechod cu.

4 Y pechod ſy'n f'amgylchu o hŷd,
Gan weithio'n erbyn fy holl fryd;
Pa bryd y daw dy Allu mawr
I lwyr ddinyſtrio hwn i lawr?

5 [A llaw ddi-duedd y mae Duw
Yn gwabro pawb o ddynol-ryw:
Eneidiau ffyddlon cânt eu dwyn
I wel'd Duw'n ffyddlon ac yn fwyn.]
6 Y pur a'r cyfiawn d'wedant, mwy
Cyfiawnach, purach wyt nâ hwy:
Ac ymddïalwyr cânt (gwir yw)
Wel'd Braich o 'mddïal drom gan Dduw.

SALM XVIII. Y drydedd Ran.

Adn. 30, 31, 34, 35, 46, &c. Mesur hir.

Llawenhâu yn Nuw; neu, *Jachawdwriaeth a Gorfoledd.*

1 CYfion yw'th Ffyrdd, a'th Air sy wir,
Craig fawr fy niogel drigfan hir:
Pwy sydd yn Dduw heb law tydi?
Neu Noddfa debyg i'n Duw ni?
2 Efe'm gwregysodd i â'i Rym;
A'i Gleddyf sanctaidd rhoddes ym':
Tr'wy'n ymladd â gelynion f'oes,
O'm cylch ei Darian Jechyd rhoes.
3 Byw ydyw ef' (bendithier Duw)
Sef Craig fy Jachawdwriaeth yw:
Fe dorrodd amcan uffern ddu;
Rhoes felus hedd i'm henaid cu.
4 O flaen gwatwarwyr yr oes hon
Dyrchafaf Enw 'Nhad yn llon:
Ni chrynaf wrth eu dirfawr lid,
Ond dygaf w'radwydd yn ddi-wrid.
5 I *Ddafydd* a'i frenhinol had
Hyd byth ymestyn dy Ras rhad:
Dy Gariad di yng *Ngbrist* i'th Saint,
Mawr ac anfeidrol yw ei faint.

SALM

SALM XVIII. Y Rhan gyntaf.
Meſur cyffredin.

Buddugoliaeth a Gorfoledd ar Elynion tymhorol.

1 CErwn di, Arglwydd; cadarn wyd;
Dy Fraich datguddiwyd weithian:
Ein Nerth, ein Hymddiffynfa ſiwr,
Ein huchel Dŵr, a'n Tarian.

2 I'n Craig drag'wyddol ffoi y wnawn,
A ſicr y cawn ddiffynfa:
A thynnwn jachawdwriaeth gref
O'i Enw ef, JEHOFA.

3 Mewn eirf pan ymddiſgleirio DUW,
Pa galon fyw all odde':
Ei uchel ſwn, a lluched ſynn
Ei waywffyn a'i ſaethe!

4 Mae'n marchog' ar adeinoig wynt;
Angylion ŷnt yn gweini:
Fyrddiynau, i wneud ei 'Wyllys glân,
Fel fflamau tân mor heini.

5 Ac wrth ei Gerydd ef ar g'oedd,
Byddinoedd a leſmeiriant:
Ei Lais a'i 'Drychiad llidiog llym
A dery'u grym yn fethiant.

6 Mae'n rhoi i'n tywyſogion llu
Wroldeb hy a meder:
A'i Gleddyf mawr ofnadwy pur,
A chalon ddur i'w arfer.

7 [Efe i'r gâd 'arfoga'n gwŷr,
Er yr anghofir yno:
Gwregyſodd *Cyrus* â'i fawr Rym,
Na 'dwaenai ddim o hono.

8 Er mwyn ei Eglwys, darfu i DDUW
Fendithio amryw bobloedd:

Y pwerau

Y pwerau ſy'n rhoi hedd i'w blant,
Eu cadw cânt o'r nefoedd.]

SALM XVIII. Yr ail Ran.

Meſur cyffredin.

Cân y Gorchfygwr.

1 DY Holl-alluog Fraich, ein Jôr,
A biau'r Oruchafiaeth:
Dy Fraw a ddeil y gelyn llym,
Nes toddo'i rym ef ymaith.

2 Trwy'th Gymmorth di y meudda'n gwŷr
Eu gwrthwynebwyr erchyll:
Lloſgi eu llongau, torri 'lawr
Eu huchel goſtfawr geſtyll.

3 O fel yr ymlidiaſom hwy!
I lawr fwy-fwy fe'u ſathred:
Tra cadwai'th Darian Jechyd ni,
Hwynt-hwy oedd ddi-ymwared.

4 Nid gwiw oedd gwaeddi ar eilun faint;
Can's trengu 'wnaent yn ebrwydd:
Pa le mae craig mor fawr, mor gref,
Ag ydyw ef, ein Harglwydd!

5 Craig *Iſrâel* a fydd byw byth;
Ei Enw dilyth moler:
Ei Fraich ſy'n rhoi i'w bobl y dydd,
A llonydd ac eſmwythder.

6 Brenhinoedd 'nawr, fel *Dafydd* gynt,
Duw arnynt rhydd Fendithion:
A'u hurddas 'fe'i ſicrhâ i'w had,
A deil heb frad y goron.

SALM

SALM XIX. Y Rhan gyntaf.

Meſur cyffredin.

Llyfr Natur a'r Yſgrythyr.

Ar Fore-ddydd yr ARGLWYDD.

1 WELE, yr wybren uchel yw,
Gogoniant Duw mai'n ddatgan:
A'i holl ſerennog waith ſy fry
Yn traethu'i Allu allan.

2 Y t'w'llwch a'r goleuni glân
A gadwan' eu hamſerau:
A nos i ddydd, a dydd i nos,
Sy'n dangos neſol werſau.

3 Ym mhob rhyw dalaith trwy'r holl dîr
Adweinir eu lleferydd:
Dangoſant dreſn ei Orſedd draw,
Gwaith rhyfedd Llaw ein Llywydd.

4 Holl ynys *Brydain*, llawenhâ;
Ei Air ſydd yma'n barod:
Nid wrth lais natur darfu i DDUW
Ein gadael i'w adnabod.

5 Ei Ddeddfau a'i Orch'mynion glân
A roed o fla'n ein llygaid:
A'r 'Fengyl fwyn, lle cawn ni faeth,
A jachawdwriaeth enaid.

6 Mae'i Ddeddfau'n gyfion ac yn bur,
A'i Wir yn gywir union:
A'i Addewidion ſiwr byth ŷnt,
A'i Wobrau ydynt fawrion.

7 [Ni ddyru mel i archwaeth dŷn,
Na dim, yr un feluſder:
Nac aur, a goethwyd lawer gwaith,
I'w olwg chwaith fath hoffder.

8 Tra

8 Tra bwyf yn canu am dy Waith,
I draethu'th faith Ogoniant:
Duw, derbyn di fy mawl di-drift,
Yn Enw *Crift* a'i Haeddiant.]

SALM XIX. Yr ail Ran.

Mefur cyffredin.

Gair Duw *yn dra rhagorol*; neu, *Ddiragrithrwydd a Gwyliadwriaeth.*

Ar Fore-ddydd yr ARGLWYDD.

1 WELE, yr haul cyfodi 'wna
I ddechreu'i yrfa heini:
A'i belydr difglair ant trwy'r byd,
Rhont fywyd a goleuni.

2 Ond 'Fengyl *Crift*, b'le bynna' cyrch,
Daw nefol lewyrch amlwg:
O'u beddau geilw'r meirw'n brudd;
I'r deillion rhydd eu golwg.

3 O pa mor berffaith yw dy Air!
A'th Farnau cair yn gyfion:
Byth ficir yw d'Addewid di,
A chredu hi all dynion.

4 A pha mor eglur, Arglwydd mau,
Yw'th Hyfforddiadau cyhoedd:
Byth na ddarllenwyf hwy'n ddi-lês,
Ond bod yn nês i'r nefoedd!

Gorphwyfiad.

5 'Rwy'n gwrando'th Air mewn cariad clau;
Am ufuddhâu 'rwyf iddo:
O anfon d'Yfpryd oddi fry,
I'm tywys i rhag gwibio!

6 O pwy a ddichon gael, heb goll,
Ei feiau oll yn hyfpys:

Etto

Etto ni phechaf byth o'm bodd
Mewn eon fodd rhyfygus.

7 Rhybuddia fi o bob rhyw fai,
A maddeu'r rhai cuddiedig:
Glanhâ fy enaid euog i
O'i holl ddrygioni a'i ryfig.

8 Tra bwyf yn traethu 'maes dy Glod,
A'm tafod ac â'm calon:
Fy Nuw, fy Nghraig, a'm Prynwr glân,
I'm gwaith a'm cân bydd foddlon.

SALM XIX. Meſur hir.

Cymharu Llyfrau Natur â'r Yſgrythyr; neu, *Ogoniant a Llwyddiant yr Efengyl.*

1 YNef a draetha'th Fawredd, Nêr,
A'th ddoeth-waith ſy' wel'd yn y ſer:
Ond pan edrychom yn dy Air,
Datguddiad gwell o honot caîr.

2 Yr haul, y lloer, a nos a dydd,
Yn goſod allan d'Allu ſydd:
Ond 'Sgrythyr Lân ' amlyga i ni
Dy Ras a'th bur Gyfiawnder di.

3 Haul, lloer, a ſer, ſy yn dy fawl
O gylch yr holl fyd yn ddi-dawl:
Ac felly'th Air, wrth ddechreu'i hynt,
Tywynnodd ar bob tiroedd gynt.

4 A'th 'Fengyl ni chaiff orphwys chwaith,
Nes rhedeg trwy'r holl ddaear faith:
A galw o *Grift* bob rhai o'r bron,
Sy'n gwel'd yr haul, neu'n teimlo hon.

5 Haul y Cyfiawnder, cyfod 'nawr;
Bendithia'r byd â'th Lewyrch mawr:
Dy 'Fengyl ' ddyd y ffol yn ddoeth;
Mae'th Farnau'n jawn, a'th Ddeddfau'n goeth.

6 Yn hon y gwelwn d'Wyrthiau gwiw,
Yn gwneud eneidiau meirw'n fyw:
Bywhâ fy enaid, maddeu'm drwg,
A mi â'th Air i'r nefoedd dwg.

SALM XX.

Gweddi a Gobaith o Fuddugoliaeth.

Ar Ddydd o Weddi yn amſer Rhyfel.

1 YN awr Duw'r Gras a'r Nerth o'r nef
Fo'n gwrando llef ei eiddo:
Clyw'r Arglwydd *Iſrael* pan fo gaeth,
Dwg waredigaeth iddo.

2 Enw Duw *Jago* wna well lles
Nâ muriau pres i'n cadw:
'Fe enfyn borth o'i ſanctaidd ſan
I *Seion*, pan fo'i'n galw.

3 Mae'n cofio'n holl och'neidiau draw;
Ei Ras s'uchlaw ein haeddiant:
'Fe dderbyn aberth drylliog fron,
A'r weddi 'fo'n ddiffuant.

4 Mae'n ffydd yn Jachawdwriaeth Duw;
Ac yn ei Enw'n ddiau:
Ein llu cânt godi baner hy,
A'n llongau ledu hwyliau.

5 Rhai yn eu meirch hyderu 'wnant;
Rhai 'boſtiant eu cerbydau:
Oddiwrth Dduw'r Lluoedd, yn ddi-wâd,
Mae'n holl ddiſgwyliad ninnau.

6 [O bydded cof o'th Enw cu
Yn gwneud ein llu yn lewion:
A'n holl elynion meirw cânt,
'Neu gilio wnant heb galon.]

7 Duw, cadw ni rhag ofnau caeth,
A boed ein gobaith nerthol:
Nes paro'th Jachawdwriaeth glau
In' lawenhâu, a'th ganmol.

SALM

SALM XXI. Meſur cyffredin.

Ein Brenhin yw Gofal y Nefoedd.

1 O Arglwydd! yn dy Nerth a'th Rin
Ein Brenhin llawenyched:
Ac am dy Jachawdwriaeth gref
Dy Fawl hyd nef dyrchafed.

2 Dy Nodded ſicir trwy holl gred
A roes ar led ei Fawredd:
A'i Waith llwyddiannus, dilys, da,
Coronwyd â Chlodforedd.

3 Am hyn diſgwylied wrth dy Borth,
A'th Gymmorth, bob amſerau:
Dy Nawdd a ddeil ei Orſedd lân,
Ac a gyflawna'n heiſiau.

4 Ond ei elynion cyndyn ffrom,
Dy Law yn drom daw arnyn';
A'th Fraich o ddial deil y rhai
Sydd yn casâu'i Orchymyn.

5 Pan lidiech yn eu herbyn hwy,
Dy Farn ofnadwy gyſion:
Fel tanlled ffwrn, a'u difa'n glau,
A'u gobaith gau ddich'mygion.

6 Fel hyn, Duw, dangos di dy Nerth,
A'th Glod yn brydferth dyrcha:
A Cherddi Mawl a ſeiniwn ni
I'th Enw di, 'r Gorucha'.

SALM XXII. Adn. 1—16.

Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Dioddefiadau a Marwolaeth Criſt.

1 "DUW pa'm y gad'odd f'enaid heb
"Un wên o'i Wyneb hoyw:"
(Hyn 'dd'wedodd *Daſydd* mewn ing triſt;
Hyn 'dd'wedodd *Criſt* wrth farw.)

2 Er bod dy hoffder pennaf di
Ym mhlith y rhieni'th folant:
Gwrandewi gŵyn cyſtuddiol rai,
A thrugarhai pan lefant.

3 Ein tadau ynot rhoent eu cred,
A mawr ymwared cawſant:
Ond mi, pryf dirmygedig wy'
Gan ddynion; hwy a'm ſathrant.

4 Gan yſgwyd pen, aent heibio ym',
A'm gwawdio'n llym eu dirmig:
D'we'yd, "*Ofer 'gredodd ef' yn NUW*;
"*Di-gariad yw, ac unig.*

5 Ond ti a'm ffurfiodd yn y bru
A'th Air a'th Allu hynod:
Ac er pan fum yn ſugno'r fron,
Fy ngobaith llon oedd ynod.

6 Dad, pa'm y cuddi d'Wyneb cu,
A'm cas o ddau-tu'n bentwr:
Mewn tywyll awr gyfynga' f'oes,
Y pryd nad oes gwaredwr?

Gorphwyſiad.

7 Wele, dy anwyl Fab ym myſg
Y beilch a'u terfyſg anfad:
Fel teirw *Baſan*, yw eu grym;
Fel llewod llym, eu rhuad.

8 O'r byd ac uffern y daw 'mlaau
'Nawr i amlhâu fy loeſon:
Hoelio fy Nhraed a'm Dwy-law 'wnaent;
Am flino 'maent fy nghalon.

9 Ond os gollyngi uffern a'i
Chynddaredd arna'i 'mddial:
Pa'm, nefol Dad, y drylli di
Y Mab a geri cyſtal?

10 Os poſibl yw, fy Arglwydd glân,
Tro'r chwerw gwppan heibio:

Ond

Ond etto gwneler d'Wyllys di;
Mi yfaf fi o hono.

11 'Fy Nghalon tawdd, gan faint yw'r loes;
'Rwyn treulio f'oes mewn poenau:
Dy bwyſig Law a'm dug i lawr
Mor iſel 'nawr ag angau.

12 I'th Law, O Dad, ar hyn o bryd,
'Rwy'n rhoddi f'yſpryd 'fynu:
Fy Nghnawd mewn gobaith trig, er hyn;
Caiff wrth d'Orchymyn godi.

SALM XXII. Adn. 20, 21, 27—31.

Yr ail Ran. Meſur cyffredin.

Dïoddefiadau a Theyrnas Criſt.

1 " *O Arglwydd! cadw'th Fab yn awr*
" *Rhag y llew mawr rhuadwy:*
" *N'âd fi fy hun ymdrechu â llu*
" *Holl uffern ddu ofnadwy.*

2 Fel hyn ymbiliai'n Prynwyr cu
A llefain cry' a dagrau:
Mewn dydd oedd flin Duw clybu'i Lef;
Gwaredodd ef rhag ofnau.

3 Yn angau gwnaeth Orfodaeth gref;
I Orſedd Nef aeth 'fynu:
A rhaid i holl dylwythau'r byd
Addoli 'gŷd, neu drengu.

4 Oddiwrth riddfannau'i Angau drud
Y cyfyd hil afrifed:
A hwy 'gyfrifir ger ei fron
Yn feibion ac yn ferched.

5 Eneidiau addfwyn, iſel, gwael,
Sy'n fawr am gael yr Arglwydd:
Cânt eu diwallu ar Fwrdd Duw,
A'u henaid fyw'n dragywydd.

6 Caiff yr ynyſoedd pell bob rhai
Adnabod ei Gyfiawnder:
Ac adde'i Jachawdwriaeth 'ſo
'Wna pobloedd etto 'aner.

SALM XXII. Meſur hir.

Dïoddefiadau a Dyrchafiad Criſt.

1 YN awr coffhâwn yn driſt ein cân
Am Ddioddefiadau'n Harglwydd glân:
Pan gwynodd ef' mewn deigr a gwa'd,
Fel un 'adawyd gan Dduw Dad.

2 *Judde-won*, pan oedd ar y pren,
Gwawdiaſant ef, gan yſgwyd pen:
" 'Fe gadwodd eraill rhag y bedd;
" Gwareded 'nawr ei hun un wedd.

3 " On'd hwn yw'r Dŷn fu'n d'we'yd, heb wad,
" Duw oedd ei Gyfaill ef, a'i Dad:
" Os carodd Duw efe mor fawr,
" Paham mae'n pallu'i helpu 'nawr?

4 Och, bobl flin! offeiriaid hyll!
Amgylchent ef mewn rheibus ddull:
Fel llewod am ei ddifa'n llym,
Pan gadd ei adael dan eu grym.

5 Clwyfent ei Ben, a'i Ddwylo, a'i Draed,
Nes c'wrdd â'i gilydd ffrydiau gwaed:
Wrth goelbren rhannwyd Dillad *Criſt*,
A gwawdiwyd poen ei Angau triſt.

6 Ond Duw y Tad a glybu'i Lef;
O'r bedd cyfododd; aeth i'r nef:
Dyſg pobloedd ei Gyfiawnder drud,
A'i Ras a brawf rhai iſel fryd.

SALM

SALM XXIII. Meſur hir.

Duw *ein Bugail.*

1 YR Arglwydd yw fy Mugail da;
Cyflawni fy holl eiſiau 'wna:
A'i Air a'i Ragluniaethau glân
Yn ddiogel ef' a'm dwg ym mla'n.

2 Mewn porfa jachus, ddilys, dda,
Ymborthi ac ymorphwys ca':
Yno mae'r Dyfroedd araf byw,
A'r Bwyd i gŷd dan Fendith Duw.

3 Od af o'i Ffyrdd, fel dafad ffol,
'Fe 'ddychwel f'enaid i yn ol:
Er mwyn ei Drugareddau'n wir
'Fe'm dŷd ar lwybrau'r union dîr.

4 Er rhodio trwy y dyffryn du,
Y lle mae angau a'i ofnau lu:
Ni phall fy nghalon i, na'm ffydd;
Can's Duw fy Mugail yno fydd.

5 Mewn trallod a thywyllwch du
Wyt Gyſur a Chynhaliwr cry':
Dy Ffon fy'n helpu 'nghamrau mân,
A'th Wialen a'm hyfforddia 'mla'n.

6 Mae plant y byd ac uffern gas
Yn grwgnach wel'd mor fwyn yw'th Ras:
Yn hilio 'mwrdd mor wych, a'i drin
A bywiol fara a ſiriol win.

7 [O fel 'rwyf finnau'n llawenhâu,
Pan ſo dy Yſpryd yn nesâu:
A'i naws yn diſgyn 'lawr o'r nen
Fel olew peraidd ar fy mhen!

8 Trugaredd a Daioni Duw
Sy'n gweini i'w bobl tra fon' byw:
Ym mhlith y rhai'n caf finnau fod,
Yn ceiſio'i Wyneb, canu ei Glod.]

SALM

SALM XXIII. Meſur cyffredin.

1 FY Mugail ſy niwallu 'wna;
JEHOFA yw ei Enw:
Mewn porfa fras ymborthi 'ca'
Ar lan dw'r ara', gloyw.

2 Pan fyddwy'n myn'd o'i Ffyrdd, fel ffol,
'Fe ddwg yn ol fy yſpryd:
Ac arwain fi o'i Nawdd, yn wir,
Yn llwybrau Tîr y Bywyd.

3 Pan rodiwyf gyſgod angau du,
Ti 'ddèli 'fynu 'ngobaith:
Un gair o'th Enau i'm cryfhâu,
A yrr fy ofnau ymaith.

4 A'th Law yngolwg fy holl gas
Fy mwrdd yn fras arlwyaiſt:
Rhoiſt imi gwppan llawn dros ben,
Ag olew 'mhen enneiniaiſt.

5 Boed Arlwyadau hael fy Nuw,
Tra fyddwy'i byw, i'm gweini:
A'th Dŷ yn Drigfan im' o hŷd;
A'm gwaith i gŷd, dy foli.

6 Am orphwys yno'n waſtad 'rwy',
(Nid un fo'n tramwy weithiau:)
Fel gweſtwr, neu fel dieithr-ddŷn;
Ond megis plentyn gartre'.

SALM XXIII. Meſur byr.

1 FY Mugail yw Duw'r Nef;
Fe edrych ef' am danaf:
Fy eiddo yw, a'i eiddo wyf;
Pa eiſiau mwy fydd arnaf?

2 'Fe'm dwg i'r lleoedd da,
Lle tyf y Borfa nefol:
Lle lliſa Jachawdwriaeth lawn,
A'r Dyfroedd rhadlawn bywiol.

3 Os

3 Os crwydraf yn ddi-baid,
Yn ol fy enaid geilw:
Ac arwain fi yn llwybrau'r praidd,
Er mwyn ei ſanctaidd Enw.

4 Tra rhoddo'i Gymmorth im',
Nid allaf ddim arſwydo:
Er myn'd trwy gyſgod angau, ca'
Fy Mugail gyd â mi yno.

5 Er gwaetha' fy holl gas,
Fy mwrdd yn fras goſodaiſt:
O'th Fendith llawn yw'm ffiol hon,
A'm pen yn llon dyrchefaiſt.

6 Haelioni'th Gariad di
A gaiff coroni 'nyddiau:
O fewn dy Dŷ y cleimiaf hawl,
A chana' i'th Fawl a'th Wyrthiau.

SALM XXIV. Meſur cyffredin.

Trigo gyd â Duw.

1 YDdaear eiddo'r Arglwydd yw,
Hil *Adda* pob rhyw bobloedd:
'Fe a'i ſeilfeinodd ar y lli';
Sicrhaodd hi ar foroedd.

2 Ond pwy 'mhlith dynol blant a wêl
Le tawel dy Sanctеiddrwydd:
Un â llaw lân, a chalon bur
Fo'n gywir gyd â'r Arglwydd.

3 Hwn yw y dŷn a gaiff yn llon
Fendithion ei Ras eſo:
A hyn yn wir fydd rhan y neb
A gais Wyneb Duw *Jago*.

4 Darperwn ein heneidiau'n rhwydd
I g'wrdd â'r Arglwydd neſol:
Brenhin Gogoniant ſy'n nesâu,
Dyrchefwch ddryſau bythol.

5 Brenhin

5 Brenhin Gogoniant, pwy a dd'wed
Ei Nerth ar led, a'i Wyrthiau:
Mae'n llywio'r byd; ond hoffi mae
Breſwylio gyd â'i Seintiau.

SALM XXIV. Meſur hir.

Y Saint a drigant yn y Nefoedd; neu, *Eſgyniad* Criſt.

1 Y Ddaear faith ſydd eiddo Duw,
A phob creadur s'arni'n byw:
Seilfaenodd hon ar for a lli';
Yn drigfan iddynt rhoddodd hi.

2 Ond y mae Byd mwy diſglair ſry,
Uwch wybren dy Frenhinllys ſy:
Pwy 'eſgyn, Arglwydd, yno i fyw,
A bod yn agos at ei Duw?

3 Yr hwn ſy'n ofni pechu'n wir,
A'i ddwylaw'n lân, a chalon bur:
Hwn a fendithia *Criſt* ein Duw,
A gwiſg ef â Chyfiawnder gwiw.

4 Y rhai'n yw'r dynion raſol ryw;
Fel *Jacob*, ceiſiant Wyneb Duw:
Yr olwg hyfryd a fwynhânt,
A thrigo 'ngwlad goleuni cânt.

Gorphwyſiad.

5 Chwi fydoedd diſglair, llawenhêwch;
Gwel'd Brenhin y Gogoniant cewch:
Brenhin Gogoniant, pwy yw ef?
Jôr cadarn yw, Mab Duw o'r nef.

6 Chwi, nefol Byrth, yn glau datglowch;
Ffordd rŷdd i'n Harglwydd Geidwad rhowch:
O'r byd ac uffern llwythog yw
O 'ſpail, yn myn'd adre' at Duw.

7 Cyfododd,

7 Cyfododd, myn'd mae 'fo 'mlaen-llaw,
I agor drws y nefoedd draw:
I roi i'w Saint drigfannau gwiw
Yn agos atto'i hun a'u Duw.

SALM XXV. Adn. 1—11. Y Rhan gyntaf.

Diſgwyl am Bardwn a Chyfarwyddyd.

1 DYrchaſaf f'enaid at ſy Nuw;
Fy ngobaith yw'n yr Arglwydd:
Na chaffed y gelynion mau
Byth lawenhâu'n fy ngw'radwydd.

2 Pechod a lluoedd uffern ddu
Sy'n annog i anobaith:
Duw, dyſg i mi'th Gyſammod clau,
I ffoi o'u maglau ymaith.

3 O ddechreu'r dydd yn fore jawn,
Hyd hwyr brydnawn, Duw tirion:
Diſgwylia'th Jachawdwriaeth dda,
A Golwg dra hiraethlon.

4 Duw, dy Drugaredd cofia di,
Ac arwain fi i'th Wirionedd:
Maddeu bechodau'm je'ngctid ffol,
A'm holl ganlynol gamwedd.

5 Yr Arglwydd cyfion yw a mwyn;
'Fe 'ddyſg yr addfwyn llariaidd:
Ac i'r pechadur iſel gwâr
Fe eglurhâ'r Gwirionedd.

6 Er mwyn ei Enw mawr ei Fri
'Fe'm gwared i rhag gw'radwydd:
Mae'n maddeu'm holl euogrwydd triſt,
Ar gyfri' *Criſt* ſy Arglwydd.

SALM

SALM XXV. Adn. 12, 14, 10, 13. Yr ail Ran.

Addyſg dwyfol.

1 PA le mae'r dŷn a gair yn byw
A ofna Duw a'i Wialen:
Sy'n hoffi llais ei 'Fengyl lon,
Gan wrando hon yn llawen?

2 Cyfrinach Calon Duw ei hun
Y cyfryw un caiff wybod:
A llawn amlygiad yn ddi-lai
O'i Gariaid a'i Gyfammod.

3 Trugaredd a Gwirionedd yw
Y ffyrdd mae Duw yn ymdrin:
A'r ſawl wrth ei Gyfammod 'ſai',
Gan ufuddhâu'i Orchymyn.

4 Eu henaid a gaiff ddedwydd fyw
Ger bron eu Duw'n drag'wyddol:
A'r Addewidion helaeth rhad
A brawf eu had canlynol.

SALM XXV. Adn. 15—22. Y drydedd Ran.

Cyfyngder Enaid; neu, *Wrthgiliad ac Ymadawiad.*

1 MAE'm llygaid a'm dymuniad rhwydd
Byth at yr Arglwydd tirion:
Ymorphwys ar ei Air y wna,
A phledio'i Addewidion.

2 Tro at fy enaid i mewn pryd;
Dwg imi'th Jechyd nefol:
Pa bryd y bydd i'th Law ryddhâu
Fy nhraed o'r rhwydau marwol?

3 Pa bryd y bydd i'm graſol Jôn
A'i Ras ſy union dywys:
A dwyn ſy enaid yn ei ol
O'r llwybrau ffol peryglus ſ

4 O'm mewn mae blin ſeddyliau'n gwau,
Ac yn amlhâu fy ngofyd:
Fy enaid gwan a'm calon, gwel,
Sy'n iſel ac yn nychlyd.

5 Fy ngofid i bob bore-ddydd
O newydd ſydd yn dechreu:
Duw, gwel fy mhoen a'm cyſyng ſyd,
A maddeu 'gŷd fy meiau.

Gorphwyſiad.

6 Wele, fod llu'r uffernol ffau
Yn fy nghasâu mor greulon:
Mewn llid a dichell 'maent ynghŷd
Am ddwyn fy mywyd gwirion.

7 Rhag angau cadw f'enaid i;
Ni oſod di fi'n w'radwydd:
Can's mi a ddodais fy holl gred
A'm nodedd yn yr Arglwydd.

8 Mewn ffydd diſgwyliaf fi (er neb)
Am wel'd dy Wyneb tyner:
Ni chaiff un dŷn o *Iſrael* ryw
Byth geiſio Duw yn ofer.

SALM XXVI.

Hunan-ymholiad; neu, *Broſiadau o Ras.*

1 BARN fi, O Duw! a phrawf beth wy';
F'arennau a'm calon, chwilia hwy:
Mae'm ffydd ar dy Addewid faith,
A'th Gyfraith ni 'madawais chwaith.

2 Cas gennyf fyn'd, neu eiſte' 'mhlith
Gwŷr gwagedd a chelwyddau chwith:

Y gwawdiwr a'r proffeſwr gau
Y mae ſy llygaid yn gasâu.

3 Ym mhlith dy Saint ymddangos 'wnaf,
Mewn diniweidrwydd ymlanhâf:
Ond pan ſwyf wrth dy Frawdle di,
Gwaed *Criſt* fydd fy Ymddiffyn i.

4 'Rwy'n hoffi'th Drigfan di, O Dduw!
Dy Dŷ, lle trig d'Ogoniant gwiw:
Can's yno gwrando'th Air a gaf,
A thraethu'th ryfedd Waith a wnaf.

5 Pan drengwyf, na ddod f'enaid dryd
Gyd â gwŷr gwaedlyd drwg eu bryd:
Gan imi ar y ddaear fyw
Yn mhlith dy Saint, ger llaw ſy Nuw.

SALM XXVII. Adn. 1—6.

Y Rhan gyntaf.

Yr Eglwys yw ein Hyfrydwch a'n Diogelwch.

1 YR Arglwydd yw 'Ngoleuni maith,
A'm Jachawdwriaeth dirion:
Duw yw ſy Nerth; nid ofnaf mwy
Beth y wnant hwy 'ngelynion.

2 Un fraint a gais ſy nghalon i;
O dyro di im' drigfan:
Ym mhlith Eglwyſi'th Seintiau byw,
Sef Temlau Duw ei hunan!

3 Caf yno roi ſy arch o'th fla'n,
A gwel'd dy lân Olygiad:
A chlywed traethu'th 'Wyllys di,
A chennadwri'th Gariad.

4 Pan godo ſtormydd, trâ, neu dres,
Mae yno loches ddirgel:
Lle geſyd Duw ei blant ynghûdd,
A'm henaid fydd yn ddiogel.

5 Yn

5 Yn awr y dyrcha ' mhen i'n llon
Uch-law ' ngelynion drygwedd:
A minnau o fewn ei Deml lân
A ſeiniaf gân o 'rſoledd.

SALM XXVII. Adn. 8, 9, 13, 14.

Yr ail Ran.

Gweddi a Gobaith.

1 YN ſuan, Dad, pan dd'wedech di,
" *Blant, ceiſiwch chwi fy Wyneb:*"
" *Dy Wyneb ceiſiaf, Arglwydd cu,*"
Fy nghalon ſy'n dy atteb.

2 Na chudd dy Wyneb, Arglwydd da,
A'm henaid na fwr ymaith:
Duw 'mywyd wyt; ac attad doſ
Mewn dydd o broſedigaeth.

3 Pe'm ffryns a'm ceraint agos cu
A'm gade'i drengu o eiſiau:
Fe feddwl Duw am danaf ſi,
Gan lwyr gyflawni'm rheidiau.

4 Trengaſai ' nghnawd gan driſtwch, gwn,
Pe ni chredaſwn weled:
Dy Ras yn darper modd im' fyw;
A'm gobaith gwiw ni thwylled.

5 Chwi, Saint, ymrôwch; na fyddwch ſwrth,
Diſgwyliwch wrth Dduw'n waſtad:
Pan leuſo'ch yſpryd, 'ſe'i cryfhâ
Yn amgen nâ'ch diſgwyliad.

SALM XXIX.

Tymmeſtl a Tharanau.

1 CHWI, blant y cedyrn clodfawr, dowch,
I'r Arglwydd rhowch Ogoniant:
Dyrchefwch Allu Brenhin Nef,
Ei Enw ef biau'r Moliant.

2 Ei Nerth yn uchel traetha'n Jôr
Dros dîr a môr yn gyfan:
Ei Lais a ran y cwmmwl glaw;
Ac yna daw mellt allan.

3 Ei Lais yrr tymheſtl, cenllyſg, gwynt;
Y coed ar hynt dinoethant:
Y jwrch a'r ewig ofnus draw,
Gan ſwn a braw, a lammant.

4 Yn *Liban'* wrth ei Lais, Duw mawr,
Y cedrwydd dirfawr drylliant:
Mynyddoedd crynant wrth y trwſt;
Dyffrynau ar ffrwſt a ruant.

5 Yr Arglwydd byth yn Frenhin ſydd,
A Llywydd ar lifeiriant:
Ond yn ei Eglwys trig e'n wir,
Lle traethir ei Ogoniant.

6 Duw yno, mewn tawelach jaith,
A draetha'i faith Gynghorion:
Ynghanol ſtorm ei Air y ſy'n
D'we'yd heddwch cry' i'r cyſion.

SALM XXX. Y Rhan gyntaf.

Jachâu Clefyd, a ſymmud Triſtwch.

1 DYrchafaf di, fy Arglwydd cu;
Wrth d'arch, pob math o haint a ffy:
Pwy ond Duw ' geidw mewn un wedd
Y dŷn a fo ar fin ei fêdd?

2 Cenwch i'r Jôn, ei Seintiau ' gŷd,
Gan dd'we'yd ei fawr Ddaioni i'r byd:
Bendithiwch Duw yn llon eich llef,
Wrth goffa ei Sancteiddrwydd ef.

3 Ni ſaif ei Ddig ond ennyd frau;
Ei Hedd ſydd fywyd i barhâu:
Er treulio'r nos mewn triſtwch prûdd,
Llawenydd ' ddwg y Seren Ddydd.

SALM

SALM XXX. Adn. 6. Yr ail Ran.

Jechyd, Clefyd, a Gwellhâd.

1 FY niſglair ddydd, tra bu'n parhâu,
Yn nos meddyliais byth nid ai:
Mi dd'wedais yn fy nghalon ſyth,
" *Ni 'medu hedd na hawddfyd byth.*

2 Ond aeth o'm cof dy gref Fraich di,
A ddaliodd cy'd fy mynydd i:
Can's fel y cuddiaiſt d'Wyneb-pryd,
Jechyd a chyfur ' ddarfu ' gŷd.

3 Yn uchel gelwais, fy Nuw mad,
" Pa fudd a gai oddiwrth fy ngwa'd:
" 'Lawr yn y llwch a draethaf fi
" Dy Wir, a'th fawr Ddaioni di?

4 Mi ' dd'wedais, " Clyw, O Dduw y Gras!
" A dwg fi o blith y meirw 'ma's:"
Dy Air ceryddodd fy holl gûr,
A'th Gariad dug im' gyſur pur.

5 Fy nagrau blin, a'm cwyn o'r bla'n,
Trow'd hwy'n orfoledd ac yn gân:
Mi ' deflais fy ſachlïain ' lawr;
Ce's wregys o lawenydd mawr.

6 Fy nhafod, fy ngogoniant i,
Ni thaw ef' byth am d'Enw di:
'Fe ſeinia 'th Glod trwy'r ddae'r a'r nef,
Am fy ngwellhâu, a gwrando'm llef.

SALM XXXI. 5, 13—19, 22, 23.

Y Rhan gyntaf.

Gwaredigaeth oddi wrth Angau.

1 O Dduw'r Gwirionedd! i'th Law di
Y rhoddaf fi fy yſbryd:
Gwaredaiſt f'enaid i yn lew
Rhag trangc, a'r pydew enbyd.

2 Fy ngobaith i a'm hofn a fu
Yn dal i fynu 'mryſon:
A phechod, triſtwch, poen ynghŷd,
Am ddwyn fy mywyd gwirion.

3 Llefais, "*Fy amſer ſy'n dy Law,*
"*Er bod ger llaw i'r beddrod:*
Y Noddfa wyt lle 'mguddio ' wnaf,
A'm Duw, gobeithiaf ynod.

4 Llewyrcha'th Wyneb, llawn o Ras,
'Nawr ar dy was cyſtuddiol:
Er mwyn dy Fab, jachâ fy nghlwyf;
Can's d'eiddo wyf yn hollol.

Gorphwyſiad.

5 [Fy enaid d'wedodd, yn ei ffrwſt,
"*Rhaid marw'n nrws di-obaith:*
"*Fe'm torrwyd i a'm bywyd llon*
"*O ger dy Fron di ymaith.*]

6 Ond ti'm gwrandewaiſt i, O Dduw!
Rhyfeddol yw'th Ras tirion:
I'r rhai ſy'n ofni 'th Fawredd di,
A chredu i'th Addewidion.

7 O cerwch Duw, ei Saint (heb gel)
A'i Fawl yn uchel eenwch:
'Fe wrendy eich achwynion chwi;
A'r beilch, cânt ddi-yſtyrwch.

SALM XXXI. Adn. 7—13, 18—21.

Yr ail Ran.

Ymwared oddi wrth Enllib a Gwaradwydd.

1 YN d'Enw di y llawenhâf,
Fy Nuw, fy Naf, fy 'Mddiried:
Cedwaiſt fy wyneb rhag gwarth trwch,
A'm parch i'r llwch ni ſathred.

2 Mewn blinder d'wedais, " Treuliais f'oes
" Am heinioes mewn galar-fyd:
" Fy nerth a ball, a'm llygaid ' ſych,
" A'm cnawd a nych gan ofyd.

3 Ym mhlith fy holl elynion hy
Fy enw ' ſu'n ddïareb:
Fy nghymmydogion a bellhaent,
Ac a gaſaent fy wyneb.

4 'Roedd ofn ac enllib o bob tu
Wedi f'amgylchu'n galed:
At Orſedd Gras bu im' neſâu;
A chefais glau ymwared.

Gorphwyſiad.

5 Pa Waredigaeth fawr oedd hon,
O flaen plant dynion gwnaethoſt:
Weſuſau'r celwydd dewi'n gaeth,
A diffrwyth aeth eu hymffroſt.

6 Rhag ſen tafodau cuddi'th blant;
Hwy ' giliant i'th Ddirgelfa:
Rhag cam a drygair cedwi'u bri,
A drylli feibion traha.

7 O ſewn dirgelfa d'Wyneb di,
Duw, gâd i mi byth drigo:
Dy Saint yn well a geidw hi
Nâ dinas wedi murio.

SALM XXXII. Meſur cyffredin.

Pardwn rhad, ac Ufudd-dod di-ragrith; neu, *Gyffes a Maddeuant.*

1 YR enaid hwnnw dedwydd yw
Na chyfrif Duw mo'i bechod:
Ond golchi ' wiſgoedd ef a wnaed
Yn ſanctaidd Waed y Cymmod.

2 A dedwydd jawn, tu hwnt i neb,
Yw'r enaid heb euogrwydd:

A wnaed

A wnaed yn rhŷdd o'i ddyled mawr;
Mae'n teimlo 'nawr helaethrwydd.
3 Mae'i enaid e'n casâu pob twyll,
A'i eiriau'n ddidwyll hynod:
Ar ei holl ffyrdd mae'n gwilio'n wir
I gadw pur gydwybod.
4 Tra celais i ſ'euogrwydd gwael,
Nid allais gael dim llonydd:
Dy Lid a loſgai yn fy mron,
Nes gwaſgu hon dan gyſtudd.
5 Yna addefais yn ddi-ddig
Fy holl guddiedig bechod:
Dy Ras maddeuodd im' fy mai,
A ſelio 'wnai fy nghymmod.
6 Pair hyn i'th Saint weddïo'n ſiwr;
Pan megis llif-ddŵr cyfyd:
Profedigaethau o bob rhyw,
Ein Craig yw Duw, ſe'n gweryd.

SALM XXXIII. Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Gweithredoedd Creadigaeth a Rhaglunïaeth.

1 CHWI'r cyfion, llawenhêwch yn Nuw;
Perthynol yw iwch' ganu:
Mor ſanctaidd yw holl Ffyrdd yr Jôn!
A'i Air, mor ffyddlon ydy'!
2 Ei Jawnder a'i Drugaredd ef
Cyhoeddêd nef a daear:
Gwaith Gras a Natur, traethent hw'
Ei ryfedd Enw hawddgar.
3 Trwy'i Air a'i fawr Ddoethineb ef
Colofnau'r nef 'oſodwyd:
A thrwy Lân Yſpryd ein Duw fry
Eu diſglair lu a wnaethpwyd.

4 Parodd

4 Parodd i'r dyfroedd trwy'r holl fyd
Ymgaſglu 'nghŷd i'r dyfnder:
A'r môr ei derfyn edwyn e',
A cheidw'i le bob amſer.

5 Trigolion yr holl ddaear gron
Bawb ger ei fron a ofnant:
'Fe wnaeth bob peth â'i Air ei hun;
Wrth ei Orchymyn ſafant.

6 Mae 'fo'n diddymmu llid a grym,
Ac amcan llym, y bobloedd:
Ei Gyngor ' ſaif, o'i hanfodd hwy,
Yn ddiſglair trwy bob oeſoedd.

SALM XXXIII. Yr ail Ran.

Meſur cyffredin.

Creaduriaid yn wag, a Duw *yn Holl-ddigonol.*

1 GWYN fyd y genedl lle mae'r Jôn
A'i Orſedd dirion raſol:
Lle mae'n datguddio'i nefol Air,
A'r bobl a wnair yn dduwiol.

2 Ei Lygad craffus ef o hŷd
Y cyfan fyd 'fe'i cenfydd:
'Fe'n ffurfiodd o'r un clai bob rhyw;
Gŵyr wanned yw ein defnydd.

3 Brenhinoedd ni waredir trwy
Rym eu llu hwy rhag angau:
Nid cryfder na chyflymdra march
All gadw'r marchog yntau.

4 Ofer in' ddiſgwyl trwy ddyn gwael,
Neu 'nifail, gael ymwared:
Ond dynion ſanctaidd cânt, heb gel,
Gan Dduw ddïogel nodded.

5 Duw

5 Duw yw eu hofn, a'u gobaith da,
Yn amſer pla a newyn:
Ym mhlith deng mil o feirwon rai
Mae 'ſo'n ſicrhâu'r credadyn.

6 Ein calon ynot llawenhaed,
Ac ini daed dy Nodded:
Can's credu'th Air, O Dduw! 'rŷm ni,
Ac ynot ti'n ymddiried.

SALM XXXIV. Adn. 1—10.

Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Gweddi a Mawl am Waredigaeth odidog.

1 BEndithiaf Dduw o ddydd i ddydd,
Ei holl ffyrdd ſydd ragorol:
Eneidiau goſtyngedig, chwi
De'wch, helpiwch fi i'w ganmol.

2 Cenwch er Clod i'w Enw glân,
Fel darfu'r truan waeddi:
Ni throw'd yn warth mo'i obaith gwiw;
Ni lyſodd Duw mo'i weddi.

3 Pan oedd gofidiau megis llu,
Ac ofnau bob tu'n bentwr:
Yn bygwth arnaf fi gyd gau
Fel uchel donnau llif-ddw'r;

4 D'wedais wrth Dduw fy ing trwy ffydd,
Mewn griddfan prûdd a dagrau:
'Fe eſmwythaodd fy nghyſtudd llym,
Goſtegodd rym fy ofnau.

Gorphwyſiad.

5 [De'wch, bechaduriaid o bob rhyw,
Ffyrdd hyfryd Duw addyſgwch:
Gadêwch i'ch profiad wybod blas
Ei felus Ras a'i Heddwch.

6 Angylion Duw caſtellu 'wnant
O gylch ei blant a'u trigias:

Pa dafod dŷn all draethu faint
O ddrygau maent yn luddias ?]

7 [O cerwch Dduw, ei Seintiau gwâr,
Am dan ei Garedigrwydd :
O mor gyfoethog yw eu rhan
A gredan' yn yr Arglwydd !

8 Gan newyn llewod ifaingc ſy
Yn trengu yn y goedwig :
Ond Duw diwallu'i blant y wna
A phob peth da fo'n ddiffig.]

SALM XXXIV. Adn. 11—22.

Yr ail Ran. Meſur cyffredin.

Annogaethau i Heddwch a Sancteiddrwydd.

1 DE'wch, blant, a dyſgwch ofni'r Jôn,
Os mynnwch hirion ddyddiau :
Rhag traethu twyll a drygair trwch
Byth cedwch eich tafodau.

2 Gadêwch y drwg, arferwch dda ;
Ymgeiſiwch â gwaith heddwch :
A'ch ffyrdd fydd hoff gan Dduw o hŷd,
I'ch enaid dŷd ddiddanwch.

3 Ei Lygad ' wylia'r cyfion cu,
A'i Gluſt a wrendu arnynt :
Yſprydoedd drylliog ſy'n y llwch
Mae'n agos (credwch) attynt.

4 Er iddynt brofi ar eu taith
Ofidiau maith a llymion :
Duw, 'r hwn a'i gwared bawb ryw ddydd,
I'w cynnal bydd yr awron.

5 Drygioni lladd dŷn drwg y wna,
Ond Duw ' ſicrhâ ei eiddo :
Os llithrant, 'ſe jachâ yn chwyrn
Eu drylliog eſgyrn etto.

6 Pan fyddo diſtryw, fel llif cron,
Yn boddi'r beilchion hwythau:
Y Saint yn Nuw cânt noddfa gref;
Cân's prynodd ef' eu 'neidiau.

SALM XXXV. 1—9. Y Rhan gyntaf.

Gweddi a Ffydd y Saint erlidiedig; neu, *Regau yn gymmyſgedig â Chariad.*

1 DUW, dadleu f'achos i o'r nen
A phlant y gynnen enbyd:
Ymladd â'r gwaedlyd wŷr an-fwyn
Sy'n chwennych dwyn fy mywyd.

2 I'w hattal tyn dy Wayw-ffon,
A'th Wialen ddigllon hefyd:
A dywed wrth fy enaid byw,
" *Myfi yw'r DUW a'th weryd.*

3 Plannaſant faglau 'ddal fy nhread,
A rhwydau gwnaed i'm d'ryſu:
Trocha'r dinyſtrwyr yn y ffos
A wnaent heb achos ymy.

4 Boed niwl a th'w'llwch o'u blaen hwy;
Llithradwy fo'u cerddediad:
Dy Lid a'u hyſglyfaetha'n llym,
Diddymmi rym eu bwriad.

5 Fel us o flaen y gwynt yr ânt
O flaen dy Sorriant enbyd:
O'u hol bydd Angel y Duw Mawr,
I angau 'lawr fe'u hymlid.

6 Ffordd uffern hoff yw ganthynt hw';
Cânt farw yn eu pechod:
Y rhai ſy'n dal cynſigen dyn
Yn erbyn y Duw uchod.

7 Ond os dewiſaiſt di, O Dduw!
Rai 'mlith y rhyw annuwiol:
Tyn hwy o fyſg gwŷr gwaedlyd câs
A'th ryfedd Ras neilldduol.

8 Yna

8 Yna dyrchafa' i'm llais yn llon
I draethu'th fawrion Wyrthiau:
Yn eu hachubiaeth llawenhâf;
Dïolchaf am f'un innau.

SALM XXXV. Adn. 12, 13, 14. Yr ail Ran.

Cariad i Elynion; neu, *Gariad* CRIST *i Bechaduriaid yn cael ei gyſgodi yn* Nafydd.

1 WELE'r fath gariad hael a rhŷdd
A ddengys *Dafydd* dduwiol:
Cyffroe'i 'myſgaroedd ef trwy ras
Tu ag at ei gas cyſtuddiol.

2 Pan faent yn glaf, ei enaid 'fo
Oedd fel yn teimlo'u blinder:
'Roedd yſpryd mwyn y 'Fengyl lon
Yn toddi 'galon dyner.

3 Galaru 'wnai, mewn agwedd dlawd,
Fel un am frawd a gleddyd:
Cyſtuddiai 'enaid ddydd a nos,
Wrth ymbil dros eu bywyd.

4 Melldithient ef ar eu gwel'au,
Ac etto mae'n eirioli:
Bendithion dyblig ar ei ben
Mae Duw o'r nen yn roddi.

5 O rhyfedd Dŷp o nefol Râd!
Gwnaeth *Criſt* ein Ceidwad felly:
Pan regent ef, gweddïai'n glos
Mewn dagrau dros y rhei'ny.

6 Gwir *Ddafydd* Brenhin *Iſrael* yw,
Anwylyd Duw o'r nefo'dd:
I ni elynion gael rhyddhâd,
Ei werthfawr Wa'd a dalodd.

SALM XXXVI. Adn. 5—9. Meſur hir.

Perffeithrwydd a Rhagluniaeth Duw; neu, *Ragluniaeth gyffredinol a Gras neillduol.*

1 YN uchel yn y nefoedd fry,
Duw, mae'th Ddaioni'n ddiſglair jawn:
Dy Wir tyr trwy bob cwmmwl du
Sy'n t'w'llu dy Amcanion llawn.

2 Byth ſicir ſaif d'Uniondeb di
Fel bryniau ar ſeilfeini'r llawr:
Holl Waith dy Ddwylaw ſydd yn ddoeth,
A'th Farnau coeth ſydd ddyfnder mawr.

3 Mwyn yw'th Ragluniaeth di, a hael;
Dŷn ac anifail, cedwi hwy:
Yr holl-fyd dan dy Ofal maent;
Ond am dy Saint gofeli'n ſwy.

4 Mor werthfawr yw dy Ras, O Dduw!
Ein gobaith yw a'n cyſur ni:
Plant *Addaf* ' ffy mewn cyſyng fyd
Dan gyſgod clŷd d'Adanedd di.

5 O arlwyadau dy Dŷ llawn
Ein porthi ' cawn â melus wledd:
Trugaredd rhed fel afon faith,
Dwg Jachawdwriaeth in' a hedd.

6 Bywyd, ſel ffynnon loyw rwydd,
A dardd o Wydd ein Harglwydd ni;
Ac yn d'Oleuni gwel'd a wnawn
Y Gwynfyd llawn ' addewaiſt di.

SALM

SALM XXXVI. Adn. 1,2,5,6,7,9.
Meſur cyffredin.

Didduwiaeth ymarferol a oſodir allan; neu, *Ddrygioni Dŷn, a Mawredd* Duw.

1 PAN welwyf ddyn yn pechu'n hy,
Fy nghalon i a ddywaid:
" Ni fedd ef' gred o Dduw'n ei fron,
" Nac ofn ger bron ei lygaid.

2 [Efe a rodia'n ddirgel dro
Gwenhieithio iddo'i hunan:
Hyd nes datguddier ei holl ddrwg
I'r byd yn amlwg allan.]

3 Ei gàlon front ſy'n llawn o freg,
A'i eiriau'n dêg twyllodrus:
Doethineb yrrwyd ' ffwrdd o'i fron;
Dim da yn hon nid erys.

4 Anwiredd newydd, neu ryw fâr,
A lunia ar ei wely:
Ei law, a'i ben, a'i gàlon, dŷd
I wneuthud pob drygioni.

5 Ond Duw ofnadwy ſydd heb lai,
Er nad yw rhai'n ei ofni:
Mae ei Gyfiawnder etto 'nghudd;
Daw ryw-ddydd i oleuni.

6 Uwch wybren mae'i Wirionedd ef,
Ac yn y nef mae'i Fwynder:
Fel dwfn-for yw ei Feirn i'n myſg,
Hyd uffern llyſg ei Ddigder.

7 Mor werthfawr yw ei Gariad ef!
Mae'n noddfa gref i'r cyfion:
Na ſyfied byth mo'm henaid prudd
O dan ei 'Denydd tirion!

SALM XXXVII. Adn. 1—15.

Y Rhan gyntaf.

Gwobrwyon y Cyfion a'r Drygionus; neu, *Gafineb y Byd, ac Amynedd y Saint.*

1 PAham y blinaf f'enaid gwan,
Trwy ddig ac anfoddloni:
Wrth weled dynion drwg trahâus
Trwy gam a thrais yn codi?

2 Fel gwellt a dorrer ganol dydd,
Cyn hwyr y fydd yn gwywo:
Diflanna'u mawredd hwy'r un ddull
Mewn cyfgod tywyll etto.

3 Am hynny boed im' gredu 'n Nuw,
A gwneud pob rhyw ddaioni:
Caf drigo 'mhlith y cyfion gwâr;
'Fe ddarpar ymborth imi.

4 Mi dreigla'm ffyrdd ar Dduw yn llon,
Gan ddifgwyl wrtho'n waflad:
Dy Law, 'r hon fy'n fy fforddi'n dda,
A gwplâ fy neifyfiad.

5 Fy niniweidrwydd eglurhaf,
A'th Farn a wnai yn hyfpys;
Mor dêg a goleu'r wawr y bydd,
Fel hanner dydd 'ymddengys.

6 Yr addfwyn a feddianna'r tir,
A'r nef yn wir 'mhen 'chydig:
Gwir olud rhoir, a heddwch llawn,
I'r cyfiawn goftyngedig.

Gorphwyf.

Gorphwyſiad.

7 Saf, cadw Pfordd yr Arglwydd da,
Ac nac ymddigia, Griſtion:
Er i Ragluniaeth oedi'n hir
I goſpi anwir ddynion.

8 Gâd ' bechaduriaid dorri'th hedd,
A noethi dannedd arnad:
Yr Arglwydd yn eu gwatwar ſydd;
Mae'u dïal ddydd yn dwad.

9 Tynnaſant hwy eu cleddyf llym,
A'u bwa cyflym annel:
I ladd y dŷn ſy'n ofni Duw,
I ddodi'r cyfryw'n iſel.

10 Fy Nuw a dyr eu bwau ' gŷd;
'Fe ' lyſg eu hymlid ſaethau:
A'u cleddyf try i'w herbyn hwy,
A braw a leinw'u bronnau.

SALM XXXVII. 16, 21, 26—31.

Yr ail Ran.

Cariad i'r Tlawd; neu, *Grefydd mewn Geiriau a Gweithredoedd.*

1 PA'M mae'r goludog mawr ei drâ
Yn boſtio'i ddâ mor eon:
Gwell yw rhan waela'r cyfion gwan
Nag aur yr annuwiolion.

2 Y drygddyn a fenthyccia'n hy,
Heb feddwl talu eilwaith:
Trugarog yw y cyfion, rhy';
Y tlawd ni thry ef' ymaith.

3 A chalon rwydd eluſen rhydd
I'r rhei'ny ſydd mewn diffig:
Coffhâir ef byth, er cuddio'i ben,
A'i had ſydd fendigedig.

4 Cas gantho ſiarad un ſerth air,
A thwyll, a drygair, un-modd:
Ei dafod traetha i ddynol-ryw
Pa beth gan Dduw y ddyſgodd.

5 Mae Cyfraith Duw, a'i 'Fengyl lon,
O fewn ei galon eſo:
Trwy d'wyſiad Yſpryd Duw, a'i Air,
Ei ddal a wnair rhag llithro.

6 Pan ſyrthio dynion drwg trwy chwant,
Y cyfion cânt eu cadw:
Cânt feddu'r tir a 'ddawodd Duw,
A bythol fyw yn hwnnw.

SALM XXXVII. Adn. 23—37.
Y drydedd Ran.

Ffordd a Diwedd y Cyfiawn a'r Drygionus.

1 MAE Duw yn hoffi dynion da;
Eſe a drefna'u rhodiad:
Er iddynt gwympo, codi 'wnan';
Mae'i Law i'w dala'n waſtad.

2 Eu ffyrdd hwy ſydd yn ei foddhâu;
Eu rhinwedd mae 'fo'n broſi:
Ni thyn mo'i Ras byth oddiwrth un;
Ni ad y dŷn mae'n hoffi.

3 Eu hetifeddiaeth hwy yw'r nef,
A'u rhan a'u cartref bythol:
Eu porthi a'u cynhwyſo cânt
I'r pur Ogoniant nefol.

4 Wrth

4 Wrth Dduw diſgwyliwch, blant i gŷd;
Nac ofnwch lid gwŷr trawſion:
Cewch wel'd mor wag fu ' balchder mawr,
Pan dafler ' lawr i'r eigion.

Gorphwyſiad.

5 Y drygddyn gwelais ef yn byw
Heb ofni Duw na dynion:
Fel lawryf gwyrdd yn ymdeghâu,
Gan dannu'i freichiau mawrion.

6 Ond 'fe ' ddiflannodd ' ffwrdd o'r tir;
A llaw na's gwelir torrwyd:
A lle bu'r balchder mawr di-ſail,
Gwrâidd, brig, na dail, ni ad'wyd.

7 Ond gwelwch ffordd y cyfion call,
A'i gamrau diwall union:
Diddanwch trwy'i holl ffyrdd y ſydd,
A'i ddiwedd fydd heddychlon.

SALM XXXVIII.

Euogrwydd Cydwybod, ac Eſmwythâd; neu, *Weddi am Bardwn a Jechyd.*

1 MEWN llid, dy Gariad mwyn coffhâ;
O Dduw! jachâ'th was'naethwr:
Na faed dy Gerydd tadol di
Fel cleddyf dialeddwr.

2 Mae'th ſaethau'n glynu yn fy mron,
A'm cnawd dan greulon waſgfa:
I'm hyſpryd, rhwng y poen a'r loes,
Un dydd nid oes gorphwyſfa.

3 Fy mhechod ſydd faich trwm tu a'r nen;
Mae dros fy mhen yn dringo:
Ni's galla'i ddwyn, mae'n llwyth rhy lawn,
Na gwneuthur jawn am dano.

4 Fy meddwl fel môr trwblus ſy,
A'm pen yn plygu i'r ddaear:
Tan Ddig fy Nhad, a'i Gerydd prûdd,
'Wy'n myn'd trwy'r dydd mewn galar.

5 Duw, gwael, drylliedig wyf, a gwan,
Heb ſan yn gyſan ynof:
Gan ing fy enaid, oer yw 'nghri;
Dy ſaethau di aeth trwof.

6 Fy nghais a wyddoſt oll, heb gêl;
Dy Lygad 'wêl fy nagrau:
A'm griddfan a'm hoch'neidiau byw
Yn amlwg clyw dy Gluſtiau.

7 Ti yw fy Ngobaith i a'm Duw,
Yr hwn a'm clyw yn cwyno:
Fy Nuw a gwyd fy enaid gwan;
Mae *Satan* yn ei demtio.

8 [Hawdd gan fy nhroed i lithro 'lawr;
Llawenydd mawr s'am hynny:
Beilch yw 'ngelynion i, a llon,
Pan allon' fy machellu.

9 Ond mi 'addefa' 'mai wrth Dduw;
Triſtâf am bob rhyw bechod:
Ac am fy ngwendid llefa'i 'ma's
Am fwy o Ras oddiuchod.

10 Fy meiau gynt, Duw, maddeu di,
A byth bydd imi'n agos:
Duw'm Jachawdwriaeth, bryſia â'th Ras,
Cyn marw o'th was ſy'n d'aros.]

SALM

SALM XXXIX. Adn. 1, 2, 3.
Y Rhan gyntaf.

Gwyliadwriaeth ar y Tafod; neu, *Gallineb a Zêl.*

1 FEL hyn ymroddais o flaen Duw,
" Tra fyddwyf byw i wylied:
" Fy nhafod rhag d'we'yd gair di-râs,
" An-hardd a chas i'w glywed.

2 Ac os attèlir fi'n y fan
Lle byddo annuwiolion:
Mi ' wyliaf y dau cymmaint rhag
Pob math o wag 'madroddion.

3 Braidd i'm gwefuſau caniadhâ'
I dd'we'yd y da fwy'n deimlo:
Rhag i watwarwyr yn ddi-gêl
Fy nuwiol zêl i wawdio.

4 Ond os cyfleuſdra 'mddengys im',
Nid ofnaf ddim o'u gw'radwydd:
Caiff gwawdwyr glywed yn ddi-os
My 'madrodd dros yr Arglwydd.

SALM XXXIX. Adn. 4, 5, 6, 7.
Yr ail Ran.

Gwagedd a Breuoldeb Dŷn.

1 DUW, dyſg im' feſur dyddiau f'oes,
Pa einioes a gyrhaeddaf:
A'm ddyſgu 'rwyf, a gwel'd o hŷd,
Mor frau yw ' mywyd ymaf.

2 Lled llaw yw'n bywyd, nid mawr ſwy,
Modfedd neu ddwy o amſer:
Dŷn ſydd ond llwch, a gwagedd llawn,
Pan ſo'n ei gyflawn wychder.

3 Plant dynion, fel cyſgodau ' gŷd,
Ar faes y byd ſy'n rhodio;
Terfyſgu 'mryſon maent am fyw,
Ac ofer yw eu cyffro.

4 Rhai mewn anrhydedd yma a gair,
A rhai am aur yn cloddio:
Pentyrru dâ, na wys i bwy;
Ac ebrwydd hwy'n eu gado.

5 Pa beth gan hyn ' obeithiaf mwy
Oddiwrthynt hwy'r cre'duriaid:
Gwnant fy niſgwyliad yn ddi-fûdd,
Os ynthynt bydd f'ymddiried.

6 Fy ngobaith cnawdol ' alwa'i 'nol,
Deiſyfiad ffol fy anian:
Rhof ' fynu ' mydol les tr'w'i byw,
A gwnaf fy Nuw fy Nghyfan.

SALM XXXIX. Adn. 9—13.
Y drydedd Ran.

Duwiolder claf-wely; neu, *Bledio â* Duw *heb rwgnach.*

1 DUW, 'n raſol edrych ar fy mhoen,
Gwel fi'n ddihoen dolurus:
'Rwy'n fud ger bron dy Faingc heb ble,
Na beiddio 'dadle' d'Wyllys.

2 Dy weiſion yw cleſydon ſwrth,
Sy'n dyfod wrth d'Orchymyn:

Yn

Yn erbyn llaw dy Gerydd llym
Ni dd'wedaf ddim yn gyndyn.

3 Etto mi bledia'n dlawd fy nghri;
Duw, fymmud di'th Geryddon:
Gwanhâu mae'm nerth a'm hyſpryd byw,
Gan amled yw'th ergydion.

4 Fel dryllio gwyfyn dan dy Law,
'Rŷm ni maes law'n ymddattod:
Ni all ein grym d'wrthſefyll di,
A'n tegwch ni fy'n darfod.

5 [Ein bywyd fy'n adfeilio'n fiwr,
Fel ewyn dw'r mae'n toddi:
Holl eppil *Adda*, dda a drwg,
Nid ŷnt ond mŵg a gwegi.]

6 'Wyf ond ymdeithydd yn y byd,
Fel pawb i gŷd o'm tadau:
O parod fwyf, pan ddelo'r wys,
I fyn'd ar frys i'm fiwrnai!

7 Ond, Arglwydd, os arbedi di
Fy mywyd i dros dippyn:
Mi a'th foliannaf nos a dydd,
A'th Gariad fydd fy nheſtyn.

SALM XL. Adn. 1, 2, 3, 5, 17.

Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Cân o Ymwared o Gyfyngder mawr.

1 DYfal ddiſgwyliais wrth fy Nuw;
'Fe roddodd glyw i'm gweddi:
Gorphwyſais ar ei Air yn faith;
Dug Jachawdwriaeth imi.

2 O'r

2 O'r pydew hyll 'fe 'nghodai'n wir,
Lle bûm yn hir yn gorwedd:
A'm traed yn rhyddion hefyd gwnaeth
O rwymau caeth f'anwiredd.

3 Gwnaeth imi ſefyll ar Graig gref,
A chodi'm lleſ yn llafar:
I foli Gwaith ei Ddwylo glân
Mewn newydd gân ddïolchgar.

4 Gwaſgaraf Waith ei Ras ar led,
A'r Saint cânt glywed hynny:
Dyſgaf droſeddwyr o bob rhyw
'Roi cred yn Nuw, a'i ofni.

5 Pa gymmaint yw'th Feddyliau hedd,
A'th Drugareddau aneiri':
Ni feddaf eiriau digon maith,
Nac oriau 'chwaith, i'w henwi.

6 Pan fwy'n drallodus yn y llwch,
Heb heddwch na goleuni:
'Fe'm dwg i ar ei Gâlon gu;
Mae'n gweled fy ngofidi.

SALM XL. Adn. 6—9.
Yr ail Ran. Meſur cyffredin.

Cnawdoliaeth ac Aberth Criſt.

1 "OFer yw'ch gwaith," medd y Duw doeth;
" Rhowch ymaith boeth-offrymmu:
" Mewn geifr meirw a buſtych, mwy
" Nid ydwy'n ymhyfrydu.

2 Yna medd *Jeſu*, " Dyma fi
" Yn dyfod i gael gwneuthur:
" D'Ewyllys, a chwplân ar led
" Beth bynna' dd'wed dy Lyfyr.

3 " I'm

3 " I'm golwg mae dy Gyfraith wiw,
" Ac agos yw i'm calon:
" A'm clustiau hefyd ſydd ar led
" I glywed d'Ymadroddion.

4 Ac wele'r Prynwr mawr a ddaeth;
Ymddangos ' wnaeth yr *Jeſu*:
Y pryd pennodol, a'r corph byw
A ddarfu ' Duw ddarparu.

5 Ef' a ddatguddiodd Ras ei Dad,
A'i Wir a'i Gariad cyhoedd:
Pregethodd ffordd Cyfiawnder Duw
Lle byddai amryw bobloedd.

6 Gogoniant Duw oedd ger ei fron,
A llefau dynion dinerth:
I gwplâ rhan Jachawdwr rhad,
Efe a wna'd yn Aberth.

Gorphwyſiad.

7 Nid gwaed 'nifeiliaid, fawr na mân,
'Olchaſai'n lân gydwybod:
Ond ef' a dalodd Aberth llawn,
A hollol Jawn, am bechod.

8 Tannwyd yr Jachawdwriaeth lân,
A theyrnas *Satan* figlwyd:
Fel hyn trwy'r *Jeſu*, Had y Wraig,
Pen yr hen ddraig a ddrylliwyd.

SALM XLI. Adn. 1, 2, 3.

Cariad i'r Tlawd; neu, *Doſturi i'r Cyſtuddiol.*

1 GWYN fyd y dŷn â'r galon hawdd,
Yr hon tu ag at y tlawd a dawdd:
Trwy gariad a gyd-deimla'n brûdd
A'i Frodyr-Saint, mewn adfyd ſydd.

2 Dymunai 'galon wneuthur mwy
Nag all ei ddwylaw iddynt hwy:
Mewn ing y gwrendy Duw ei gŵyn,
A dengys ymyſgaroedd mwyn.

3 Caiff drigo'n ddiogel dan y nen,
A bendith ddirgel ar ei ben:
Pan fyddo haint a newyn mawr
O'i gylch yn bwrw eu meirw 'lawr.

4 Os nychu ar ei wely bydd,
O'i bechod datgan Duw e'n rhŷdd:
A'i Law ei hun 'fe'i gwellhâ ef,
Neu dwg ei enaid 'fynu i'r nef.

SALM XLII. Adn. 1—5.

Y Rhan gyntaf.

Anghyſur a Gobaith; neu, *Achwyniad o Abſennoldeb oddi wrth Addoliad cyhoeddus.*

1 FY enaid i hiraethlawn yw
Am brofi Duw, a'i weled:
Fel y mae'r hydd â'i fref a'i chwant
Am ddŵr y nant wrth ſyched.

2 Pa bryd y do'i Gynteddau'th Ras,
'Gael dy Gymdeithas etto:
Bod cy'd heb wel'd dy Wyneb di,
'Wna 'nghalon i ddolurio.

3 Tan demtiad blin mae f'enaid byw;
Fy nagrau yw fy adwledd:
Tra d'wetto'r gelyn er fy ngwae,
"*Dy DDUW, p'le mae o'r diwedd?*

4 Triſt wyf, wrth gofio'r dyddiau gynt
Fy llawen hynt a'm llwyddiant:
Pan eym i'th Dŷ rifedi glân,
Dan ſeinio Cân a Moliant.

5 Ond,

5 Ond, f'enaid, pa'm y ſoddi dan
'Fath lwyth o wan-galonrwydd:
Paham yr anobeithi'n llyn,
A phechu'u erbyn f'Arglwydd?

6 Cred yn yr Arglwydd, a'i Law gref
Fe ſymmud ef' dy ofyd:
Caf etto ganu ger ei fron,
A gwel'd ei lon Wynebpryd.

SALM XLII. Adn. 6—11.
Yr ail Ran.

Ceryddu Meddyliau pruddaidd; neu,
Obaith mewn Cyſtuddiau.

1 O'M mewn y ſawdd fy enaid i;
Ond, Arglwydd, coſiaf d'Enw di:
A'r amſer cul pan wnaethym gŵyn,
Bryd hynny profais Duw yn ſwyn.

2 Trallodion mawrion, megis lli',
Neu for, a'm hamgylchaſant i:
Dy ddw'r biſtylloedd ſry o'r nen,
A'th donnau' aethant dros fy mhen.

3 Ond Duw a rydd i'm gyſur llon,
Y dydd pan elwyf ger ei fron:
A'i Ras y nos ni ſymmud 'chwaith;
Gweddio a chanu ſydd fy ngwaith.

4 Taflaf fy hunan wrth ei Draed,
Gan dd'we'yd, "Fy Nuw, fy Nghraig y'th gaed:
"Paham" anghoſi f'enaid i,
"Sy'n griddfan dan dy Ddyrnod di?

5 Ceryddu'i nghalon, am wanhâu;
Paham mae f'enaid i'n triſthâu:
Cred yn yr Arglwydd, canmol ef;
Fy Nghymmorth yw, a'm Noddfa gref.

6 D'Oleuni a'm tywys i i'm taith,
A'th Air a ddyd fy mryd ar waith:
A hwn a'm dwg i'th fynydd di,
Fy Nuw, fy mawr Orfoledd i.

SALM XLIV.

Adn. 1, 2, 3, 8, 15—26.

Achwyniad yr Eglwys mewn Erlidigaeth.

1 NI' glywsom am dy Waith, Duw mad;
Sef Gwaith dy Rad a'th Allu:
Ein tadau fu'n mynegi i ni
Dy Wyrthiau di'r pryd hynny.

2 Plennaist dy Eglwys yma gynt,
A rhoist rwydd hynt i'th 'Fengyl:
I'w plith datguddiaist dy Fraich gref,
A llewyrch nef yn rhygyl.

3 Yn Nuw ymffrostient 'rhŷd y dydd,
Doent mewn llawenydd difrad:
Fyrdd i roi mawl a gweddi g'oedd,
A Gras Duw oedd eu caniad.

4 Ond 'nawr tow'd ein hwynebau, gŷd
A gwarth, a gwrid, a gw'radwydd;
Wrth glywed yr ynfydion câs
Yn cablu Gras yr Arglwydd.

5 Er hyn nid anghofiasom Dduw,
'Nanffyddlon i'w Gyfammod;
Ni throws mo'n camrau 'chwaith yn rhwydd
O ffordd Dyledswydd barod.

6 Er bod y dreigiau'n fawr eu grym
Yn chwythu'n llym eu lleisiau:
A'th Law dy hun a'n gwasgodd ni
Yn agos i byrth angau.

Gorphwys-

Gorphwyſiad.

7 Trwy'r dydd agored ŷm, heb gêl,
I farw fel Merthyron:
Fel defaid, rhwym i'r lladdfa ŷm
Wrth ddeddfau llym a chreulon.

8 O cyfod, Arglwydd, mae'n llawn bryd;
Pa'm yw'th Ras cy'd yn cyſgu:
Paham ' edrychwn fel gwael rai
O'th Wydd a gai eu gyrru?

9 Ai ymaith byth y bwri ni,
Heb wrando'n cri difrifol:
Ai cuddio'th Wyneb byth y wnai
Oddiwrthym, rai cyſtuddiol?

10 Plygwyd ein henaid hyd y llwch,
Gan ddiyſtyrwch dynion:
Cyfod i'n plaid, cerydda'n llym,
A goſtwng rym y beilchion.

11 Rhag gwarth parhâus, Duw, gwared ni;
Can's tydi yw'n Hachubwr:
Er mwyn Anrhydedd d'Enw rhad,
A Haeddiant Gwa'd ein Prynwr.

SALM XLV. Y Rhan gyntaf.
Meſur hir.

Gogoniant Criſt, *a Gallu ei Efengyl.*

1 FY nghalon cân mewn yſpryd cu
Ogoniant hardd fy Mhrynwr hy:
Sef *Jeſu* f'Arglwydd, Brenhin Nef,
Mor ddiſglair yw ei Degwch ef!

2 Ar holl blant dynion dan y rhod
Mae'i oruwch Ras e'n dwyn y clod:
Rhed Cariad o'i Wefuſau'n llif,
Bendithion rhyfedd heb ddim rhif.

3 O Arglwydd! gwiſg holl arfau'th Rym,
O'th gylch gwregyſa'th Gleddyf llym:
Mewn Mawredd marchog ac mewn bri,
Gwir ac Addfwynder gyd â thi.

4 Dy Lid a dreiddia fel y ſaeth
Trwy fron pob gelyn cyndyn caeth:
Neu Eiriau mwyn Trugaredd rad
A dawdd y cyfryw wrth dy dra'd.

5 Dy Orſeddfaingc a bery byth;
Gras ydyw dy Deyrnwialen ſyth:
Mae'th Waith a'th Ddeddfau'n jawn bob rhai;
Gras a Chyfiawnder a fawrhâi.

6 Dy Dduw, tywalltodd lawr o'r nen
Olew llawenydd ar dy Ben;
Bendithiodd ef â'i Yſpryd gwiw
Ei Gynfab uwch holl Feibion Duw.

SALM XLV. Yr ail Ran.
Meſur hir.

Criſt *a'i Eglwys*; neu, *Y Briodas ddirgeledig.*

1 BRenhin y Saint, mor dêg ei Bryd!
Mawrhydi a Gras mae'n wiſgo 'nghŷd:
Daw â Bendithion oddi fry
I ynnill ſerch cenhedloedd lu.

2 Ar ei Ddeheulaw gwel'd y wnair
Yr Eglwys mewn gwiſg bur o aur:
Rhyfedda'r byd ei nefol Ddrych,
A'i Hardd-wiſg o Gyfiawnder gwych.

3 Gwna'i

3 Gwna'i Thegwch ſel yr eiddo'i hun;
I'w Orſedd geilw 'i wrth ei Glun:
Ferch ddieithr, rhaid i ti, trwy Rad,
Anghofio eilunod ty dy dad.

4 A'r Brenhin llawenhâ trwy ſerch
Yn ei ddewiſol Briod-ferch:
Car ef, dod iddo Barch a Bri;
Dy Briod yw a'th Arglwydd di.

5 O ddedwydd awr, pan gyrcho ef'
Di i'w Frenhinllys fy'n y nef:
A'th feibion oll (aneirif lu)
Teyrnaſant fel t'wyſogion fry.

6 A Pharch coroner byth ei Ben;
Pob oes molianned ef (Amen:)
Clodforwn ninnau, 'n llon ein llef,
Oſtyngiad mawr ei Gariad ef.

SALM XLVI. Y Rhan gyntaf.

Diogelwch a Gorfoledd yr Eglwys ym mhlith Anghyfannedd-dra teyrnaſol.

1 DUW ydyw Noddfa'r Saint a'u Grym,
Pan ddêl tymheſtloedd adfyd llym;
Cyn ' gallom draethu wrtho'n cwyn,
Bydd ef' ger llaw â'i Gymmorth mwyn.

2 Aed y mynyddau bryniau o'i bron
I lawr i'r dyfnder dan y don:
A ſigled dychrynfeydd y byd
Yn Nuw ni ' gredwn yn ddi-gryd.

3 Uchel rued y cenfor dig;
Yn Heddwch Duw ein henaid trig:
Tra bo pob cenedl a phob traeth
Yn ofni'r môr a'i ymchwydd caeth.

4 Mae Afon bur â'i Ffrydiau byw
Sydd yn diwallu Dinas Duw:
Llawenydd, Cariad, Bywyd llon,
Dwfrhânt o hŷd Anneddau hon.

5 Dy ſanctaidd Air yw'r Afon ddoſn
A fawdd ein holl derfyſglyd ofn:
Rhydd d'Addewidion ſelus hedd
A nerth i 'neidiau lleſg eu gwedd.

6 *Seion* yn ddiogel byth a fai';
Can's Serch ei Brenhin ma'i'n ſwynhâu:
A'i Allu a'i Wirionedd llon
Yw mur a ſail y Ddinas hon.

SALM XLVI. Yr ail Ran.

Duw *yn ymladd dros ei Eglwys.*

1 BYDD lon o'th Frenhin, *Seion* glŷd,
Er treiſwyr a theyrnaſoedd byd:
Pan roddo'i Hollalluog Lef,
Y bobl a dawdd, a'u terfyſg gref.

2 Tros *Jacob* gynt ymladdodd Duw;
Duw *Jacob* etto'n Cymmorth yw:
Gwelwch Weithredoedd ei Law gref,
Pa anghyf'nedd-dra a wnaeth eſ'!

3 O for i for, o draeth i draeth,
Goſtegodd ſwn rhyfeloedd caeth:
Pan ruo'i Daran oddi draw,
Daw'r bobl i hedd gan ofn a braw.

4 Y bwa a'r ffon 'ſe'u tyr yn fân;
Cerbydau llyſg â nefol Dân;
Diſtêwch y ddaear, clywch ei Lef,
A'i 'Madrodd gogoneddus ef.

5 " Peidiwch, dyſgwch mai mi ſydd Duw;
" Dyrchefir fi dros dîr y byw:

" Caf

" Caf Barch trwy'r byd, a'm hofni'n brûdd;
" Er hyn fy Maingc yn *Seion* fydd.

6 O Arglwydd, Holl-alluog Duw!
Tra bom mor agos iti'n byw:
Ein ffydd ddiofn a gân yn hy
Ymheuriad i byrth uffern ddu.

SALM XLVII.

Crift *yn eſgyn ac yn teyrnaſu.*

1 O Cenwch Fawl i Frenhin nef
Ag uchel lef nefoledd:
Boed i bob gwlad, mewn Hymnau glân,
Ddyrchafu Cân o Orfoledd.

2 *Jeſu*, ein Duw, fy'n myn'd i'r nef,
A chyd ag ef Lu nefol:
I'w warchad wrth gyfodi i'r nen
A'i hudgyrn llawen firiol.

3 Angylion, Mawl i'w Brenhin rhoent;
Plant dynion, boent i'w dilyn:
Cenwch ei Glod trwy'r ddaear gron;
Can's ef' ar hon fydd Frenhin.

4 Molwch ef gyd â Pharch yn gall;
Boed deall yn flaenorol:
Na fiommwch ef â feinfawr gân
Ar dafod anyſtyriol.

5 Yn *Iſrael* gynt 'roedd Gorfedd Duw;
Hon oedd y rhyw 'etholodd:
Ond cleimio'r byd i gŷd mae 'nawr;
Ei Ras a braw'r cenhedloedd.

6 Ynyfoedd *Brydain* s'eiddo 'fo;
Duw *Abram* yno 'dweunir:
Plyg gwŷr galluog ger ei Fron,
A thywyſogion cywir.

SALM

SALM XLVIII. Adn. 1—8.

Y Rhan gyntaf.

Yr Eglwys yw Anrhydedd a Diogelwch y Deyrnas.

1 [YR Arglwydd ein Duw ni ſydd fawr,
A'i Fawl boed ddirfawr hefyd:
O fewn Eglwyſi'r Seintiau glân
Mae ef' â'i Drigfan hyfryd.

2 O pa mor dêg i'n golwg yw
Temlau ein Duw o gwmpas:
Anrhydedd ein priodor fan,
Ac ymddiffynfa'n teyrnas.]

3 Yn *Seion* adnabyddir ef
Yn Noddfa gref mewn trallod:
Diſgleiriodd Jachawdwriaeth glau
Trwy'i holl Balaſau hynod.

4 Pan fai brenhinoedd mawr y byd
Yn uno 'nghŷd i'w herbyn:
A gweled fod Duw yn y ſan,
Hwy ffoeſan' gan fawr ddychryn.

5 Pan ddelo llongau'r môr yn llu
I aflonyddu'n tiroedd:
'Fe ' enfyn dymheſtl fawr ei ſwn
I'w ſoddi hw'n y moroedd.

6 Ni ' glywſom gan ein tadau ' fu,
A mynych canfu'n llygaid:
Mor dda y cadwai Duw o'r ne'
Y gorlan lle bai ' ddefaid.

7 Mewn trallod newydd o bob rhyw
I Dŷ ein Duw cawn fyned:
Ni ' gofiwn ei Ras rhyfedd ef;
Cawn yno gref Ymwared.

SALM

SALM XLVIII. Adn. 10—14. Yr ail Ran.

Prydferthwch yr Eglwys; neu, *Addoliad a Threfn yr Efengyl.*

1 MOR bell 'adwaenir d'Enw da
Y byd a draetha'th Foliant:
Dy Saint, O Duw! wrth d'Orſedd lân
Dyrchafant Gan 'Ogoniant.

2 Yn llawen ſafed *Juda*'n llyn
Ar *Seion*, fryn dewiſol:
A thraethed Ryfeddodau'th Law,
A'th 'Wyllys draw yn hollol.

3 Dieithriaid rhodient amgylch hon,
Sef *Seion* ein Preſwylfa:
A gwelent yr Adeilad pur,
A'r ſanctaidd Dîr ſydd yma.

4 Y Dreſn odidog ſy'n dy Dŷ,
Addoliad dy Gynteddfod:
Y Mawl a'r Addunedau prûdd
I'w gwledydd rhoddent wybod.

5 Mor ddoeth, mor ogoneddus wych,
Yw'r gwaith i edrych arno:
Gwell nâ defodau'r gyfraith ſu,
Ac aur oedd wedu trwſio.

6 Y Duw ŷm ni'n addoli 'nawr
Hyd angau awr a'n tywys:
Tra bom mewn byd, ein Duw ſydd eſ;
Ac yn y nef yn ddilys.

SALM

SALM XLIX. Adn. 6—14.

Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Balchder a Marwolaeth; neu, *Wagedd Bywyd a Chyfoeth.*

1 PAham mae'r gŵr cyfoethog cryf
Mewn balchder hyf yn chwyddo:
Wrth wel'd ei barch, a'i ddâ, a'i ſtor,
Fel llanw'r môr yn llifo?

2 [Paham mae'n diyſtyru'r tlawd,
O'r un clai ga'w'd ag ynteu:
A boſtio fel 'tai ei gnawd trwch
O amgen lwch ei ddechreu?]

3 Ni ddichon ei holl olud mawr
Ddwyn pardwn awr i'w enaid:
Nac achub brawd rhag myn'd i'r bedd,
Er maint ei fawredd euraid.

4 [Can's nid yw bywyd ddim ar werth;
Rhy fawr yw pridwerth hwnnw:
Cyfiawnder gwobr o aur ni fyn
Am attal dŷn rhag marw.

5 Mae'n gwel'd y doeth a'r annoeth ffol,
A'r gwrol a'r di-galon:
Yn gado'u meddiant bawb un wedd,
Yn myn'd i'r bedd yn llymion.

6 Ac etto'i dyb a'i falchder hy
Yw, faif ei dŷ'n dragywydd:
Ac fel 'bo'i enw bara'n hir,
Rhydd hwn i'w dîr a'i faeſydd.

7 Ffol yw ei dyb a'i obaith cam,
Clau derfydd am ei goffa:
Ei enw gyd â'i gelain drwch
'Lawr yn y llwch a bydra.]

Gorphwyſ-

Gorphwyſiad.

8 Hon yw eu ffordd, ynſydion ffol,
A'u plant o'u hol ſydd foddlon:
I'r hyn a dd'wed eu tadau ' hun,
A gwnant yr un arferion.

9 Os dynion ffol heb Ras yn wir
A godir i anrhydedd:
Byw fel 'nifeiliaid y wnant hw',
Ac hefyd marw'r un-wedd.

10 [Fel defaid cleddir hwynt yn glau,
Fe ymborth angau arnyn':
Nes eu deffrôi, â'r udgorn mawr,
O'u cwſg mewn dirfawr ddychryn.]

SALM XLIX. Adn. 14, 15.
Yr ail Ran. Meſur cyffredin.

Angau, a'r Adgyfodiad.

1 CHWI feilch, ſy'n gwneud o'r cyfion wawd,
A ſathru'r tlawd heb eiriach:
Pan ddygo angau chwi i'r bedd,
Ni chwyd eich mawredd mwyach.

2 Ar ddydd y farn try rhod fel hyn;
Y cyfion ' eſgyn ' fynu:
Ac arglwyddiaetha ar y rhai
Fu gynt yn ei ddi'ſtyru.

3 Ond Duw a dderbyn f'enaid tlawd,
Pan el o'm cnawd i ymaith:
A thyr garchardy'r bedd yn chwyrn,
I godi f'eſgyrn eilwaith.

4 Y nef yw fy nhrag'wyddol ſan,
A'm ſicir ran i bellach:
Terfyſged beilchion etto'n hwy;
Ond ni bydd mwy im' rwgnach.

SALM XLIX. Meſur hir.

Marwolaeth y Pechadur goludog; ac Adgyfodiad y Saint.

1 PAham mae'r traws yn gwaſgu'r gwan,
A boſtio'r lydan ſtat a fedd:
Ni cheidw dâ, er amled ſon',
Mo'u drwg berchennon rhag y bedd.

2 Ni chânt gan angau oedi awr,
Er ' traſau mawr a'u tryſor fflwch:
Na chadw marwol frawd yn fyw,
Pan archo Duw hwn fyn'd i'r llwch.

3 Cyſgodau tywyll daear ddu
A gau o ddautu ' cyrph hwy 'nawr:
Y cnawd a beſgyd mor dda'i wedd,
Try'n llwch a llygredd yn y llawr.

4 Fel defaid ffol rhoir hwy'n y bedd;
Caiff pryfed wledd o'u cig a'u gwaed:
Pan godo'r Saint y bore pur,
Cânt y gorthrymwyr wrth eu traed.

5 Eu parch a ddeſydd yn y llwch,
A'u rhwyſg a'u tegwch mawrwych mwy:
A'r cyſion a ddyrchefir fry,
I arglwyddiaethu arnynt hwy.

6 Fy Mhrynwr adnewydda ' ngwedd;
Cwyd fi o fedd drachefn i fyw:
Fy nghnawd a'm henaid mwy ni 'mâd,
Ond trigo'n waſtad gyd â'm Duw.

SALM

SALM L. Adn. 1—6.

Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Y Farn ddiweddaf; neu, *Y Saint yn cael eu gwobrwyo.*

1 YR Arglwydd, Barnwr mawr y byd,
A eilw 'nghŷd y werin:
Ger bron ei Faingc, o'r dwyrain draw,
A phawb ger llaw'r gorllewin.

2 Cableddwyr ni chânt dd'we'yd o hŷd,
"*Ni farn DUW'r byd ond hynny:*"
Ac am ei fod yn oedi'r dydd,
Ymrônt heb g'wilydd bechu.

3 Ein Harglwydd ar y cwmmwl daw,
Ac o'i flaen draw dân fflamllyd:
Taranau, t'w'llwch, a ſtorm, fydd
Yn dwyn y dydd dychrynllyd.

4 Clyw'r nef ei Alwad oddi draw;
I'w weini daw Angylion:
A'r byd ac uffern ofnant Farn
Ein Harglwydd cadarn cyfion.

5 Ond medd ef, "Ceſglwch atta'i'm Saint,
"Y rhai a wnaent eu cymmod:
"A mi, trwy Aberth *Criſt*, a'i Waed
"Ei ſelio 'wnaed yn barod.

6 Eu ffydd a'u gwaith yn amlwg fydd,
A'r byd yn brûdd a dyſtia:
Fod fy ngwobrwyol Farn yn jawn;
A'r nef a lawn foddlona.

SALM L. Adn. 10, 11, 14, 15, 23.
Yr ail Ran. Meſur cyffredin.

Ufudd-dod ſydd well nag Aberth.

1 FEL hyn medd Duw; " Y meuſydd maith,
" A'u helaeth ddïadellau:
" A'r anifeiliaid ar bob bryn,
" Ynt f'eiddo yn ddïammau.

2 " Ni foddia defaid aberth fi,
" Na buſtych wedi 'lloſgi:
" Gobeithio, Caru, Gweddi, 'Mawl,
" Yn hollawl wyf yn hoffi.

3 " Mewn trallod galw arna'i'n brûdd,
" Fy Llaw yn rhŷdd a'th ollwng:
" Yna y ceni imi Glod,
" Sef am fy mod yn deilwng.

4 " Y dŷn 'offrymmo Foliant glau
" A'm gogonedda i'n odiaeth:
" A rodiant ſy Ffyrdd ſanctaidd i,
" Cânt broſi'm Jachawdwriaeth.

SALM L. Adn. 1, 5, 8, 16, 21, 22.
Y drydedd Ran. Meſur cyffredin.

Barn Rhagrithwyr.

1 I'R Farn pan ddelo *Criſt* o'r nef,
A'r Saint o'i gylch ef hefyd:
Galw'r bobloedd ynghŷd y wnair;
A chlywch ei Air dychrynllyd.

2 " Nid

2 " Nid eiſiau buſtych, aberth drud,
" Y barna'i'r byd annuwiol:
" Defodau oll ſydd ddi-lesâd,
" Heb dân o Gariad dwyfol.

3 " A pheth y wna rhagrithwyr ſerth
" Yn dwyn eu haberth ofer:
" Gan alw ' Neddfau'n bur a jawn,
" A'u dwylo'n llawn o ffalſter?

4 " P'odd y diſgwyliech ffoi o'm Gŵydd,
" A phechu'n hyrwydd diriaid:
" Ond dyga'i'ch drwg i'r goleu pur,
" Er poen a chur i'ch enaid.

5 Clywch hyn, ddibriſwyr Duw, mewn pryd,
Cyn 'nyno'i Lid heb arbed:
Os ſyrthio dan ei Gleddau wnewch,
Nid neb a gewch i'ch gwared.

SALM LI. Y Rhan gyntaf.
Meſur hir.

Yr Edifeiriol yn pledio am Bardwn.

1 MAddeu a thrugarhâ, O Dduw!
Gâd ddyn ſo'n edifeiriol, fyw:
On'd helaeth yw dy Ras, a rhŷdd?
On'd all pechadur roi ynot ffydd?

2 Fy nrwg ſydd fawr; er hyn nid yw
Tu hwnt i Allu ' Gras fy Nuw:
Di-derfyn yw dy Natur di;
Un wedd dy Gariad boed i mi.

3 Golch f'enaid i oddiwrth bob bai;
Glanhâ ' nghydwybod i'n ddi-lai:
Mae baich euogrwydd mawr ar hon,
A'm beiau gynt ſydd gen fy mron.

4 Cyfadde' 'rwyf fy mhechod cas
Yn erbyn Cyfraith Duw a'i Ras:
Pe llidiai'th Farn i'm herbyn i,
Damnedig wyf; ond pur wyt ti.

5 Pe daliai'th Gofp fy mywyd brau,
Rhaid im' yn angau'th gyfiawnhâu:
Pe i uffern teflid f'enaid byw,
Boddlonai hyn Ddeddf gyfion Duw.

6 Ond, Arglwydd, gwared enaid gwael,
A'i obaith fydd i'th Air am gael:
Addewid ber o Gyfur cu,
I'm dal i rhag anobaith du.

SALM LI. Yr ail Ran.
Meſur hir.

Cyfaddef Pechod gwreiddiol a gweithredol.

1 O Dduw! mewn pechod ce's f'ymddŵyn,
A'm geni'n aſlan, gwael, di-gŵyn:
Tarddais y maes o lwynau'r dŷn
Trwy'i gwymp a'n llygrodd bob yr un.

2 Pan gynta' anadlom fywyd gwan,
Had pechod fydd yn tyfu i'r lan:
Dy Ddeddf, Perffeithrwydd a fyn hi;
Ond ym mhob rhan halogwyd ni.

3 [Duw Mawr, dôd gàlon newydd im',
Ac yfpryd union, pur, er dim:
O gwna fi'n ddoeth, i wel'd o hŷd
Fy mherygl a'm jachâd mewn pryd.]

4 Gwel, fyrthio'r ydwyf o'th flaen di;
Dy Ras yw f'unig Noddfa i:
Nid ffurfiau allanol all glanhâu;
Y gwahânglwyf, o'm mewn i mae.

5 Nid gwaed aderyn, na gwaed ŷch,
Nac yſop, nac offeiriad gwych:
Na nant rhedegog, môr, na lli',
All olchi fy halogrwydd i.

6 O *Jeſu!* yn dy Waed y mae
Digonol allu i'm glanhâu:
A hwn a'm gylch fel eira gwyn;
Cyſgodau *Ddeuig* ni wnaent hyn.

7 Tra blino euogrwydd fi'n un wedd,
I'm cnawd a'm henaid nid oes hedd:
Moes glywed llais dy Bardwn clau,
I'm heſgyrn drylliog lawenhâu.

SALM LI. Y drydedd Ran. Meſur hir.

Dychwelyd y Gwrthgiliwr; neu, *Edifeirwch a Ffydd yng Ngwaed* Criſt.

1 O Dduw! a wrendy weddi'n rhwydd,
Er bod fy meiau oll i'th ŵydd:
A golwg ddig na chenfydd hwy;
Ond tyn hwynt o'th Gof-lyfyr mwy.

2 Dôd ynof natur bur trwy Ras,
Fel y bo pechod genn'i'n gas:
Oddiwrthyf d'Yſpryd Glân na thyn,
Na Llewyrch gwych dy Wyneb gwyn.

3 Byw ni wnaf heb d'Oleuni llon,
Yn alltud byth o ger dy fron:
Dôd im' d'Orfoledd etto'n hwy,
A chadw fi na chwympwyf mwy.

4 Er im' driſtâu dy Yſpryd Da,
Ei Help a'i Gyſur caniadhâ:

Gâd

Gâd im' nesâu o'th flaen, O Dad!
I ddadleu Haeddiant dy Fab rhad.

5 Drylliedig gàlon union, yw
Yr aberth oll 'wy'n ddwyn i Dduw:
Duw'r Gras byth ni ddirmyga hon,
Pan ddêl hi'n aberth ger ei fron.

6 Fy enaid ſy'n y llwch, O Dduw!
Yn adde'th Farn, mai cyfion yw:
Yn raſol, Arglwydd, edrych 'lawr,
A'm henaid euog cadw 'nawr.

7 Yna dyſgaf i'r byd dy Ffyrdd;
Dy Ras dyſg pechaduriaid fyrdd:
At Waed fy Mhrynwr proſa'u dwyn,
Am Bardwn molant Duw yn fwyn.

8 O yſprydola 'nhafod glân,
A'th Jachawdwriaeth fydd fy nghân:
A'm henaid oll a fola Duw;
Fy Nerth i a'm Cyfiawnder yw!

SALM LI. Adn. 3—13.

Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Cyfaddef a phardynu Pechod gwreiddiol a gweithredol.

1 DUW, tanna'i 'mlinder yn dy Wydd,
A'm trwm euogrwydd hefyd:
Yn erbyn dy Ddeddf di a'th Ras
Fy mhechod cas a gyfyd.

2 Pe i uffern troit fy enaid trwch,
A'm cnawd i'r llwch ar waſgar:
I'th Goſp y nef a lwyr foddhâu,
A'i chyfiawnhâu 'wnai'r ddaear.

3 Daethum

3 Daethum o lwynau *Addaf* wag
Yn aflan ac yn ammhur:
C'wilydd yw 'nechreu 'gŷd, O Dduw!
A phechod yw 'm holl natur.

4 Mewn byd o ddrwg fy ngeni ce's,
A'r llwgr a dynnes innau:
Ac fel wy'n myn'd mewn oed ſwy-ſwy,
Cyſiawnach wy' o angau.

5 Golch fi, O Dduw! a llawenhâ
Fy enaid â'th Drugaredd:
Jachâ fy yſpryd drylliog gwael;
Dôd iddo'th hael Orfoledd.

6 Na lwyr adawed d'Yſpryd ſi,
Ac na chudd di dy Wyneb:
Fy nghalon ddrwg yn newydd gwna,
A llanw hi â'th Raſlondeb.

7 Yna hyſpyſa'i'th Ras yn llon
O flaen plant dynion etto:
Gwrthgilwyr ceiſio Duw a wnant,
Ac a ddychwelant etto.

SALM LI. Adn. 14—17.
Yr ail Ran. Meſur cyffredin.

Edifeirwch a Ffydd yng Ngwaed Criſt.

1 O Dduw'r Drugaredd! clyw ſi'n rhwydd;
Symmud ſ'euogrwydd anfad:
Tor 'lawr y canol-fur yn ſwrth
A'm deil oddiwrth dy Gariad.

2 Dôd imi Lewyrch dy Ras di,
A'm tafod i a draetha:
Yn uchel dy Gyfiawnder glân,
Ac ar fy nghân y'th fola'.

3 Nid

3 Nid gwaed 'nifeiliaid o un rhyw
'Heddycha Duw am bechod:
Marwolaeth *Crift*, yr Oen di-fai,
Yw'r un a wnai y Cymmod.

4 Yr enaid blin fo'n teimlo'i bla,
Duw ni's dirmyga'n ddiau:
Y weddi brudd, a'r ddrylliog fron,
Yw'n haberth gwirion goreu.

SALM LIII. Adn. 4—6.

Buddugoliaeth ac Ymwared oddi wrth Erlidigaeth.

1 GElynion, ai ynfydu maent,
Sy'n difa'r Saint mor greulon:
On' wyddant fod eu Ceidwad mwyn
Yn gwrando cwyn plant *Seion?*

2 A braw difymmwth cânt eu dal;
Braich Ddial Duw, heb arbed:
A wafgar efgyrn 'fawl a wnant
I'w anwyl blant ef niwe'd.

3 Yn ofer boftia plant y fall
Eu deall a'u harfogaeth:
Duw pan ddirmygo'u lluoedd mawr,
Cwympant i lawr yn 'fglyfaeth.

4 O Brenhin *Seion!* â'i Air llon
Adfero'i chaethion bellach:
A *Jacob* a'i blant a lawenhâ;
Ni wyla *Juda* mwyach.

SALM

SALM LV. 1—8, 16, 17, 18, 22.

Meſur' cyffredin.

Cynhaliaeth i'r Enaid cyſtuddiedig a phrofedigaethus.

1 O Dduw ſy Noddfa! gwrando 'nghri;
Gwel faint yw lli' fy nagrau:
Can's byd ac uffern a'm casânt,
A llawenhânt yn f'ofnau.

2 At f'enaid i annelu 'wnant;
Hwn llanwant o euogrwydd:
Terfyſgau i ſiglo'm hyder maith
A'm gobaith yn yr Arglwydd.

3 Mae holl linynnau 'nghalon wan
Yn ſeinio gan riddfannau:
O'm hamgylch ofn a braw ſy'n bod
Ynghanol cyſgod angau.

4 O 'bawn fel c'lommen wirion wedd,
Ac im' Adanedd buan:
Oddiwrth y rhain mi 'ffown ym mhell,
Lle cawn i well gorphwyſfan.

5 Awn ymaith i ryw anial le;
Cawn yno artre' llonydd:
Lle ni ddoi ſtorm o falais tyn
Temtaſiwn yn dragywydd.

6 Ond gobaith gau, dychymmyg gwag,
Yw dïangc rhag llid *Satan:*
Fy nghadw all fy Arglwydd da
Yn gyſtal yma ag un-man.

Gorphwyſ-

Gorphwyſiad.

7 Y bore mi weddïa'n brudd,
A chanol dydd yn waſtad:
A'r nos yn daer y ceiſia'i'm Duw,
Aç ef a glyw'm deiſyfiad.

8 Rhag ofnau ceidw f'enaid gwan,
Neu'm gwared pan fwy'n ofni:
Angylion ddengmil dont o'r nef,
Pan archo ef, i'm gweini.

9 Bwriaf fy maich ar f'Arglwydd cu;
'Fe'm deil i fynu'n ffyddlon:
Gorphwyſaf ar ei Air di-lyth,
Na ſyrthia byth mo'r cyfion.

10 A'm ffydd yn ofer ni chaiff fod;
Gwaſgara'i Glod â'm genau:
Pan na chaiff twyllwyr drwg eu bryd
Fyw hanner hŷd eu dyddiau.

SALM LV. 15, 16, 17, 19, 22.

Meſur byr.

Llwyddiant peryglus; neu, *Annog Duw iolder beunyddiol.*

1 DEwiſed dynion drwg
Y ffordd a'u dwg i angau:
Ond, Arglwydd, yn d'Addoliad di
Y treuliaf fi fy nyddiau.

2 Fy llef at Orſedd Gras
Y bore glas cyfeiriaf:
Ceiſiaf dy Fendith ganol dydd,
A'r nos yn brudd addolaf.

3 Gwran-

3 Gwrandewi ar fy llef,
Fy Nuw, o'r nef yn barod:
Pan drengo dynion drwg, mewn braw,
Dan bwys dy Law a'th Ddyrnod.

4 Byw'n eſmwyth ' maent yn awr,
Heb deimlo fawr gyfnewid:
Am hyn nid ofnant d'Enw di,
A'th 'Wyllys ni wnant hefyd.

5 Ond mi ro ' ngofal dwys,
A'm holl bwys, ar yr Arglwydd:
Trwy ffydd y bwriaf arno ' maich;
'Fe'm deil â'i Fraich rhag tramgwydd.

6 'Fe ' ddeil ei anwyl blant,
Na ſyrthiant byth yn hollol:
Y ſail lle mae'u diogelwch cry',
Nid yſgog gallu bydol.

SALM LVI.

Gwaredigaeth o Orthrymder; neu, *Ofal* Duw *am ei Bobl mewn Atteb i Ffydd a Gweddi.*

1 DUW, 'r hwn wyt fry'n teyrnaſu'n bur,
Gwnai i orthrymwyr beidio:
Gwel gynfigenwyr ym mhob gwedd
Am dorri'm hedd, a'm blino.

2 Mae treiſwyr a chelwyddwyr llym
Yn uno y'm difetha:
Ond mewn peryglon, ar bob awr,
Dy Air yw'm dirfawr noddfa.

3 Duw ſanctaidd, cyfion, pur, wyt ti,
Lle dodais i f'ymddiried:
Nid ofnaf beth a wnelo cnawd,
O lwch a ga'w'd, er gwyched.

4 Gwyrdrôi ſy ngeiriau maent i ddrwg;
Rhoi im' anamlwg feiau:
Drygioni ſy'n eu cyngor hwy,
A llid a leinw'u bronnau.

5 A gânt hwy ddiangc rhag dy Ddig?
A ſai'u dychymmyg ofer:
O bwrw 'lawr y beilchion drwg;
Gwna'n amlwg dy Gyfiawnder!

Gorphwyſiad.

6 Gofidiau'r Saint fe'u cyfrif Duw,
A'i Gluſt a glyw 'hoch'neidiau:
F'achwynion ſy'n ei Lyfr i gyd;
Mewn coſtrel dŷd ſy nagrau.

7 Pan godwy'm llef i'th Orſedd fry,
Yr anwir ffy yn ebrwydd:
Mor glau i'r nef 'r â gweddi fyw,
Mor agos yw yr Arglwydd.

8 Duw ſanctaidd, cyfion, pur, wyt ti,
Lle dodais i f'ymddiried:
Nid ofnaf beth a wnelo cnawd,
O'r llwch y ca'w'd, er gwyched.

9 Mae'th Addunedau arnaf fi;
Mawl rhof i ti o'm calon;
Canaf, *Mor ffyddlon yw dy Air!*
A'th holl Ffyrdd cair yn gyfion.

10 Rhag angau cedwâiſt f'enaid, Jôr;
Rhyddhâ'th garcharor etto:
A'm calon, llaw, a'm bywyd i,
Cânt droſot di lafurio.

SALM

SALM LVII.

Mawl am Gadwedigaeth, Gras, a Gwirionedd.

1 DUW, ynot mae ffynhonnau llawn
O Gariad a diderfyn Ddawn:
O cudd fi dan d'Adenydd cu,
Nes chwyther heibio'r cwmmwl du.

2 I'r nef anfona'i'm llef a'm llais;
Yr Arglwydd a gyflawna 'nghais:
Ei Angel 'enfyn oddi fry,
A rhag y ſtorm fe'm ceidw'n gu.

3 Dyrchafer di uwch nef, O Dduw!
Lle mae'r Angylion pur yn byw:
Traether dy Nerth trwy'r byd ar led,
A gwlad wrth wlad dy Wyrth a dd'wed.

4 Fy nghalon, parod yw hi 'nawr
I ganu mawl i'th Enw mawr:
Fy nhafod, deffro, ſeinia'i Glod,
A'i Jachawdwriaeth allan dôd.

5 Uwch daear ei Drugaredd ſy
Yn cyrhaedd i'r eithafoedd fry:
Saif ei Wirionedd byth heb goll,
Pan ddarffo'r byd a'i oludoll.

6 Dyrchafer di uwch nef, O Dduw!
Lle mae'r Angylion hardd yn byw:
Traether dy Nerth trwy'r byd ar led,
A gwlad wrth wlad dy Wyrth a dd'wed.

SALM LX. Adn. 1—5, 10—12.

Ar Ddydd o Ymoſtyngiad o herwydd Aflwyddiant mewn Rhyfel.

1 O Dduw! a fwriaiſt heibio ni,
A'n gado'n ddi-ymgeledd:
Ai didrangc lid i'n herbyn chwyth?
A ddychwel byth drugaredd?

2 Mae dychryn un o'th Guchiau llym
Yn toddi'n grym a'n calon:
'Rŷm ni gan ofn yn crynu'n flin,
Fel rhai ar win yn feddwon.

3 Mae *Brydain Fawr* yn awr mewn braw
Yn ofni'th Law a'th Ddyrnod:
Dy ddrylliog ynys hon jachâ,
A chadarnhâ rhag cryndod.

4 A chyfod faner iddynt hw'
Sy'n ofni d'Enw cyfion:
A'th Darian cadw d'anwyl rai;
C'wilyddia eu gelynion.

5 Dos gyd â'n lluoedd ni i'r gâd;
Bydd Geidwad in' a Chapten:
Ni lwydda neb i'n herbyn ni,
Pan godech di dy Wialen.

6 Ein gwŷr ' orchfygant yma a thraw,
Trwy nerth dy Law gynhorthwy:
Duw a fwr' lawr y cryf yn lân,
A'r gwan a wna'n ſafadwy.

SALM

SALM LXI. Adn. 1—6.

Diogelwch yn Nuw.

1 PAN elo triſtwch dros ſy mron,
O'm mewn ſy nghalon trenga:
Yn ddi-gynhorthwy o bob plaid,
I'r nef ſy llygaid coda'.

2 O arwain fi i'r dalgraig draw,
Sy ' mhell uchlaw ſy mhen i:
Gwna gyſgod dy Adenydd da
Yn ymddiffynfa imi!

3 O fewn dy Breſennoldeb di
Byth, Arglwydd, mi ' breſwyliaf:
Tydi yw Tŵr ſymwared gre',
Y Noddfa lle ymguddiaf.

4 Rhoiſt etifeddiaeth imi ' mhlith
Y rhai ſy'n ofni'th Enw:
Os cânt hwy fywyd didrangc fry,
Caf finnau feddu hwnnw.

SALM LXII. Adn. 5—12.

Na ddylid ymddiried yn y Creaduriaid; neu, *Ffydd yng Ngras a Gallu* Duw.

1 FY enaid ' edrych ' ſynu at Dduw;
Fy Nghraig a'm Hymddiffynfa yw:
Ym mhob caledi coda'i'm llef;
Diſgwylia'i Jachawdwriaeth ef.

2 Gobeithiwch yntho, Seintiau glân;
Tywelltwch eich calonnau o'i na'n:
Pan ballo help cre'duriaid gwael,
Yn Nuw mae cymmorth llawn i gael.

3 Gwŷr uchel-radd twyllodrus ŷnt;
A gwagedd yw'r rhai gwaela'u hynt:
Mewn clorian pe rhoit hwy ynghŷd,
Yſgafnach ŷnt nâ gwynt i gŷd.

4 Na rowch mo'ch cred mewn golud fflwch,
Na'ch calon chwaith ar ddiſglair lwch:
Pa'm y gafaeliwch beth nad gwiw,
Heb gredu'r hyn a dd'wedodd Duw?

5 Unwaith y d'wedodd Duw o'r nef,
Ac eilwaith clywais ei Air ef:
" Mai'i eiddo yw pob nerth a phlaid;
" Ei ofni ef a'i gredu rhaid.

6 Ond nerth ni lywodraetha'i hun;
Ar Orſedd Duw mae Gras yn hûn:
Gras a Chyfiawnder Duw ynghŷd
Gwobrwyant bawb ar ddiwedd byd.

SALM LXIII. Adn. 1, 2, 5, 34.
Y Rhan gyntaf.

Ar Fore-ddydd yr ARGLWYDD.

1 YN fore, fy Arglwydd, dan go',
Gwnaf frys i geiſio d'Wyneb:
Mae f'enaid i'n lleſmeirio 'mron,
O eiſiau 'lon Ddiſgleirdeb.

2 Fel pererinion ar dîr cras,
Dan wybren las fo'n lloſgi:
A flyſiant am y ffrwd heb baid;
Can's yſed rhaid, neu drengu.

3 Gwelais d'Ogoniant, a'th Nerth cry';
Trwy dy holl Dŷ'n diſgleirio:
Gâd imi weled y fath bryd,
A'r olwg hyfryd etto.

4 Nid

4 Nid holl fendithion gwledd a rydd
I'm henaid prûdd foddlondeb:
Fel pan y profais yno'th Ras
Ger bron dy addas Wyneb.

5 Nid bywyd â'i lawenydd brau
Mor dda foddhâi'm ſerchiadau:
Neu ' gyfyd c'uwch fy moliant i,
A'th Gariad di yn maddeu.

6 Fel hyn y gwnaf tra fyddwyf byw;
Bendithiaf Duw fy Llywydd:
I ymbil coda'i ' nwylo glân,
A'm tafod cân ei Glodydd.

SALM LXIII. Adn. 6—10.
Yr ail Ran.

Adgofio Meddyliau canol Nos.

1 YNgwylfa'r nos myſyriais i
Ar d'Allu di, 'r Goruchaf:
Mewn golwg cedwais d'Wyneb cu
Yn yr awr ddu dywyllaf.

2 I'r nef y codai f'enaid tlawd,
Tra'r oedd fy nghnawd yn gorwedd:
"*Fy NUW, fy Ngobaith,*" ebe fi,
"*Dwg imi dy Drugaredd.*

3 I'r nef y dring fy yſpryd byw
Ar ol fy Nuw a'm Brenhin:
Ond dy Ddeheulaw ſydd i'm dal
Yn ddyfal tra bwy'th ddilin.

4 Dy fwyn Drugaredd fry o'r nen
Rhydd dros fy mhen d'Adenydd:
Fy nghalon am dy Gymmorth glân
A'm tafod cân o'i herwydd.

5 Ond

5 Ond 'ſpeilwyr heddwch f'enaid i
Cânt ddigio a brochi'n ſegur:
A'r temtiwr orphwys byth i'w ffau,
A'm holl bechodau lleddir.

6 Rhoi i'm gelynion farwol glwy',
A gyrri hwy i artrefu:
I dywyll fannau'r ddaear hon,
Neu i eig'on uffern obry.

SALM LXIII. Meſur byr.

Ceiſio Duw.

1 FY Nuw wyt; caniadhâ i mi
Dy alw di fy eiddo:
Fy llef foreol clyw, O Dad!
A phrawf o'th Gariad dyro.

2 Mae f'enaid ſych yn lleſg ei wedd
Am dy Drugaredd rywiog:
Nid teithwyr mewn gwlad ſych, yn ſiwr,
A flyſiant ddw'r mor chwannog.

3 O fewn d'Eglwyſi, Arglwydd cu,
'Rwyf fi'n hiraethu trigo:
I wel'd d'Ogoniant di, a'th Nerth,
A'th Wyneb prydferth, etto.

4 Can's bywyd, heb dy Gariad di,
Ni rydd i mi foddlonrwydd:
Nid oes o'r fath lawenydd pur
Ag ſy'n gwas'naethu'r Arglwydd.

5 Dyrchafa'i nwylaw at fy Nuw,
Tra fyddwy' byw mi'th fola':
Nid gwleddau llawn o foethau a gwin
A ront yr un feluſdra.

6 Mewn

6 Mewn oriau effro'r nos, myfi
A'm danat ti meddyliaf:
Mor ddoeth yw'th Gyngor, ac mor fwyn
'Rwyt yn ymddŵyn tu ag attaf!

7 Fy enaid, Arglwydd, attat ' ffy,
Can's ti a fu fy Nodded:
Ac ar dy gref Ragluniaeth di
Mae ' ngobaith i'm ymddiried.

8 Tan gyfgod dy Adenydd jach
Bydd f'enaid bach yn ddiofal:
Fy Nhad canlynaf ym mhob lle;
Fy rhodiad 'fe a'i cynnal.

SALM LXV. Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Duw *yn Wrandawr Gweddi, a galw'r Cenhedloedd.*

1 YN *Seion*, Mawl a'th erys di;
Draw telwn ni'n hadduned:
Duw, ti ' wrandewi'n llef a'n llais;
Pob cnawd a gais dy Nodded.

2 Cynhyddu mae'n pechodau cas;
Ond Pardwn Gras fydd eiddod:
Cawn gennyt nerth a deall cry'
I faeddu pob rhyw bechod.

3 Gwyn fyd y rhai a ddygech di
Yn agos i'th Wynebpryd:
Cânt fyw'n dy Dŷ, a gwledda'n fras
Ar beraidd Ras y bywyd.

4 I atteb cais dy Eglwys bur,
Dy Ofn a'th Wir difgleirian':
Gweithredoedd dy Gyfiawnder di
Cânt hwy gyflawni'th Amcan.

5 Felly

5 Felly gwel pobloedd o bob rhyw
Mai da yw Duw, a chyfion:
A 'nyfoedd pell dont attat ti,
A chredant iti'n ffyddlon.

6 Hwy ' ofnant dy Arwyddion fynn,
Pan wibiont yn yr wybren:
Ond dyfgu'th fanctaidd Air a wnant,
A charant di drachefen.

SALM LXV. Yr ail Ran. Mefur cyffredin.

Bendithion y Gwanwyn; neu, Dduw *yn rhoddi Glaw.*

Salm i'r Llafurwr.

1 DA yw yr Arglwydd, Brenhin Ne';
Am bawb mae 'fe'n gofalu:
Bob gwanwyn 'fe ymwêl â'n tir;
Gwna'r borfa îr ymdyfu.

2 Cymmylau fel afonydd mawr
Diferan' ' lawr fendithion:
Wrth dy Orchymyn, i ddwfrhâu
A llonni'r mannau fychion.

3 Yna yn iraidd rynnau'r maes
Yr egin llaes a darddant:
A'r ddaear ei chnwd mawr rhydd hon,
A gweithwyr gweinion canant.

4 Ar bryniau bychain llawenhân'
Pan fyrthio'r mân gafodau:
Gweirgloddydd yn llawn blodau ' gair
Yn llanw'r aer â'u 'roglau.

5 Y

5 Y briddell heſp, yn ol cael glaw,
Sy'n addo daw cnwd ffrwythlon:
A'r craſdir fydd yn wyrdd ei ddrych,
Rhydd obaith gwych i'r hwſmon.

6 Coroni'r ydwyd ti fel hyn
Y flwyddyn â'th Ddaioni:
Mae'r bryniau'n llawn o ddefaid mân,
A'r bugail da'n dy foli.

SALM LXVI. Y Rhan gyntaf.

Gallu a Daioni llywodraethol; neu, *Broſi ein Gras trwy Gyſtuddiau.*

1 CEnwch, holl bobl y ddaear gron,
A llafar llon i'r Arglwydd:
Coffhêwch ei Barch a'i uchel Wedd,
A'ch mawr orfoledd hylwydd.

2 D'wedwch wrth Dduw ſy'n llywio ſry,
" Ofnadwy ydy'th Fawredd:
" O'th Wydd di pechaduriaid ant,
" Neu blygant wrth dy Orſedd.

3 [De'wch, gwelwch Ryfeddodau'n Duw,
Mor fawr yw ei Weithredoedd:
Ei Wialen yn llaw *Moſes* rhoes
Yn ddwy ran troes y moroedd!

4 Gwnaeth ganol y Môr Coch yn ſych
I *Iſrael* wych fyn'd trwyddo:
Bryd hynny'r Eglwys llawenha'dd;
Yn Nuw hi ' gadd ymffroſtio.

5 A dirfawr Nerth teyrnaſu ' wna;
A feiddia gwrthryfelwyr:
Gyffrôi trag'wyddol Frenhin Nef,
A'i demtio ef i'r frwydyr?]

6 Bendith-

6 Bendithiwch Dduw, na pheidiwch byth;
Chwi Saint, rhowch ddi-lyth foliant:
Mae'n cadw'n hoes a'n hedd mewn gwlad;
Mae'n dal ein tra'd, na lithrant.

7 Duw, profaiſt ein heneidiau ni,
I beri'n gras ddiſgleirio:
Fel arian a fai'n diodde'r tân,
I'w coethi'n lân a'u puro.

8 Trwy ddyfroedd dyfnion ffyrdd o dân
Ni' awn ymla'n yn hwylus:
I feddu tir d'Addewid draw,
Trwy fod dy Law i'n tywys.

SALM LXVI. Adn. 13—20.

Yr ail Ran.

Mawl i Dduw *am wrando Gweddi.*

1 TAlaf fy addunedau 'nawr
I'r Arglwydd mawr ſydd uchod:
Yr hwn a glybu 'ngweddi brudd
Mewn cyfyng ddydd o drallod.

2 Fy nhafod a'm gwefuſau glân,
Rhowch allan ei Drugaredd:
De'wch bawb ſy'n ofni'r Arglwydd Nef;
Clywch beth' wnaeth ef' mor rhyfedd.

3 Pan ddaeth trallodion am fy mhen,
Codais i'r nen f'ymbiliau:
Rhag uffern cadwodd f'enaid cu,
A chyſgod du tir angau.

4 Pe b'aſwn i'n groeſawi'n llon
O fewn fy nghalon bechod:
Ni chlywſai Duw f'ymbiliau maith;
Ni chan'ſwn chwaith mo'i Fawr-glod.

5 Ond

5 Ond 'fe 'ryddhaodd fy yſpryd byw;
(Molianner Duw byth gennyf:)
Ni throws ef' ymaith ddim o'm cwyn,
Na'i Gàlon ſwyn oddiwrthyf.

SALM LXVII.

Llwyddiant y Deyrnas, a Chynnydd yr Eglwys.

1 O Dduw! llewyrcha ar *Brydain Fawr*
A diſglair wawr Gras nefol:
Datguddia'th Nerth trwy'n parthau 'gŷd,
A'th Wyneb hyfryd ſiriol.

2 [Ynghanol hon ein hynys ni
Llewyrcha di mewn urddas:
Ac megis mur o gaerog dân,
Tyr'd, amgylchyna'n teyrnas.]

3 Pa bryd y bydd i'th Enw, 'n Jôr,
O for i for ymdannu:
A dynion pell adnabod Duw,
A'i Ceidwad byw, a'i garu?

4 Chwi wledydd pell, molwch yr Jôn
Ag uchel dôn gyhoeddus:
A chaned *Brydain* hithau Glod
A thafad gorfoleddus.

5 Yr Arglwydd mawr, y Barnwr pur,
Ar Orſedd yr uchelder:
Dœth-lywodraethu'r byd y wna
Mewn Cariad a Chyfiawnder.

6 Y tir i'w Luniwr ufuddhâ;
Rhydd gynnyrch da gyflawndeb:
Coroni'r ynys hon 'wna Duw
A hedd a gwiw ffrwythlondeb.

7 Duw'n Prynwr ' wasgar yma'n llawn
Ei Ras a'i Ddawn ar lwyddiant:
A holl derfynau'r ddaear gron,
Wrth weled hon, a synnant.

SALM LXVIII. Y Rhan gyntaf.

Adn. 1—6, 32—35.

Dialedd a Thosturi Duw.

1 CYfoded Duw'n ei Allu cry';
O'i flaen ef ffoed uffernol lu:
Fel mŵg neu niwl yn wael ei hynt,
'Fo'n gorfod ffoi pan godo'r gwynt.

2 [Mewn gwisg o fflammau tanllyd daw
Cyfiawnder, dial yn ei law:
O'i flaen gelynion trengu ' wnan',
Fel cwyr yn toddi wrth y tân.]

3 Gyr a tharana trwy'r holl nef;
Seinir Jehofa'i Enw ef:
Plant Gras, rhowch fawl i'w Enw llon;
Saint, gorfoleddwch ger ei fron.

4 Y weddw a'r ymddifaid sydd
Yn ffoi at Dduw mewn ingder prûdd:
Y tlawd a'r di-borth cânt yn rhad
Dduw'n Farnwr pur, a thirion Dad.

5 'Fe ' dyr cadwynau'r caethion cudd;
Caiff carcharorion wel'd y dydd:
Ond caiff gwrth'nebwyr 'Wyllys Duw
Mewn rhwymau fyth a th'w'llwch fyw.

Gorphwysiad.

6 Teyrnasoedd ' thronau ŷnt eiddo Duw;
A mawl coronwch ef, bob rhyw:

Ei Allu glew, a'i Enw glân,
A'i Barch, cyhoeddwch ar eich cân.

7 A'i uchel Floedd 'fe ' ſigla'r nef;
Mewn eirf ofnadwy ydyw ef':
Yn *Iſrael* yr adwaenir Duw,
Ac *Iſrael* ei orſeddfaingc yw.

8 Cyhoeddwch ef yn Frenhin gwiw;
Eich Noddfa a'ch Llawenydd yw:
Pan ſyrthio'r byd gan ofnau ſynn,
Duw ydyw Nerth y Saint bryd hyn.

SALM LXVIII. Yr ail Ran.

Adn. 17, 18.

Eſgyniad Criſt, *a Rhoddiad o'r Yſpryd.*

1 ARglwydd, pan aethoſt ' fynu i'r ne',
Angylion ddengmil llanwai'r lle:
O'th gylch 'roedd nefol geidwaid ſry,
I'th warchard fel cerbydau lu.

2 Nid *Sinai*'n fwy 'i Ogoniant oedd,
Tra bu yr Arglwydd fry ar g'oedd:
Yn traethu'r Gyfraith uch eu llaw,
Nes taro'r bobl ag ofn a braw.

3 Pwy ' dd'wed y fath orfoledd ſu
Wel'd holl alluoedd uffern ddu:
'Wnaeth mil o 'neidiau'n gaethion triſt,
'Nawr mewn cadwynau'n gaeth gan *Griſt!*

4 Dyrchafodd *Criſt* i'r Orſedd fawr;
Anfonodd ei Lân Yſpryd ' lawr:
A rhoddion Gras i gyndyn ryw,
Fel gyd â'r rhai'n y trigai Duw.

SALM LXVIII. Y drydedd Ran. Adn. 19, 9, 20, 21, 22.

Mawl am Fendithion tymhorol; neu, *Drugareddau cyffredinol a neilldnol.*

1 BEndithiwn ein Duw cyfion, da;
Ein llenwi ni a'n llonni 'wna:
'Fe 'dywallt ei Fendithion 'lawr,
A'n llwytho mae â'i Gyfoeth mawr.

2 'Fe 'yrr yr haul o ddautu'n wir,
I lonni'r ffrwythau, twymno'r tir:
Pair i'r cymmylau gludo glaw;
I wlychu'r ddaear ſych 'fe 'ddaw.

3 'Fe 'geidw ynom anadl chwyth;
Dïangfa rhydd rhag angau ſyth:
Nodded a jechyd o DDUW ſy;
'Fe 'wellâ'r gwan, 'fe 'geidw'r cry'.

4 Y Sant a'r drygddyn a gânt braw'
O gyffredinol Ddoniau'i Law:
Ond y gwahaniaeth rhwng y ddau,
Yw'r poen neu'r hawddfyd ſy'n parhâu.

5 A ſigodd ben y ſarph heb fri,
A ſathra etto'i heppil hi:
Rhydd glwyf parhâus i'r drygddyn ſyth,
A'i obaith a g'wilyddia byth.

6 Ond cyfyd â'i Ddeheulaw'r Saint,
O'r ddaear ddofn, a'r môr lle maent:
A dwg hwynt i'w Gynteddau fry,
I wledda ar ei Gariad cu.

SALM

SALM LXIX. Adn. 1—14.

'Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Dïoddefiadau Criſt *dros ein Jachawdwriaeth.*

1 " DUW, achub; mae'r llifogydd llawn
" Yn torri ' mewn ar f'enaid:
" Aeth triſtwch dros fy mhen a'm bron
" Fel dyfroedd mawrion diriaid.

2 " Mewn dagrau treulio'r dydd wyf fi;
" Mae'm llafar wedi darfod:
" Fy Nuw, am danat edrych 'rwy';
" Nac oeda'n hŵy rhag dyfod.

3 " Maent yn casâu fy enaid byw,
" Heb achos gwiw cyfreithlon:
" Amlach nâ gwallt fy mhen, Duw cu,
" Yw cadarn lu ' ngelynion.

4 " Bryd hyn y telais ddled fy hun,
" Na thal'ſai dŷn ammherffaith:
" A rhois y parch i'th Gyfraith bur,
" A ddug rhai anwir ymaith.

5 Yn Enw'r mawr *Feſſia*'n llyn
Y Prophwyd ſy'n galaru:
I beri'n calon ni driſthâu,
A llawenhâu wrth hynny.

6 " Fy Seintiau 'nawr a lawenhânt,
" Yn f'Enw cânt hwy Jechyd:
" Can's dygais eu baich trwm dihoen
" O g'wilydd, poen, a gofyd.

7 " Galar fel gwiſg a'm tois bob tu;
" Sachlïain fu fy nhrwſiad:
" Wrth wneuthur i eneidiau noeth
" Gyfiawnder coeth yn wiſgad.

8 " Ym mhlith fy mrodyr i fy hun,
" Fel dieithr-ddyn, bûm gyhoedd:
" Dygais eu dirmyg gwael an-wiw,
" I ddwyn at Dduw'r *Cenhedloedd*.

9 " Daethum, yn lle camweddus ryw,
" I wneud Gwaith Duw heb gellwair:
" Ond pan lanheais i Dŷ fy Nhad,
" I'm Zel ddi-frâd rho'w'd anair.

10 " Fy Ympryd a'm Griddfannau glân
" A wnaed yn gân i'r meddwon:
" Ond Duw, oddi ar ei Orſedd fry,
" A glybu fy Achwynion.

11 " Achubodd fi o'r pydew du,
" A'm Henaid cu rhag ſuddo:
" Sefydlodd eſ' fy Nhraed yn wir
" Ar ſicir dîr, rhag ſyrthio.

12 " Mewn awr dra chymmeradwy oedd
" Fy ngweddi cododd ' fynu:
" Ac er fy mwyn y clyw Duw Jôn
" Bechadur ' fyddo'n trengu.

SALM LXIX. 14—21, 26, 29, 32.

Yr ail Ran. Meſur cyffredin.

Dïoddefaint a Dyrchafiad Criſt.

1 BOED ini 'nawr, yn barchus pur,
A galar diſyr ganu:
Am Ddioddefiadau'n Prynwr rhad,
A'n Harchoffeiriad *Jeſu*.

2 Mewn llifddw'r trallod ſoddi'r oedd,
Gan faint y dyfroedd mawrion:
Tra'r oedd e'n danfon at ei Dad
Yn waſtad ei Achwynion.

3 " Clyw'th

3 " Clyw'th Fab, O Dduw! ac achub 'nawr;
" Na chuddia wawr d'Wynebpryd:
" Paham edrychaf fel un gwael
" A gadd ei adael gennyd?

4 " Mewn llid erlidiant ddyn fy'n wan
" Yn griddfan dan dy Ddyrnod:
" Tra 'rwyf yn dodi f'Oes i lawr
" Yn Aberth mawr dros bechod.

5 " Fy Mharch i'r llwch eu fathru 'wnant,
" A chwarddant pan fwy'n cwyno:
" A'u henllib lem farhâus a rydd
" Ing at fy Nghyftudd etto.

6 " Fy ngwarth fydd hyfpys it', O Dad!
" Yr holl farhâd a'r c'wilydd:
" Cadd gw'radwydd dorri 'Nghalon gu,
" Am Henw'i lygru â chelwydd.

7 " Difgwyl toftur bûm, nid gwiw;
" Fy ngheraint yw fy mlinder:
" Ceifiais gyfurwyr; nid oedd neb
" A droi ei wyneb tyner.

8 " Wrth fyched finegr rhoddant ym',
" A buftyl llym y'm bwydant:
" Gwawdio fy marwol Gwŷn a wnaed,
" Ac yn fy Ngwaed llawenant.

9 " Llewyrcha ar f'enaid athrift i,
" Boed i'th Dofturi'm gweled:
" Ac er i'm Cnawd i drengu 'nawr,
" Duw, hwn o'r pridd-lawr gwared.

10 " Cyfodaf, moli'th Enw 'wnaf,
" Teyrnafaf mewn uchel-fyd:
" A'th Jachawdwriaeth, fy Nuw cu,
" Ar d'Orfedd fry a'm gefyd.

SALM

SALM LXIX. Y drydedd Ran. Meſur cyffredin.

Ufudd-dod a Marwolaeth Criſt; neu, *Ogoneddu* Duw, *ac achub Pechaduriaid.*

1 CAnaf dy ryfedd Ras, O Dad!
Rho i Enw 'Ngheidwad Glodydd:
Dug Jachawdwriaeth i rai tlawd;
Aeth dan ein gwawd a'n c'wilydd.

2 Ei Ofid dwfn a'n cwyd i'r nef;
Ei 'Fudd-dod gref awyddus:
Cyflawna'r Ddeddf a dorrodd dŷn;
Cwplaodd ei hun d'Ewyllys.

3 Ei farwol Boen a'i Gerddi byw
A foddiant Duw yn amgen:
Nâ thelyn, neu ſain udgorn ſyn,
Gwaed geifr y bryn, neu ychen.

4 Canlynwyr *Criſt* gwel'd hyn a wnant,
A llawenhânt o'i herwydd:
Trwy'i Angau ef nesânt at Duw,
A byth cânt fyw yn ddedwydd.

5 Bydded i'r holl nefolaidd lu
I Duw ddyrchafu Moliant:
A thiroedd, moroedd, hwythau 'nghŷd,
Roi iddo 'gŷd Ogoniant.

6 D'eiddo yw *Seion*, Arglwydd da;
Ei phyrth bendithia'r *Jeſu:*
Y drud Ogoniant, gwerth ei Wa'd,
Caiff *Iſrael* rad-feddiannu.

SALM

SALM LXIX. Y Rhan gyntaf. Meſur hir.

Dïoddefaint Criſt, *a Jachawdwriaeth Pechaduriaid.*

1 A Chalon drom coffhâwn yn driſt
Am ddirfawr Ddïoddefaint *Criſt:*
Gwelwn y tonnau uchel ſydd
Yn llifo dros ei Enaid prûdd.

2 Mewn gweddi treulio'i Anadl bu,
Ag angau, a holl uffern lu:
A meibion malais hwythau 'nghŷd
Yn cwplâ'u melldigedig fryd.

3 Ond etto'th Gariad di, O Dduw!
Gwnai'r felldith hon yn Fendith wiw:
Dioddefaint erchyll dy Fab di
Rhoes jawn am drygau 'wnaethom ni.

4 Marwolaeth *Criſt* ein Harglwydd ni
Adferodd barch i'th Gyfraith di:
Boddhaodd Gyfiawnder Duw dros ddyn;
Talodd am ddrwg nid eiddo'i hun.

5 O, er ei Fwyn ef, maddeu'n bai;
Rhyddhâ yr edifeiriol rai:
Yr Arglwydd yn ei Enw a'n clyw,
Ac ni ch'wilyddia'n gobaith gwiw.

SALM LXIX. Adn. 7, &c. Yr ail Ran. Meſur hir.

Dïoddefiadau a Zêl Criſt.

1 DUW, erot darfu'th Fab dy hun
Fyn'd dan y fath Lwyth trwm dros ddyn:

O w'radwydd sâl, a drygair trist;
A gwarth diwynwyd Wyneb *Crist*.

2 *Juddewon*, ei berth'nasau'i hun,
Am dd'we'yd eu bai, ammharchai'r Dŷn:
Tra bu'n cyflawni'th Gyfraith faith,
Casasant ef, heb achos chwaith.

3 [Eb ef, *Ty Gweddi yw Ty' Nhad*;
Ac nid i chwi farchnatta' gwna'd:.
Gan daflu' tryfor dros y bwrdd,
Fflangellodd y marsiandwyr' ffwrdd.]

4 [Zel fawr dros Deml Duw ei Dad;
A dreuliai' Oes, peryglai 'Wa'd:
Y cabl ar d'Enw a dasiodd dŷn,
'Fe'i teimlai'n drwm, sel eiddo'i hun.]

5 [Ffryns a chanlynwyr aeth ar ffo;
Gelynion oedd o'i amgylch 'fo:
Melldithient ef â thafod llym,
Ac ynteu'n tewi heb dd'we'yd dim.]

6 Ef' blinent â'u celwyddau cas;
A'i gyhuddo wnaed o gabledd cras:
Wrth bren c'wilyddus hoelient e';
Yno bu farw yn fy lle.

7 [Rhai â chalonnau fel y maen,
Gwatworgerdd o'i Riddfannau gwnaen':
Rho'w'd bustyl iddo'n fwyd mewn cur,
A'i syched siommwyd â gwin sur.]

8 Ond Duw a welodd; ac o'r nef
Deil sylw o'i gascion ef:
Y Llaw a'i codai o farw i fyw,
A dywallt arnynt Ddial Duw.

SALM

SALM LXXI. Adn. 5—9.
Y Rhan gyntaf.

Yſtyriaeth a Gobaith y Criſtion oedrannus.

1 O Arglwydd Dduw! fy Ngobaith byth,
I'th Wir di-lyth 'rwy'n credu:
Dy Law a'm daliodd i o hŷd
O ddyddiau'm mebyd ' fynu.

2 Fy nghnawd a luniwyd trwy dy Nerth,
F'aelodau prydferth gwiwlan:
Ac er pan ymddug fy mam fi,
Bûm eiddot ti yn gyfan.

3 Bob blwyddyn faith o'm bywyd brau
Gwelais dy Wyrthiau dyfal:
Ac od oes imi ddyddiau fwy,
Mi rhoddaf hwy i'th Ofal.

4 Na wrthod fi, pan ballo'm nerth
Mewn henaint ddinerth ddyddiau:
Ond tann o'm cylch d'Ogoniant cu,
Pan fyddwy'n trengu'n angau.

5 Yna, yn hanes fer fy oes,
Wrth edrych dros fy nyddiau:
Ceir gwel'd dy Gariad di ' mhob rhan,
A'th Foliant gwiwlan golau.

SALM LXXI. 15, 14, 16, 23, 22, 24.
Yr ail Ran.

Criſt *ein Nerth a'n Cyfiawnder.*

1 FY Mhrynwr, a'm trag'wyddol Ffrynd,
Pan fyddwy'n myn'd i'th foli:
A dechreu rhifo Doniau'th Ras,
Ni all dy was mo'u cyfri'.

2 Rhois

2 Rhois fy ymddiried ynot byth
Yn ddilyth a ſafadwy:
Ac er pan adnabûm dy Ras,
Dy Glod y ma's rhois ſwyfwy.

3 Fy nhraed a deithiant mwy ar hŷd
Y brif-ffordd hyfryd nefol:
Yn gadarn jawn yn nerth dy Rad,
I wel'd fy Nhad trag'wyddol.

4 Pan fyddwy'n llawn o ofid prûdd,
O herwydd pechod chwerw:
Mi bledia'th bur Gyfiawnder di;
Ni honnaf fi ond hwnnw.

5 A thraethaf fi, dan lawenhâu,
Fuddugoliaethau 'Mrenhin:
Fy enaid, pan ryddhâir yn lân,
Dy Jechyd cân yn ddiſlin.

6 [Fy nhafod 'ſoſtia ar hŷd y dydd
I'm Prynwr rhŷdd, trwy'i Angau:
Ddwyn i'm gelynion fyth ſarhâd,
Ac yn ei Wa'd 'ſe'u boddai.

7 Deffrôwch, fy holl bwerau llon;
Ac â'r gân hon, mewn hoffder:
Treuliaf yr awr dywylla' o'm taith,
Heb dybio'n faith o'r amſer.]

SALM LXXI. Adn. 17—21.
Y drydedd Ran.

Gweddi a Chân y Criſtion oedrannus; neu, *Henaint, Marwolaeth, a'r Adgyfodiad.*

1 FY Nuw o'm je'ngctid wyt, yn ſiwr,
A Fforddiwr fy holl yrfa:
Dy lân Wirionedd traethais i,
A'th Wyrthiau di, hŷd yma.

2 A edi di fi, Arglwydd da,
Mewn henaint a phenllwydni:
Pwy ' gynnal fy mlynyddoedd blin,
Os Duw ei hun ' ymedy?

3 Gâd imi draethu i'r oes fy'n ol,
Dy Wir, a'th nerthol Wyrthiau:
A gadael safr o'th Enw di,
Pan ad'wyf fi fy nhrigle.

4 Tir angau a diftawrwydd yw
Lle'r af i fyw yn nesa':
Boed imi ddyfgu'th Gariad drud
I bawb o'r byd, tr'w'i yma!

Gorphwyfiad.

5 Uchel a dwfn yw'th Jawnder, Jôn;
A mawrion yw'th Weithredo'dd:
Uwch wybren aeth d'Ogoniant di;
Ni fedraf fi mo'i adrodd.

6 Mi glywais dy Fygwthion maith;
Gwnaent lawer gwaith im' ddolur:
Ond pan drwm-waigai'th Law fi ' lawr,
Dy Ras fu'm dirfawr gyfur.

7 Trwy brofiad hir adnabum i
Dy Allu di ' waredu:
Anturiaf, wrth dy Arch, i lawr
I'r bedd a'r pridd-lawr obry.

8 Pan fwy'n y llwch, a'm gwedd yn dlawd,
Duw, am fy nghnawd gofeli:
F'aelodau hyn gwiwedig i,
Teg, cedyrn, ti a'u codi.

SALM LXXII. Y Rhan gyntaf.

Teyrnas Criſt.

1 DUW Mawr! i'th Ben-llywodraeth mae
Y bydoedd oll yn ufuddhâu:
Y Deyrnas dôd i'th Fab yn awr;
Mewn gallu dyrcha'i Orfedd fawr.

2 Rho yn ei Law'th Deyrnwialen gref;
I'w Arch ymoſtwng yr holl nef:
'Fe ' ddial cam y tlodion hwy,
A thrâ a thrais ni thycciant mwy.

3 Ymddiffyn ef' y cyfion cu,
A goſtwng grib y treiſiwr cry':
Fe ' bery'i Barch a'i 'Ddoliad ef
Nes darffo dyddiau dan y nef.

4 Fel glaw ar weirglodd newydd ladd,
Ei Ofn a ddiſgyn ar bob gradd:
A'i Ras ar leſg eneidiau ' ddaw
Fel gwlith ar fryniau ſychion draw.

5 Y gwledydd di-gred oll y ſydd
Dan dywyll gyſgod angau prûdd:
Pan wawrio arnynt, adfywhânt;
A'r lleoedd anial, llawenhânt.

6 Y Saint blodeuant yn ei ddydd;
Mawl a llawenydd, eiddynt fydd:
Hedd o'i Orfeddfainge rhed fel lli'
I bobloedd nad adwaenom ni.

SALM

SALM LXXII. Yr ail Ran.

Teyrnas Criſt *ym mhlith y* Cenhedloedd.

1 YR *Jeſu* a deyrnaſa'n grwn
O godiad haul hyd fachlud hwn:
Ei Deyrnas â o ſor i ſor,
Tra paro llewyrch haul a llo'r.

2 [Ynyſoedd a'u brenhinoedd dont,
Ac *Europ*, iddo'u teyrnged rhont:
O'r de'u a'r gogledd, o bob gwlad,
Dont i ymoſtwng wrth ei Dra'd.

3 Gwel'd *Perſia*, harddwych yno ' wnair;
Ac *India*, mewn diſgleirwiſg aur:
Barbariaid, wrth ei Air, yn diſt
Ymgrymmant, ac addefant *Griſt*.]

4 Teyrnaſoedd pobloedd o bob jaith
I'w Gariad rhoddant Foliant faith:
Babanod jeuaingc, lleſg eu llef,
Yn ſore a'i clodforant ef.

5 At hwn dyrchafir Gweddi i'r nen;
A Mawl coronir byth ei Ben:
Ei Enw, fel per-arogl gref,
A gyd â gweddi'r Saint i'r nef.

6 Lle y teyrnaſo, Bendith fydd;
Y caeth a naid o'i rwymau'n rhŷdd:
Y blin caiff fythol eſmwythâd,
A'r holl rai rheidus gymmorth rhad.

7 [Lle rhoddo'i Allu trwy ei Air,
Angau a'r felldith a jachâir:
Yn hwn caiff dynion Ddoniau rhad,
Fwy nag y gollodd *Adda*'u tad.

8 Rhoed pob creadur, yn ddi-lŷth,
Neillduol Barch i'n Brenhin byth:
Angylion, molwch ef uwch ben;
A'r ddae'r dadſeinied ' fynu, *Amen.*]

SALM LXXIII. Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Y Saint trallodedig, yn ddedwydd; a Phechaduriaid llwyddiannus, yn felldigedig.

1 'NAWR gwn mai da yw Duw, yn wir,
I'r rhai ſydd bur o gàlon:
Er imi rwgnach gynt un-waith,
A myn'd tan faith amheuon.

2 Triſtais, wel'd llwydd yr anwir llawn,
A d'we'yd y wnawn, trwy 'ddigedd:
" Mor llon a phenrydd maent yn byw!
" Mor dawel yw eu diwedd!

3 " A'u cnawd yn dew, a'u llygaid llawn,
" Heb ofn na braw'n eu blino:
" Ond cablu Duw a'i Ffyrdd y maent,
" Pan fyddo'r Saint yn wylo.

4 " Codais ddwy-law at Dduw'n ddi-les,
" Ofer lanhe's fy nghalon:
" Can's fe'm cyſtuddir 'rhŷd y dydd,
" A'r nos caf brûdd geryddon.

5 Tra cwynai ' nhafod felly ar gam,
Fy nghalon a'm ceryddai:
" Tramcwyddo'r Saint fel hyn y wnaf,
" Y rhai a garaf oreu.

6 Ond fy amheuon oeddent drech,
A'r ymdrech yn rhy greulon:

Nes

Nes imi fyn'd i chwilio'th Air,
I eglurhâu'r dirgelion.

7 Yno gwelais, fel mewn drych pur,
Fod y pechadur ynfyd:
Yn uchel fry ar greigle ſerth,
Uwch pydew anſerth tanllyd.

8 Ymffroſtio 'r oedd o'i rwyſg a'i ddrwg,
Nes wrth dy Wg y ſyrthiodd:
Fel breuddwyd darfu'i urddas gref;
Yn uffern ef' dihunodd.

9 Duw, pa fath ynfyd o'wn, ac ail
I ryw anifail di-ffydd:
Anghredu'th Ras, a meddwl mai
Yr anwir rai ſydd ddedwydd!

10 Ond rhag anobaith cadwyd fi,
Trwy'th Allu di, yn rhyfedd:
Y Llaw a ddrylliai'r ſagl hon,
A'm dwg ger bron dy Orſedd.

SALM LXXIII. Adn. 23—28.
Yr ail Ran. Meſur hir.

Duw *ein Rhan yma ac ar ol hyn.*

1 DUW, 'Ngobaith a'm Cynhaliwr drud,
Fy Nghymmorth agos wyt o hŷd:
Dy Fraich a'm daliodd i i'r lan,
Pan anobeithiodd f'enaid gwan.

2 A'th Gyngor ti'm harweini o hŷd
Trwy holl anialwch gwael y byd:
A'th Law a'm dwg i'th Orſedd fry,
I fyw ger bron dy Wyneb cu.

3 Pe cawn y nefoedd hebot ti,
Llawenydd oll ni byddai ' mi:
Ac ar y ddaear tra fwy'n byw,
Hiraethu 'rwyf am neb ond Duw.

4 Pe torrai edau ' mywyd brau,
A'm cnawd a'm calon lwyr-wanhâu:
Duw ydyw Craig fy enaid gwan,
A Nerth pob Saint, a'u bythol Ran.

5 Ond wele, 'r pechaduriaid ant
Ym mhell oddiwrthyt, meirw ' wnant:
Ni all eu heilun-dduwiau, wrth raid,
Mo'u gwared hwynt, er ceifio'u plaid.

6 Ond dyfod nefnes attat ti,
Fy Nuw, fydd fy melus-waith i:
Traethaf ar led dy Wyrth a'th Ddawn
I'r holl-fyd, a'm llawenydd llawn.

SALM LXXIII. Mefur byr.

Dattod Dirgelwch Rhaglumiaeth.

1 DIAU fod cyfion Duw;
Nid ydyw Crefydd ofer:
Er ' gall drwg-ddynion lawenhâu,
A graſol rai mewn blinder.

2 Wrth lwydd yr anwir hy,
Gwrwgnach y bu fy nghalon:
Wel'd ffyliaid yn llewyrchu ar g'oedd
Mewn parch a gwiſgoedd gwychion.

3 [Byw ' maent yn foethus jawn,
A'u cnawd yn llawn a gwammal:
A llifo ' mewn, fel llanw'r môr,
Mae'u tryſor, heb eu gofal.

4 Rhŷdd

4 Rhŷdd ŷnt o'r poen a'r pla
Sy'n cwrddyd â Duwiolion:
Eu bywyd oll ſydd yn drahâus,
Yn gwneuthur trais ar dlodion.

5 Eu tafod 'ſgeler yw
Yn cablu'r Duw tragywydd:
A llygru enwau dynion da,
Mewn malais, a thrwy gelwydd.

6 Ond mi, mewn dagrau llawn,
I ammeu 'rawn yn bryſur:
" 'Oes Duw a glyw neu 'wêl heb gudd
" Y pethau ſydd îs awyr?]

7 Terfyſgau'm meddwl gwan
A'm cadwodd dan betruſder:
Nes imi gael fy nwyn i'th Dŷ,
I ddyſgu dy Gyfiawnder.

8 Dy Air, mewn eglur fodd,
Diwygiodd f'amryfuſedd:
Gwelais eu bywyd hwy cyn hyn,
Ond yma'n ſynn eu diwedd.

9 Ar ddibyn ſerth, fel mur,
Maent, druain gwŷr, yn myned:
Ac o'r pwll tanllyd, llawn o fraw,
Sydd îs eu llaw'n eu gwylied!

10 O'th flaen, Duw, plygu 'rwy';
Fy meddwl mwy ni rwgnach:
Fy Nerth a'm Rhan drag'wyddol i,
Y galwaf fi di bellach.

SALM

SALM LXXIV.

Yr Eglwys yn pledio â Duw *dan doſt Erlidigaeth.*

1 A Fwr' ein Duw ni heibio o hŷd?
A fwga'i Lid yn fythol:
Yn erbyn pobl ei Gariad jach,
Ei ddiadell fach ddewiſol?

2 O meddwl am y llwythau cu,
Gwerth Gwaed y *Jeſu*'n bendant:
Na 'nghofia *Seion*, wael ei hynt,
Lle'r ydoedd gynt d'Ogoniant!

3 O dyrcha'th Draed, gwna frys, O Dduw!
Attolwg clyw'n gweddiau:
Gwel pa fath ddifrod llydan jawn
A wnaed o fewn dy Furiau!

4 Lle yr addolai'th Eglwys gynt,
D'elynion ŷnt yn twrddan:
Ac uwch dy Byrth eu harwydd ſy,
Baneri fry yn hongian.

5 Gwel, torrwyd Lle'r Addoliad 'lawr,
'R Adeilad mawr oedd yma:
A hwnnw ſy'n cael fwya' o glod,
Sy'n rhoddi'r dyrnod trymma'.

6 A thân bygythiant ddifa byth
Dy blant i'w nyth ſy'n ddifrad:
De'wch, lloſgwn, meddant yn eu bâr,
Y Deml a'r Offeiriad.

7 Ac, i amlhâu ein gofid ni,
Dy Wyneb di a giliodd:
Arwyddion gynt o'th Nerth a'th Ras
A aeth i ma's o'n tiro'dd.

8 Ni

8 Ni rydd un Prophwyd gyſur yn';
Mae'r Gwilwyr yn galaru:
Enaid nid oes i'n plith ni ' gŷd
A ŵyr pa bryd ' dychweli.

Gorphwyſiad.

9 Pa hŷd, drag'wyddol Dduw, pa hŷd
Y caiff gwŷr ynfyd gablu:
Ai byth y dwg dy Seintiau warth,
A chan pob parth o ddautu?

10 A elli eiſte' a'u clywed hw'
Yn cablu d'Enw ſanctaidd:
Ac attal dy Eiddigedd draw,
A dal dy Law rhag Dialedd?

11 Pa Waredigaeth helaeth hynt
A wnaethoſt gynt i'n tadau:
Duw arall addef nid ŷm ni,
Nac yn addoli, 'n ddiau.

12 Y môr a holltaiſt yn ddwy ran,
Trwy'th Allu anwrth'nebol:
I wneuthur ffordd i'th lwythau glân
I *Ganaan* yn ddïangol.

13 Byd natur it' yn eiddo ſydd,
Y nos, a'r dydd, a'r cyfan:
Ti a bar'toiſt oleuni'r wawr,
A haul fel cawr ' fyn'd allan.

14 Dy Nerth a wnaeth holl barthau'r byd,
A'u lled a'u hŷd terfynol:
Rhew'r gauaf, gwres yr haf, dan go',
Rhoiſt yn eu tro'n waſtadol.

15 Ac a gaiff plant y llwch mor hy
'Nawr gablu'r Gallu hwnnw:
A ddial dim o'r Llaw a'u gwnaeth
Ammharchedigaeth d'Enw?

16 O cofia dy Gyfammod rhad,
A geiriau'th Gariad dien:
N'ad ' adar rheibus dorri i'n bro,
I ladd na blino'th G'lommen!

17 Gelynion yn ein gwaed, pe caent,
A lawenhaent yn ebrwydd:
O pledia'th Achos dros dy blant;
Dôd iddynt feibiant, Arglwydd!

SALM LXXV.

Gallu a Llywodraeth oddi wrth DDUW *yn unig.*

Wedi ei chymhwyfo i 'r Amfer gogoneddus o Gariadhâd Rhydd-did gan y Brenhin WILLIAM, neu Ddyfodiad dedwydd y Brenhin SIOR i'r Orfeddfaingc.

1 I Ti, 'r Goruchel Jôr, i ti
Y dygwn ni ddiolchgar Glod:
Mynega'th Wyrth a'th Ras, O DDUW!
Mor agos yw dy Enw'n bod.

2 'Roedd *Brydain* wedi barnu'n gaeth
Mewn braw, ac aeth ar doddi ' mron:
Pan roddodd Duw un atteg gre'
I ddal colofnau'r deyrnas hon.

3 Ei goron 'fe'i derbyniai o'th Law;
Gwnaeth lw i lywio wrth ddeddfau pur;
A'i fraich ' ymddiffyn achos da,
A'i droed 'fe fathra drawfion wŷr.

4 'Mofyng-

4 'Moſtyngwch, feilchion, mwy i'r llwch;
Ac na 'mddyrchefwch, tra f'oeh byw:
Rhowch heibio'ch ffol feddyliau blin,
Gan adde'r Brenhin a wnaeth Duw.

5 Ni ddaw'r fath barch wrth ddamwain byth;
A'r gwynt ni chwŷth ddyrchafiad mawr:
Duw'r Barnwr cyfyd un heb ball,
A goſtwng arall hyd y llawr.

6 Nid lliw o freiniol waed, trwy drais,
'Ddyd gŵr trahâus ar faingc ein bro:
Duw, Llywydd mawr y ddaear faith,
Ei gyfion Waith a ddengys fo.

7 [Mae ffiol dïal yn Llaw Duw;
Llawn cymmyſg yw o amryw blaau:
Gwna i'r drygionus yfed hon,
A'i holl waelodion, erchyll wae.

8 Duw a ddyrchafa'r cyfion mwy,
A'r beilchion hwy 'fe'i fathra' lawr:
A'u parch a eſyd yn y llwch.
Am hyn molwch ei Enw mawr.]

SALM LXXVI.

Achub Iſräel, *a dinyſtrio'r* Aſyriaid; neu, *Ddïal* Duw *yn erbyn ei Elynion, yn dyfod oddi wrth ei Eglwys.*

1 YN *Juda* gynt adwaenwyd Duw;
Mawr oedd ei Enw yn *Iſrael:*
Yn *Salem* 'roedd ei Orſedd lon,
A'i Drigfa'n *Seion* dawel.

2 Ym mhlith ei Saint 'roedd Moliant Duw;
Dewiſodd fyw yn *Seion:*
Gwrandawai yno'u cwyn a'u cais
Yn erbyn trais gelynion.

3 O *Seion* ei Air erchyll aeth,
A dryllio ' wnaeth y bwa:
Y ſaethau, ffon, a'r cleddyf dur,
A rhyfel gwŷr *Aſyria*.

4 Beth yw teyrnaſoedd daear faith,
Ond bryniau anrhaith trwyddi:
Y bryn lle mae JEHOFA'n byw,
Mwy diſglair yw nâ'r rhei'ni.

5 'Fe, Brenhin *Seion*, 'ſpeiliodd rym
Capteniaid llym, a'u byddin:
Gwŷr cedyrn huno'n angau ' wnaent,
A'u dwylo ni chaent gwed'yn'.

6 Duw *Jacob*, wrth dy Gerydd drud,
Y march a'r cerbyd ſyrthiodd:
Pwy a ŵyr braw dy Wialen drom?
A'th Ddial ffrom pwy ' hadrodd?

7 Pwy ' ſaif o flaen dy Olwg ſynn,
Os unwaith 'nyn dy Ddigter:
Pan fyddo'th fellt trwy'r nef yn gwau,
Y ddaear ſai' mewn pryder.

8 Pan ddelo Duw'n ei Ffyrdd ei hun
I wared dŷn o waſgfa:
Digofaint gŵr a'i mawl, ryw dro,
A'r gweddill 'fo a'u rhwyſtra.

9 [Addêwch i DUW, a thelwch chwi
Bawb deyrnged i'r Gorucha':
Gyr ddychryn ar frenhinoedd byd,
A'u llu hwy ' gŷd 'fe'i dryllia.

10 Taranau ei Geryddon llym
A doddant rym gelynion:
Duw *Jacob* heb ymadael mae,
Ond etto ſai' yn *Seion*.]

SALM

SALM LXXVII. Y Rhan gyntaf.

Triſtwch yn ymoſod, a Gobaith yn llwyddo.

1 GWeddïais Duw, yn brûdd fy llef;
Gyrrais i'r nef f'ymbiliau:
Yn nydd fy nhrallod cyfyng, caeth,
A'r nos pan ddaeth fy ofnau.

2 Triſt oedd y dydd a'r nos i mi;
Fy enaid ni 'mgyſurai:
Er cofio y Duw cyfion da,
Fy meddwl a'm gofidiai.

3 A chwyno bûm, yn brûdd fy mron;
Dechreuai 'nghalon ddryllio:
Fy Nuw, dy Lid a'm blinodd i,
A'm llygaid ni chaent huno.

4 Myn'd 'roedd fy ngofid i fwy-fwy,
Nad allwn mwy lafaru:
Yna i'm cof y gelwais i
Dy Farnau, i'm diddanu.

5 Gelwais yn ol amſeroedd hen,
Pan welais wên dy Wyneb:
Chwiliais a oedd un dirgel fai
A rwyſtrai'th Breſennoldeb.

6 Dy Drugareddau a goffâis,
Y rhai 'fwynhâis i'n felus:
" Ac a fydd Duw ddim etto'n fwyn?
" A'i Wyneb mwy ni's dengys?

7 " A fwr' ef' ymaith fi o hŷd?
" A ball ei 'Ddewid bythoedd:
" A aeth o'i gof ef drugarhâu?
" A ddarfu cau 'myſgaroedd?

8 Ond gw'erddais hyn o feddwl ffol,
Ac anobeithiol dymmer:
Trwy gofio dy Ddeheulaw di;
Yn un yw hi bob amſer.

9 Myfyriaf ar dy holl Ffyrdd maith,
A'th ryfedd Waith caf gofio:
A'th Ras, trwy'r hwn myfi jachaw'd,
Pan fethodd cnawd obeithio.

10 Gras a Chyfiawnder ſydd mewn hedd
Ar Orſedd dy Sanctteiddrwydd:
Ac yn Nhy Dduw ei Feddwl cair,
Lle traethir Gair yr Arglwydd.

SALM LXXVII. Yr ail Ran.

Cyſur yn dyfod allan oddi wrth ben Ragluniaeth; neu, *Waredu* Iſräel *o'r* Aipht, *a'u dwyn i* Ganaan.

1 "DY Wialen, mor ofnadwy yw hon?
(Dy blant a ddichon d'wedyd:)
" Y Mawr, y Doeth, Ofnadwy Dduw!
" Mor ſanctaidd yw'th Ffordd hefyd!

2 Myfyriaf ar ei ryfedd Waith,
Mewn oeſoedd maith aeth heibio:
Gwrandawaf draethu'i Wyrth ar led,
A dyſga' i 'mddiried yntho.

3 Hir jawn y bu ty *Joſeph* dan
Jau'r *Aipht* a'i haneſmwythdra:
Hir y bu Duw heb wrando'u cwyn,
Cyn iddo'u dwyn i orphwyſfa.

4 I'r *Aiphtiaid* 'roedd plant *Jacob* fel
Rhai wedi gadel gantho:
Ond ei alluog Fraich a dd'ai,
Ac a'u rhyddhâi oddiyno.

5 Yſ-

5 *Iſrael*, ei bobl a'i ddefaid byw,
Rhaid dilyn Duw lle ' geilw:
Eirch iddynt fyn'd trwy'r môr â'u gwŷr,
Gwnai'r tonnau'n fur i'w cadw.

6 Duw Mawr, pan ganfu'r dyfroedd di
Yn dyfod i fyn'd troſodd:
I'w hol ciliaſant fel ffrwd gre',
I wneuthur lle i'th fyddino'dd.

7 Rhyfeddol oedd dy Daith trwy'r môr,
Dy Gamrau, Jôr, ni 'dwaened:
Trwy ffyrdd ofnadwy 'rwyt yn dwyn
I'th bobol fwyn ymwared.

8 [Dy Lais ofnadwy drylliai'n drwch
Trwy d'w'llwch a chymmylau:
Y nef gan fellt diſgleirio 'roedd,
A'r ddae'r cyffrôdd gan dyrfau.

9 Dy faethau, aethant hwy o'th law;
Trwy'r wybren draw y treiddient:
Syndod a braw a ddaliai'r byd;
A'th Saint i gŷd ' addolent.

10 O'r graig 'ſe ' roes dw'r iddynt hwy;
A diogel, trwy law *Moſes*:
Arweinai ' braidd trwy'r anail fan
I mewn i'r *Ganaan* gynnes.]

SALM LXXVIII. Y Rhan gyntaf.

Adgoffa Rhagluniaethau Duw; neu, *Ddygiad a Hyfforddiad Plant.*

1 GWrandawed plant y Gwyrthiau gwiw
Y rhai ' wnaeth Duw'n y cynfyd:
A welſom ni'n ein je'ngctid brau,
A'r rhai fu'n tadau'n dd'wedyd.

2 Gorch'mynodd ini draethu'i Glod,
A'i Ras, a'i hynod Allu:
A'i Wyrthiau dygwn ninnau ' lawr
I'r oes ſy 'nawr yn ſwnnu.

3 Ein tafod a'u mynega i'n plant;
A'n plant a'u traethant eilwaith:
Y tad i'r mab, a'r mab i'r ŵyr,
Cl-yn-ol trwy'r genhedlaeth.

4 Fel hyn y dyſgir hwy, bob rhyw,
I gredu'n Nuw yn union:
Fel nac anghofiont byth mo'i Waith,
Ond gwneud ei berffaith Eirchion.

SALM LXXVIII. Yr ail Ran.

Gwrthryfelgarwch Iſrael, *a'u Coſpedigaeth*; neu, *Bechodau a Cheryddon Pobl* DDUW.

1 O, 'R fath dŷ gwrthryfelgar gwael
Oedd plant yr *Iſrael* hwythau:
Anffyddlon o'ent i Ras eu Duw,
A ffals i'w haddunedau!

2 Torraſant ei Gyfammod clau,
Heb briſio'i Ddeddfau euraid:
Anghofient yr holl Wyrthiau rhwydd
A wnaeth yngŵydd eu llygaid.

3 Hwy ' welſant ar yr *Aipht* y plaau
'Anfonodd â'i Law-ddïal:
Arwyddion hyll o'i Allu dig
Aeth dros eu 'ſtyfnig ardal.

4 A gwelſant ef yn hollti'r môr,
Nes iddo agor iddyn':
I'w cadw gwnaeth y dwfr yn fûr,
Nes ffoi rhag gwŷr y gelyn.

5 A cholofn rhyfedd 'fe'u par'tôdd
Mewn ſiriol fodd cyſurus:
I'w cuddio'r dydd yn gwmmwl glân;
A'r nos, yn dân i'w tywys.

6 O'r graig eu di-ſychedu 'wnaeth;
Y dwfr a ddaeth yn ffrydiau:
Megis afonydd wrth eu clun,
Gwaſtadol un o'i Wyrthiau.

7 Er hyn cyffroiſant Arglwydd Nef;
Gwangredent ef i'w cynnal:
" *'All ef' â bara borthi'n gwŷr*
" *Ynghanol tir mor anial?*

8 A chlybu'r Arglwydd hyn i gŷd;
Ennynai'i Lid yn chwerw:
Ei Ddychryn fydd yn barod ſyth
I 'mddiffyn byth ei Enw.

SALM LXXVIII. Y drydedd Ran.

Coſpedigaeth Trythyllwch ac Anghymmedrolder; neu, *Gerydd a Jachawdwriaeth.*

1 PAN bechai *Iſrael*, coſpai Duw,
Nes caent hwy friw a dychryn:
Er hyn mae'n maddeu i'r rhai a gâr;
Rhoes nefol Fara iddyn'.

2 'Fe'u porthodd hwynt â llaw hael jawn,
O'i dryſor llawn a di-brin:
Gwnaeth i gymmylau'r nos, heb baid,
Roi bwyd wrth raid i'r werin.

3 *Manna*, fel cafod fore, a gaed
O gylch eu traed yn gyſſon:
Yd nefoedd oedd, mor bur a da;
Fel 'taſai Fara Angylion.

4 Ond d'wedent mewn tuchanllyd wedd,
" Ein hunig wledd yw *Manna:*
" Ni's mynnwn hwn, y bara gwael;
" Cig rhaid in' gael i'w fwytta.

5 *Chwi a gewch gig i foddio'ch chwant,*
Duw yn ei Sorriant d'wedodd:
Anfonodd ef' ſoſi-jeir fel llwch;
O'u cylch yn drwch 'fe'u tannodd.

6 Rhoes iddynt eu holl gais, heb lai;
A hwy bob rhai'n ymlanw:
Ennynai'i Ddig mewn tanllyd fodd,
A th'rawodd hwynt yn feirw.

7 Pan laddai rai, dychwelai'r byw,
A cheiſient Duw trwy ddagrau:
Galarent dan ei Wialen dro;
Ond clau dros go' 'rai ' hofnau.

8 'Fe a'u ceryddodd lawer gwaith;
Ac eilwaith 'fe'u pardynodd:
Nes iddo'u llwyr-waredu'n wir,
A'u dwyn i'r tir ' addawodd.

SALM LXXVIII. Adn. 32, &c.

Y bedwaredd Ran. Meſur hir.

Gwrthgiliad a Maddeuant; neu, *Goſpi Pechod, ac achub y Saint.*

1 DUW Mawr, ca'dd *Iſrael* broſiad maith
O'th Lid a'th Gariad, lawer gwaith:
Drych i'n calonnau ' wel'd eu hynt,
Mor ffals ac mor anwadal y'nt.

2 Clau aeth o go'r *Juddewon* byw
Y Gwyrth ofnadwy a wnaeth Duw:
Cyffroiſant ef â'u pechod cas;
Heb ofni'i Rym, na choelio'i Ras.

3 Yr

3 Yr Arglwydd treuliai'u hoes mewn poen,
A gwnaeth eu teithiau'n hir di-hoen:
Ffyrdd dyrys maith yr aethant trwy,
Nes treulio'u nerth a'u dyddiau hwy.

4 Pan welent ladd eu brodyr lu,
Trîſtaent, a cheiſient Duw o'u tu:
A galwent ef eu Craig i fyw,
Eu mawr Waredydd hwy, a'u Duw.

5 O'i flaen eu haddunedau doent,
Fel gweniaith neu gelwyddau oe'nt:
Tra bai tymherau cyndyn cas
Yn ffals i'w Ammod ef a'i Ras.

6 Er hyn, o'i Ras maddeuodd Duw
I'r rhai nad oedd yn haeddu byw:
Ei Ddig yn fynych ' ffwrdd 'fe'i trodd,
Neu loſgi ' wnai mewn tirion fodd.

7 Gwelodd eu cnawd yn wan a brau,
A'u temtaſiynau yn amlhâu:
Duw *Abra'm* ' hoffodd hwy, er hyn;
Ac 'fe a'u dug i'w ſanctaidd Fryn.

SALM LXXX.

Gweddi 'r Eglwys dan Orthrymder; neu, *Anrheithio Gwinllan* Duw.

1 O Fugail mawr yr *Iſrael* ryw,
Oedd rhwng Cerubiaid gynt yn byw:
Dy braidd yn ddiogel dygaiſt, Jôr,
Trwy'r holl anialwch, a thrwy'r môr!

2 Mae'th Eglwys 'nawr mewn anial le;
Llewyrcha, tywys hon i dre:
O dychwel ni, moes heddwch mwy;
A'n hachub cawn, heb gwyno'n hwy!

3 Duw

3 Duw Mawr, i'r hwn y plyg lu'r nef,
Pa hŷd y cawn yn driſt ein llef:
Weddio, a diſgwyl gwel'd dy Bryd?
Pa hŷd y llyſg dy erchyll Lid?

4 Dy Saint, yn lle eu bara a'u gwin,
Fe'u porthir hwynt â'u dagrau blin:
O dychwel ni, moes heddwch mwy;
A'n hachub cawn, heb gwyno'n hwy!

Gorphwyſiad I.

5 Duw, plennaiſt di Winwydden ir
A'th Law mewn gwyllt genhedlig dîr:
O'i hamgylch oni ddarfu it' gau,
Ac â gwlith nefol ei dwſrhâu?

6 Fe ddarfu'i changau ſaethu 'ma's,
Bendithio'r bobl â ffrwythau'i Gras:
Ond 'nawr, Duw cu, gwel 'lawr o'r nen
Dy brûdd Winwydden, hawddgar Bren.

7 Paham ſel hyn anffurſiai 'i phryd?
A rhwygaiſt gaeau hon i gŷd:
Gelynion ac eſtroniaid 'nawr,
A phob rhyw fwyſtfil drwg, a'i pawr.

8 Duw Hollalluog, tyr'd yn frau;
N'ad i'th Winwydden byth driſtâu:
O dychwel ni, moes heddwch mwy;
A'n hachub cawn, heb gwyno'n hwy!

Gorphwyſiad II.

9 Duw, pan oedd dy Winwydden hon
Yng *Nghanaan* dîr yn llwyddo'n llon:
Ti oedd Gogoniant hon, a'i grym;
Ni thycciai llaw un gelyn llym.

10 Nes cododd y *Blaguryn* gwiw,
Yn ol Addewid ffyddlon Duw:
(Trwy enau ei Brophwydi llon,
Fu'n d'we'yd y codai'r Gangen hon.)

11 O lwynau *Dafydd* 'nol y cnawd,
O wreiddyn *Jacob* hon a ga'w'd:
Ef' yw'r Winwydden ſydd yn Ben,
A ninnau'r cangau lleia'r Pren.

12 Dy Fab yw hwn, a eiſtedd draw
Mewn Gallu ar dy Ddeheu-law:
Dy Gynfab, bendigedig yw
Yn Nerth a Gras uwch holl Blant Duw.

13 Oh! er ei Fwyn clyw'n llefain triſt;
Llewyrcha ar leſg Eglwyſi *Griſt*:
O dychwel ni, moes heddwch mwy;
A'n hachub cawn, heb gwyno'n hwy!

SALM LXXXI. Adn. 1, 8—16.

Rhybudd Duw *i'w Bobl*; neu, *Fendithion a Choſpedigaethau yſprydol.*

1 CEnwch i'r Jôn yn uchel jawn,
A llafar llawn llawenydd:
Duw yw ein Nerth, a'n Ceidwad hael;
Clyw *Iſrael* ei Leferydd.

2 " F' Addoliad cadw'n lân (medd Duw)
" Oddiwrth bob rhyw au-dduwiaeth:
" Yr Arglwydd wy'r hwn a'th ryddhâi
" O bechod a'i wafanaeth.

3 " Tàn dy ddeiſyfiad ger fy Mron,
" Yn ffyddlon mi ' cyflawna':
" Ond os gwrthodwch y Duw da,
" Os *Iſrael* a'm gwrth'neba;

4 " Mi

4 " Mi a'u gadawaf hwy (medd Duw)
" Yn 'ſglyfaeth i'w trachwantau:
" Cânt fyn'd i'r ffordd beryglus ffol;
" Sef, eu dewiſol lwybrau.

5 " Ond, Oh! na bai fy Saint, dan go',
" Yn gwrando fy Nghynghorion:
" Eu cwyn yn glau a eſmwythâwn,
" A llawenhâwn eu calon.

6 " Rhown i'w gelynion farwol glwy';
" Ond porthwn hwy'n ddigonol:
" Caent gennyf lawer nefol Saig,
" A Dw'r o'u Craig drag'wyddol.

SALM LXXXII.

Duw *y Llywodraethwr pennaf*; neu, *Rybuddio uchel Swyddogion.*

1 YNghymmanfaoedd y mawrion hwy,
Eiſteddfa myn Rheolwr mwy:
Duw'r Nef, fel Barnwr, edrych waith
Y duwiau, barnwyr daear faith.

2 Pa'm y gwnewch ddeddfau drwg? neu pa'm
Y deliwch ' fynu fatter cam:
Pa bryd y feſwch dros y gwan,
Rhag i'r anghyfiawn ddwyn ei ran?

3 Ni wyddant, Arglwydd, ddim pa bryd;
Tywyll yw'r ffordd yr ant ar hŷd:
Ofer eu galw'n dduwiau mwy;
Can's megis dynion trengant hwy.

4 Duw, cyſod; gâd i'th Fab yn awr
Feddiannu Gorſedd nef a llawr:
A llywio 'r bobl â'i Wialen wiw;
Ef' yw ein Barnwr ni, a'n Duw.

SALM LXXXIII.

Achwyniad yn erbyn Erlidwyr.

1 AC a oftega Duw pob Rhad
Yn waſtad, a llonyddu:
'All Duw'r Cyfiawnder fod mewn hedd,
A gado 'i Ddialedd gyſgu?

2 Gwel, fel mae dynion drwg di-râs
Yn tannu 'hatgas rwydau:
Caſeion d'anwyl Saint a thi
Sydd yn cyfodi 'u pennau.

3 Yn erbyn dy ddirgelaidd rai
Mae'n cyngor a'u cyfrwyſtra:
A'u malais gwyliadwrus yw
Am gyfle i'w difetha.

4 Mae'r gwych a'r gwael, yn ddi-wahân,
Yn neidio i'th borfa'n ddibaid:
Y llew a'r aſyn fuſgrell fud
Am ddifa 'nghŷd dy ddefaid.

5 " De'wch (meddant) unwn bawb ynghŷd,
" I'w di-wrâidd o'r byd yma:
" Fel na bo ſon am enw'r Saint,
" Na chaffo'r fraint o'i goffa.

6 Yr Hollalluog Duw, deffrô,
A galw i go' dy Ddigter:
Dôd hwynt fel coedwig grin i'r tân,
Neu ſofl o fla'n gwynt 'ſgeler.

7 Arg'oedda eu hynfydrwydd cas,
Fel am dy Ras 'ymgeiſiont:
Neu hwy a'u dig i g'wilydd dwg,
Fel yn eu drwg y trengont.

8 Yna

8 Yna adnebydd pobloedd mwy
Y gair ofnadwy hwnnw:
Jehofa, 'ruchaf Arglwydd Duw,
Yn unig yw dy Enw.

SALM LXXXIV. Y Rhan gyntaf. Meſur hir.

Hyfrydwch Addoliad cyhoeddus.

1 O H! pa mor dêg a hawddgar yw
Dy Bebyll ar y ddae'r, O Duw:
Mae f'enaid i mewn blys a chwant
Am gwrdd â chymmanfao'dd dy Blant.

2 O fewn dy Dŷ mae 'nghnawd am fyw;
Fy nghalon leſg ſy'n gwaeddi am Duw:
Fy Nuw! fy Mrenhin! pa'm wyf fi
Mor bell o'r lleoedd llon 'rwyt ti?

3 Aderyn to a'r wennol hy
Sy'n nythu draw ynghonglau'th Dŷ:
A ddyru Duw i'r rhai'n 'fath fraint,
A'i phallu'n ſiwr i un o'i Saint?

4 O gwyn eu byd y Seintiau ſy
Yn eiſte' 'nghylch dy Orſedd fry:
Gwel'd yno maent d'Ogoniant maith;
Moli a'th garu yw eu gwaith.

5 Gwyn fyd eneidiau ſy'n cael lle
Yn Nhemlau'th Ras ſydd îs y ne':
Cânt yno wel'd dy dawel Wedd,
A dyſgu'th Fawl, a cheiſio'th Hedd.

6 Gwyn fyd y rhai â'u calon ſy
Yn ceiſio'r ffordd tu a *Seion* fry:
Duw yw eu Nerth trwy'r daith yn ddwys;
Ar *Griſt* eu Priod rhont eu pwys.

7 O nerth i nerth yr ant o hŷd,
Nes cwrddont yn y nef i gŷd:
Yn llon o'th flaen (rai ' fu ym mhell)
I uno mewn Addoliad gwell.

SALM LXXXIV. Yr ail Ran.

Meſur hir.

DUW *a'i Eglwys*; neu, *Ras a Gogoniant.*

1 DUW Mawr, clyw'th Saint yn canu'n llon
Eu mawr orfoledd ger dy Fron:
Gwell treulio un dydd gyd â thi,
Nâ mil mewn bydol freiniol fri.

2 Pe cawn fwynhâu'r lle neſa' 'ma's
O fewn dy Dŷ, O DDUW y Gras:
Nid plaſau teg, a'u pethau tlws,
A hudai ' nhraed i ado'th Ddrws.

3 DUW yw ein Haul ſy'n gwneud ein dydd;
A'n Tarian yw; gwna'n ffordd yn rhŷdd:
Rhag rhuthrau'n holl elynion cas,
Rai oddi mewn ac oddi ma's.

4 Pob rheidiol Ras a ddyry DUW,
A Choron o Ogoniant gwiw:
Nid attal un ddaionus Rodd
I'r rhai a rodiant wrth ei Fodd.

5 O DDUW ein Brenhin! i'r hwn mae
Llu hardd y nef yn ufuddhâu:
A diaflaid ' ffont o'th Wydd, heb fri;
Gwyn fyd a gretto ynot ti.

O SALM

SALM LXXXIV. 1, 4, 2, 3, 10.

Wedi eu heſponio mewn Meſur cyffredin.

Hyfrydwch yn Ordinhadau Addoliad; neu, DDUW *yn breſennol yn ei Eglwys.*

1 FY enaid, pa mor hawddgar yw
Y Lle daw'th DDUW'n breſennol:
Nefoedd yw gwel'd ei Wyneb cu,
Er yn ei Dŷ daearol!

2 Yno cawn wel'd achubol Nerth
Ein Brenhin prydferth nefol:
A rhwyllo ' mewn i'n henaid ni
Bydd ei Oleuni bywiol.

3 Yno y diſgyn *C'lommen* Ne',
A lleinw'r Lle â'i Doniau:
A *Chriſt* yn rhoi ac eglurhâu
Ei Gariad a'i Raſuſau.

4 Duw, yno'r wyt yn traethu'n llon
Ddirgelion dy Ewyllys:
Ac yno ceiſio'th Nawdd a wnawn,
A'th foli cawn yn felus.

Gorphwyſiad.

5 Gwaeddi mae ' nghnawd a'm calon i
Am danat ti a'th Drigle:
Pa bryd, fy Nuw, a'm Ceidwad cu,
'Caf ſengu dy Gynteddau?

6 Cael gwneud ei nyth mae 'deryn to,
Ac yno ymſefydlu:
O gwna fi'n ddedwydd fel efe,
I drigo lle bwy'n caru!

7 Bod

7 Bod un dydd dan yr Olwg dau,
I wrando'th Eiriau grafol:
Yn well nâ thrag'wyddoldeb fydd
Mewn dim llawenydd cnawdol.

8 Gwell gennyf fod ar drothwy'th Dŷ,
A'r *Jefu* yno'n gwarchod:
Nâ llanw'r orfedd wycha'i dull,
Neu fyw ym mhebyll pechod.

9 Pe bawn yn meddu'r tir a'r môr,
Ynghŷd â'u tryfor helaeth:
Am awr ar dy Ddeheulaw di
Mi rhoddwn i hwy ymaith.

SALM LXXXIV. Fel Salm cxlviii.

Hiraethu am Dŷ Duw.

1 ARglwydd y bydoedd fry,
Mor dêg a hawddgar yw
Trigfannau'th Cariad cu,
Mewn byd lle ŷm yn byw:
Tu a'th Babell wiw
Y galon fau
Sydd yn dyhâu
Am wel'd fy Nuw.

2 Aderyn bach y to
A gais i'w gywion le;
A'r wennol ar ei thro
Hiraetha am ei thre:
Mae'r unrhyw chwant
Yn f'enaid byw
Am fod (O Duw!)
Ym mhlith dy Blant.

3 O dedwydd ddynion, fy'n
Gweddïo yn Nhy Duw!

Ac yno'n canu'i Glod
Yn barod yn eu byw:
A dedwydd hwy
Sy'n caru'r ffordd
Tu a *Scion* hardd,
Ni fethant mwy.

4 Hwy ' ant o nerth i nerth,
Trwy'r dyffryn anferth du,
Nes delont bawb ger bron
Eu Duw, yn *Scion* fry:
O hyfryd Le,
Pan ddygo Duw
Ei Blant i fyw
Bawb atto fe!

Gorphwyfiad.

5 Cael treulio ſanctaidd Ddydd
Lle byddo Duw a'i Saint,
Llawenydd gwell a rydd
Nâ mil mewn bydol fraint:
Gwell genn'i o hŷd,
Lle dêl fy Jôr,
Gael cadw'r ddor
Nâ phlaſau'r byd.

6 Duw'n Haul a'n Tarian yw,
Ein Llewyrch gwiw, a'n Grym;
Mae'i Ddwylaw ef yn llawn,
Oddiyno cawn bob dim:
Fe ddyru ef'
I'r *Iſrael* had
Neilldwol Rad,
A Theyrnas Nef.

7 Duw hoffi'i Bobl y mae;
Ni attal ef' ddim da
Oddiwrth ei anwyl rai;
Eu cynnal hwy a wna:

Tra

Tra dedwydd yw
Yr enaid dwys
A roddo'i bwys
I gŷd ar Dduw.

SALM LXXXV. Adn. 1—8.
Y Rhan gyntaf.

Diſgwyl am Atteb i Weddi; neu, *Ddechreu Gwaredigaeth, a'i chyflawni.*

1 ARglwydd, gelwaiſt dy Ras i go';
Troiſt heibio ein Barn drom o'r nef:
Pardynaiſt *Iſrael* y wedd hon,
Gan ddwyn dy gaethion tu a thref.

2 Ti a ddechreuaiſt ein rhyddhâu,
A'th Lid ſy'n llai tu ag attom 'nawr:
Tro'n calon attat yr un pryd,
Cyflawna'th Jechydwriaeth fawr.

3 Bywhâ'n graſuſau, ſy'n ddi-fraw;
Ac ynot llawenhaed dy Blant:
Hyſpyſa'th Wir, gwna'th Air yn llawn;
A'th foli 'wnawn, mae arnom chwant.

4 Diſgwyliwn beth a ddywaid Duw;
'Fe' draetha hedd i'w Bobl o'r nef:
Ond peidient mwy o'i Ffyrdd ef droi,
Rhag ail-gyffrôi'i Ddigofaint ef.

SALM LXXXV. Adn. 9, &c.
Yr ail Ran.

Jachawdwriaeth trwy Griſt.

1 GWIR Jechyd byth yn agos ſydd
I'r rhai trwy ffydd ſy'n ofni Duw:

A Gras a ddiſgyn oddi fry,
Rhydd obaith cry' o 'Goniant gwiw.

2 Trugaredd a Gwirionedd glân
Cwrddaſan' pan ddaeth *Criſt* i'r cnawd:
Trwy ei Ufudd-dod, oedd mor llawn,
Rhoir hedd; cyfiawnder a foddhaw'd.

3 Gwirionedd a llawn Urddas fydd,
Trig Crefydd ar y ddaear driſt:
Dylanwad nef a leinw'n gwlad,
Ym mwyn Deyrnaſiad *Jeſu Griſt*.

4 Ym mlaen aeth ei Gyfiawnder hy,
I roi i ni ddyfodfa at Dduw:
Ein traed ni chyfeiliornant mwy,
Ond cadw'i Gamrau tra fom byw.

SALM LXXXVI. Adn. 8—13.

Cân gyffredinol o Fawl i Dduw.

1 YM mhlith daearol dduwiau ſy,
'Does un â'th Allu ganddo:
Nid yw eu natur, Arglwydd, chwaith,
Na dim o'u gwaith, fel d'eiddo.

2 Y bobloedd oll a wnaethoſt ti,
Dont i'th addoli'n yſtig:
Can's ti ſy'n gwneuthur Gwyrthiau gwiw,
A thi ſydd Duw yn unig.

3 Am rodio'n ſanctaidd yr wyf fi;
Dyſg imi dy Ffyrdd nefol:
Ac una fy meddyliau 'nghŷd,
Fy Nuw, i'th hyfryd ganmol.

4 Mawr yw'th Drugaredd, Arglwydd Naf;
Mynegaf d'Wyrthiau hynod:
Fel y dyrchefaiſt f'enaid gwan,
I'r lan, o uffern iſod.

SALM LXXXVII.

Yr Eglwys Lle Genedigaeth y Saint; neu, *uno* Juddewon *a* Chenhedloedd *yn yr Eglwys Gris'nogol.*

1 DUW, yn ei Demlau ſy'n y byd,
I'w nefol Fawl ſeilfeini dŷd:
Holl bebyll *Jaco* a gâr Duw;
Ond dewis ' mae yn *Seion* fyw.

2 'Fe 'mwêl â'i Nawdd â phob ty ſydd
Yn galw arno nos a dydd:
Ond câr fod yn ei Eglwyſi'n fwy,
I wrando'u Mawl a'u Gweddi hwy.

3 Am *Seion* gynt pa ſon a gair?
Pa ryfeddodau a goffhâir:
Ti, Ddinas Duw, îs nef ſy'n bod,
Clyw *Tyrus* draw a'r *Aipht* dy glod.

4 *Juddewon* a *Chenhedloedd* llon
Cânt ddechreu Bywyd Gras yn hon:
Cân dynion ac Angylion Duw
Am dan y Bryn ' mae'r Dyfroedd byw.

5 Pan wnel Duw gyfrif, ddiwedd byd,
O wladwyr *Seion* hardd i gŷd:
Anrhydedd fydd i un (ger bron)
Ei eni ef, neu'i faethu'n hon.

SALM

SALM LXXXIX.

Y Rhan gyntaf. Meſur hir.

Y Cyfammod a wnaed â CHRIST; neu, *Y gwir* Ddafydd.

1 BYTH caiff fy nghân goffâu a ſon
Am Wîr a Thrugareddau'r Jôn:
Trugaredd byth ſicrhaodd ef'
A'i lân Wirionedd ſel y nef.

2 Tyngodd i'w Fab, gan dd'we'yd, " A thi
" Gwnaed gyntaf fy Nghyfammod i:
" Ynot caiff pechaduriaid fyw;
" Gras rhoddi, a Gogoniant gwiw.

3 " Bydd Brophwyd ac Offeiriad ym';
" Bendithia'i'th Had â Gras a Grym:
" Fy Mrenhin wyt; a'th Orſedd di
" A ſaif byth fel fy Ngorſedd i.

4 " Ni fedd neb o'm holl Feibion fry
" Gymmaint o'm Dull neu'm Cariad cu:
" Llu'r nef ŷnt oll dy ddeiliaid gwâr;
" Pwy a'th gyſtadla ar y dda'r?

5 " *Dafydd*, fy etholedig Was,
" Fu'n cadw 'mhraidd, fu'n coſpi 'nghas:
" I'r orſeddfaingc a godais i,
" Nid oedd ond Teip o honot ti.

6 'Nawr boed i'r Eglwys lawenhâu
Yng *Nghriſt*, ei Phen a'i Phrynwr clau:
Cenwch ei Wyrth, Angylion fry,
A'r Seintiau ar y ddaear ſy.

SALM

SALM LXXXIX.

Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Ffyddlondeb Duw.

1 FY nghân i byth a gaiff goffâu
Am Drugareddau'r Arglwydd:
Mor ffyddlon yw ei Air, heb gel,
Caiff' oes a ddêl hyſpyſrwydd.

2 Ei ſanctaidd Wirioneddau glân
Fel nef parhân' yn hollol:
Ac os rhydd ef' Addewid lawn,
Siwr fydd y Dawn trag'wyddol.

3 O gy'd y cadd hil *Ddafydd* fod
Ar orſedd hynod *Juda:*
Ond ſeliwyd gwell Cyſammod fry
I'r *Jeſu*, ei Fab mwya'.

4 Can's yn dragywydd ei Had ef
Ar Orſedd Nef teyrnaſant:
A'r deiliad lleia'i Ras, yn wir,
A godir i Ogoniant.

5 Duw'r Lluoedd, fry mae Seintiau fyrdd
Yn canu'th Ffyrdd rhyfeddol:
A Seintiau ar y ddae'r a gân
Dy Gariad annewidiol.

SALM LXXXIX. Adn. 7, &c.

Yr ail Ran.

Gallu a Mawrhydi Duw; neu, *Addoliad parchus.*

1 DE'wch, Seintiau, gyd â pharch yn rhwydd
O flaen yr Arglwydd plygwch:

Gwran-

Gwrandêwch ei Air, a'i uchel Arch;
Mewn ofn a pharch addolwch.

2 D'Ogoniant mor ofnadwy yw!
Mor diſglair (Duw) yw'th Luoedd:
Pwy fel tydi' fath Nerth a fedd?
A'r fath Wirionedd cyhoedd?

3 Y gogledd a'r deheubwynt draw
A ddeil dy Law yn ddi-gryn:
Wrth d'Arch try dydd a nos, yn wir,
O'r dwyrain i'r gorllewyn.

4 A'th Air rheoli'r gwynt ar frŷs,
A'r moroedd ſtormus obry:
Gwna i'r tonnau cyſgiyd ruo'n faith,
Ac eilwaith i lonyddu.

5 Nef, dae'r, a môr, ŷnt d'eiddo' gŷd,
A'r tywyll fyd uffernol:
Dangoſaiſt Fraich dy Ddial, Jôr,
I'r *Aipht* oedd mor wrth'nebol!

6 Jawnder a Barn yw'th Oriedd wiw;
Mawr etto yw'th Raſoldeb:
Gwirionedd a Thrugaredd lon
A'n gwa'wdd ger bron dy Wyneb.

SALM LXXXIX. Adn. 15, &c.
Y drydedd Ran.

Efengyl fendigedig.

1 GWYN fyd y rhai a 'dwaenant lais
Y 'Fengyl fwyngais dirion:
Yn Heddwch a Goleuni Duw
Y rhodia'r cyfryw ddynion.

2 Llawen-

2 Llawenydd cwyd eu hyſpryd triſt,
Trwy Enw *Criſt* (ſydd benna') :
Yn ei Gyfiawnder credant hwy ;
Nid *Satan* mwy a'u damnia.

3 Yr Arglwydd yw ein Noddfa glyd ;
Rhydd Nerth a Jechyd dwyfol :
Iſrael, dy Frenhin byth fydd byw ;
Teyrnaſa'th Dduw'n drag'wyddol.

SALM LXXXIX. Adn. 19, &c, Y bedwaredd Ran.

Teyrnas gyfryngol Criſt ; neu, *ei Natur ddwyfol a dynol.*

1 DUW'r Tad hyſpyſu 'i Ras a wnaeth,
Mewn gweledigaeth dywaid :
" Ar fy Mab cadarn dodais i
" Eich Cymmorth chwi, drueiniaid.

2 Hwn ' ddarfu i'm Doethineb gwiw
'Mhlith dynol-ryw ei ethol :
Enneiniais ef â'm Holew pur,
Yſpryd fy ngwir Ras nefol.

3 Ar orſedd *Dafydd* mi a'i ſicrhâf
I'm pobl yn bennaf Llywydd :
Fy Mraich a blyg ' elynion 'fo ;
Dwg ddeiliaid iddo o newydd.

4 Trugaredd a fydd wrth ei Glun,
A'm Gwir fy hun a'i tywys :
Wrth farchog ' trwy y tir a'r môr
Yn f'Enw orfoleddus.

5 Efe a'm haddef i'n ddi-wâd
Ei Dduw a'i Dad trag'wyddol :
Geilw fi'n Graig, a'i Drigfan gref ;
Cynhaliaf ef yn hollol.

6 Mewn

6 Mewn Gwiſgoedd Gras fy Nghynfab daw
Ar fy Neheulaw ' eiſtedd:
Angylion a brenhinol Blant
A blygant wrth ei Orſedd.

7 Byth ſicr y ſaif fy Ammod hon,
A'm Haddewidion dedwydd:
Fe bery 'i Had a'i Orſedd e'
Fel dyddiau'r ne'n dragywydd.

SALM LXXXIX. Adn. 30, &c.
Y bummed Ran.

Y Cyfammod Gras yn anghyfnewidiol; neu, *Gerydd heb Wrthodiad.*

1 OND os had *Dafydd* (medd Duw mad)
Plant fy Mab rhad a dorrant:
Fy Neddfau glân, i'm digio'n fawr,
A themtio ' lawr fy Sorriant;

2 A gwialen mi ' ymwela' â'u bai,
Eu ffoledd gwna' i ddolurio:
Er hyn ni pheidiaf fod yn Dduw
I'r cyfryw, wedi addo.

3 Ni alwa'i 'nol mo'm Hammod byth;
Fy Ngras di-lyth a gofia':
A'r hyn a ddaeth o'm Genau pur,
Trag'wyddol Wir a'i rhwyma.

4 Tyngais un-waith (nid rhaid im' mwy)
A hynny trwy'm Sanctеiddrwydd:
Y cai f'Addewid ei chwplâu
I *Ddafydd* a'i had hylwydd.

5 Yr haul a wêl ei had o hŷd
Trwy'r holl-fyd yn ymdannu:

Cy'd

Cy'd y bo'n teithio cylch y ne'
O le i le'n llewyrchu.

6 Siwr, fel y lleuad fy'n y nef,
Ei Deyrnas ef a bery:
Nes delo'r amſer pan ni bydd
Na nos na dydd ond hynny.

SALM LXXXIX. Adn. 47, &c.

Y chweched Ran. Meſur hir.

Marwolaeth a Gobaith.

Salm Angladd.

1 O Arglwydd! cofia'n marwol ſtad,
Mor fŷr yw'n bywyd ei barhâd:
O berchen anadl p'le mae'r gŵr
Dïangol ſydd, rhag angau'n ſiwr?

2 Wrth wel'd rhai'n meirw o ddydd i ddydd,
Fe lef ein cnawd a'n rheſwm prûdd:
"Ai byth' teyrnaſa angau byw?
"Ai'n ofer gwnaethoſt ddynol-ryw?

3 P'le mae d'Addewid di i'th Saint?
On'd troi yn llwch a lludw maent:
Ond ffydd ſy'n gwa'rdd fath feddwl gwan,
A gwel eu llwch yn codi i'r lan.

4 Ardderchog Ddydd (mawr fydd y Fraint)
Fe ſychir gw'radwydd yr holl Saint:
A chyfiawnhâir dy Eiriau gwiw;
Deffrôwch ein henaid, molwch Dduw.

SALM LXXXIX. Adn. 47, &c.

Y Rhan ddiweddaf. Fel Salm cxiii.

Bywyd, Marwolaeth, a'r Adgyfodiad.

1 O Cofia, Duw, am egwan ddyn,
Mor fyrred yw ei oes a'i ffun!
Byr jawn i gŷd o'r crud i'r bedd:
Pwy a all dïogelu'i oes
Yn erbyn angau llym ei loes,
Neu ddïangc rhagddo mewn un wedd?

2 Ai byth, O Arglwydd! y cair d'we'yd,
" I ddŷn yn unig gael ei wneud
" I glefyd, poen, a llwch di-fraint:
On'd yw dy blant, o ddydd i ddydd,
Yn myn'd i'w beddau, troi yn bridd?
Pa le mae'th Gariad di i'th Saint?

3 Oni addewaiſt i'th Fab rhad
Nefolaidd Goron, ac i'w Had?
Ond cnawd a rheſwm fy'n gwanhâu:
Bendithio'r Arglwydd byth a wnair,
Fod ffydd yn gallu darllain d'Air,
A gwel'd yr Adgyfodiad clau.

4 Bendigaid fyth fo'r Jôn, yn wir,
Sy'n rhoi i'w Saint fath Wobrwy hir,
Am eu byr waith, a'u poen îs nen;
Llu'r nefoedd fry, a daear lawr,
Cydro'wch i maes ei Gariad mawr;
Ac uchel-ſeinied pawb, *Amen.*

SALM

SALM XC. Meſur hir.

Dŷn yn farwol, a Duw *yn dragywyddol.*

Cân alarus mewn Angladd.

1 TYDI ' mhob oes, Duw Mawr y Nef,
Wyt ini'n Graig a Thrigfan gref:
Yn uchel 'roedd dy Orſedd fawr,
Cyn gwneuthur nef neu ddaear lawr.

2 Cyn dim, teyrnaſu 'ro'it dy hun,
Cyn gwneuthur llwch ar agwedd dŷn:
A phery'th Deyrnas etto'n hwy,
Pan na bo'r byd nac amſer mwy.

3 Ond och! i farw genir dŷn;
Can's gwag ac euog yw pob un:
Dy Farn (O Arglwydd!) cyfion yw;
" *Pr llwch dychwelwch, ddynol-ryw.*

4 [Mil o'n blynyddau hwyaf ni
Prin ŷnt un dydd i'th Olwg di:
Fel doe aeth heibio, hwynthwy ſydd;
Neu wylfa nos, pan ddêl y dydd.

Gorphwyſiad.

5 Marwolaeth ſydd, fel dirfawr li',
Yn 'ſgubo ' ffwrdd ein bywyd ni:
Sydd chwedl gwag, neu freuddwyd brau;
Llyfieuyn gwan, a wywa'n glau.]

6 [I'n hoedran faith deng mlwydd a roed;
Mor frau yw'r oes! mor fyr yw'r oed:
Ac os i wyth deng mlwydd yr awn,
Ochn'eidio'n fwy nâ byw y wnawn.

7 Ond, Oh! mor fynych mae dy Lid
Yn torri'n hoes cyn cyrhaedd cy'd:
Gwna'th Lid ni ' grynu o bob gradd;
Ac ofni'r Llaw ſydd yn ein lladd.]

8 Duw, dyſg in' wel'd mor frau yw dŷn;
Ac eſtyn etto'n hoes a'n ffun:
Hyd pan gymhwyſo Gras nyni
I farw, a byw gyd â thi.

SALM XC. Adn. 1—5.

Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Dŷn yn freuol, a Duw *yn dragywyddol.*

1 EIN Duw, ein Porth mewn oeſoedd maith,
A'n Gobaith yn ganlynol:
Ein Gwaſgod rhag y dymmeſtl gref,
A'n Cartref yn drag'wyddol.

2 Dan gyſgod d'Orſeddfaingc, heb gel,
Bu'th Saint yn diogel drigo:
Digonol yw dy Fraich ei hun
Byth i ymddiffyn d'eiddo.

3 Cyn caffael o'r mynyddoedd maith,
Na'r ddaear 'chwaith ei llunio:
O drag'wyddoldeb ti wyt Duw,
Hyd byth y cyfryw etto.

4 Dy Air a yrr ein cnawd i'r llwch,
" *Dychwelwch, feibion dynion:*
Daeth pawb o'r ddaear gynt un-waith;
Tront eilwaith i'r un moddion.

5 I'th Olwg mil o flwyddau llawn
Ynt fel prydnhawn ' aeth heibio:
Byr ydynt, fel yr wylfa ſydd
Ar fore-ddydd yn paſſio.

6 [Holl lwythau cig a gwaed, o'i bron,
A'u holl drafferthon yma:
Angau a'u dwg i'r llwch yn llwyr;
Ni's gwelir hwy'r oes nesa'.

7 Mae amser, fel llif mawr, neu don,
Yn dwyn ei feibion gantho:
Mewn anghof darfod maent yn swrth,
Fel breuddwyd wrth ddihuno.

8 Y bobloedd sydd fel blodau'r maes,
Y bore gwyrdd-laes fyddant:
Tan law'r pladurwr, cyn prydnhawn,
Yn fuan jawn y gwywant.]

9 Ein Duw, ein Porth mewn oesoedd maith,
A'n Gobaith yn ganlynol:
Mewn ing bydd ini'n Noddfa gref,
A'n Cartref yn drag'wyddol.

SALM XC. Adn. 8, 11, 9, 10, 12.
Yr ail Ran. Mesur cyffredin.

Gwendidau a Marwolaeth yr Effaith o Bechod; neu, *Fywyd, Henaint, a Pharotoad erbyn Angau.*

1 OS rhifi'n beiau oll, Duw Ner,
Ac i'th Gyfiawnder sorri:
Fe lysg dy Lid ofnadwy di
Tu hwnt ŷm ni'n ei ofni.

2 Dy Ddig sy'n troi ein cyrph i'r llwch,
Am bechod trwch gwrthwyneb:
Fe gollodd *Adda* a'i eppil wan
Eu dedwydd anfarwoldeb.

3 Bywyd a ffy fel chwedlau ffol,
Neu gerdd neu garol di-fudd:
Ein natur ſydd yn marw'n glau,
Byr jawn a brau'n llawenydd.

4 Rhai ſy'n cyrhaeddyd, yn ddi-freg,
Dri'gain a deg o flwyddau:
A'r cyfan, dros y cyfrif hwn,
Sydd flinder, pwn o boenau.

5 Duw Mawr, datguddia'th Serch, ac nid
Dy erchyll Lid yn unig:
Rho brofiad melus ini'n frau
O'th Drugareddau diddig.

6 Dymunem gael dy nefol Ddawn
I dreulio'n jawn ein horiau:
I weithio'n ddoeth tra bônt yn llaw,
I fyw tu draw i angau.

SALM XC. Adn. 13, &c.
Y drydedd Ran. Meſur cyffredin.

Hiraethu am y Nefoedd.

1 DUW'r Cariad, attom dychwel di;
Lle blin i ni yw'r ddaear:
Pa hŷd y cwyna'th blant, fod heb
Dy Breſennoldeb hawddgar?

2 Boed nef in' wedi'n poenus daith,
A'n blinder maith a ddarfydd:
Yn ol ein dagrau blin a'n pla,
Duw Mawr, amlhâ'n llawenydd.

3 I'th weiſion dangos d'Wyrthiau maith,
Cyflawna'th Waith ſydd ynom:
Yna cawn wel'd d'Ogoniant mawr,
A'th Gariad dirfawr attom.

4 Cawn,

4 Cawn, yn dy holl Brydferthwch glân,
Ryw bryd o'th fla'n ddiſgleirio:
A'r tlawd waſanaeth ' wnaethom ni,
A fydd i ti wobrwyo.

SALM XC. Adn. 5, 10, 12.

Meſur byr.

Breuoldeb a Byrdra ein Bywyd.

1 DUW, pa fath ddarn ddi-nerth
Yw'n dull di-'madferth llerw:
Pa beth mor dlawd a'n bywyd gwael?
Prin haeddai gael yr enw!

2 Och fi, ein priddlyd gnawd,
Yr hwn a ga'w'd o'r ddae'ren:
Bob mis, bob dydd ac awr o'i trwch,
Mae'n troi i'r llwch drachefen.

3 Mae'n horiau'n ffoi ar frys;
Nid erys un fynudyn:
A'n dyddiau chwyrn, fel llifddwr maith,
A'n dwg ni ymaith ganthyn'.

4 Os rhaid i'n dyddiau ffoi,
I'n golwg byddo'u terfyn:
Yn ffyrdd doethineb treuliwn hwy,
A bryſient fwy-fwy wed'yn'.

5 Troſglwyddant ni yn gynt
Dros for ein helynt ſtormus:
Cawn dirio'n glau mewn tawel fyd
Trag'wyddol Fywyd happus.

SALM

SALM XCI. Adn. 1—7.
Y Rhan gyntaf.

Dïogelwch mewn Clefydon a Pheryglon cyhoeddus.

1 'SAWL a wnaeth Duw ei Noddfa gref,
A drig yn ddiogel gyd ag ef:
Caiff dan ei Gyſgod rodio'r dydd,
A'r nos yn gorphwys yno bydd.

2 Am hynny d'wedaf, " Duw, dy Rym
" Fydd Dŵr ac Ymddiffynfa ym':
" O egwan Lwch y lluniwyd fi;
" Mi gredaf i'th Fraich gadarn di.

3 Tra dedwydd ddyn! a gatwo Duw
Rhag maglau'r heliwr (*Satan* yw:)
Sydd yn bradychu llawer myrdd
O 'neidiau diofal fil o ffyrdd.

4 Fel y mae'r jar yn cadw'n jach
Rhag adar drwg ei chywion bach:
Dan nawdd ei phlyf; fel hyn mae Duw
A'i Fraich yw cadw'i raſol ryw.

5 Os pyſt yr haul y dydd, neu'u gwres,
A ſaethant heinus dân, neu des:
Duw yw eu Nawdd, a'i Aden e'
A'u ceidw hwynt mewn jachus le.

6 Os cyfyd drwg-darth ganol nos,
A pheri i lawer angau-loes:
Caiff *Iſrael* yn ddïogel fyw;
Bydd awyr jach lle byddo Duw.

Gorphwyſiad.

7 Pe trengai mil wrth d'yſtlys draw,
A dengmil ar dy ddeheu-law:

Ei

Ei ddewis bobl a geidw Duw
Ym mhlith y meirw a'r beddau'n fyw.

8 Fel pan anfonodd ef' i lawr
I'r *Aipht* ei Angel mewn llid mawr:
A lladd eu meibion hwy a wnaeth,
Ond heibio ' ddryfau *Iſrael* aeth.

9 Ond os cenhada Duw i'r haint,
Neu'r tân, neu'r cleddyf, daro'i Saint:
Ym mhlith y lleill o ddynol-ryw;
Eu poen a'u hangau dedwydd yw.

10 Y cleddau, 'r haint, a'r tân, ni wna
Ond cwplâ'u dymuniadau da:
O ing a phechod eu rhyddhâu,
A dwyn dy blant i'r nef o'u plaau.

SALM XCI. Adn. 9—16.
Yr ail Ran.

Ymddiffyniad rhag Angau, Cadwraeth Angylion, Buddugoliaeth a Gwaredigaeth.

1 CHWI feibion dynion egwan, fy'n
Agored i bob magal:
De'wch, gwnewch yr Jôn eich Trigfan gref;
Rho'wch arno ef eich gofal.

2 Lle trigoch chwi, dim drwg ni ddaw;
Ac os ger llaw bydd heintiau:
Yn 'ſgubo'r drwg i uffern ddu,
Cyfodant ' fynu'r Seintiau.

3 Gorchymyn i'w Angylion mad
I gadw'ch tra'd rhag tramgwydd:
A'ch gwylio'r nos ar eich gwel'au,
A'r dydd rhag drygau ' ddigwydd.

4 Eu dwylo'ch dwg, rhag ſyrthio'n ſwrth,
A dryllio wrth y meini:
On'd gweiſion ŷnt, pan alwo ef',
A ddont o'r nef i'ch gweini?

5 Ar ſeirph a llewod ſathru 'wnewch;
A *Satan* cewch ei faeddu:
A ddrylliodd ben y ſarph trw'i Waed,
Ef dan eich traed a'i dyry.

6 " Am roi'u ſerch arnaf (Duw a dd'wed)
" Myfi a'u gwared hwythau:
" Dygaf eu henaid llon uchlaw
" Diſtryw a braw y cleddau.

7 " Pan alwont hwy, eu hatteb gwnaf;
" Mewn ing y byddaf barod:
" Pan gwympont, mi a'u helpiaf mwy,
" A chodaf hwy o'r beddrod.

8 " 'Sawl 'edwyn yma f'Enw da,
" Mi a'u mawrhâ'n y nefoedd:
" Cânt wel'd fy Jachawdwriaeth ddrud,
" A meddu Bywyd bythoedd.

SALM XCII. Y Rhan gyntaf.

Salm ar Ddydd yr Arglwydd.

1 GWaith hyfryd jawn a melus yw,
Moliannu d'Enw di, O Dduw:
Son am dy Gariad fore glas,
A'r nos am Wirioneddau'th Ras.

2 Melus yw Dydd y *Sabbath* llon;
Na flined gofal byd mo'm bron:
O na bai 'nghalon i mewn hwyl
Fel telyn *Ddafydd* ar yr Wyl!

3 Yn Nuw fy nghalon llawenhâ;
Bendithio'i Waith a'i Air y wna:
Mor hardd yw gwaith dy Ras, O Dduw!
A'th Gyngor, pa mor ddyfned yw!

4 Ynfydion deall hyn ni chânt;
Fel 'ſgrubliaid, byw a marw 'wnant:
Maent fel llyſieuyn teg ei wawr,
Nes chwythech hwy i ddiſtryw 'lawr.

5 Ond mi 'gaf ran o 'Goniant fry,
Pan buro Gras fy nghalon gu:
Mae gwir lawenydd uwch y nen,
Fel olew pur, i lonni 'mhen.

6 Pechod (fy ngelyn gwaetha' o'r bla'n)
Ni flina 'nghluſt, na'm golwg lân:
Fy holl elynion, lleddir hwy;
A'm heddwch ni thyr *Satan* mwy.

7 Caf wel'd a chlywed yno 'nghŷd
Oll a ddymunais yn y byd:
A'm henaid a gaiſt melus waith
Yn y trag'wyddol Fywyd maith.

SALM XCII. Adn. 12, &c.

Yr ail Ran.

Yr Eglwys yw Gardd Duw.

1 PETH hyfryd jawn yw bod a byw
Mewn Gardd a blennaiſt di, O Dduw:
Gwna fi, o fewn Cynteddau'th Ras,
Fel teg gedrwydden iraidd las.

2 Trwy'th Fendith yno (mawr yw'r Fraint)
Mewn Ffydd a Chariad tyf dy Saint:
Nid *Libanus* a'i goedwydd gwych
Sydd debyg oll mor hardd ei ddrych.

3 Plan-

3 Planhigion Gras byth byddant fyw;
(Adfeilia Natur, tyf Gras Duw:)
Mewn amſer methu mae pob peth;
Ond hwy ' flodeuant yn ddi-feth.

4 Mewn henaint, wrth eu ffrwythau llawn,
Dangoſant fod Duw'n gyfiawn jawn:
Ni chaiff a wylio wrth Borth Duw,
Byth dd'wedyd, mai anffyddlon yw.

SALM XCIII.

Y tragywyddol a'r uchel DDUW.

1 JEHOFA ſy'n teyrnaſu o hŷd;
Mawrhydi a Nerth mae'n wiſgo 'nghŷd:
Y byd yr hwn a greawdd ef'
Sicrhaodd ar ei ſeilfaen gref.

2 Ond cyn eriôed wneud y byd crwn,
Neu oſod feilfaen gynta' i hwn:
Er oeſoedd 'roedd dy Orſedd wiw,
A'th hun y bythol fywiol DDUW.

3 Fel llif mae llidiog bobl y byd
Yn erbyn nef yn cyffrô 'nghŷd:
Lif gwag, ymgodi c'uwch nid gwiw!
Paid tonnau'r môr wrth Gerydd Duw.

4 Dy Orſedd-faingc a bery byth;
A'th lân Addewid ſaif yn ſyth:
Sancteiddrwydd hefyd byth (O Dad!)
A weddai i Gynteddau'th Rad.

SALM

SALM XCIV. Adn. 1, 2, 7—14.

Y Rhan gyntaf.

Ceryddu'r Saint, a dinyſtrio Pechaduriaid; neu, *Gyſtuddiau addyſgiadol.*

1 O Dduw! ti biau'r Dial prid,
Ar led dy Lid cyhoedda:
A'th Allu adgyweiria'n eam;
Tâl feilchion am eu traha.

2 D'we'yd maent, "*Ni wêl ac ni chlyw'r Jôn*;
Och, na baent doethion ffyliaid:
Ai byddar ydyw ef, a dall,
'Wnaeth cluſt heb ball, a llygaid?

3 Gŵyr wacced yw eu tybiau drwg;
Cânt deimlo'i Wg yn chwerw:
Eu henaid, mewn diſymmwth awr,
A blinder mawr 'fe'u lleinw.

4 Ond os yw'th Saint yn haeddu ſen,
Mae mwynach Gwialen eiddod:
Dy Ragluniaethau a'th Lyfr di
A'u dygant i'th adnabod.

5 Gwyn fyd y gŵr a goſpech di,
I'w ddwyn ef i'th Waſanaeth;
Dy Wialen dyſg hi'n ddoeth dy Blant,
Os gado' wnant dy Gyfraith.

6 Ond Duw ni wrthyd byth mo'i Saint;
Ni phall un Fraint 'addawodd:
'Fe' faddeu feiau'i Blant, yn ſiwr,
Er mwyn y Gŵr a'u prynodd.

SALM XCIV. Adn. 16—23.
Yr ail Ran.

Duw *ein Cynhaliwr a'n Cyfur*; neu, *Ymwared oddi wrth Brofedigaeth ac Erlidigaeth.*

1 PWY 'gwyd a dadleu f'achos pur
Yn erbyn drygwyr diffaith:
Llu'r ddaear hon ac uffern hy
Sy'n cyd-wrth'nebu 'ngobaith.

2 Oni b'afai i Dduw o'r nen
Ddal f'egwan ben i fynu:
Trigafai f'oes a'm henaid llon
Ym mhlith y meirwon obry.

3 *Och!* gwaeddais, *llithro mae fy nhra'd!*
D'Addewid rad a'm daliodd:
Dy Ras oedd agos, ac o'm tu;
Dy Yfpryd cu a'm cododd.

4 Pan fo i'm mynwes i yn gwau
Lu o feddyliau trymion:
Dy Gariad mawr fy'n maddeu 'mai,
Nes llawenhâu fy nghalon.

5 Gall plant anwiredd lunio'n dyn
Gam ddeddfau'n erbyn f'einioes;
Ond Noddfa im' yw Brenhin Nef;
Ymddiffyn ef' fy achos.

6 Gadêwch i falais lidio ar led,
A gwawdied cablwyr diffaith:
Yr Jôn a farna'r beilch ar fyr,
A'r drwg 'fe'i tyr ef ymaith.

SALM

SALM XCV. Meſur cyffredin, allan o'r Meſur byr.

Salm o flaen Pregeth.

1 DE'wch, ſeiniwch bawb ei Fawl ar led,
A Hymnau o Deyrnged dygwch:
JEHOFA yw ein huchel DDUW,
A'n Brenhin yw; clodforwch.

2 Y dyfnder a wnaeth ef' ein Jôr,
A rhoes i'r môr derfynau:
Y dyfroedd oll ŷnt eiddo 'fo,
A'r ſychdir bro a bryniau.

3 De'wch wrth ei Faingc, i 'ddoli'n rhwydd;
O flaen yr Arglwydd plygwch:
Ei Waith ef ŷm, nid eiddo'n hun;
'Fe'n gwnaeth bob un, gwybyddwch.

4 Gwrandêwch ei Lais ef heddyw'n dda,
A'i Wialen na chynhyrfwch:
De'wch, fel ei ddewiſedig ryw,
Eich graſlawn DDUW addefwch.

5 Ond os eich cluſtiau wrthyd Jaith
Ei 'Fengyl, Araith raſol;
A'ch calon g'ledu yn y fan,
Fel *Iſrael* anghrediniol;

6 Yr Arglwydd, mewn Dialedd draw,
A gwyd ei Law, gan dyngu:
" *Di'ſtyr'ſoch fy Ngorphwyſfa lân,*
" *Ni chewch ddim cyfran ynthy.*

SALM XCV. Adn. 1, 2, 3, 6—11.

Meſur hir.

Colli Canaan *trwy Anghrediniaeth*; neu, *Rybudd i Bechaduriaid a fyddant yn oedi dychwelyd.*

1 DE'wch, cyd-ddyrchafwn bawb ein Cân
O ſanctaidd Glod i'n Harglwydd glân:
Duw ſydd yn Frenhin uchel jawn;
Ei Urddas ar ein Cerdd coffhâwn.

2 De'wch, ac addolwn Duw'n gyttûn,
Yr hwn a'n gwnaeth â'i Air ei hun:
Ei ddefaid ŷm, a'n Bugail yw,
Ac ar ei borfa'r ŷm yn byw.

3 De'wch, heddyw ar ei Lais gwrandâwn,
Ac i'w Gynghorion ufuddhâwn:
Na foed i'n calon galed gau,
Fel *Iſräel*, ddwyn arnom blaau.

4 *Iſrael*, er gweled Gwaith ei Ras,
Temtiaſant ef â'u pechod cas:
Anffyddlon, anghredimiol ryw,
Blinaſant hir Amynedd Duw.

5 Fel hyn medd Duw; "*Anffyddlon ŷnt!*
" *Anghofio'm Nerth a'm Cariad gynt:*
" *Dibriſiant ſy Ngorphwyſfa lon;*
" *Mi dyngaf nad aut byth i'hon.*

6 [Mewn braw, ſy enaid, edrych 'nol;
Gwel ddiwedd gwrthryfelwyr ffol:
Tr'o'n cynnyg, derbyn heddyw'i Ras;
Na choll mo'r lles, trwy oedi'n lla's.

7 Dal

7 Dal afael ar Addewid Duw;
Tu a *ſeiom* byrth dos, f'enaid byw:
Cred, cymmer yn Orphwyſfa ddrud;
Ac ufuddhâ, bydd gwyn dy fyd.]

SALM XCVI. Adn. 1, 10, &c.

Meſur cyffredin.

Y cyntaf ac ail Ddyfodiad Criſt.

1 CEnwch i'r Arglwydd, wledydd maith,
Pob llwyth, pob jaith lleferydd:
Ei newydd-ddatguddiedig Rad
Sy'n gofyn Caniad newydd.

2 Wrth bobloedd d'wedwch, Mab Duw ſy
'N teyrnaſu fry mewn Mawredd:
Y byd rhag ſoddi 'ſe'i ſicrhâ,
A Gras 'amgylcha'i Orſedd.

3 Cyhoedded nef y Dydd mawr llon;
Boed trwy'r ddae'r hon lawenydd:
Diſgleiried holl ddinaſoedd Cred,
A llawenh'ed y maeſydd.

4 Trwy 'nyſoedd pell y môr, un wedd,
Boed mawr orfoledd hylwydd:
Pob bryn a phant, cyd-waſtadhêwch,
Ffordd barod gwnewch i'r Arglwydd.

5 Wele, mae'n dyfod 'nawr i'n plith,
A Bendith a Thrugaredd:
I ddangos ei Gyfiawnder clau
I'r bobloedd, a'i Wirionedd.

6 Ond pan fo'i Lef yn galw'r byd,
A'r meirw 'gyd i fynu:
Och, fel yr ofna'r euog rai,
A 'ſe'n nesâu i'w barnu!

SALM XCVII. Adn. 1—5.

Y Rhan gyntaf.

Criſt *yn teyrnaſu yn y Nefoedd, ac yn dyfod i'r Farn.*

1 TEyrnaſu mae ein Prynwr glân;
Rho'wch Fawl mewn eſangylaidd Gân:
Boed i'r holl ddaear lawenhâu,
A 'nyſoedd pell gyttuno'n glau.

2 Dwfn jawn yw ei Gynghorion ef;
Deil Gras a Gwir ei Orſedd gref:
Er t'w'lled yw ei Ffyrdd di-lyth,
Cyſtawnder yw eu ſeilfaen byth.

3 Mewn gwiſgoedd barn daw Mab y dŷn;
Hyllt y beddau, a'r ddaear crŷn:
O'i flaen y llyſg tân yſol cry',
Pob bryn a dawdd, a'r môr a ffy.

4 Mewn dychryn ei elynion fydd
Yn ffoi o'i Wydd, gan ofni'r dydd:
Ond codwch, Saint, eich pennau'n glau;
Can's mae'ch Ymwared chwi'n nesâu.

SALM XCVII. Adn. 6—9.

Yr ail Ran.

Cnawdoliaeth Criſt.

1 YR Arglwydd daeth, cyhoedded nef
Ei Enw, a'i Enedigaeth ef:
Cyfrwyddo'r ffordd mae Seren ſyw,
I ddwyn y Doethion at eu Duw.

2 Holl

2 Holl ddiſglair dyrfa'r nefoedd fry,
Ewch i addoli'ch Prynwr cu;
Brenhinoedd ac Angylion nef,
A'r duwiau oll, addolwch ef.

3 Boed i eilunod ſyrthio 'lawr;
Ac i'w haddolwyr wridio'n fawr:
Ond caned *Juda* o *Seion* ſyw;
Can's Brenhin mawr y ddaear yw.

SALM XCVII. Y drydedd Ran.

Gras â Gogoniant.

1 YR Arglwydd yn teyrnaſu ſy
Dros ddaear faith, a'r nefoedd fry:
Er bod cymmylau'n cuddio'i Dra'd,
Ei Drigfan yw Gorſeddfa'i Rad.

2 O chwi ſy'n caru'i Enw glân!
Casêwch ddrygioni, fawr a mân:
Eneidiau'i Saint 'fe'u ceidw'n gu.
Oddiwrth holl faglau uffern ddu.

3 Goleuni a Llawenydd gwiw
Mewn t'w'llwch hauwyd i Blant Duw:
Fe gwyd yr hadau hyn ryw ddydd,
Cynhauaf dedwydd etto fydd.

4 Yn Nuw, chwi'r cyfion, llawenhêwch,
A'i Urddas ſanctaidd ef coffhêwch:
Nid neb ond enaid graſol byw
All lawenhâu'n Sancteiddrwydd Duw.

SALM

SALM XCVII. Meſur cyffredin.

Adn. 1, 3, 5—7, 11.

Cnawdoliaeth Criſt, *a'r Farn ddiweddaf.*

1 BOED i'r ynyſoedd lawenhâu;
Teyrnaſu mae ein Ceidwad:
Ei Air fel tân gwna'i ffordd yn hawdd;
Pob bryn 'fe'i tawdd yn waſtad.

2 Ei Olwg 'ſawdd bob uchel fryn;
Pob pant a glyn 'fe'u dercha:
Caiff enaid iſel wel'd ei Wên,
A'r balch o'u hangen trenga.

3 Y nef a draetha'i Allu clau;
A'r eilun dduwiau o ddantu:
Gwnant i'w haddolwyr g'wilydd mawr,
A ſyrthiant 'lawr, tan grynu.

4 Pan anwyd gynt, Angylion nef
Cyhoeddent ef ein Ceidwad:
Pan ddêl i farnu'r byd ryw ddydd,
Angylion fydd i'w warchad.

5 Crŷn ei elynion rhagddo'n glau,
A'r môr a'r bryniau ciliant:
A ffy ei Blant i'r nef yn lân,
A'r byd mewn tân gadawant.

6 Gogoniant a llawenydd llon
I'r cyfion hauwyd yma:
Mewn nefol Fyd eginó 'wnant,
A dygant lawn gynhaua'.

SALM

SALM XCVIII. Y Rhan gyntaf.

Mawl am yr Efengyl.

1 I'R Arglwydd cenwch newydd Gân,
O Foliant glân, ar gyhoedd:
Ei Ras a'i Jachawdwriaeth gref
Datguddiodd ef i'r bobloedd.

2 Wrth *Abra'm* d'wedodd gynta'r Gair,
A'i Ras, cwplâir i'n hamſer:
Cenhedloedd credu i'w Enw ' wnant,
A dyſgant ei Gyfiawnder.

3 Ei Gariad traethed daear faith,
A phob rhyw jaith tafodau:
A lleded Barch ei Enw da
Mewn Clodydd a Chaniadau.

SALM XCVIII. Yr ail Ran.

Dyfodiad à Brenhiniaeth y Meſſia.

1 LLawenydd boed i'r ddaear faith;
Eich Brenhin daeth, derbyniwch:
Par'toed pob calon iddo le;
Y ddae'r a'r ne', cydgenwch.

2 Ein Prynwr mwyn teyrnaſu ' mae;
Doed dynion â'u Caniadau:
Llifeiriaint, maeſydd, creigiau, clywch,
Yn llon dadſeiniwch chwithau.

3 Ni leinw pechod brwnt yn hir,
Na drain, mo'r tir yn dryfrith:
'Fe ' ddaw, a'i Fendith tàn ar led
Mor belled ag yw'r felldith.

4 Mae'n

4 Mae'n llywio'r byd â'i Wir a'i Ras;
Caiff pobloedd addas brofiad:
O 'Goniant ei Gyfiawnder clau,
A Rhyfeddodau'i Gariad.

SALM XCIX. Y Rhan gyntaf.

Brenhiniaeth Crist *a'i Fawrhydi.*

1 JEHOFA fy'n teyrnafu o hŷd;
Holl bobl y byd, arfwydwch:
Cryned yr enwir ger ei Fron,
A'r Saint yn wirion plygwch.

2 Teyrnafu mae ein Prynwr da;
Y ddae'r, addola'th Arglwydd:
Cerubiaid ger ei Fron a gair
Yn gwneud ei Air yn ebrwydd.

3 Yn *Seion* mae Gorfeddfa'i Ras;
Mawr yw ei Urddas yno:
A'i Wyrth a draethir yn ei Dŷ;
A'i 'Goniant fy'n difgleirio.

4 Mor fanctaidd ydyw Enw Duw!
Ofnadwy yw ei Foliant:
Uniondeb, Barn, Gwirionedd mad,
Yngwaith ei Rad cyd-unant.

SALM XCIX. Yr ail Ran.

Addoli Duw *fanctaidd gyd â Pharch.*

1 EIN Harglwydd Duw, pawb ef mawrhaed,
Plygwch wrth Draed ei Fawredd:
Sancteiddrwydd oll yw Natur Duw;
Trugaredd yw ei Orfedd.

2 *Ifrael*

2 *Iſrael* pan oedd yn Eglwys Dduw,
Ac *Aaron* ſyw'n Offeiriad:
Gweddïai *Moſes* dros eu bai;
A'r bobl a gai orphwyſiad.

3 Mynych maddeuodd Duw i'r rhai'n,
Ac ni's dinyſtriai'n hollol:
A mynych coſpai'u pechod cas
'Ammharchai'i Ras rhagorol.

4 Dyrchefwch bawb ein Harglwydd Dduw,
Ei Ras 'run yw yn waſtad:
A Duw yw o Sancteiddrwydd llawn,
Eiddigus jawn o'i 'Ddoliad.

SALM C. Y Meſur cyntaf.
Cyfieithiad eglur.

Mawl i'n Creawdwr.

1 TRigolion yr holl ddaear, dewch,
A llawenhêwch ger bron ein Duw:
Gwas'naethwch ef â chalon rwydd;
Eich uchaf Arglwydd Frenhin yw.

2 Yr Arglwydd ſydd Dduw; ef' ei hun
Sy'n rhoddi bywyd, ſun, a bôd:
Ei waith ef ŷm, a'i ddefaid gwâr,
Sydd yn byw ar ei borfa a'i nôd.

3 Oh! ewch i'w Byrth, dan lawenhâu,
Ac i Gynteddau teg ei Dŷ:
Rho'wch yno Glod i'w Enw glân;
'Fe ' haeddai'ch Cân a'ch Diolch cu.

4 Can's da yw'r Jôn, a mwyn un wedd;
Siwr ei Drugaredd, a di-lyth;
A'i Wir, i ddynol-ryw a roes,
O oes i oes a bery byth.

SALM

SALM C. Yr ail Fesur. Esponiad.

1 I'R Arglwydd cenwch lawen Gân;
Pob gwlad, rho'wch Fawl i'w Enw glân:
Danfoned *Brydain*, yn ddi-fraw,
Yr adsain dros y moroedd draw.

2 Gwas'naethwch, bobloedd, ger ei Fron,
Mewn ofn, a gwir lawenydd llon:
Gwybyddwch mai'r Arglwydd sydd Duw;
Efe ' all ladd, a gwneud yn fyw.

3 A'i ddirfawr Nerth, heb gymmorth dŷn,
O'r pridd 'fe'n lluniodd bob yr un:
A phan eym ' ffwrdd fel defaid ffol,
I'w Gofian ef' a'n dug yn ol.

4 Ei bobl ef ŷm, a'i ofal drud,
Ein henaid a'n cyrph oll i gŷd:
Pa Glod parhâus a roddwn ni,
Greawdwr doeth, i'th Enw di!

5 I'th Byrth â Diolch Gân ni ddawn,
Cysodi'n llef i'r nef y wnawn:
Doed pobloedd, o bob jaith sy'n bod,
I lenwi'th Dai â'u llafar Glod.

6 D'Arglwyddiaeth di sydd dros y byd;
Trag'wyddol yw dy Gariad drud:
Saif dy Wirionedd byth heb 'sgoi,
Pan beidio'r haul ar lleuad droi.

SALM CI. Mesur hir.

Salm i Benswyddog.

1 TRugaredd a Barn sydd sy Nghân;
Y ddau i ti perthynu ' wnaf':
I'm grasol Duw, a'm Brenhin mawr,
'Wy'n dwyn sy addunedau 'nawr.

2 Os

2 Os codwyd fi i ddwyn y cledd,
Caiff d'Air fy 'fforddi mewn jawn wedd:
D'Uniondeb a'th Ras nefol di
A fyddant Batrwn i'm ffyrdd i.

3 I'm tywys boed Doethineb gwiw;
A chyd â mi arhoed fy Nuw:
Ni thrig un drwg-beth gyd â mi
A'r 'all gyffrôi d'Eiddigedd di.

4 Nid meibion enllib, drwg eu moes,
Na chynnen, fydd cymdeithion f'oes:
Y gàlon falch, na'r olwg fyth,
Ni thrig o fewn fy nryfau byth.

5 [Y cyfiawn a gyfodaf fi
I le o 'mddiried, parch, a bri:
Y rhai a wnant d'Ewyllys glân,
Fydd fy nghyfeillion, fawr a mân.]

6 Ni chaiff rhai enwir ymfawrhâu
Trwy weniaith a chelwyddau gau:
Diffynnaf y dŷn gwirion cu,
A chofpaf y trofeddwr hy.

7 Y rhai terfyfglyd, llawn o frad,
Ymguddio 'wnant, neu adŵ'r wlad:
A phawb a dorro'r heddwch mawr,
Lle 'gallwyf, cadwaf hwynt i lawr.

SALM CI. Meſur cyffredin.

Salm i Benteulu.

1 GRAS a Chyfiawnder fydd fy nghân;
F'adduned lân, Duw, talaf:
Dyfg fi â'th Ras a'th Jawnder cu,
A'm ty a lywodraethaf.

2 Tyr'd i fy mhabell 'nawr, O Dduw!
Gwna'th was yn wiw ddeallus:
Ni chaiff dim attaf fi nesâu
'Fo'n anfoddhâu d'Ewyllys.

3 A wnelo â'i gymmydog gam,
Trwy dwyll, neu amrafaelu:
Yr olwg falch, y tafod cas,
Mi a'u tafla' 'ma's o'm teulu.

4 Am ddynion ffyddlon, cyfion, call,
Rai duwiol, diwall, chwiliaf:
Y rhai'n yw'r ffryns eu coelio 'wna',
A'r gweifion a gyflogaf.

5 Y dŷn twyllodrus, cyfrwys, hy,
Ni thrig i'm ty mo'r nofwaith:
Celwyddog dafod a gasâf;
O'm gŵydd mi a'i gyrraf ymaith.

6 I buro 'nheulu 'rwy'n ymrôi;
Gwna' i'r enwir ffoi yn ebrwydd:
A'm ty fydd byth yn drigfan lwys,
Yn gymmwys iti, f'Arglwydd.

SALM CII. Adn. 1—13, 20, 21.

Y Rhan gyntaf.

Gweddi'r Cyfluddiol.

1 CLYW fi, O Dduw! na chudd (er neb)
Dy Wyneb, rhag im' drengu:
Oni chyfodaift Orfedd Gras
I wrando addas Weddi?

2 Treuliodd fy nyddiau gan dx Wgi
Ar dawdd, fel mŵg mewn awyr:
Sychodd fy nerth, a'm calon wan
Sy'n foddi dan anghyfur.

3 Fy

3 Fy yſpryd, gwywodd fel gwellt glas
Fu'n godde' jas neu boethfa:
Mewn griddfan treulio f'oriau 'rwyf,
Hyd nes anghofiwyf fwytta.

4 Fel 'deryn to ar ben y ty,
Sy'n unig fry yn cwynfan:
Pan ydwyf oddiwrth bebyll hedd
Yn eiſtedd, ac yn griddfan.

5 Mae f'enaid fel rhyw anial ros
Lle adar nos ſy'n wban:
Y gigfran bendriſt draw a drig,
Y pelig a'r ddylluan.

6 Meddyliau blin, ac ofnau fyn,
I'm bron maent yn llettya:
Fe'm clwyfir ag enllibiau llym,
Fel nad oes ym' orphwyſfa.

7 Fy nïod cymmyſg yw â'm gwae;
Fy ngwledd yw dagrau ('ſywaeth:)
Fy mara aeth, fel lludw cas,
Yn llwyr ddi-flâs i'm harchwaeth.

8 Ni lonna'r byd mo'm henaid gwan,
Sy'n teimlo'th Anfoddlonrwydd:
Dy Law a'm cododd 'ſyno'n fawr,
A thaflodd 'lawr fi, Arglwydd.

9 Fel dail gwywedig yw fy mhryd;
A'm bywyd ſydd ar fethiant:
Gwanhâu mae fel cyſgodau'r hwyr
I nos a lwyr-ddiflannant.

10 Ond tithau, f'Arglwydd, yn ddi-lŷth,
Parhâi di byth yr un-modd:
Oeſoedd a ddaw d'adnabod cânt,
A thraethant dy Weithredoedd.

11 Fe gwyd a thrugarhâ ſy Nuw;
Nid oeda'r cyfryw orchwyl:
Tu hwnt i awr ei Ras, ryw bryd,
Y dydd wyf cy'd yn 'ddiſgwyl.

12 'Fe' glyw ei Saint, mewn ing 'fe'u gwel,
A thrwy ffyrdd dirgel gweryd:
Garcharwyr 'oedd i farw'n frau,
A mawl i'w genau geſyd.

SALM CII. Adn. 13—21.
Yr ail Ran.

Gwrando Gweddi, ac adferyd Seion.

1 PLANT *Seion* llawenhaent yn fawr;
Can's wele'r awr 'addawed:
Duw clybu *Seion* a'i phrûdd leſ;
Mewn Nerth daw ef' i'w gwared.

2 Ei llwch a'i holl fagwyrydd hi
Yn fawr ŷm ni'n eu priſio:
Adeilir hon yn dêg ei phryd,
A'i llwch' a gyfyd etto.

3 *Caerſalem*, cyfyd Duw hi'n llawn;
Saif yno mewn Gogoniant:
Plyg pobloedd ger ei Fron ar g'oedd;
Brenhinoedd a'i gwas'naethant.

4 Mae'n eiſtedd ar Orſeddfaingc Nef,
Ac yntho ef Doſturi:
Clyw riddfan carcharorion blin,
A gwel eu gweddi'n codi.

5 Rhyddhâu plant angau a wna 'fo;
A phan achwyno 'i Seintiau:
Ni chaiff neb dd'we'yd, mai "ofer yw
"Gweddïo Duw yn ddiau.

6 Pan

6 Pan drengom ni, bydd hyn o beth
Mewn coffadwri'eth etto:
Fel y darlleno'r oes ſy'n ol
Waith Duw, a'i ganmol eſo.

SALM CII. Adn. 23—28.
Y drydedd Ran.

Marwoldeb Dŷn, a Thragywyddoldeb Criſt; neu, Saint yn meirw, ond Criſt a'r Eglwys yn byw.

1 YR Arglwydd ſydd â'i Law'n gwanhâu
Ein cryfder ar y ffordd mor frau:
Gyr haint, ac angau llym ei loes,
I'n dal, a thorri'n ſyr ein hoes.

2 Duw, arbed ni, clyw'n gweddi brûdd;
N'ad i'n haul fachlud ganol dydd:
Un bythol ddydd yw'r blwyddau tau,
Ai marw ' raid i'th blant mor glau?

3 Ond etto, ' nghanol angau a gwae,
Y meddwl hwn ſy'n eſmwythâu:
" Ein Tad a'n Ceidwad ſydd yn fyw;
" *Criſt Jeſu* 'r un yn waſtad yw.

4 'Fe ' ddododd ſeilfaen daear lawr;
A'i Law a wnaeth y neſoedd fawr:
Heneiddia'r ddae'r, diflanna'r nef;
Newidiant wrth'i orchymyn ef.

5 Serennog lenni'r wybren fry
A droir fel hen wiſg o'r naill-du:
Ond d'Crſedd di a ſaif yn ſyth;
A'th Eglwys bur a erys byth.

6 Caiff d'Eglwys fyw byth ger dy Fron;
Teyrnasa'th Blant ar d'Orsedd lon:
Hwy fyddant byw ar ol y byd,
A chwyd y Seintiau meirw i gŷd.

SALM CIII. Adn. 1—7.

Y Rhan gyntaf. Mesur hir.

Benditbio DUW *am ei Ddaioni i Enaid a Chorph.*

1 O F'enaid, mawl yr Arglwydd Nef;
Dy holl feddyliau galw i dref:
Boed i'r pwerau o'm mewn i gŷd
Mewn Gwaith mor sanctaidd uno 'nghŷd.

2 I'r grasol DDUW, Mawl, f'enaid, dôd;
Ei Ras a gleimia'th uchel Glod:
Paham y caiff ei Wyrthiau 'fo
Fyn'd mewn distawrwydd byth dros gô'?

3 'Fe, f'enaid, yrrai ' Fab i'r byd
I farw dros dy garedd ' gŷd:
Mae'n maddeu, am y Jawn a roes,
Ein ffoledd ni bob awr o'n hoes.

4 Mae'n gwellhâu beiau meddwl dŷn,
Ac yn jachâu'n doluriau blin:
Rhag uffern cadw'n henaid mae,
A'n bywyd gwan rhag trangc a gwae.

5 Mae'n adnewyddu'n jeuangc wedd;
Coroni'n hoes â'i Ras a'i Hedd:
Ein genau â da fe'i lleinw ef,
A'n gobaith pyrth â bwyd o'r nef.

6 Mae'n gwel'd y gorthrymmedig rai,
A mynych yn eu hesmwythâu:

Ond

Ond ei Gyfiawnder allan dŷd
Yn fwy pan fo'n gwobrwyo'r byd.

7 [Ei Nerth trwy *Foſes* traethodd ef';
I *Iſrael* rhoes ei Ddeddfau o'r nef:
Ond trwy ei Fab anfonodd Duw
Ei Wir a'i Ras i ddynol-ryw.

8 Addefed pawb ei Nerth trwy'r byd,
A pharchant Ras ein Duw'r un pryd:
Yr *Iuddew* a'r *Cenhedlig* ddyn
Addolant ef ill dau'n gyttûn.]

SALM CIII. Adn. 8—18.

Yr ail Ran. Meſur hir.

Cerydd tirion Duw; neu, *Ei dyner Drugaredd ef i'w Blant.*

1 MOR rhyfedd yw Ffyrdd y Duw mad!
Mor fiwr ei Wir! mor fawr ei Rad:
Ar Faingc Trugaredd fry y fai';
Oddiyno'i Ras mae'n eglurhâu.

2 Nid hanner eyfuwch ydyw nen
Y nef ſerennog uwch ein pen:
Ag yw ei Gariad ef yn bod
Uwchlaw ein gobaith ni a'n clod.

3 Os pell o dîr yw'r dwyrain draw
Oddiwrth orllewin y naill-llaw:
Dau pellach ſymmud ef' i bant
Euogrwydd blin ei anwyl Blant.

4 Mor araf yn ei Lid yw Duw!
Parottach mewn Trugaredd yw:
Ac os ei Ddig a gaiff gyffrôi,
Mae'n ebrwydd i Doſturi'n troi.

5 Yng-

5 Ynghanol Llid mae'n trugarhâu;
Yſgafnach yw ei Goſp nâ'n bai:
A thra ceryddo'i Saint yn ſwyn,
Ei Gluſt a wrendy ar eu cwyn.

6 Fel tadau'n coſpi' plant, er budd,
A dwylo tirion, golwg brûdd:
Pan wylo'r plant, a meddalhâu,
Bydd calon tadau'n trugarhâu.

Gorphwyſiad.

7 Y doeth a'r cyfion Duw a wŷr
Mai llwch yw'n defnydd ni yn llwyr:
Dim beichiau arnom ni ddyd ef'
Tu hwnt i'r nerth a rydd o'r nef.

8 'Fe' wŷr mor wan yw'n natur ni;
Pob awel ſy'n ei deifio hi:
Gwywedig ŷm fel blodau'r maes;
Y bore'n llon, brydnhawn yn llaes.

9 Ond ei drag'wyddol Serch di-lŷth
I bawb o'i Saint fydd ſicir byth:
A'i Wirioneddau i blant eu plant,
Gobeithio'n ofer byth ni chânt.

SALM CIII. Adn. 1—7.

Y Rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Mawl am Drugareddau yſprydol a thymhorol.

1 BEndithia'r Jôn, ſy enaid cu,
A'r cyfan ſy'm tu-mewnol:
Cyd-folwch Enw mawr ſy Jôr,
S'â'i Gariad mor rhagorol.

2 Oh

2 Oh f'enaid, mawl yr Arglwydd mad!
A'i Ddoniau n'ad i orwedd:
Mewn anghof heb dy ddiolch di,
A marw'n ddi-glodforedd.

3 Efe ſy'n maddeu dy holl fai,
Ac yn jachâu dy glefyd:
Adferu'th nerth pan f'ech ar drangc,
A'th wneud yn ifangc hefyd.

4 'Nol gwared d'oes o'r bedd yn llon,
Corona hon â'i Gariad:
O uffern prynodd f'enaid prûdd;
Nerth cadarn ſydd i'm Ceidwad.

5 'Fe 'leinw'r tlawd â phob peth da;
'Fe 'eſmwythâ'r blinedig:
'Fe 'farna'r beilch, 'fe 'ddyry borth
I'r rhai ſy'n orthrymmedig.

6 Ei ryfedd Waith a'i Ffyrdd, ar hynt,
Trwy *Foſes* gynt hyſpyſodd:
Ond trwy ei Fab i'r ddaear las
Ei Wir a'i Ras anfonodd.

SALM CIII. Adn. 8—18.

Yr ail Ran. Meſur cyffredin.

Helaethlawn Doſturi Duw; neu, *Drugaredd ynghanol Barn.*

1 FY enaid, datgan Fawl dy Dduw,
Mor fawr yw ei Drugaredd:
Hwyr yw ei Lid ef i gyffrôi,
A chlau mae'n troi'n Dangnefedd.

2 Nid byth cerydda'r Arglwydd ni;
A'i Wialen hi pan deimler:
Yſgafnach ydyw hon nâ'n bai,
A'r Goſp yn llai o lawer.

3 C'uwch

3 C'uwch ag yw'r nefoedd fry, yn wir,
Uchlaw y tir ŷm arno:
Mae'i Ras cyn belled, yn ddi-au,
Uchlaw ein tybiau'm dano.

4 A'i Nerth gorchfygu'n pechod mae,
A'i gofp a'i wae 'fe'u fymmud:
Mor bell a'r dwyrain oleu hîn
Oddiwrth orllewin fachlud.

5 Y mae Toſturi'n Harglwydd da
I bawb a'i hofna'n ufudd:
O'r fath a fedd tad da neu fam;
Mae'n gwybod am ein defnydd.

6 'Fe ' wŷr nad ŷm ond llwch fydd wan,
A chwelir gan awelau:
Ei Ddig a all, fel corwynt cry',
Ar frys ein gyrru i angau.

7 Fel glaſwellt yw ein hoes bob un,
Neu fel blodeuyn borau:
Os un poeth awel drofto â,
Mewn awr 'fe ' wywa'n ddiau.

8 Ond dy Drugaredd, yn ddi-lŷth,
A bery byth heb newid:
A phlant y plant cânt wel'd, O Dduw!
Mai ſicir yw d'Addewid.

SALM CIII. Adn. 19—22.
Y drydedd Ran.

Hollol Arglwyddiaeth Duw; neu, *Angylion, molwch yr Arglwydd.*

1 YR Arglwydd, Brenhin nef a llawr,
Ei Orſedd fawr gwnaeth uchod:
Mae'n llywodraethu'r byd uwch-ben,
A'r holl ddaearen iſod.

2 Chwy-

2 Chwychwi, Angylion mawr eu grym,
A chyflym i gyflawni:
Ei 'Wyllys glân, a gwrando'i Lef,
Bendithiwch ef yn heini.

3 Bydded i'r diſglair Lu, mewn parch
Sy'n diſgwyl Arch eu Llywydd:
A gwylio ei Eglwyſi glân,
Gydſeinio Cân o Glodydd.

4 Tra fyddo'i holl ryfeddol Waith
Trw'i Deyrnas faith yn traethu:
Ei Fawl ef; tithau, f'enaid, cai
Ei lân Rinweddau ganu.

SALM CIV.

Gogoniant Duw *yng Nghreadigaeth a Rhagluniaeth.*

1 DOD, f'enaid, i'th Greawdwr Fawl;
Pan wiſger yn ei neſol Wawl:
Ymddengys yn ardderchog jawn,
Fel cochl y gwiſg Ogoniant llawn.

2 Y neſoedd yw cwrtenni'n Jôr;
Gwna'i Wely yn y dwfwn for:
Cymmylau yw ei Gerbyd cry',
A'r gwynt pan ſo'n marchogaeth fry.

3 A'i Yſpryd gwnaeth Angylion glân,
Ei Weinidogion fel fflam dân:
A chlau fel meddwl yw eu llu
I ddwyn ei Goſp, neu'i Gariad cu.

4 Seilfeini'r byd cydbwyſodd e'
A'i Law, na ſyflant byth o'u lle:
Mewn cadwyn rhwymai'r môr ynghŷd,
Rhag iddo ettò foddi'r byd.

5 Pan

5 Pan oedd y diluw'n cuddio'r llawr,
'R hwn oedd goruwch pob mynydd mawr:
Taranodd ef; a'r môr a ffodd
I'w le pwyntiedig, ac arhôdd.

6 Eu terfyn ŵyr y tonnau o hŷd,
A rhodiant yn eu cylchau 'gŷd:
Oddiyno, trwy ffyrdd dirgel, cânt
Eu dwyn i'r bryniau, a'r fro dwfrhânt.

7 Eirch i'r ffynhonnau grisial clir
Ddylifo i lonni'r dyffryn dîr:
Y fuwch tyr yno'i syched brwd,
A'r asyn wyllt bref am y ffrwd.

8 O'r coedydd llawnfrig uwch eu llaw
Daw'r linos a'r uchedydd draw:
Ac yfant, canant Fawl i'r Jôn;
I ni rho'n' sen am dewi sôn.

Gorphwysiad I.

9 Duw o'i 'stafelloedd a ddwfrhâ
Y sychdir â chafodydd da:
Yr ardd, a'r maes, a'r goedwig wyrdd,
A ro'nt yn llon fendithion fyrdd.

10 Eirch i'r gwellt dyfu, ac 'fe 'gwyd,
I roi i'r anifeiliaid fwyd:
A llysiau i ddyn, amrywiol rai,
I faethu natur, neu jachâu.

11 Gwinwydden, ffrwyth rhagorol rhydd;
A'r oliwydden, siriol sudd:
A gwin ein calon llawenhâir,
A'n hwyneb i ddisgleirio gwnair.

12 *Brytaniaid*, molwch Duw'n gyttûn,
Am fara i gynnal natur dŷn:
Tr'o bara'n nerthu'ch rhannau byw,
A chalon gref gwas naethwch Duw.

Gorphwys-

Gorphwyſiad II.

13 Wele'r gedrwydden a ſaif draw,
Mewn coedwig plannodd hon â'i Law:
Am nawdd i'w changau'r adar ffy,
A gwnant eu nythau'n ddiogel fry.

14 Dring geifr hwythau i'r creigiau draw;
Cre'duriaid llai ſydd îs eu llaw:
Yn gwneud eu cell wrth droed y bryn;
Mae Duw'n eu dyſgu hwy fel hyn.

15 'Fe ' roes i'r haul ei yrfa chwai,
I'r lleuad hithau'i llanw a'i thrai:
A phan ddêl t'w'll-nos, galw mae
Fwyſtfilod ' maes i hela'u prae.

16 Daw'r llew ar led a'i jeuaingc ryw,
A rhuant, ceiſiant fwyd gan Dduw:
Ond pan gyſodo'r haul, yn glau
Y bwyſtfil rheipus ' ffy i'w ffau.

17 Ac yna dŷn i'w orchwyl aed;
Y nos i orphwys iddo ' wnaed:
Rhodd Duw yw hûn, ſydd felus hoen
Oddiwrth ein llafur blin a'n poen.

18 Mawr yw dy Waith, a rhyfedd jawn!
Pob gwlad o'th Gyfoeth ſydd yn llawn:
Doethineb Duw ſy o gylch y byd;
O honot llawn yw'r ddae'r i gŷd.

19 Nid llai'th Ogoniant di, ein Jôr,
Ym myſg y pyſg ſydd yn y môr:
Y rhai ſy'n ſymmud yma a thraw
Yn llwybrau'r dyfnder îs ein llaw.

20 Ac yno nofia llongau'n glau,
Ac anghynfilod yrrau'n gwau:
A'r mawr *Leviathan* (anferth lun)
A chwery yno, er gwaetha' dŷn.

Gorphwyſiad III.

21 Dy Waith, O Dduw! yn faith a gair;
Holl natur ' orphwys ar dy Air:
A'r holl gre'duriaid ym mhob man
Sy'n diſgwyl cael o'th Law eu rhan.

22 Pob un a dderbyn fwyd gan Dduw,
A'u gwedd a ddatgan mai da yw:
Eryrod, eirth, morfilod fyrdd,
Clodforant di mewn amryw ffyrdd.

23 Ond pan ymguddio'th Wyneb-prŷd,
Triſtânt, a thro'nt i'w llwch i gŷd:
Dŷn ac anifail o bob rhyw
Eu henaid rhoddant ' fynu i Dduw.

24 Ond ti ' all chwythu ar lwch drachefn,
Ac adnewyddu'r byd mewn trefn:
Dy Yſpryd ' all y cyfan grêu
Fu angau ac amſer yn ddïlêu.

25 Mae'i Hoffder a'i Hyfrydwch maith
Yn anrhydeddu ' Wyrth a'i Waith:
Mor ogoneddus yw Ffyrdd Duw!
Ac yn ei Fawl ofnadwy yw.

26 Y ddaear crŷn, os tery â'i Law;
Os cwrdd â'r bryniau, mygant draw:
Er hyn gall enaid iſel mwyn
Gael gwel'd ei Wedd, a d'we'yd ei gŵyn.

27 Mae ' ngobaith a'm dymuniad i
Yn cwrdd yn felus ynot ti:
Dy foli â'm genau fydd fy ngwaith,
Nes delwyf i'r Llawenydd maith.

28 Pan drengo pechaduriaid trwch,
Eu parch a gleddir gyd â'u llwch:
Caf finnau ganu i'm Brenhin cu
Anſarwol *Haleluia* fry.

SALM

SALM CV.

Wedi ei chrynhôi yn ſyr.

Duw *yn tywys* Iſräel, *a Phlaau'r* Aipht.

1 CLodforwch Duw, a'i Enw glân;
Rhowch allan ei Raſoldeb:
Seiniwch trwy'r byd ei Wyrthiau 'ſo,
I bawb gael ceiſio'i Wyneb.

2 Ei Ammod gynt ei gadw' wnaeth
I oeſoedd maith aeth heibio:
I'r oes a ddêl caiff hwnnw ddal
Mewn grym yn gyſtal etto.

3 Tyngodd i *Abraham* a'i had,
A'r Fendith gwna'd yn ſicir:
Cenhedloedd darllen maent ei Air,
A'i 'Ddewid cair yn gywir.

4 " Trwy'th had bendithir pobloedd oll,
(Oedd Gair Duw holl-effeithiol:)
" Tir *Canaan* eu gorphwysfa fydd,
" Teip o'r Llawenydd nefol.

5 [Mawr oedd y Gras a'r Caniadhâd!
Caent *Ganaan* wlad yn drigfan:
Pan o'ent ddïeithriaid yn y lle,
Yn fintai dene' egwan!

6 Fel pererinion trwy'r holl dîr,
Dïogel, hir bu' teithiau:
Brenhinoedd beilch, o'u plegid hw',
Yn chwerw 'fe'u ceryddai.

7 " Cyffyrddwch â'm henneiniog rai,
" A'm Braich yn chwai a ddial:
" Caiff drygwyr fy Mrophwydi gwiw
" Wel'd mai cryf yw Duw *Iſra'l*.

8 *Bellach arbeded gwŷr y byd*
Eu terfyſg ynſyd llidiog:
Iſrael *ei Eglwys byth ſydd byw*
Tan Ofal Duw *Galluog.*]

Gorphwyſiad I.

9 Pan feiddiai *Pharao* ſlino'r Saint,
Cyffrôi ' Ddigofaint fwyſwy:
Anfonai *Foſes*, wrth eu llef,
A'i wialen gref ofnadwy.

10 Am d'w'llwch galwai; t'w'llwch daeth,
Gorchuddio ' wnaeth y cyfan:
Pob llyn ac afon yno a gaed
'Fe'u troes yn waed yn fuan.

11 Rhoes arwydd; cymmyſg-bla a ddaeth
Trwy'r dalaith yn gyffredin:
A chododd llyffaint ' ſynu'n llu
O amgylch gwely'r brenhin.

12 Trwy faeſydd, trefydd, llyſoedd teg,
Cai'r goſp ddeg-dyblyg redeg:
Locuſtiaid yſai'r coed yn chwai,
A'r cenllyſg lladdai ' gwartheg.

13 A chanol nos daeth Angel Duw;
Gwnaeth yno ddiſtryw lawer:
Blaen-ffrwyth pob ty 'fe'u torrai ' lawr,
Eu hymffroſt mawr a'u balchder.

14 *Bellach arbeded gwŷr y byd*
Eu terfyſg ynſyd llidiog:
Iſrael *ei Eglwys byth ſydd byw*
Tan Ofal Duw *Galluog.*

Gorphwyſiad II.

15 Felly rhyddhaw'd y llwythau, 'n wir,
O'r *Aipht*, y caeth-dir cethin:

Pawb

Pawb oedd ag yſpail gantho o'r wlad;
Un lleſg ni cha'd o'r werin.

16 Duw Mawr ei hun a luniai ' taith
Trwy diroedd diffaith dyrys:
Y dydd rhoes gwmmwl ' ae o'u bla'n,
A'r nos rhoes dân i'w tywys.

17 Sychedu ' wnaent; a dwfr a ddaeth,
O'r graig yn helaeth llifodd:
I'w cynnal ar eu taith, yn ffwch
Trwy'r holl anialwch rhedodd.

18 Oh, rhyſedd Deip o neſol Ras,
Sy'n lliſo ' ma's, heb attal:
O *Griſt*, ein cadarn Graig, o hŷd
Trwy'r anial fyd i'n cynnal!

19 Fel hyn hwy gadwyd, trwy Law Duw;
A'r llwythau byw meddiannent:
Wlad *Canaan* fras, addawodd 'fo;
Ac yno y gorphwyſent.

20 *Am hyn arbeded gwŷr y byd*
Eu terfyſg ynfyd llidiog:
Iſrael *ei Eglwys byth fydd byw*
Tan Ofal Duw *Galluog.*

SALM CVI. Adn. 1—5.

Y Rhan gyntaf.

Mawl i Duw; neu, *Gymmundeb â'r Saint.*

1 I'R Mawr a'r Byth-fendigaid Duw
Dyrchafer Cân o Foliant gwiw:
Can's ei Drugaredd pery byth;
Rhowch am ei Gariad, Glod di-lŷth.

2 Pwy ' edwyn Wyrthiau Ffyrdd Duw'r Nef?
Pwy a fynega'i holl Fawl ef:
Gwyn fyd y rhai a'th ofno o hŷd,
Ac a wnant d'Wyllys â'u holl fryd!

3 Coffhâ'r hyn ' wnaeth dy Gariad rhad
I *Iſrael*, dy ddewiſol had:
A'r unrhyw Jachawdwriaeth lon
Bendithia bawb ſy'n erfyn hon.

4 Dy bobl a welwy'n llawenhâu,
Cyd-lawenychaf finnau'n glau:
Hyn, Arglwydd, yw ' ngorfoledd i;
Bod gyd â'th Saint, ger llaw i Ti.

SALM CVI. Yr ail Ran.

Adn. 7, 8, 12—14, 43—48.

Coſpi Iſräel, *a'u pardynu*; neu, *Gariad anghyfnewidiol* Duw.

1 DUW y trag'wyddol Gariad rhad,
Ein ffyrdd anwaſtad ydynt:
Ac etto profodd *Iſrael* flas
Dy waſtad Ras tu ag attynt.

2 Gwelſant dy Ryfeddodau ſyn,
A'th Fawl bryd hyn a ganent:
Ond clau anghofient hwy dy Nerth,
A'u tafod ſerth grwgnachent.

3 'Nawr credu ' maent i'w Air, yn ſiwr,
Tra llifai dw'r o'r creigiau:
Trachefn â'u trachwant temtient Duw;
A'r cyfryw 'ſe'u goſtyngai.

4 Ond pan alarent am eu bai,
Gwrandawai eu hachwynion:
Ei Ammod hen a ddug i go',
Fe'u galwai etto'n ſeibion.

5 Eu

5 Eu henwau oedd i'w Lyfyr draw,
'Fe'u dug o law ' gelynion:
Er iddo'u coſpi lawer tro,
Ni ad'odd mo'i etholion.

6 Bendithied *Iſräel* eu Duw,
Gwnaeth â'u hen ryw Drugaredd:
Boed i Gris'nogion trwy'r holl fyd
Roi iddo 'nghŷd Glodforedd.

SALM CVII. Y Rhan gyntaf.

Arwain Iſrael *i* Ganaan, *a'r Saint i'r Nefoedd.*

1 CLodforwch Duw, ſy'n byw'n y nef;
Mor fawr yw ei Drugaredd ef:
Ca'dd oeſoedd gynt o honi braw';
Ac felly caiff y rhai a ddaw.

2 O, boed i waredigion Duw
Adgoffa'i Ras a'i Wyrthiau gwiw;
Sef *Iſrael*, ei ddewiſol rai,
O law'r gelynion a ryddhâi!

3 [Pan ddrylliodd ef' â'i Fraich yn frau
Eu rhwymau hwy, a'r *Aiphtiaidd* jau:
O amgylch crwydro ' wnaent yn hir
'Rhŷd anghyfannedd anial dîr.

4 Ni chaent un brif-ffordd ar eu taith,
Na dinas i breſwylio chwaith:
Na bwyd, na dw'r, i dorri grym
Eu ſyched lloſg, a'u newyn llym.]

5 Yn eu cyfyngder galwent Duw;
Eu Ceidwad fu, a'u T'wyſog gwiw:
Arweiniodd hwynt o ddautu'n hir;
Hon oedd y ffordd i *Ganaan* dîr.

6 Felly

6 Felly pan ein rhyddhâir, trwy Ras,
O rwymau'r Fall, a phechod cas:
Rhaid myn'd trwy'r anial fyd i dre,
Peryglus a blinderus le!

7 'Fe'n pyrth, 'fe'n gwiſga trwy'n holl daith;
'Fe'n tywys, rhag in' grwydro'n faith:
'Fe'n ceidw â'i alluog Law,
A dwg ni i dre i'r nefoedd draw.

8 O na choffâi y Seintiau byw
Drugaredd a Daioni Duw:
Mor fawr ei Waith! mor fwyn ei Ffyrdd!
Rhoed pawb i'r Arglwydd Foliant fyrdd.

SALM CVII. Yr ail Ran.

Cerydd am Bechod, a Rhyddhâd trwy Weddi.

1 MOlwch ei Enw o oes i oes;
I Dduw a'i Ras dim trai nid oes:
Diwallu'r enaid ſych y wna,
A phorthi'r tlawd â phob peth da.

2 Ond os eu calon hwy (gwir yw)
A wrthryfela'n erbyn Duw:
Os gwrthod Gair eu Ras a wnant,
A'r mwyn Gynghorion gantho a gânt;

3 'Fe' oſtwng eu hyſprydoedd gwael;
Ni bydd achubwr iddynt gael:
'Fe'u llwytha â gofid o bob tu
Ynghyſgod angau a th'w'llwch du.

4 Yna at Dduw cyſodant lef;
'Fe' wawria arnynt hwy o'r nef:
'Fe' waſgar yr holl dywyll len
Sy'n pwyſo'n drwm o gylch eu pen.

5 'Fe

5 'Fe ' dyr y barrau pres yn ddau;
Caiff carcharorion eu rhyddhâu:
'Fe ' dyn y baich euogrwydd prûdd;
I'r enaid blin cynhorthwy rhydd.

6 O na choffâi plant dynion byw
Drugaredd a Daioni Duw:
Mor fawr ei Waith! mor ſwyn ei Ffyrdd!
Rhoed pawb i'r Arglwydd Foliant fyrdd.

SALM CVII. Y drydedd Ran.

Coſpi Anghymmedroldeb, a'i bardynu; neu, *Salm i'r Glwth a'r Meddwyn.*

1 DYN gwag, trwy ' felus chwant a'i wŷn,
Sydd yn darparu ' goſp ei hun:
Pa boen, pa ffiaidd haint, a gwyd
O arfer gormod bîr a bwyd!

2 Y meddwyn ſy'n ymdreulio'n gas;
Ei jechyd bawdd, i foddio'i flas;
Nes collo'i holl alluoedd ffiwch,
A'i fywyd lleſg ar fyn'd i'r llwch.

3 Y glwth a riddfan, ni fwytta';
Ei enaid ' wrthyd fwydydd da:
Natur, dan ormod faich, a fydd
Yn chwennych angau i fyn'd yn rhŷdd.

4 Ac yna'r pechaduriaid ffont;
At Dduw am help, dan lefain, dont:
'Fe ' glyw eu gwaedd, hwyhâ eu hoes;
'Fe'u ceidw 'nawr rhag angau loes.

5 Nid phyſygwriaeth a wnai'r gwaith
Mor glau, mor hawdd, mor ddiogel chwaith:
Y farwol farn mae Duw'n ddilêu,
A'i Air mae'n anfon i'w jachâu.

60,

6 O, boed i holl blant dynion byw
Goffâu Daioni rhyfedd Duw:
Ac offrwm Aberth Moliant gref
Am ei ryfeddol Gariad ef!

SALM CVII. Y bedwaredd Ran. Meſur hir.

Gwaredigaeth oddi wrth Stormydd a Llongddrylliad; neu, *Gân y Morwr.*

1 OS mynnwch wel'd Gwaith Arglwydd Ne',
A'i Ryfeddodau 'mhell o dre:
Ewch gyd â'r morwyr yn ddi-fraw
I dramwy 'rhŷd y moroedd draw.

2 Gadawant eu trigfannau gynt;
Meddiannant ffafor gan y gwynt:
Nes archo Duw, a ſtorm a ddaw
A gwyd y môr tu a'r wybren draw.

3 'Nawr eſgyn tu a'r nef y wnant;
'Nawr etto 'lawr i'r dyfnder ant:
Eu nerth gan ddychryn wedi ffoi,
Pob un fel meddwyn yn ymdrôi.

4 Tr'o tir ym mhell, ac angau wrth glun,
At Dduw cyfodant lef bob un:
Fe glyw eſ eu herfyniad mawr,
Ac enfyn jachawdwriaeth 'lawr.

5 'Fe 'eirch i'r gwyntoedd ddoſi 'llid,
A'r tonnau beidio rhuo i gŷd:
Mae'n dawel; ſe ddaw'r morwyr mwy
I'r porthladd a ddymunent hwy.

6 O, boed i holl blant dynion byw
Goffâu Daioni rhyfedd Duw:
A dwyn eu hoffrwm, fawr a mân,
A'i foli yn ei Eglwys lân!

SALM

SALM CVII. Y Rhan ddiweddaf.

Bendithio Cenhedlaethau, a'u coſpi.

1 PAN ddigier Duw â drygau hir
Y rhai a drigant yn y tir:
Try ' meuſydd hwy'n ddi-ffrŵyth di-râd,
A ſych afonydd ' ffwrdd o'r wlad.

2 Ffynhonnau tarddant wrth ei Air
Drachefn, a'r bryniau'n wyrddon cair:
Cafodydd bendith enfyn e';
Cynhau'fau fydd mewn anial le.

3 [Lle'r oedd bwyſtfilod rheibus ryw,
A dynion gwyllion ſel hwy'n byw:
Y tlawd a'r gorthrymmedig rai
Cyfodant drefydd yno a thai.

4 Hwy ' hauant feuſydd, plannant wŷdd,
A ffrwythau ' rhai'n i'w cynnal fydd:
Eu hil a dyf o ffrwythlon wrâidd;
Amlhâ eu golud gyd â'u praidd.

5 Ond os hwy ' bechant draw ar led,
'Fe ' ollwng ' mewn y rhai di-grêd:
Lu creulon i anrheithio'u gwlad,
A lladd eu gwŷr frenhinol had.

6 Eu plant yn gaethion cânt eu dwyn;
Mewn dirmyg crwydrant yn ddi-gŵyn:
A'u gwlad yn noeth heb ffrwyth nac ŷd,
Yn anghyfannedd oll i gŷd.

7 Ond os edifarhânt, er hyn
Ei Law ofnadwy ' ffwrdd 'fe'i tyn:
Gwna i'w dinaſoedd lwyddo'n dda,
A'u lleſg Eglwyſi 'fe'u bywhâ.]

8 Y cyfion, gyd â theimlad byw,
Rhyfedda Waith Rhagluniaeth Duw:
A chauir ſafnau ath'iſtiaid mwy
Rhag cablu Duw y Saint yn hŵy.

9 Pa leied ſy'n adgoffa'n jawn
Am ryfedd Driniaeth Duw, a'i Ddawn:
Ond caiff rhai doethion wel'd (gwir yw)
Mai ſanctaidd, cyfiawn, mwyn, yw Duw.

SALM CIX. Adn. 1—5, 31.

Cariad i Elynion, oddi wrth Eſampl Criſt.

1 DUW Mawr, fy Nawdd a'm Moliant gwiw,
D'Ogoniant yw fy nghaniad:
Er bod rhai drwg yn cablu'th Ras
A'u tafod cas di-gariad.

2 Pan oedd dy Fab mewn agwedd dŷn
Yn rhodio'i hun y ddae'ren:
Amgylchwyd ef gan ddynion drwg
A chelwydd, gwg, ac abſen.

3 A'u hadfyd hwy ymdeimlo' wnai,
A'u hedd a geiſiai'n waſtad:
Talaſant ddrwg am dda ar gam,
Caſineb am ei Gariad.

4 Heb achos y terfyſgai' llid;
Er hynny' gŷd gweddïai:
Dros ei elynion ar y Groes;
Yn angau loes bendithiai.

5 Ai'n ofer caiff d'Eſampl di
Ymddangos i'm golygon:
Rho enaid fel un f'Arglwydd cu,
I garu fy ngelynion.

6 Yr

6 Yr Jôn a ſaif o'm tu, yn ſiwr ;
Yn Enw ' Mhrynwr, minnau :
'Orchfyga'u llid a'u balchder hwy,
A'u henllib, trwy ' ngweddiau.

SALM CX. Y Rhan gyntaf. Meſur hir.

Dyrchafu Criſt, *a throi llaweroedd* ; neu, *Lwyddiant yr Efengyl.*

1 Y Tad trag'wyddol d'wedai'n hy
Wrth *Griſt* ei Fab, " Dring, eiſte' fry :
" Ar fy Neheulaw, nes i'th Dad
" Oſtwng d'elynion wrth dy Dra'd.

2 " O *Seion* dy Air nerthol daw ;
" Bydd fel teyrnwialen yn dy Law :
" I waedu calon ' ſawl ni'th barch,
" A phlygu ' h'w'llys wrth dy Arch.

3 " Dy Nerth bryd hyn mawr fydd ei faint,
" Yn ewyllyſgar y daw'th Saint :
" A phechaduriaid lu i'th Dai,
" Mewn hardd Sanctaiddrwydd bydd pob rhai.

4 O ddedwydd Nerth ! O glodfawr Ddydd !
Pa fuddugoliaeth fawr a fydd :
Pan ſo dychwelwyr yn ein plith
Tu hwnt i rif boreol wlith ?

SALM CX. Yr ail Ran. Meſur hir.

Brenhiniaeth ac Offeiriadaeth Criſt.

1 A Rglwydd y ddae'r a'r môr i gŷd
A dyngodd wrth ei Fab ryw bryd :

" Byth ſaif dy Offeiriadaeth di,
" O law i law mwy nid â hi.

2 " *Aaron* a'i blant fydd meirw'n ſyth;
" Ond ti all roddi bywyd byth:
" I achub pawb a ffy trwy ffydd
" Am noddfa rhag y llid a fydd.

3 " Bu *Melciſedec* ar y ddae'r
" Yn Frenhin im' a'Ffeiriad taer:
" Cei dithau yn y nef y fraint
" O ddadleu dros, a llywio'm Saint.

4 Aeth *Jeſu* i'w Faingc, mewn graſol Wedd,
A Chyngor o drag'wyddol Hedd:
Aeth rhwng y Tad a'r Mab ymla'n,
Mewn llwyddiant ac anrhydedd glân.

5 Trwy'r holl-fyd ei Lywodraeth â,
I ddryllio'r ſawl nid ufuddhâ:
Yna y barn e'r meirw i gŷd;
I uffern gyr e'r euog fyd.

6 With deithio'i ffordd i'r nefol Wlad,
'Fe 'yf o gwppan deigr a gwa'd:
Ond ni wna'i Ddioddefadau gwiw
Ond ei ddyrchafu 'nês at Dduw.

SALM CXI. Y Rhan gyntaf.

Doethineb Duw *yn ei Weithredoedd.*

1 CAN o anfarwol Glod di-lŷth
A berthyn byth i'n Harglwydd:
Fy nghalon cân, a'm tafod dôd
Ar led ei Odidawgrwydd.

2 Mor fawr yw Gwaith ei Ddwylo gwych!
Mor harddwych yw i'n golwg:
Ac ym mhlith oèr hyfrydwch rhai
Oetid ceiſio'i Wyrthiau'n amlwg.

3 Dull

3 Dull natur pa mor berffaith yw!
Mor ddoeth yw'r Duw Goruchaf:
Ni newid ef na'r farn na'r modd
'Arfaethodd ar y cyntaf.

4 Ei Blant dewiſol pan ryddhaodd,
Sicrhâodd ei Gyfammod:
Gorch'mynion ei Wefuſau glân
Tros ſyth parhân' heb ddarfod.

5 Holl natur, nef a daear faith,
Sy'n traethu'th Waith tra hoyw:
A'r ffordd i fod yn ddoeth dros ben,
Yw dyſgu darllen d'Enw.

6 Ofni d'Allu, credu i'th Ras,
Sydd ddeall addas duwiol:
A'r hwn a wnel Ewyllys Duw,
Y doethaf yw o'r bobol.

SALM CXI. Yr ail Ran.

Perffeithrwydd Duw.

1 MAWR ydyw'r Jôn; a'i Wyrthiau glân
Sy'n gofyn Cân ragorol:
Boed i Gymmanfa'r Saint trwy'r byd
Bawb uno 'nghŷd i'w gammol.

2 Mawr yw Trugaredd ein Duw ni;
Ei Blant mae'n borthi'n ddiwid:
Yn waſtad cofio'i Air y wna,
A gwneud yn dda'i Addewid.

3 Ei Fab, y Prynwr mawr, a ddaeth,
A diogel gwnaeth ei Ammod:
Ei Enw ſydd yn ſanctaidd jawn,
A'i Ffyrdd yn gyfiawn hynod.

4 A fynno fod yn ddoeth i fyw,
Yn Ofan Duw rhaid dechrau:
Prawf eglur o'n gwybodaeth yw,
Casâu pob rhyw bechodau.

SALM CXII. Meſur cyffredin.

Haelioni yn cael ei wobrwyo.

1 DEdwydd yw'r hwn fy'n ofni'r Jôn,
A gwneud ei Eirchion ddiaeth:
Echwyno i'r clawd, neu rydd yn hael,
Heb ddiſgwyl cael tal'digaeth.

2 Gan fod toſturi yn ei fron
At bawb o feibion eiſiau:
Ei had ef a fendithia Duw
Mewn atteb i'w weddiau.

3 Nid ofna rhag drwg chwedlau fyn,
Mae'i feddwl yn ſefydlog:
At Dduw y ffy am nawdd i'r nef;
Am hyn bydd ef' di-ofnog.

4 Yn amſer trallod (gwyn ei fyd)
Fe gyfyd rhyw oleuni:
Dengys i'r byd mai cyfion yw,
A Heddwch Duw caiff broſi.

5 Ei dduwiol waith a'i gariad rhwydd,
O flaen yr Arglwydd erys:
Parch ar y ddae'r, llawenydd nef,
Fydd ei wobr ef yn ddilys.

SALM CXIII.

Mawrhydi ac Ymoſtyngiad Duw.

1 CHwychwi a gâr was'naethu'r Jôn,
Gwnewch am ei Fawredd ſanctaidd ſon;
Bendithiwch byth ei Enw pur:

O god-

O godiad haul hyd fachlud hwn,
Trwy bauthau'r byd i gŷd yn grwn,
Ei Allu traethed môr a thir.

2 Nid amſer, lle, na phellder chwaith,
'Ddyd terfyn i'w Arglwyddiaeth faith;
Ei Fawredd ſydd goruwch y nef:
Na boed i un creadur byw
Gyſtadlu â'n trag'wyddol Duw;
Nerth di-greedig s'iddo ef.

3 Fe 'moſtwng ei Fawrhydi ef
I edrych gwaith Angylion nef,
A meddwl am drigolion byd:
'Fe ' gwyd y tlawd, 'fe'u gwiſg yn dlws,
A'r rheidus 'fe a'u dwg o'r drws,
Cymdeithion i frenhinoedd dŷd.

4 I ddynion yn ddi-blant y fu
Y fendith o etifedd rhy,
I gadw'u henw hwy mewn bôd:
Y fam yn llawn llawenydd llon,
Ei foli'n ddiolchgar y wna hon.
Boed i bob oes ddyrchafu'i Glod.

SALM CXIII. Meſur hir.

Duw *yn Ben-llywydd ac yn raſol.*

1 CHWI weiſion Brenhin mawr y Nef,
Ym mhob oes cenwch ei Fawl ef:
B'le bynna' treiglo'r haul ei dro,
Caiff cenhedlaethau'i foli 'ſo.

2 Uwch daear ac uwch wybren fry
Gorſeddfaingc ei Fawrhydi ſy:
Ni attal lle nac amſer chwaith
Mo'i Allu na'i Lywodraeth faith.

3 P'un o blant *Addaf*, egwan ryw,
Neu 'Ngylion,' faidd gyſtadlu â Duw:
Mor ddiſglair yw Gogoniant cry'
'Rhwn a breſwylia'n uchel fry!

4 Gwelwch ei Gariad; fe blyg ef'
I edrych gwaith llu mawr y nef:
Ymoſtwng mae ef' etto'n fwy
I wybod hynt plant dynion hwy.

5 O lwch a llueiſt gwael a gwawd
Mae'i Ras ef yn dyrchafu'r llawd:
Anrhydedd plant i'r rhai'n rhydd ef',
Ac a'u cymhwyſa i feingciau'r nef.

6 [Un gair o'i Enau ef yn glau
Wna teulu di-blant lawenhâu:
Yn naw dengmlwydd dug *Sara* had,
Trwy rym Addewid Duw a'i Rad.

7 Y fam fydd llon gael plentyn byw,
A thraetha'r Gwyrthiau a wnaeth Duw:
Ffydd all gryfhâu, os cnawd' wanhâ;
Addewid Duw a wnair yn dda.]

SALM CXIV.

Gwyrthiau yn cyd-fyned â Thaith Iſrael.

1 PAN aeth Plant *Iſrael*' ffwrdd (yn wir)
A gadael *Pharao* draws a'i dir:
Eu Llywydd hwy oedd Brenhin Nef,
A *Juda* ei Orfeddfaingc ef.

2 Trwy'r môr yr oedd eu taith i dre;
Gwahanodd hwn i roi 'ddynt le:
Jorddonen gwelodd hyn, a throdd
Oddiar eu ffordd, i'w gwrthol ffodd.

3 Mynydd-

3 Mynyddoedd, bryniau, neidient draw
Fel hyrdd ac wyn, gan ofn a braw:
Ni thrigodd *Sina* yn ddi-grŷn,
Pan oedd ' fath Allu mawr wrth glun.

4 Pa nerth a wnai i'r dyfn-for ffoi?
Ac i'r *Iorddonen* wrthol droi:
P'am, fryniau bach, y neidiech chwi?
Pa ddychtyn, *Sina*, ' deimlaiſt di?

5 Boed i bob mynydd a phob lli'
Ffoi oddi arnfordd ein Harglwydd ni:
Can's Brenhin *Iſrael* yma ſydd;
Crŷn, ddaear, ac addola'n brudd.

6 Triſtâ pob peth, pan dryſtio fry;
Y graig yn llyn o ddwfr 'ſe'i try:
A'r galleſtr yn ffynhonnau byw,
A'r tân a'r dwfr ' addefant DDUW.

SALM CXV.

Y Gwir DDUW *ein Noddfa*; neu, *Eilun-addoliaeth yn cael ei geryddu.*

1 NID i nyni, ſydd lwch, O DDUW!
Gogoniant yn ddyledus yw:
Ti yw'r trag'wyddol unig Un
Sydd gyſion, doeth, a graſol Gûn.

2 Mewn dychryn ymddiſgleiria ar lêd;
P'am y cai tafod y di-grêd:
Dd'we'yd wrthym, i'n gw'radwyddo o hŷd,
" *Pa le mae'r DUW* ' *was'naeth'ſoch cŷ'd?*

3 Y Duw ŷm ni'n was'naethu, ſy
A'i Orſedd-fainge uwch wybren fry:
Trwy'r ddaear gwnair ei 'Wyllys of;
Edwyn ein llais, a gwrendy'n llef.

4 Ond hwy ' addolant ddelwau hyll
O bren a maen di-ſynwyr ddulliau;
Darn dêg o fwyn yw'r goreu a gair;
Sef ſant o arian, Duw o aur.

5 [Gwnant iddynt gluſtiau a llygaid ſyn;
Byddariaid, deillion, ŷnt er hyn:
Aberthu ilr rhai'n ſydd ofer waith;
Nid gwiw gweddïo arnynt chwaith.

6 Eu traed ni wnaed i ſymmud dim;
I'w dwylo i achub nid oes grym:
'Sawl a'u haddolant hwy o'u bodd,
Byddariaid, deillion, ŷnt un modd.]

7 Ond *Iſrael*, cred di yn dy Dduw;
Dy Borth a'th Ymddiffynſa yw:
'Fe ' gwyd dy anghyſannedd le;
Bugail a phraidd 'ſendithia 'fe.

8 Y meirw ni'th foliannant mwy;
Mewn diſtaw feddau tŷgant hwy:
Ond ni gawn fyw i foli'th Ras,
A thraethu'th Nerth i'r byd i mâs.

SALM CXVI. Y Rhan gyntaf.

Gwellhâd o Glefyd.

1 CARAF yr Arglwydd; clybu'm lleſ,
A mi gwnaeth ef' Drugaredd:
Tr'w'i byw, pan ddêl trallodion ſwrth,
Pryſuraf wrth ei Orſedd.

2 Caraf yr Jôn; goſtyngai ' Gluſt,
A'm blinder triſt trow's heibio:
O na wanhaed fy nghalon byth,
Tr'o ynof chwŷth ' weddïo!

3 Fy

3 Fy nghnawd a'm hyſpryd ſyrthiai 'lawr,
Ac aethym gerllaw'r beddrod:
O'm mewn poen angau oedd yn gwau,
Ac ofnau uffern iſod.

4 "Fy Nuw," mi 'lefais, "gwared fi;
"Da ydwyt ti a chyfion:
"Ti all o'r bedd fy nghadw'n gu,
"'Rwy'n credu i'th Allu'n ffyddlon.

5 Yr Jôn a'm canfu'n flin di-hoen;
Rhoes ef' i'm poen ſymmudiad:
Tro, f'enaid, i'th orphwyſfa wiw;
Can's profaiſt Duw a'i Gariad.

6 Rhag angau cadwodd f'enaid caeth,
A ſychu 'wnaeth fy nagrau:
I'w Fawl y treuliaf f'anadl prûdd,
A'r gweddill ſydd o'm dyddiau.

SALM CXVI. Adn. 12, &c.

Yr ail Ran.

Addunedau a wnaed mewn Trallod, eu talu yn yr Eglwys; neu, *Ddiolchgarwch cyhoeddus am Waredigaeth ddirgel.*

1 PA beth i'm Duw a dala'i 'nawr
Am dan ei fawr Drugaredd:
Fy nhraed a gânt dramwyo'th Dŷ,
A'm cân ddyrchafu i'th Orſedd.

2 Ym mhlith y Saint fy'n llenwi'th Dŷ
F' offrymmau hy a delir:
Yno cwplâ'i'r addunedbrûdd
A rois yn nydd fy nolur.

3 Mor hoff yw gennyt drugarhâu,
O Duw! wrth rai mewn adſyd:

Mor

Mor gu yw'th Saint i'th Olwg wiw!
Mor werthfawr yw eu bywyd!

4 Mor ddedwydd yw'th holl Weision di!
Mor fawr i mi'th Drugaredd:
Fy mywyd a waredaist di,
Cyflwynaf fi i'th Fawredd.

5 Bellach a byth dy eiddo wy';
Ni newid mwy mo'm bwriad:
Dattodaist rwymau 'nolur i,
A rhwymaist fi â'th Gariad.

6 I'th Dŷ f'addunedgado 'wnaf,
A chofiaf dy Raſlonrwydd:
Tyſt boed y Saint a'm clyw, dan go',
Os bydd im' ado'r Arglwydd.

SALM CXVII. Meſur cyffredin.

Mawl i Dduw *oddi wrth yr holl Genhedloedd.*

1 CHWI bobloedd oll, moliennwch Dduw,
Trwy'r byd, â phob rhyw dafod:
Dyſgwch ei Air ef ym mhob jaith;
I'w Enw'n faith rhowch Fawr-glod.

2 Mae ei Drugaredd trwy bob gwlad;
Ei Gariad rhad cyhoeddwch:
Byth pery ei Wirionedd gwiw;
Y ffyddlon Dduw clodforwch.

SALM CXVII. Meſur hir.

1 DY Enw, Hollalluog Jôr,
A ſeinia 'mhell trwy dîr a môr:
Mawr yw dy Ras, ſiwr yw dy Air;
Dy Wir, ſafadwy byth fe'i cair.

2 Dy

2 Dy Barch a gaffo 'mhell ei hau,
A boed i'th Foliant hir barhâu:
Nes bo'amſerau bore a hwyr
Oll wedi eu dilêu yn llwyr.

SALM CXVIII. Adn. 6—15.

Y Rhan gyntaf.

Gwaredigaeth o Derfyſg.

1 YR Arglwydd imi'n Helpiwr fydd,
Nid yw fy ffydd yn ofni:
Pa beth a wnel plant dynion mwy,
A 'fe'n Gynhorthwy imi.

2 Gwell im' obeithio yn fy Nuw,
A chael y cyfryw'm caru:
Nâ chredu yng ngwŷr mawr y tir,
Nac ar eu gwir hyderu.

3 O'm cylch daeth fy ngelynion hy,
Fel gwenyn lu mawr llidiog:
Ond maeddaf eu cynddaredd oll
Trwy Fraich yr Holl-alluog.

4 Trwy'r Jôn mae 'nghalon yn cryfhâu;
Yn hwn y mae'm llawenydd:
Tra canwyf Jachawdwriaeth Duw,
Mor hoenus yw'm lleferydd!

5 Amgylchent fi fel gwenyn byw;
Ond pan ddaeth Duw, hwy 'ffoiſant:
Fel drain, a loſgir yn y tân,
Dan gleccian diffoddaſant.

6 Hedd a gorfoledd i'r Saint fydd,
Duw'n Geidwad fydd i'w dyddiau:
I'w Ras galluog, *Iſrael*, dôd
Anfarwol Glod o'th enau.

SALM

SALM CXVIII. Adn. 17—21.
Yr ail Ran.

Mawl cyhoeddus am Waredigaeth rhag Angau.

1 DUW, clywaiſt waedd dy was o'r nef;
Gwaredaiſt ef rhag marw:
Byw fydd (a marw ni wna'r dŷn
'Fo Duw ei hun am gadw.)

2 Dy Foliant bellach, nos a dydd,
Mynychiach fydd i'w enau:
Dy Law, 'r hon a'i ceryddai'n fawr,
A'i ceidw 'nawr rhag angau.

3 Agorwch *Seion* byrth i ni;
De'wn i addoli'th Fawredd:
Y Ty lle'r â'r holl dduwiol rai,
Duw, i goffâu'th Drugaredd.

4 Ynghyn'lleidfaoedd dy Seintiau glân
Ein llafar Gân dyrchefwn:
D'wedaſom wrthyt yno'n cwyn,
A'th Fawl yn fwyn a draethwn.

SALM CXVIII. Adn. 22, 23.
Y drydedd Ran.

Criſt *Seilfaen ei Eglwys.*

1 WELE, y Seilfaen cadarn yw
Yn *Seion* Duw a'i dododd:
In' weithio'n gobaith arno ef,
A'i Foliant yntef bytho'dd.

2 Duw

2 Duw a'i hetholodd, gwerthfawr yw
Gan bob dŷn byw a'i 'dnebydd:
A'r ſawl a gredant yntho ef,
Ni chânt ddïoddef c'wilydd.

3 *Juddewon*, adeiliadwyr ffol,
A'i gada'i 'nol yn ddibris:
Ar y Graig hon yr Eglwys trig,
Er gwaetha'u dig maleiſus.

4 Pe holl byrth uffern a'i gwrthſa'i,
Cyfodi ' wnai'r Adeiliad:
Hyn, Arglwydd, yw dy Waith dy hun,
A rhyfedd y'n golygiad.

SALM CXVIII. Adn. 24, 25, 26.

Y bedwaredd Ran.

Hoſanna; *Dydd yr Arglwydd*; neu, *Adgyfodiad* Criſt, *a'n Jachawdwriaeth ninnau.*

1 HWN ydyw Dydd ein Harglwydd daeth,
Efe a'i gwnaeth yn eiddo:
Plant dynion, llawenhâwn am hwn,
A gorfoleddwn ynddo.

2 Heddyw daeth *Criſt* o'r bedd i'r lan,
A theyrnas *Satan* cwympodd:
A heddyw ' gorfoledda'i Saint,
A'i Wyrthiau maent yn adrodd.

3 *Hoſanna* i'r *Jeſu*, 'n Brenhin da,
Mab *Dafydd*, fwya'i Fawredd:
O cymmorth, Arglwydd! tyr'd yn awr
A'th Ras i lawr o'th Orſedd.

4 Bendithier ef a ddêl i ni
A Chennadwri dawnus:

A ddêl yn Enw'i Dad, ſef Duw,
I gadw'n rhyw gamweddus.

5 *Hoſanna* 'nawr, ag uchel lef,
Fo iddo ef trwy'r ddae'ren:
Ac yn y nef, lle mae 'ſe'n bod,
Rhoir iddo Glod ſydd amgen.

SALM CXIX. Y Rhan gyntaf.

Dedwyddwch y Saint, a Thrueni Pechaduriaid.

Adn. 1, 2, 3.

1 GWYN ſyd y ſawl s'o gàlon bur,
A'i ffyrdd yn gywir hynod:
A'th Gyfraith nid ymâd, O Dduw!
Ond ffy rhag pob rhyw bechod.

2 Gwyn fyd y rhai ſy'n hoffi'th Air,
A'th Ddeddfau diſglair cadwant;
A'u holl gàlonnau ceiſiant di,
A'u dwylo i'th was'naethant.

Adn. 165.

3 Mawr heddwch a chadernid ſy
I'r rhai ſy'n caru'th Ddeddfau:
Nid profedigaeth hy all droi
Eu traed i 'ſgoi o'th Lwybrau.

Adn. 6.

4 Llawenydd mawr i'm calon fydd;
Rhag gw'radwydd prûdd ca'i 'nghadw:
Pan wnelwy'th holl Orch'mynion cu,
Ac anrhydeddu'th Enw.

Adn.

Adn. 21, 118.

5 Ond dynion beilch, Duw a'u casâ;
Dan felldith ' trenga'r anwir:
A meibion twyll a dichell drwch,
Hwynthwy i'r llwch a sethrir.

Adn. 119, 155.

6 Fel sorod gwael yw'r anwir rai;
'Sawl ' edy'th Lwybrau hyfryd:
Gwel'd Jachawdwriaeth cânt o bell,
Heb fod yn well o'i phlegid.

SALM CXIX. Yr ail Ran.

Duwiolder dirgel, a Syniad ysprydol; neu, *Ymarfer gwastadol â* Duw.

Adn. 147, 55.

1 CYN goleu'r wawr, Duw, arnat ti
Gweddïaf fi mewn hiraeth:
Myfyrio'r nos ar d'Enw ' wnaf,
A'r dydd cadwâf dy Gyfraith.

Adn. 81.

2 Lleſghâu mae f'yſpryd, Arglwydd Nè',
Am wel'd dy Jechawdwriaeth:
Tra'r oedo hon, d'Addewid ſy
Yn dal i fynu ' ngobaith.

Adn. 164.

3 Saith waith y coda'i ' nwylaw'r dydd;
Rhof ddiolch prudd i'th Enw:
Mawl mynych mae'th Ddaioni di,
Oddiwyrthyf fi yn alw.

Adn. 62.

4 Pan ſo tywyllwch nos fel llen
Yn cuddio'r wybren ddyrys:
'Rwy'n cofio dy Weithredoedd di,
Ac yn dy ſoli'n ſelys.

SALM CXIX. Y drydedd Ran.

Cyffes o Ddiragrithrwydd, Edifeirwch, ac Ufudd-dod.

Adn. 57, 60.

1 TI yw fy Rhan, O Arglwydd mwy!
Dy Ffordd pan fwy'n ei gwybod:
Mewn brys i ufuddhâu i'th Air
Fy nghalon cair yn barod.

Adn. 30, 14.

2 Dewiſais Ffordd Gwirionedd, Jôr;
Yn hon 'rwy'n gorfoleddu:
Nid holl dryſorau'r ddaear gron
A'm gwnant mor llon o'u meddu.

3 Dy raſol Dyſtiolaethau glân,
Rhois hwy o fla'n fy llygaid:
Oddiyno nerth beunyddiol ca',
A chyſur da i'm henaid.

Adn. 59.

4 Os unwaith af o'th Ffordd ar gam,
Meddyliaf am fy nhroſedd:
Troi 'nhraed at dy Orch'mynion gwnâf,
A llefaf am Drugaredd.

Adn. 94, 114.

5 Dy eiddo byth wyf fi, trwy Ras;
Duw, cadwith was yn berffaith:
Can's Tarian wyt a Lloches ym';
Yn d'Air mae grym fy ngobaith.

Adn. 112.

6 Fy nghalon a oftyngaiſt di
'Nawr i gyflawni'th Ddeddfau:
Fel hyn dymunwn â'm holl fryd
Wneud d'W'llys hyd ddydd angau.

SALM CXIX. Y bedwaredd Ran.

Addyſg o'r Yſgrythur.

Adn. 9.

1 PA fodd y ceidw je'ngetid gwiw
Eu bywyd rhag pob pechod:
Rhydd d'Air Rheolau pur o'n bla'n
I gadw glân gydwybod.

Adn. 130.

2 I mewn i'r meddwl pan el d'Air,
Rhydd y fath ddiſglair olau:
Yr enaid gwael caiſſ addyſg gwiw,
A chwyd at Dduw 'feddyliau.

Adn. 105.

3 Mae fel yr haul, goleuni ſydd
A'r hŷd y dydd i'n t'wyſo:
A'r nos, trwy bob peryglon blin,
Fel lluſern i'n cyf'rwyddo.

Adn. 99, 100.

4 Y ſawl a gadwo'th Gyfraith gu;
Ac i'th Air ſy'n gyfarwydd:
Mwy doeth nâ'i 'thrawon yw e'
Edwyn yn well yr Arglwydd.

Adn. 104, 113.

5 Dy Ddeddfau gwnant fi'n ddoeth, yn wir;
Ffyrdd anwir a ffieiddiaf:
A'm gwag feddyliau cas genn'i,
Dy Gyfraith di a garaf.

Adn. 89, 90, 91.

6 [I'th Reol ufuddhâu mae'r ne',
A chadw'i lle mae'r ddae'ren:
A'r rhai'n dy weiſion, ddydd a nos,
Sy'n dangos d'Allu cywren.

7 Ond etto'th Ddeddf a'th Fengyl di
Mae amgen gwerſi ganthynt:
Nid ſicrach ſaiſ y ddae'r, nâ'th Air;
Nid ſer mor ddiſglair ydynt.]

Adn. 160, 140, 9, 116.

8 Dy Air di ſydd drag'wyddol Wir;
Pob Rhan ſy bur di-wammal:
Mewn je'ngctid ein Hyfforddwr yw,
A thra fo'm byw 'fe'n cynnal.

SALM CXIX. Y bummed Ran.

Digrifwch yn y Yſgrythur; neu, *Air Duw yn aros ynom.*

Adn. 97.

1 O Fel 'rwy'n hoffi'th Gyfraith bur!
Bob dydd mae'n ddifyr genn'i: Ac

Ac wrth fyfyrio ynthi'r nos,
Mae'i'n dangos ddyfg immi.

Adn. 148.

2 Fy llygaid fy'n rhagflaenu'r dydd;
Yn d'Air mae ' mhrûdd aſtudrwydd:
Gan flys y tawdd fy enaid cul
A'm wrando'th 'Fengyl, Arglwydd.

Adn. 3, 13, 54.

3 Mor gref yw ' nghalon i trwy'th Air!
Mor ddyfal ' gwnair fy nhafod:
Yn hwn caf nefol Ganiad per
Trwy 'mlin-faith bererindod.

Adn. 19, 103.

4 Ai dieithr pell wyf, neu yn nhre,
Fy ngwledd yw 'fe bob amſer;
Nid yw diferiad mel o'r grib
Gyffelyb ei feluſder.

Adn. 72, 127.

5 'Fe ' gyfoethoga feddwl dŷn
Uwchlaw un tryſor allan:
Am hyn ni's gwerthwn i mo'th Air
Am fil o aur ac arian.

Adn. 28, 49, 175.

6 Pan fyrthio cnawd ac yſpryd ' lawr,
Dy werthfawr Addewidion:
Sydd fel colofnau'n dal i'r lan
Fy ngobaith gwan a'm calon.

SALM CXIX. Y chweched Ran.

Sancteiddrwydd a Chyfur o'r Gair.

Adn. 128.

1 DUW, 'rwyf yn cyfri'th Farnau'n jawn,
A'th Ddeddfau'n gyfiawn hynod:
Pair hyn i mi ymdrechu'n fyw
O hŷd â phob rhyw bechod.

Adn. 97, 9.

2 Mewn golwg cadw'th Ddeddf a wnaf;
Edrychaf ar d'Orch'mynion:
Trwy'r dydd a'i holl drafferthon maith,
I lunio 'ngwaith yn union.

Adn. 62.

3 Fy nghalon 'waedd y nos, O Dduw!
"Mor felus yw'th Gyfuron:"
Mewn fyndod cwyd fy meddwl i
I'th foli di'n bereiddlon.

Adn. 162.

4 Pan lanwer f'yfpryd i â'th Air,
Mor llon y cair fy helynt:
Nid gwŷr 'fo'n rhannu'r yfpail fydd
A'r fath lawenydd ganthynt.

SALM CXIX. Y feithfed Ran.

Ammherffeithrwydd Natur, a Pherffeithrwydd yr Efgrythur.

Adn. 96, wedi ei hefponio.

1 GWnaed gwŷr cenhedlig, trwy 'holl waith,
Un llyfyr perffaith purwych:

Duw

Duw Mawr, cymharer hwn â'th Air,
Mor wael y cair e'n edrych!

2 Nid eu rheolau puraf hwy,
A roiſant trwy 'holl lyfrau:
A ddichon dangos i nyni
Un pechod wedi 'ſaddau.

3 Ac ni chyf'rwyddant yn ddi-fraw
Un cam tu draw i'r beddrod:
Ond Gair Duw dengys in' ar g'oedd
Y ffordd i'r nefoedd uchod.

4 Perffeithrwydd y tu yma i'r bedd,
Mi welais diwedd arno:
Galluoedd natur ſy mor fyr,
Fel na's cyrhaeddir atto.

5 Er hyn myn dynion ſod, trwy 'gwaith,
Ger bron Duw'n berffaith gwbwl:
Ond ehang jawn yw'th Gyfraith di;
Mae'i'n cyrhaedd i bob meddwl.

6 Boſtio Perffeithrwydd yma'n llawn,
Sydd ofer jawn, yn ddiau:
Tr'o pechod yn ein llygru ni,
A ſoddi ein rhinweddau.

7 Ffydd, Cariad, a'n holl Raſau, a gair
Yn fyr o'th Air yn digwydd:
Perffeithrwydd a Chyfiawnder trig
Yn unig gyd â'r Arglwydd.

SALM CXIX. Yr wythfed Ran.

Gair Duw *yw Etifeddiaeth y Saint*; neu, *Ragoriaeth ac Amrywiaeth yr Yſgrythur.*

Adn. 111, wedi ei heſponio.

1 D'Air a ddewiſais, Arglwydd Ne',
Dros byth yn Etifeddiaeth: Yn

Yn hwn fy enaid llawenhâ;
Yn hwn myfyria'i'n helaeth.

2 Darllenaf Air dy Gariad llon;
Rhof ger fy mron dy Ddeddfau:
Ac yn dy Addewidion di
Difyrraf fi hyd angau.

3 Tir helaeth, llawn o olud, yw;
Ffynhonnau byw'n hwn tarddant:
Had didrangc Wynfyd yma fydd,
A dirgel gudd Ogoniant.

4 Y Cyfur goreu i enaid prûdd,
Yn ddedwydd 'fe ' wna'n gofyd:
Ein gobaith teg tu draw i'r bedd,
Am fythol Hedd a Bywyd.

SALM CXIX. Y nawfed Ran.

Deifyfiad am Wybodaeth; neu, *Addyfgiad yr Yfpryd gyd â'r Gair.*

Adn. 64, 68, 18.

1 DA wyt, O Dduw! y ddaear fy
Yn llawn o'th Drugareddau:
Goleua'm llygaid yn dy Air,
I wel'd dy ddifglair Wyrthiau,

Adn. 73, 125.

2 Dy Law a wnaeth fy nghalon i;
Teilwng i ti ' ngwafanaeth:
Pa ddyledfwyddau a wna'th was,
Dôd im', trwy Ras, Wybodaeth.

Adn. 19.

3 Myfi yn ddieithr yma fydd;
Am hyn na chudd dy Lwybrau:

Dôd

Dôd arwydd ffordd yr elwyf fi,
A thywys di fi'n olau.

Adn. 26.

4 Fy nhraws-ffyrdd pan addefais i,
Gwrandewaiſt di fi'n ewyno:
Dy Ras i'm dyſgu caniadhâ;
On'tê, mi wibia' etto.

Adn. 33, 34.

5 Os dengys Duw ei Ddeddfau i mi,
A rhoi Goleuni nefol:
Mi a ddilynaf byth ei Waith,
A'i Gyfraith fydd fy Rheol.

Adn. 50, 71.

6 Hyn oedd fy Nghyſur i, pan ſum
Dan ofid llym amrywiaeth;
Gwnaeth imi ddyſgu'th Air yn fwy,
Lle ce's Gynhorthwy helaeth.

Adn. 51.

7 [Yn ofer gwawdia'r beilchion ſyth;
Ni 'nghofiaf byth mo'th Gyfraith:
Na gado'th 'Fengyl ſanctaidd di,
O'r lle ce's i fy Ngobaith.

Adn. 27, 171.

8 Pan ddyſgwyf 'Wyllys Duw i gŷd,
Ei Ffyrdd i'r byd a ddyſgaf:
Ac â'm gwefuſau, 'n llawn o zel,
Ei Fawl yn uchel traethaf.]

SALM CXIX. Y ddegfed Ran.

Pledio'r Addewidion.

Adn. 38, 49.

1 GWEL, Arglwydd, diſgwyl mae dy was
Mewn ofn ac addas hiraeth:
O cofia a chadarnhâ dy Air!
Can's yno cair fy Ngobaith.

Adn. 41, 58, 107.

2 Pa le mae'th Jachawdwriaeth glau?
Gras i'm bywhâu, addewaiſt:
On'd erfyn hwn mae 'nghalon i?
Ac etto ti a oedaiſt.

Adn. 123, 42.

3 Fy llygaid pallant am dy Ras;
Dal 'fynu'th was mewn alaeth:
Na thyccied y gwatwarwyr hy
Sydd yn dirmygu 'Ngobaith.

Adn. 49, 74.

4 On'd ti 'roiſt Ffydd im', Arglwydd da?
Am hyn datguddia'th Eiriau:
A'r Saint o'm plegid llawenhânt,
A chredant ynot tithau.

SALM CXIX.

Yr unfed Ran ar ddeg.

Anadlu ar ol Sancteiddrwydd.

Adn. 5, 33.

1 ONa chyf'rwyddai Duw fi'n glau
I gadw'i Ddeddfau'n ddilys: Ac,

Ac, o na roi im' Ras ('wy'n dd'we'yd)
I ddyſgu a gwneud ei 'W'llys!

Adn. 29.

2 Rho'th Yſpryd, i 'ſgrifenu'n faith
Dy Gyfraith ar fy nghalon:
Na ad i'm tafod ganiadhâu
Na thwyll, na gau 'madroddion.

Adn. 37, 36.

3 Tro'm llygaid oddiwrth wagedd ' ffwrdd,
Rhag iddo g'wrdd, a'm llygru:
Na ad un chwant cybyddlyd gwael
Yn f'enaid gael cyfodi.

Adn. 133.

4 Trefna fy nghamrau wrth dy Air;
Gwna'n ddiwair pur fy nghalon:
N'ad ' bechod gael ei rwyſg a'i rod;
Rho lân gydwybod union.

Adn. 176.

5 Fy enaid, crwydrodd lawer tro;
A'm traed ſy'n llithro'n drwſtan:
Ond gan na 'nghofiais dy Ffordd di,
Duw, dychwel fi yn fuan.

Adn. 35.

6 Dôd fi yn ffordd d'Orch'mynion da
I rodio a digryfu:
Y gàlon, pen, na'r ddwy law hyn,
N'ad hwy i'th erbyn bechu.

SALM CXIX.

Y ddeuddegfed Ran.

Anadlu ar ol Cyfur a Gwaredigaeth.

Adn. 153.

1 YStyria ' nhrallod, Arglwydd da;
Fy achos pledia eilwaith:
Er pechu'n erbyn dy Ras rhad,
O'm cof nid â dy Gyfraith.

Adn. 39, 116.

2 Gwa'rdd, gwa'rdd y gw'radwydd llym, a'r llid,
'Wy'n ofni, nid heb achos:
Dal ' fynu f'oes a'm gobaith mad;
Fy ngwarth na ad i 'nddangos.

Adn. 122, 135.

3 Mechnïa, Arglwydd, dros dy was;
N'ad ' feilchion cas fy mlino:
Ond gâd i mi gael gwel'd (er neb)
Ddifgleirdeb d'Wyneb etto.

Adn. 82.

4 Wrth ddifgwyl, palla ' ngolwg brûdd;
A'm calon fydd yn cwyno:
" *Pa bryd y cwpla DUW ei Air,*
" *A llawenhâir fi etto?*

Adn. 132.

5 Duw, edrych ar fy ngofid i,
A dangos di'r gras hwnnw:
Ag wyt yn arfer roi i'th blant
Y rhai a garant d'Enw.

SALM

SALM CXIX.

Y drydedd Ran ar ddeg.

Ofn ſanctaidd, a Thynerwch Cydwybod.

Adn. 10.

1 A'M calon oll y'th geiſiais di,
Byth n'ad i mi droi heibio:
Duw'r Gras, oddiwrth d'Orch'mynion pur,
Na ffordd pechadur droedio.

Adn. 11.

2 I'm calon cuddiais dy Air gwir,
I gadw pur gydwybod:
Ac i'm harfogi, tra fwyf byw,
Yn erbyn pob rhyw bechod.

Adn. 63, 53, 158.

3 Cydymmaith wyf i'r Seintiau ſy
'N caru ac ofni'r Arglwydd:
Pan fydder yn troſeddu d'Air,
Mi a driſthâir o'i herwydd.

Adn. 161, 163.

4 Pan wnel rhai gam â'th 'Fengyl di,
'Rwy'n ofni'th Farnedigaeth:
Fy enaid, celwydd mae'n gasâu;
Ond yn mawrhâu dy Gyfraith.

Adn. 161, 120.

5 Fy nghalon gyd â pharch a gair
Yn gwrando'th Air bygwthiol:
A'm cnawd i rhag dy Farnau ſyn
A grŷn mewn dychryn duwiol.

Adn. 166, 174.

6 Hiraethu a diſgwyl 'rwyf o hŷd
Am wel'd dy Jechydwriaeth:
Tra ufuddhâwyf i'th 'Wyllys di,
A hoffi dy holl Gyfraith.

SALM CXIX.

Y bedwaredd Ran ar ddeg.

Llesâd Cyſtuddiau, a Chynhaliaeth danynt.

Adn. 153, 81, 82.

1 DUW, gwel fy holl ofidiau maith,
A Gwaredigaeth dyro:
Can's am dy Jachawdwriaeth di
Mae f'enaid i'n diffygio.

Adn. 71.

2 Er hyn 'rwy'n gwel'd mai da i mi
Dy Wialen di, Dad nefol:
Gwna hon fi 'ddyſgu'th Gyfraith wiw,
A byw ar DDUW yn hollol.

Adn. 50.

3 Hyn yw y cyſur gennyf ſydd
Pan ddêl o newydd drallod:
'Rwy'n darllen d'Air, 'wy'n ufuddhâu,
Ac yn casâu fy mhechod.

Adn. 92.

4 On' bai fod d'Air yn hoffder im'
Pan wyf heb ddim cyſuron:
Fy enaid gwan, gan ofid chwith,
A ſoddai 'blith y meirwon.

Adn.

Adn. 75.

5 'Nawr gwn mai jawn yw'th Feirn eriôed,
Er tybio'u bod yn greulon:
Dy Gerydd llymmaf im', O Dad!
A dardd o'th Gariad ffyddlon.

Adn. 67.

6 Cyn imi brofi'th Wialen di,
Hawdd yr awn i ar ddidro:
Ond 'nawr 'rwy'n dyſgu cadw'th Air;
O'th Ffyrdd ni chair fi'n crwydro.

SALM CXIX.

Y bymthegfed Ran.

Ymroadau duwiol.

Adn. 93.

1 OH! 'bai bob awr dy Ddeddfau di
I'm meddwl i'n drigiannol:
Cawn nerth oddiyno i'm bywhâu,
A chyſur clau'n feunyddiol.

Adn. 15, 16.

2 Myfyrio yn d'Orch'mynion maith,
Fydd melus waith im' beunydd:
Byth mid â'th Air o'm cof ar goll;
Hwn yw fy holl Lawenydd.

Adn. 32.

3 Rhwydd redaf ffordd d'Orch'mynion di,
Os ti 'ehengi 'nghalon:
O rwymau'r Fall a phechod cas,
A'm traed trwy Ras yn rhyddion.

Adn. 61, 69, 70.

4 Pe codai llu o erlidwyr ffrom
I'm 'ſpeilio o'm cyſiawnder:
A'r beilchion lunio'u celwydd rhŷdd,
Dy Gyfraith fydd fy hoffder.

Adn. 13, 46.

5 Dy Enw mawr, a'th Ddeddfau cu,
Bydd imi'n hy ' declario:
Yngŵydd brenhinoedd traethaf d'Air;
Am hwn ni's gwnair fi ' wridio.

Adn. 115.

6 Oddiwrthyf ewch, annuwiol ryw,
Y rhai ſy'n byw'n ddrygionus:
Fy Nuw a'i Ffyrdd eu caru ' wnaf,
Ac ufuddhâf i'w 'W'llys.

SALM CXIX.

Yr unfed Ran ar bymtheg.

Gweddi am Ras bywiogol.

Adn. 25, 37.

1 FY enaid wrth y llwch a lŷn;
Bywhâ dy hun fi, Arglwydd:
Oddiwrth bob chwant a gwagedd ffol
Tro'm llygaid 'nol yn ebrwydd.

2 Rho ddylanwadau'th Ras, wrth raid,
I'm gwneud i ddibaid fryſio:
Rhag imi aros ar fy nhaith,
A'm traed i ymaith grwydro.

Adn.

Adn. 107.

3 Pan waſgo cyſtudd toſt fi ' lawr,
Mae arna'i ddirfawr eiſiau:
Dy Ras, i'm bywioghâu yn llon,
I helpu 'nhrymion oriau.

Adn. 156, 40.

4 Mae'th Drugareddau o aml ryw,
A ffyddlon Duw wyt hefyd:
Dôd imi fryttach zel yn frau
I redeg llwybrau'r Bywyd.

Adn. 159, 40.

5 'Rwy'n hoffi dy Orch'mynion (gwel)
A'th Wyneb tawel ſiriol;
Ac etto f'yſpryd pa mor lla's
Y cerdd, heb Ras bywiogol.

Adn. 93.

6 Bryd hynny'th 'Fengyl a fawrhâ';
O'm cof nid â'th Air mwyach:
Pan deimlwyf hwn a'i Allu byw
I'm dwyn at Duw'n agoſach.

SALM CXIX.

Y ddwyfedd Ran ar bymtheg.

Calondid a Pharhâd dan Erlidigaeth; neu, *Ras yn llewyrchu mewn Profedigaeth.*

Adn. 143, 28.

1 MEWN poen ac ing, Duw, pan y'm cair,
Mae f'holl gynhaliaeth i o'th Air:
Gan drymder y tawdd f'enaid gwan;
Dal fi â'th nerthol Ras i'r lan.

Adn.

Adn. 51, 69, 110.

2 Y beilchion, celwydd arna'i gwnaent,
A gwylio ' nhraed mewn llid y maent:
I faglau a phechod temtiant fi;
Er hyn ni throis o'th Lwybrau di.

Adn. 161, 78.

3 Heb achos (Jôn) caſaſant fi,
Fy ngwel'd yn caru'th Ddeddfau di:
Ond caraf, ofnaf, d'Enw mawr,
Nes ſyrthio'r beilch a'u llid i'r llawr.

SALM CXIX. Y Rhan ddiweddaf.

Cyſtuddiau wedi eu ſancteiddio; neu, *Ddigrifwch yng Ngair* Duw.

Adn. 67, 59.

1 DAD, molaf dy Law dirion di;
Mor ſwyn fu'th Wialen gerydd wiw:
'Attaliodd fy nghydwybod i,
A'm henaid dug yn ol at Dduw.

2 Ofer a ffol y crwydrais i
Cyn teimlo'th Wialennodiau, Naf:
Collais fy ffordd, o'th adael di;
'Nawr caraf d'Air, a'i gadw ' wnaf.

Adn. 71.

3 Da yw im' ddwyn y jau (Duw mad)
Can's balchder codi ' fynu a fyn:
Da imi ddwyn Dyrnodiau ' Nhad,
I ddyſgu ' Ddeddfau'n well trwy hyn.

Adn. 72.

4 Y Ddeddf a dardd o'th Enau cu
A gyfyd fy ſerchiadau'n well:

Nâ'r

Nâ'r holl dryſorau o ſŵyn aur
Y rhai a gair mewn gwledydd pell.

Adn. 73.

5 Dy Law a luniai ' nghorph ynghŷd;
O'm mewn rhoes d'Yſpryd ſ'enaid byw:
Dyſg im' adnabod d'Enw di,
A chadw fi rhag drwg, O DDUW!

6 Ac yna pawb a'th garant di
Fydd llon, wel'd Jachawdwriaeth im':
Can's yn dy Air gobeithiais i,
A'th Ras dewiſais o flaen dim.

SALM CXX.

Achwyniad am Gymmydogion cynhennus; neu, *Ddymuniad defoſiynol am Heddwch.*

1 DUW'r Cariad, ſendigedig Dad,
Gwel di fy 'ſtad anhygar:
Pa bryd y caf fi fy rhyddhâu
Oddiwrth wefuſau twyllgar?

2 Fy nghoelbren doſt ei bwrw ' wnaed
Ym mhlith plant gwaed a 'mrafel:
A'm hymſerth dibaid ſy'n byrhâu
Dêg euraidd oriau'm hoedel.

3 O n'allwn ffoi, a newid lle,
Dewiſwn drigle unig:
Mewn anial fan, i ado'n ol
Y pyrth uffernol ffyrnig!

4 Heddwch yw'r ſendith wyf am gael,
A llonydd diwael, tawel:
Ond pan am hedd y ſoniwyf fi,
Maent hwy'n cyhoeddi rhyfel.

5 Gwŷn

5 Gwŷn newydd ſy'n eu henaid hwy,
I'w cadw'n fwy maleiſus:
Pa beth a wnair i ddofi'th rym,
O dafod llym 'ſglyfaethus!

6 Pe ſaethau poethion trwot ai,
Cyſiawnder cai 'ddymuniad:
Ond maddeu'm gelyn gwell genn'i,
A'i gâlon doddi â chariad.

SALM CXXI. Meſur hir.

Cadwraeth Duw.

1 I'R bryniau coda'i 'ngolwg brûdd,
Y bythol fryniau uwch wybren ſydd:
Yno mae porth ſy enaid byw;
Yno mae'm Holl-alluog Duw.

2 Byw ydyw y trag'wyddol Jôr,
A wnaeth y byd, a dannai'r môr:
A luniai'r nefoedd a'u holl lu,
A thywyll fannau uffern du.

3 'Fe 'd'wyſa'n traed, gwna'n ffordd yn rhŷdd;
Y bore 'ſe fendithia'r dydd:
'Fe 'dàn yr hwyrol len â'i Law;
Caiff *Iſrael* orphwys yn ddi-fraw.

4 O *Iſrael!* enw dedwydd yw,
Caiff gyſgu a chodi'n jach gan Duw:
Dim heppian ſwrth, na ſyndod, ſy
Ar Lygaid effro'n Ceidwad fry.

5 Ni thery'r haul y dydd mo'th ben;
Nac afiach loer, na ſer o'r nen:
'All lygru'th wely di, na'th gell;
Ni feiddiant dâflu 'haint mor bell.

6 Pe

6 Pe llidiai uffern, a'r holl fyd,
Cai fyn'd a dyfod yn ei bryd:
Yn ddiogel yn yr Arglwydd nef;
Dy oes rhag maglau ceidw ef'.

7 Ni'th ddrygir gan yſprydion drwg;
Ac yn dy olaf awr y dwg:
Angylion, ſydd yn tramwy i'r nef,
Dy enaid draw at Dduw i dref.

SALM CXXI. Meſur cyffredin.

Cadwedigaeth Dydd a Nos.

1 I Fynu coda'i ' ngolwg hy;
Mae ' ngobaith fry yn hollol:
Y Jôn a wnaeth y dda'er a'r ne',
Fy Mhorth yw 'fe'n waſtadol.

2 Ef' a ddeil traed ei Saint yn ſyth;
Pe llithrent, byth ni chwympant:
Ei Gluſt a glyw y lleſga'i lef;
A'i Lygaid ef ni hunant.

3 'Fe'n cynnal, pan ſom wannaf oll,
Ai Fraich, ſydd Oll-alluog:
A gwylio'n diofal oriau mae
Rhag braw a drygau bradog.

4 Bydd lawen, *Iſrael*, gorphwys, trig;
Yr Jôn yw'th unig Geidwad:
Ei Lygaid ef a'i Allu ſydd
Y nos a'r dydd i'th warchad.

5 Nid lloſg yr haul, nid afiach loer,
A wnant it' oer niweidiau:
'Fe ' geidw'th ben di ganol dydd,
A'r nos yn rhŷdd rhag drygau.

6 'Fe

6 'Fe ' geidw'th oes, a'th enaid drud,
Ym mhob rhyw enbyd fanne:
Cai fyn'd a dyfod, diogel fyw,
Nes galwo Duw di adre.

SALM CXXI. Fel cxlviii.

1 FY llygaid coda' i'r nef,
Caf Gymmorth gref gan Dduw,
A wnaeth yr wybren fry,
A'r ddaear a'i holl ryw:
Duw yw fy Nhŵr
I ffoi trwy ffydd;
A'i Ras ef fydd
Gerllaw, yn fiwr.

2 Fy nhraed ni lithrant ' lawr,
I gwympo i farwol rwyd;
O herwydd y Duw Mawr
A'm ceidw, nen 'fe'm cwyd:
Ei Lygaid 'fo
Huno ni wnant;
'Fe ' geidw'i blant
Rhag drwg bob tro.

3 Nid gwres y dydd ' wna ddrwg,
Nac awel hwyr (gwir yw)
Fy jechyd ymaith dwg,
Os gyd â fi bydd Duw:
Ti, Arglwydd, fydd
Im' Haul a Llen,
I gadw ' mhen
I nos a dydd.

4 Rhoiſt di dy Air, O Dduw!
I gadw f'enaid byth;
A chredaf it' tr'w'i byw,
Am gadw f'anadl chwŷth:

Heb

Heb fraw, 'mhob lle
Y rhodiaf fi,
Nes galwech di
Fi draw i dre.

SALM CXXII. Meſur cyffredin.

Myned i'r Eglwys.

1 FY nghalon a fawr-lawenhâi
Pan dd'wedai rhai'n awyddus:
" *I* Seion *bryſiwn yn ddi-lûdd,*
" *I gadw'r Dydd cyhoeddus.*

2 'Rwy'n caru'i phyrth a'i phrif-ffordd hi;
Mae'r Eglwys wedi 'ddurno:
A Gras ſel Llys a wnaed i Dduw,
A'i Wyneb gwiw cair yno.

3 I'w llyſoedd hi, â Mawl a Chân,
Daw'r llwythau glân ſiriol-wedd:
Mab *Dafydd*, ar ei Orſedd lon,
Mewn Barn yn hon ſy'n eiſtedd.

4 'Fe ' wrendy'n Mawl, a'n cwyn, a'n cais!
A thra bo'i Lais arſwydol:
Yn rhannu'r drwg oddiwrth y da,
Crŷn, llawenhâ, pob duwiol.

5 O fewn ei llyſoedd heddwch boed;
Llawenydd doed i'w llenwi:
Pob duwiol Rodd a nefol Rad
I'r ſawl fo'n gwarchad ynthi!

6 Dros *Seion* mi weddia' o hŷd,
Tr'o chwŷth a bywyd genny':
Mae'm ffryns a'm ceraint yno'n byw,
A'm Ceidwad Duw'n teyrnaſu.

SALM CXXII. Proper Tune.

Myned i'r Eglwys.

1 O Pa mor llon o'wn i,
'Glywed y bobl ſ'u cri
Yn d'we'yd, *De'wch heddyw i geiſio DUW:*
Ie, gyd â mawr-ferch llawn
I *Seion* fryn nesâwn,
I dalu'n Haddunedau gwiw.

2 O *Seion!* ddedwydd lon,
A Gras addurnwyd hon,
A muriau nerth d'amgylchu wnan':
Daw'r Llwythau yno 'nghŷd
I addoli Duw un fryd,
A gwrando'i lawen 'Engyl lân.

3 Mab *Dafydd* fwya'i Fraint
Sefydlodd yno'i Faingc,
I roddi Gras a Barn yn hon:
Eirch ' Seintiau lawenhâu,
Gwna i ddynion drwg driſtâu,
A'r difalch ofnus fod yn llon.

4 O fewn dy byrth boed hedd,
Llawenydd yr un wedd,
I lonni'th weſtolyn di a'th hil:
Y dŷn ſy'n erfyn cael
It' hedd a llwyddiant hael,
Boed ar ei ben Fendithion fil!

5 Ail-dd'wed fy nhaſod hy,
" *Boed hedd i'r ſanctaidd Dŷ!*
Can's yno trig fy ſiryns a'm tras:
A chan fod ſ'Arglwydd Duw
Ei hun yn hon yn byw,
Fy enaid byth a'i câr trwy Ras.

Ail-adroddwch y bedwaredd Adnod, i gyflawni'r Dŷn.

SALM

SALM CXXIII.

Pledio gyd ag Ymoſtyngiad.

1 O Dduw! 'r hwn ſy'n teyrnaſu draw
Ar Faingc uwchlaw'r wybrennau:
Ein llygaid codwn attat ti,
A thraethwn ni'n gofidiau.

2 Fel gweiſion ſydd yn diſgwyl llaw
Eu meiſtraid draw, dan grynu:
Neu forwyn 'fyddo am foddhâu
Ei meiſtres, ma'i'n was'naethu;

3 Am bechod felly teimlo'r ŷm
Dy gyſiawn lym ddiſgyblaeth:
A diſgwyl etto'r graſol bryd
I'th Wialen ſymmud ymaith.

4 Y rhai mewn golud llawn ſy'n byw,
A wawdiant heddyw'n blinder:
A'th waith yn oedi trugarhâu,
Sydd yn cryfhâu eu balchder.

5 Er gwawd y beilch, mae'n gobaith ni
Yn hollol i'th Doſturi:
Deil hyn i fynu'n hyſpryd byw,
Na bydd i Dduw'n dirmygu.

SALM CXXIV.

Cân ar y Pummed o Dachwedd.

1 O N' b'aſai'r Arglwydd fod o'n tu,
Gall *Iſrael* felly dd'wedyd:
Pan gododd gwŷr fel cenllif cry',
I yſglyfaethu'n bywyd;

2 Y dyfroedd a'n boddaſent ni,
Gan rym y cenlli' diriaid:
Llyngcaſid ni yn angau'n chwai;
Y ffrwd cuddiaſai'n henaid.

3 'Nawr canu'r ŷm a llawenhâu,
Rhag angau brau y diangem:
Aderyn felly tyr y rhwyd,
A llon y cwyd e'r aden.

4 Bendigaid fyth fo Duw ein Tŵr!
Rhwyd yr adarwr torrodd:
'Fe'n cadwodd rhag y cleddyf llym,
A'n bywyd ymddiffynnodd.

5 Yn Enw Duw mae'n Cymmorth gref,
'Hwn a wnaeth nef a daear:
Ei Lygaid ſydd yn gwylio'n ddwys
I gadw'i Eglwys hawddgar.

SALM CXXV. Meſur cyffredin.

Profiad y Saint, a'u Diogelwch.

1 DIyſgog megis *Seion* fryn,
A chadarn yn dragywydd:
Fel craig, y trig yr enaid gwâr
A bwyſo ar yr Arglwydd.

2 Ni chadwai mur na bryniau, 'n wir,
Hen *Salem* dir rhag drygau:
Fel y trag'wyddol Freichiau cu
Sydd yn amgylchu'r Seintiau.

3 Fel ffiangell lem, gorthrymwyr ſy
I'w gyrru at yr Arglwydd:
Ond Duw, o'i Ras, a ddofa rym
Eu diriaid lym lidiowgrwydd.

4 Gwna'n dirion, Arglwydd, â'r rhai ſydd
A'u duwiol Ffydd, a'u Hofnau:
A phob Grafuſau, 'n tyſtio'n wir,
Mai cywir eu calonnau.

5 Ni chaiff cynddaredd trawſion wŷr
Yn rhy hir waſgu'r Seintiau:
Duw *Iſrael* deil i ſynu'i Blant,
Fel na's lleſgânt yn ddiau.

6 Ond os dewiſwn, trwy gaeth ofn,
Yr hen ffordd ddofn, uffernol:
Diſgwyliwn am ein rhan, heb lai,
Ym mhlith y rhai annuwiol.

SALM CXXVI. Meſur cyffredin.

Llawenydd am Dröedigaeth nodedig.

1 PAN ddarfu i Dduw ddatguddio'i Rad,
A'm troi o'm 'ſtad wylofus:
Fel un mewn breuddwyd hoff y bûm,
Y gras oedd ym' mor felus.

2 Wrth wel'd y fath gyfnewid maith,
Y byd dy Waith addefai:
Fy nhafod innau totrai' ma's,
I ganu'th Ras a'th Wyrthiau.

3 *Mawr ydyw Gwaith a Gallu DUW*,
Medd pôb dŷn byw a'u gwelant:
Mawr yw ef, medd fy nghalon i;
DUW, boed i ti'r Gogoniant.

4 Yr Arglwydd dichon roi o'r ne'
Oleuni'n lle tywyllwch:
Troi dafnau o dduwiol driſtwch prûdd
I 'fonydd o ddiddanwch.

5 Y rhai ſy'n hau mewn triſtwch drud,
Diſgwylient hyd gynhauaf;
Cânt addef fod eu 'ſgubau'n fawr,
A moli Llâw'r Goruchaf.

6 Er bod yr had mewn llwch yn hir,
Eu gobaith gwir ni's twylla:
Y gronyn gwerthfawr byth ni chyll,
Dwg gras y cynnull ſicra'.

SALM CXXVII. Meſur hir.

Bendith DDUW *ar Drafferth a Chyſuron Bywyd.*

1 OS Duw ni lwydda oddi fry,
Mae'n ofer adeiladu'r ty:
A'r ddinas oni cheidw Duw,
I'w ceidwad wylio hon nid gwiw.

2 Beth pe cyfodech gyd â'r wawr,
A hyd yr hwyr ymboeni'n fawr:
A bwytta'ch bara'n brin bob pryd,
I ochel tlodi yn y byd;

3 Gwaith ofer holl, heb Fendith Duw;
Can's hon a'n gwna ni'n ddedwydd fyw:
Plant hefyd ſydd fendithion da,
A ffryns, os Duw fel hyn a'u gwna.

4 Gwyn fyd y dŷn y denfyn Duw
Blant ufudd, a chyſeillion gwiw:
Pob rhodd ſy ſelus dan y nef
A gaffer gyd â'i Gariad ef.

SALM CXXVIII.

Bendithion Teuluaidd.

1 O Ddedwydd ddyn, a'i enaid yw
Yn llawn Ofn Duw a'i 'Styriaeth:
Gwefuſau hwn ei berchi wna,
A'i fywyd hardda'i Gyfraith.

2 Rhagluniaeth ddyfal Duw o'r nen
A geidw'th ben rhag drygau:
A'i Fendith tywallt yn ddi-fraw
Ar waith dy law yn ddiau.

3 Dy wraig fydd yn winwydden lon;
A'th blant blanhigion hylwydd:
O gylch dy fwrdd yn fawr eu bri,
Yn dyſgu ofni'r Arglwydd.

4 Duw a gyflawna'th obaith da
Hyd eitha' dy flynyddau:
Ac iti oddiar *Seion* fryn
Ei Fendith enfyn adre'.

5 Hwn ydyw'r dŷn, ie dedwydd ddyn,
A wêl ei dŷ'n cynhyddu:
Ac Eglwys Duw'n adfywio'n jawn,
Ac mewn hedd llawn ymedy.

SALM CXXIX.

Coſpi Erlidwyr.

1 O'M je'ngctid, dichon *Iſrael* dd'we'yd,
Fy magu wneid mewn dagrau:
Mi a gyſtuddiwyd lawer gwaith
Dros hirion faith flynyddau.

2 O'm

2 O'm je'ngctid digiais eitha' dig
Plant ffyrnig yr ymryſon:
Mynych goſodent arnaf fi,
Ac etto ni'm difeth'ſon'.

3 Eu haradr greulon rhwygai ' nghnawd,
A hirion gwnawd ei chwyſau:
Bob awr cyffroent fy nghlwyfau i,
Heb orphwys i'm goſidiau.

4 Duw ar ei Faingc a ddigiai'n wir,
A llygad cywir craffodd:
Meſurai'r drwg a wnaethant ym',
A'i ſaethau llym gollyngodd.

5 Eu balchder ſynnu'n ebrwydd gwnei
Wrth glywed ei Daranau:
A holl elynion *Scion* ſyw
Caent ddychryn i'w heneidiau.

6 Fel hyn y caiff cas wŷr y Saint
O'r wybren haint i'w llygru:
Nes gwywo o'u grym a'u harddwch llon,
A'u holl gynllwynion drengu.

7 [Beth er i'nt dyſu ' fynu'n fawr,
Ni feddant ' lawr ddim gwreiddiau:
Heb obaith derfydd am eu tw',
Dirmygir hw' yn angau.]

8 [Fel ŷd ar bennau tai y ſydd,
I hwn ni bydd cynhaua':
Medelwr byth ni leinw'i law,
Na neb a ddaw a'i rhwyma.

9 'Fe ' dardd a gwywa yn y fan;
Ymdeithydd pan ddel heibio:
Ni thry at hwn mo'i olwg wiw,
Na d'wedyd, Duw' bendithio.]

SALM

SALM CXXX. Meſur cyffredin.

Gras maddeuol.

1 ODdyfnder ing a thrallod maith,
A'r fin anobaith, yno:
Gyrrais i geiſio'th Ras ſy llef,
Griddfanau i'r nef i'th gyffro.

2 Duw Mawr, 'tai'th Lygad llymmaf di,
A'th Law ſydd ddibartiol:
Yn craffu a dial ar bob bai,
Pa gnawd a ſafai'n hollol?

3 Ond mae maddeuant gyd â'm Duw,
Am ddrwg o bob rhyw raddau:
I'n tynnu attat di, O Dad!
Dy Fab â'i Wa'd a'i prynai.

4 [Am dan dy Jachawdwriaeth, Jôn,
'Rwy'n diſgwyl oni ddelo:
Gwahoddwyd f'enaid gan dy Air,
Wrth d'Orſedd cair ſi'n gwylio.]

5 [Fel ceidwad ſydd yn gwylio'r nos
Yn aros am y boreu:
Gan edrych a hiraethu'n fawr,
Nes gwel'd y wawr yn oleu.

6 Diſgwyl mae f'enaid fel hwynt-hwy,
A llawer mwy am danad:
A dechreu gwawr dy Wyneb fydd
Eglurach dydd ei dorriad.]

7 Dyſgwylied *Iſrael* wrth Duw'r Nef,
A cheiſied ef' ei Wyneb:
Da megis cyfion ydyw 'fo,
A chyflawn o Raſoldeb.

8 Mae llawn ryddhâd wrth Orſedd Jôn
I ddynion o'u caethiwed:
Ei Fab yw Prynwr dynol-ryw;
Caiff *Iſrael* Duw eu gwared.

SALM CXXXI.

Goſtyngeiddrwydd ac Ymoſtyngiad.

1 A Oes uchelgais ynof fi?
Duw, edrych di a chwilia:
Neu 'ydwy'n chwareu'r balch-ddyn drwg?
I'th olwg mi appelia'i.

2 Tynghedaf fy meddyliau 'gŷd,
A'm bywyd fod yn iſel:
Boddloni (Dad) i'th 'W'llys jach,
Fel plentyn bach yn dawel.

3 Yr enaid araf iſel-fryd
A wobrir hyd ſoddlonrwydd:
Diſgwylied Saint, mewn trallod ſwrth,
Yn ddiſtaw wrth yr Arglwydd.

SALM CXXXII. Meſur hir.

Adn. 5, 13—18.

Wrth ſefydlu Eglwys; neu, *Ordeinio Gweinidog.*

1 'B'Le'r awn i geiſio ac i gael
Preſwylfa ddiwael i'r Duw mad:
Lle teilwng i'r trag'wyddol Jôn
I fyw 'mhlith meibion cig a gwa'd?

2 Duw *Jacob* dewis 'wnaeth cyn hyn
Ar *Seion* fryn o'phwyſfa wiw:
Yn *Seion* trigo'n waſtad myn,
Preſennol yn ei Eglwys yw.

3 Yn

3 Yn hon goſodaf Orſedd Gras,
Medd Duw, a'm Teyrnas byth a gair:
Fy Nerth a'm Cariad eglurhâf,
A'm Bendith rhoddaf gyd â'm Gair.

4 C'wrdd yma â'r tlawd newynog ' wnaf,
I'w henaid rhoddaf Fara byw:
'Sawl a ddiſgwyliant wrth fy Mhorth,
Cânt felus ymborth (meddai Duw.)

5 Mewn Gwiſgoedd Gras a Gwregys Gwir
F'Offeriaid pur diſgleirio ' wnan':
Nid *Aaron* yn ei Wiſgad gwych
Tros Duw fu'n edrych gynt mor lân.

6 Bloeddio, canu bydd fy Saint,
Gan gymmaint ei llawenydd llon:
A *Seion* gorfoleddu ' wna,
Mab *Dafydd* a deyrnaſa'n hon.

7 I ddal i fynu ei Enw cu,
Had aml i'r *Jeſu* yma rhoir:
Blagura'n Goron ar ei Ben,
A gwarth (fel llen) ei gas a doir.

SALM CXXXII. Meſur cyffredin.

Adn. 4, 5, 7, 8, 15—17.

Sefydlu Eglwys.

1 [DIM cwſg na hûn i'w olwg brûdd
Ni roddai *Dafydd* duwiol:
Nes caël dan wybren Gyfle gwiw
Preſwylfa i'r Duw trag'wyddol.

2 Ei Enw'n *Seion* dododd Duw,
A'i Arch daeth i'w ſefydlu:
A'r bobloedd yno doent dair gwaith
Boh blwyddyn faith i 'ddoli.

3 Ond 'nawr nid rhaid i ni roi tro
Cyn belled oddi cartre':
B'le bynna' 'mgaſglo'r Seintiau byw,
Mae Ty i Dduw yn ddiau.]

Gorphwyſiad.

4 O cyfod, Frenhin Gras! nesâ,
Tyr'd i'th Orphwysfa addas:
Gwel, diſgwyl mae dy Eglwys hon
Am gael dy lon Gymdeithas.

5 Tyr'd yma â'th Liaws hardd i gŷd,
Dy Air a'th Yſpryd bywiol:
'Rhyn oedd yr Arch yn gynnwys gynt,
Nid oeddynt mor ddymunol.

6 Duw, derbyn Addunedau dwys,
A Mawl dy Eglwys yma:
Bendithia'th Dŷ â Bwyd di-ball,
A'th dlawd â diwall Fara.

7 Mab *Dafydd*, *Criſt*, Enneiniog Jôn,
Yn hon a fo'n rheoli:
Cyfiawnder, Cariad, Gwir, a Nerth,
I'w Lys fo'n prydferth weini.

8 Hir dalied yma'i Faingc trwy Ras,
Boed ar ei Deyrnas Gynnydd:
A Pharch i'w Goron ef a roir,
A'i gas a doir â ch'wilydd.

SALM CXXXIII. Meſur cyffredin.

Cariad brawdol.

1. WELE, fath olwg hyfryd jawn
Yw brodyr mewn cyttundeb:
Sydd â'u calonnau'n uno'n bur
Mewn rhwymau gwir Dduwioldeb!

2 Pan

2 Pan ddelo Cariad *Criſt* i lawr
Yn ffrydiau mawr i'w llonni:
A nefol Heddwch i ddwfrhâu
Pob enaid, a'u gwaſgodi;

3 Mae fel yr olew peraidd drud
A roddyd ar ben *Aaron:*
Hyd at ei draed diferu'r oedd,
Nes gwlychu 'wiſgoedd gwychion.

4 Mae'n hyfryd fel gwlith bore-ddydd
A ſyrth ar fynydd *Seion:*
Lle dengys Duw'i Ogoniant glân,
A'i Ras difera'n dirion.

SALM CXXXIII.

Cymmundeb y Saint; neu, *Gariad ac Addoliad mewn Teulu.*

1 O Meibion heddwch gwyn eu byd,
Sydd o un fryd a gobaith:
Am weini a boddhâu, heb goll,
Maent yn eu holl orchwylwaith.

2 Gwyn fyd y duwiol dŷ, lle bo
Zel ynddo a chyttundeb:
Eu mawl a'u haddunedau 'nghŷd
'Wna melus gyd-gymmundeb.

3 Fel yma ar ben *Aaron* len
Y rho'w'd yr ennaint mwynber:
Nes rhedodd dros ei wiſgoedd e',
A llanw'r lle â phleſer.

4 Ar fryniau'r nefoedd, hon yw'r Fraint
A fydd i'r Saint yn waſtad:
Lle mae Llawenydd fel y gwlith,
A'r aer s'i'w plith yw, Cariad.

SALM CXXXIV.

Duwioldeb beunyddiol a noſweithiol.

1 CHWI ſy'n gwas'naethu Brenhin Ne',
I'w ſanctaidd Le ymgeſglwch:
Ymgrymmwch i'w Fawrhydi mad,
A'i ryfedd Rad bendithiwch.

2 Codwch eich dwylaw gyd â'r dydd,
A'ch enaid prûdd i ſynu:
Codwch eich meddwl yn y nos;
Mae achos i'w ryfeddu.

3 Duw *Seion* ſydd â llewyrch Gras
Yn llonni 'n lla's yſprydoedd:
Y Duw ſy'n tannu'r neſoedd fry,
A llywodraethu'r moroedd.

SALM CXXXV. Meſur hir.

Y Rhan gyntaf. Adn. 1—4, 14, 19—21.

Yr Eglwys yw Tŷa Gofal Duw.

1 DYrchefwch Enw'r Jôn mewn Cân,
Wrth weini'n ei Gynteddau glân:
Chwi Saint, ſy'n perthyn idd i'w Dŷ,
Neu wrth ei Borth yn gwarchad ſy.

2 Molwch yr Jôn; da yw Duw Ner;
Moliannu'i Enw ſydd waith per:
Iſrael ' etholodd o'r hen ſyd,
A'i Eglwys mae'n ei hoffi o hŷd.

3 Yr Jôn a farna'i Saint ei hun;
Fel caredigion mae'n eu trin:
A phan y clywo'u cwyn a'u llef,
Drwg gantho'r gofid ' enſyn ef.

4 Bob

4 Bob oes 'fe ' draetha'i Enw'n hy ;
Tyr wialen y gorthrymmwr cry' :
I'w Weiſion myn orphwyſdra i fyw ;
Dengys mai *Hollalluog* yw.

5 Chwychwi ſy'n caru'r Arglwydd Nef,
Bobl ac Offeriaid, molwch ef :
Ym myſg ei Saint eriôed mae'n byw ;
Ei Eglwys ei *Gaerſalem* yw.

SALM CXXXV. Adn. 5—12.

Yr ail Ran.

Gweithredoedd Creadigaeth, Rhaglun-iaeth, Gwaredigaeth Iſrael, *a Dinyſtr Gelynion.*

1 MAWR ydyw'r Jôn, ac uchel fry,
Uwch pob pwerau a thronau ſy' :
'Fe ' wnaeth beth bynna' a fynnodd ef',
Mewn daear, uffern, môr, a'r nef.

2 Wrth ei Orchymyn cyfyd tarth,
Daw mellt a thyrfau o bob parth :
'Fe ' ddwg y gwynt, 'fe ' dywallt gwlaw,
A thymmeſtl o'i dryſorau draw.

3 'Fe ' yrrodd erchyll nodau, 'n wir,
O *Aipht !* trwy'th holl yſtyfnig dir :
Pan gwympodd trwy Law ddial Duw
Dy flaenffrwyth, dŷn a 'nifail byw.

4 Cenhedloedd a brenhinoedd mawr,
Er cryfed oe'nt, 'fe'u torrai ' lawr :
I *Iſrael* rhoi eu tir a wnaeth,
Heb fod i *Pharao* mwy yn gaeth.

5 'Run yw ei Nerth, a'r un ei Ras,
A'n ceidw rhag llu uffern gas:
Ac i feddiannu'r nef 'fe'n dwg
O'r lle trow'd yr angylion drwg.

SALM CXXXVI. Fel cxlviii.

Rhyfeddodau Duw *yn y Greadigaeth, Rhagluniaeth, Gwaredigaeth* Iſrael, *a Jachawdwriaeth ei Bobl.*

1 RHo'wch Glod i'r uchel Duw,
Jôr nef a daear las;
Brenhin brenhinoedd yw;
Rhyfedded pawb ei Ras:
Ei Nerth a'i Rad
Sy'r un heb dawl;
A byth boed Mawl
I'w Enw mad.

2 Mor rymmus yw ei Law!
Pa Wyrthiau mawr 'wnaeth ef'!
Gwnaeth dir a moroedd maith,
A lledu 'wnaeth y nef:
Trugaredd DUW
A bery byth
A'i Air di-lŷth
Safadwy yw.

3 Mor ddoeth y gwnaeth e'r haul!
I oleuo'r dydd 'fe'i rho's;
Y lloer a'r ſer, yn ail,
I lonni'r dywyll nos:
Ei Nerth a'i Rad
Sy'r un heb dawl;
A byth boed Mawl
I'w Enw mad.

4 [Fe

4 ['Fe ' d'rawodd hynaf had,
Sef blodau'r *Aipht* i lawr:
Ac *Iſrael* dug o u gwlad
Gyd â gorfoledd mawr:
Trugaredd DUW
A bery byth;
A'i Air di-lŷth
Safadwy yw.

5 Ei Wialen hollti ' wnaeth
Y Môr Coch yn ddwy ran:
A'i bobl ei hun a ddaeth
Yn droedſych trwyddo i'r lan:
Ei Nerth a'i Rad
Sy'r un heb dawl;
A byth boed Mawl
I'w Enw mad.

6 Ond *Pharao* greulon gry'
'Fe'i boddodd ef a'i wŷr;
A dygodd *Iſrael* lu
Yn jach trwy'r anial dir:
Trugaredd DUW
A bery byth;
A'i Air di-lŷth
Safadwy yw.

Gorphwyſiad.

7 Brenhinoedd *Canaan* wlad
A'i Law 'ſe'u cwympai ' lawr;
I'w Weiſion rhoes fwynhâd
O'u gwlad a'u meddiant mawr:
Ei Nerth a'i Rad
Sy'r un heb dawl;
A byth boed Mawl
I'w Enw mad.]

8 Fe'n canfu'n myn'd ar goll
Trwy bechod oll i gŷd;
O'i Ras tosturio wnaeth
Wrth cyflwr caeth y byd:
Trugaredd DUW
A bery byth;
A'i Air di-lŷth
Safadwy yw.

9 Anfonai 'i Fab ei hun
I'n gwared ni o'n gwae;
Rhag Satan, angau blin,
A phechod, achub mae:
Ei Nerth a'i Rad
Sy'n un heb dawl;
A byth boed Mawl
I'w Enw mad.

10 Rho'wch Ddiolch iddo 'nawr,
Duw, Brenhin mawr y Nef;
A chaned daear faith
Ei Waith a'i Fo'liant ef:
Trugaredd DUW
A bery byth;
A'i Air di-lŷth
Sâfadwy yw.

SALM CXXXVIII.

Gras adferol a nawddol.

1 [A'M calon oll, a'm tafod hy,
Rhof Fawl mewn Cân i'm Harglwydd cu:
Fy Ngherdd a glyw'r Angylion glân;
Boddlonant, unant yn y Gân.

2 Angylion, Gwylwyr d'Eglwys Ion,
Cânt dystio'm duwiol Waith yn hon:

Pan

Pan fwy'n cyfeirio 'ngolwg hy
Tu a'th Deml yn y Nefoedd fry.]

3 Dy Wir a'th fawr Drugaredd, Naf,
A Gwyrthiau'th Ras, eu canu ' wnaf:
Ni ddengys dy holl Waith i mi
Gymmaint o'th Allu diſglair di.

4 Pan ddaeth trallodion, codais lef
At Dduw; a'm gwrando a wnaeth ef':
Goſtyngai f'ofnau yn y fan;
Rhoes nerth trwy fy holl enaid gwan.

5 Teyrnaſu'n uchel mae Duw'r Nef,
Y balch a'r mawr ' ddi'ſtyra ef':
Ond plyg o'i Orſedd 'lawr i'r byd,
I wel'd y tlodion iſel-fryd.

6 Ynghanol mil o faglau a braw
Fy nghadw a'm cynnal mae dy Law:
Cryfhâu fy enaid lleſg mae'th Air,
A'm marwaidd ffydd â hwn bywhâir.

7 Dechreuad Gras Duw a'i cwblhâ,
O ing neu bechod achub gwna:
Doethineb os anturia'r gwaith,
Trugaredd byth ni's gedy chwaith.

SALM CXXXIX.

Y Rhan gyntaf. Meſur hir.

Duw'n *gweled y cwbl.*

1 DUW, chwiliaiſt ac a'm treiddiaiſt trwy;
Dy Lygad craff a wêl beth wy':
Fy nghodiad a'm gorweddiad i,
A'm calon, oll adwaenoſt di.

2 Cyn gwybod fy meddyliau'm hun,
Llwyr hyſpys ynt i'm Duw bob un:
'Fe 'wyr y peth wy'n feddwl dd'we'yd,
Cyn i f'ymadrodd gael ei wneund.

3 Dy Nerth yn ſiwr o'm hamgylch ſy,
A'th Law wy'n weled o bob tu:
Yn effro, 'nghwſg, draw, ac yn nhre,
Mae Duw'n f'amgylchu ym mhob lle.

4 Gwybodaeth ryfedd fawr, O Dduw!
Mor llydan ac mor uchel yw:
Fy enaid a'i galluoedd oll
Ant yn yr olwg faith ar goll!

5 *O boed im' feddwl hyn o hyd,*
Ym mha le bynna' bwy'n y byd:
Fel na chydſynio f'enaid gwan
I bechu, am fod DUW'n y fan!

Gorphwyſiad.

6 Anffyddlon, ffals, pe tyfwn i,
A gadel dy Waſanaeth di:
'B'le gallwn ffoi o'th Wydd (fy Nuw)
Neu rhag d'Ogoniant, erchyll yw?

7 Os hedaf 'fynu i'r nef, yn wir
Wyt yno mewn goleuni clir:
Od af i uffern, yno mae
Y diafol, a dialau a gwae.

8 Pe cawn adenydd bore wawr,
A ffoi tu hwnt i'r cefnfor mawr:
Dy Law ai yno'n gynt, mi wn,
A daliai y ffoadur hwn.

9 Pe profwn etto o'th olwg ffoi,
Tan gyſgod llen y nos i 'mdroi:
Un poſt o'th Lewyrch, yn ddi-lûdd,
Ennynai dywyll nos yn ddydd.

10 Ni

10 Ni ddichon llen y nos, na dim,
Orchguddio rhag dy Lygad llym:
Dy Law a ddeil d'elynion cudd
Yng nghanol nos fel canol dydd.

11 Y tywyll nos a'r goleu ddydd,
Duw Mawr, i ti'r un ffunyd ſydd:
Ni chuddia angau, na's gwel Duw;
Ac uffern, noeth i'w Olwg yw.

12 *O boed im' feddwl hyn o hŷd,*
Yn mha le bynna' bwy'n y byd:
Fel na chydſynio f'enaid gwan
I bechu, can's mae DUW'n y fan.

SALM CXXXIX.

Yr ail Ran. Meſur hir.

Rhyfeddol Ffurfiad Dŷn.

1 O'TH Law y daethum i, O Dduw!
Fy agwedd hon, gwaith manwl yw:
Dy Wyrth ofnadwy ynof fi
Sy'n dangos dy Gywreinrwydd di.

2 F'aelodau, gwelaiſt hwy bob un
Pan oeddynt mewn anelwig lun:
A'u twf beunyddiol hwy drachefn,
I'th Lyfr 'roedd eu dull a'u trefn.

3 Ac i amlygu'i Enw'i hun,
Duw a argraphodd arna'i Lun:
A chydgyſylltodd, ar ryw bryd,
Y meddwl a'r aelodau 'nghŷd.

4 Yna dechreuodd bob yn un
Feddyliau ac anwydau'r dŷn:
Duw Mawr, mae'n ffurfiad rhyfedd ni
'N rhoi treth barhâus i'th Foliant di.

Gorphwyſ-

2 Cyn gwybod ſy meddyliau'm hun,
Llwyr hyſpys ŷnt i'm Duw bob un:
'Fe ' ŵyr y peth wy'n ſeddwl dd'we'yd,
Cyn i ſ'ymadrodd gael ei wneund.

3 Dy Nerth yn ſiwr o'm hamgylch ſy,
A'th Law wy'n weled o bob tu:
Yn effro, 'nghwſg, draw, ac yn nhre,
Mae Duw'n ſ'amgylchu ym mhob lle.

4 Gwybodaeth ryfedd fawr, O Dduw!
Mor llydan ac mor uchel yw:
Fy enaid a'i galluoedd oll
Ant yn yr olwg faith ar goll!

5 *O boed im' ſeddwl hyn o hŷd,*
Ym mha le bynnâ' bwy'n y byd:
Fel na chydſynio f'enaid gwan
I bechu, am ſod DUW'n y fan!

Gorphwyſiad.

6 Anffyddlon, ffals, pe tyſwn i,
A gadel dy Waſanaeth di:
'B'le gallwn ffoi o'th Wydd (ſy Nuw)
Neu rhag d'Ogoniant, erchyll yw?

7 Os hedaf ' fynu i'r nef, yn wir
Wyt yno mewn goleuni clir:
Od af i uffern, yno mae
Y diafol, a dialau a gwae.

8 Pe cawn adenydd bore wawr,
A ffoi tu hwnt i'r cefnfor mawr:
Dy Law ai yno'n gynt, mi wn,
A daliai y ffoadur hwn.

9 Pe profwn etto o'th olwg ffoi,
Tan gyſgod llen y nos i 'mdroi:
Un poſt o'th Lewyrch, yn ddi-lûdd,
Ennynai dywyll nos yn ddydd.

10 Ni

10 Ni ddichon llen y nos, na dim,
Orchguddio rhag dy Lygad llym:
Dy Law a ddeil d'elynion cudd
Yng nghanol nos fel canol dydd.

11 Y tywyll nos a'r goleu ddydd,
Duw Mawr, i ti'r un ffunyd ſydd:
Ni chuddia angau, na's gwel Duw;
Ac uffern, noeth i'w Olwg yw.

12 *O boed im' feddwl hyn o hŷd,*
Yn mha le bynna' bwy'n y byd:
Fel na chydſynio f'enaid gwan
I bechu, can's mae DUW'n y fan.

SALM CXXXIX.

Yr ail Ran. Meſur hir.

Rhyfeddol Ffurfiad Dŷn.

1 O'TH Law y daethum i, O Dduw!
Fy agwedd hon, gwaith manwl yw:
Dy Wyrth ofnadwy ynof ſi
Sy'n dangos dy Gywreinrwydd di.

2 F'aelodau, gwelaiſt hwy bob un
Pan oeddynt mewn anelwig lun:
A'u twf beunyddiol hwy dracheſn,
I'th Lyfr 'roedd eu dull a'u treſn.

3 Ac i amlygu'i Enw'i hun,
Duw a argraphodd arna'i Lun:
A chydgyſylltodd, ar ryw bryd,
Y meddwl a'r aelodau 'nghŷd.

4 Yna dechreuodd bob yn un
Feddyliau ac anwydau'r dŷn:
Duw Mawr, mae'n ffurfiad rhyfedd nî
'N rhoi treth barhâus i'th Foliant di.

Gorphwyſ-

Gorphwyſiad.

5 Duw, er pan ddaethum 'fynu o hŷd
Yn hŷn mewn bywyd yn y byd:
Meddyliau'th Gariad im' ſy fwy
Nag all un rhiſ eu cyfrif hwy.

6 Haws cael y môr dan feſur caeth,
A rhifo'r tywod ar y traeth:
Nag i'm meddyliau chwilio 'ma's
Aneirif Ryfeddodau'th Ras.

7 Seliedig ar ſy nghalon ŷn';
A'r rhai'n wy'n rhoi i'm llygaid hûn:
A phan ddihunwyf fi bob tro,
Mae Duw a'i Gariad ar ſy ngho'.

SALM CXXXIX.

Y drydedd Ran. Meſur hir.

Cyffes o Ddiragrithrwydd, a Phrofiad o Ras; neu, Duw yn chwilio'r Galon.

1 DUW, pan droſedder d'W'llys di
Gan ddynion drwg, blin jawn wyf fi:
Galara f'enaid i, os clyw
Hwy'n ofer-arfer Enw 'Nuw.

2 On'd yw fy nghalon i'n casâu
Plant malais, a phob dichell gau:
Y rhai wrthſaif dy Gyfraith di,
Gelynion wy'n eu cyfri' i mi.

3 Fy enaid oll, Duw, chwilia di;
Er na's cyhudda 'nghalon fi:
O rodio mewn dim llwybrau gau,
A'th Lygad, Arglwydd, prawf fi'n glau.

4 'Oes

4 'Oes drwg yn llechu yn fy mron?
Neu bechod, na's gwn i yn hon:
O tro fy nhraed pan wibiwyf fi,
A dwg fi i'th Ffordd berffaith di!

SALM CXXXIX. Mesur cyffredin.

Duw *ym mhob lle.*

1 YN fy negesau oll a'm Duw,
Cyn aith ofer yw i'm henaid:
Amcanu troi, neu 'mguddio'n gel
Mewn lle na's gwel dy Lygaid.

2 Dy Olwg di amgylchu 'wna
Fy nghodiad a'm gorweddfa:
Fy rhodiad cyhoedd, a'm ffyrdd cudd,
Am calon sydd ddirgela'.

3 Agored yw'm meddyliau i'r Jôn,
Cyn cael eu ffurfio'n gwbwl:
A chyn im' draethu'r gair, heb feth
'Fe 'wyr y peth wy'n feddwl.

4 O fawr Wybodaeth ryfedd bur!
P'le gall creadur lechu:
O fewn i gylch dy Freichiau 'rwy';
Bob tu maen' hwy'n f'amgylchu.

5 Ac felly boed dy Ras bob cam
O'm cylch fel amddiffynfa:
I gadw f'enaid rhag pob brad,
O fewn dy Gariad penna'.

Gorphwysiad.

6 P'le gall eneidiau euog gwael,
O Arglwydd, gael drangfa:
Yn uffern mae'th ofnadwy Dân,
A'r nef yw'th lân Orseddfa.

7 Pe

7 Pe llethwn i fy anadl byw,
Rhag Llid fy Nuw i 'mlechu:
Pyrth angau, dryllit hwy â'th Lef;
A'r bedd, rhoi ef' fi i fynu.

8 Pe cawn adenydd bore wawr,
A ffoi tu draw'r gorllewyn:
Dy Law fydd yn fy nal, heb wad,
A wnai fy mrad i wed'yn'.

9 Pe bawn am dynnu llenni'r nos
Yn orchudd dros fy mhechod:
Dy Lygaid fflamllyd yn dra chwai
Yn oleu gwnai eu cyfgod.

10 Canol y nos a chanol dydd,
Y ddau it' fydd un ffunyd:
Byth na bo i mi dy Lid gyffrôi,
Gan feddwl ffoi oddiwrthyd.

SALM CXLI. Adn. 2, 3, 4, 5.

Gwyliadwriaeth a Cherydd brawdol.

Salm Boreol neu Brydnhawnol.

1 DUW, derbyn f'Addunedau'n gu,
Fel bore Arogldarth i'th Dŷ:
A'r nos doed fy Addoliad prûdd
O'th flaen fel Aberth prydnawn ddydd.

2 Duw, cadw 'nhafod rhag pob twyll,
A geiriau fegur a di-bwyll:
A na'd i'm traed byth fengu 'rhŷd
Gau lwybrau dynion drwg y byd.

3 Pan bechwyf, boed i'r cyfion cu
Mewn cariad fy ngheryddu'n hy:
Fel olew bydd eu haddfwyn fen;
Ni thyr hi byth, ond llonni, 'mhen.

4 Pan

4 Pan welwyf hwy mewn ing a gwae,
Mi lefa' ar Dduw i'w hefmwythâu:
Dangofaf trwy 'ngweddïau, 'n wir,
Mor fawr wy'n prifio'u cariad pur.

SALM CXLII.

Duw *yw Gobaith y Diborth.*

1 FY mlinder traethais, ar ryw dro,
Wrth Dduw, gan geifio cyfur:
Ger bron ei Faingc, yn fawr fy nghri,
Tywelltais i fy nolur.

2 Gan ofid cuddiwyd f'enaid llon;
Dechreuai 'nghalon ddryllio:
Duw 'edwyn fy holl drallod i,
A'r ffordd wyf ynthi'n rhodio.

5. 3 Edrychais draw o bob tu im'
Am help; 'doedd dim yn dyfod:
Dieithriaid, ffryns, oddiwrthyf troent,
Fel un nad oe'nt yn 'nabod.

4 Ac yna'n uwch cyfodais lef;
Gelwais o'r nef d'Ymwared:
" Fy Rhan, pan drengwyf (Jon) wyt ti;
" Bydd yma imi'n Nodded.

5 Duw, dygwyd fi yn ifel 'lawr;
Rho gluft yn awr yn ferchog:
Par i'm gelynion wybod oll
Mai'm Ffrynd yw'r Holl-alluog.

6 O'm carchar trift dôd fi yn rhŷdd;
I'th Enw'n brûdd rhof Foliant:
A'r Saint a unant gyd â mi,
Dy Fwynder di cyhoeddant.

SALM CXLIII.

Achwyniad o Flinderau trymion mewn Meddwl a Chorph.

1 FY Marnwr pur, a'm graſol Duw,
Pan dannwy' nwylaw allan, clyw:
Ac erfyn Help o'th Orſedd di,
Datguddia'th Wir a'th Nawdd i mi.

2 Na'd Farn i'm herbyn i, dy was;
Can's wele, 'rwyf yn pledio'th Ras:
Os wrth Gyfiawnder y barn Duw,
Dieuog ni chair un dŷn byw.

3 Duw, edrych ' lawr, a gwel yn fwyn
Y mawr ofidiau wyf yn ddwyn:
Dygwyd fy oes i'r llwch un wedd
Ag un ys talm a roed mewn bedd.

4 'Rwy'n byw mewn t'w'llwch dirgel jawn;
Diffrwyth yw ' nghalon oddi mewn:
Myfyrio 'rwyf a chwilio ' ma's
Hen Ryfeddodau gynt o'th Ras.

5 Oddiyno caf ryw obaith gwan,
I ddal fy yſpryd lleſg i'r lan:
At Duw y lledaf fy nwy law
Mewn ſyched, fel tir cras am wlaw.

6 Am danat ti hiraethu 'rwy';
Pa bryd y gwelaf d'Wyneb mwy:
Ai'n driſt y treuliaf f'anadl chwŷth?
A guddia Duw ei Gariad byth?

7 Fy Nuw, os oedi roi ' mi Nawdd,
I'r bedd dy ſal garcharor ' ſawdd:
Lleſg yw fy nghalon; Duw (o'th Ras)
Rho help ar frys, cyn trengo'th was.

8 Y

8 Y nos yn dyſt o'm dagrau ſydd,
O'm hofnau blin, a'm trallod prûdd:
Dy fore Lais pe clywn i'n glau,
O f'enaid fel y llawenhâu!

9 Duw, fy holl obaith ynot ſydd,
Ac attat codaf f'enaid prûdd:
Trwy'r dydd dy ddiſgwyl 'rwyf i'm c'wrdd,
Gan dreulio f'oriau blinion 'ffwrdd.

10 Tor fy ngefynnau, dangos di
Yr union ffordd, a rhodiaf hi:
Os daw o'm cylch elynol ryw,
I 'mgadw ſoaf at fy Nuw.

11 D'Ewyllys glân dyſg im' fel hyn,
Ac arwain fi i'th nefol Fryn:
Boed Yſpryd dy rad Gariad cu
I'm tywys i'th gynteddau fry.

12 A'm henaid ni chaiff gwŷno'n hwy;
Yn ofer rhua'r temtiwr mwy:
A'r cnawd, oedd gynt fy ngelyn ſyth,
Ni's blina mwy mo'm henaid byth.

SALM CXLIV. Adn. 1, 2, Y Rhan gyntaf.

Cynhorthwy a Buddugoliaeth yn y Rhyſfel yſprydol.

1 BEndigaid fyth fo'r Arglwydd Duw;
Fy Ngheidwad yw Galluog:
Ei Yſpryd enfyn gyd â'i Air,
I'r maes fe'm gwnair yn arfog.

2 Pan fyddo pechod, elyn cry',
Ac uffern lu'n cyd-godi:

8 Y

Efe a'm dyſg i'r nefol Gâd,
A bydd yn Geidwad imi.

3 Ffrynd yw, a Chynhorthwywr clau,
Sydd yn cryfhâu fy methiant:
Rhydd imi'r Fuddugoliaeth gref;
Caiff yntef y Gogoniant.

SALM CXLIV. Adn. 3, 4, 5, 6.
Yr ail Ran.

Gwagedd Dŷn, ac Ymddaroſtyngiad Duw.

1 DUW, beth yw dŷn, ddyn egwan tlawd,
Cyn hyn a ga'w'd o'r ddae'ren:
Ei oes ſydd gyſgod gwag (o'r trwch)
Yn bryſio i'r llwch drachefen.

2 O beth yw egwan farwol ddyn,
Na neb un o'i hiliogaeth:
I Dduw ymwel'd â hwn o'r ne'
A Gras a Jechydwriaeth!

3 Y Duw ſy'n ſaethu'i Fellt i lawr,
Y nefoedd ſawr mae'n figlo:
A chrŷn pob bryn pan lidio'i Wedd,
O rhyfedd Gariad efo!

SALM CXLIV. Adn. 12—15.
Y drydedd Ran.

Gras uwchlaw Golud; neu, *Y Genedl ddedwydd.*

1 DEdwyddol yw y ddinas hon,
Lle mae ei meibion grymmus:
Mal y colofnau cedyrn ſy
O ddautu ei Frenhinllys;

2 A'i

2 A'i merched diſglair, o bob gradd,
Fel cerrig nadd o'i gwmpas:
O ran eu tegwch, a phob dawn,
Yn harddwch llawn i'r Deyrnas.

3 Dedwydd yw'r wlad lle yr amlhâ
Eu defaid, dâ, a'u llafur:
A'u gwŷr yn eſmwyth yma a thraw,
Heb ofn na braw yſpeilwyr.

4 Dedwydd yw'r genedl felly 'ſydd;
Ond rhagor dedwydd ydynt:
Yrhai y rhoddo Duw ei Hun
A'i Ras diderfyn iddynt.

SALM CXLV. Y Rhan gyntaf.

Adn. 1—7, 11—13.

Mawredd Duw.

1 BEndithiaf d'Enw tra fwyf byw,
Fy Mrenhin, Duw y Cariad:
A'r un gwaith hoff fydd genn'i o hŷd
Mewn nefol Fyd yn waſtad.

2 Mawr ydyw'r Jôn, a'i Nerth ſy fawr;
Ei Foliant dirfawr traethaf:
Anrhydedd d'Orſedd rhof fi 'ma's,
A Gwaith dy Ras a ganaf.

3 Dy Ras di ar ſy nhafod ſydd
Mewn llawn llawenydd calon:
A'r Saint a glyw ſy nuwiol Gân,
Cyttuno 'wnan yn union.

4 Dyſg tadau'th Enw i feibion ſyrdd,
A phlant dy Ffyrdd addyſgant;
Cyhoeddi'th Wir wna'r oes a ddêl,
A'th Fawl trwy zel a ſeiniant.

5 Dy ogoneddus Wyrth a'th Waith
Trwy'r ddaear faith hyſpyſir:
Dy Deyrnas nefol, a'th Fraich gref,
A llewyrch nef amlygir.

6 Dy Ddwylaw ſy'n rheoli'r byd,
A'th Gariad drud, dy Seintiau:
Dy Deyrnas di dros fyth a ſai',
Pe treiglo wnai'r mynyddau.

SALM CXLV. Adn. 7, &c.

Yr ail Ran.

Daioni Duw.

1 COF o dy Ras yn felus ſydd,
Fy Nuw, fy Llywydd nefol:
Datganed oes wrth oes yn ber
Dy bur Gyfiawnder dwyfol.

2 Er bod Duw fry, nid attal ef'
Mo'i Dda i'r Nef yn unig:
I bawb o'r byd haelionus yw,
'Fe' leinw pob rhyw ddiffig.

3 Duw, wrthyt mae cre'duriaid gwael
Yn diſgwyl cael eu porthi:
Dy Law hael darpar iddynt fwyd,
A'u genau wyd yn llenwi.

4 Mor fwyn yw'th Doſturiaethau, Naf,
A'th Lid mor araf cyffry:
Ond Gair o Gyſur yrr e'n glau
I'r enaid mae 'ſo'n garu.

5 Cre'duriaid a'u holl ryw ſy'n bod,
Dy Nerth a'th Glod cyhoeddant:
Ond Saint ſy'n proſi'th Ras ſydd fwy,
Dy Enw hwy a ſolant.

SALM

SALM CXLV. Adn. 14, 17, &c.

Y drydedd Ran.

Trugaredd i Ddioddefwyr; neu, DDUW *yn gwrando Gweddi.*

1 BOED i bob tafod draethu'n rhwydd
Ddaioni'r Arglwydd allan:
Ei Law a ddeil i fynu'r gwan,
A ch'wyd i'r lan y tnaan.

2 Pan wafgo gofid enaid 'lawr,
Neu ddyn mewn mawr gyfyngder:
Dan ddig rhyw dreifiwr toft ei drin;
Rhoi 'rwyt i'r blin efmwythder.

3 Duw deil i fynu'n dyddiau blin,
A thywys ni'n ein je'ngctyd:
Ei Ffyrdd fydd gyfiawn oll a phur,
A'i Eiriau gwir ynt hefyd.

4 'Fe' ŵyr y poen mae'i Blant yn ddwyn;
Gwrendy eu cwyn wrth achos:
I wneud eu dymuniadau i gŷd,
Mae'i Ras o hŷd yn agos.

5 Ni fymmud ei Drugaredd glau
Oddiwrth galonnau difri':
'Fe' weryd yr Eneidiau byw
Sy'n caru Duw, a'i ofni.

6 ['Fe' ladd ei elynion cyndyn fyth;
'Fe'u lleinw byth â blinder:
Ond ni chaiff Gweifion Duw, wrth raid,
Byth geifio'i Blaid e'n ofer.]

7 [Boed i'm gwefufau draethu 'i Glod,
A'i Enw hynod dannu:
A holl blant *Addaf*, o bob rhyw,
Fawr Barch eu Duw ddyrchafu.]

SALM

SALM CXLVI. Mesur hir.

Mawl i DDUW *am ei Ddaioni a'i Wirionedd.*

1 MOlwch yr Jôn. A chalon rwydd
Cyd-unaf mewn fath sanctaidd Swydd:
'Nawr tra fwyf yn y cnawd yn byw,
A phan el f'enaid 'fynu at DDUW.

2 Moliannu fydd fy nifyr waith
Tra paro 'Trag'wyddoldeb maith:
Ni dderfydd byth mo'm dyddiau o Glod
Tra fyddo bywyd im', na bôd.

3 Pa'm y rhof hyder ar ddyn mwy?
T'wysogion, marw a wnant hwy:
Eu ffun ymâd; eu gwychder mawr,
A'u hamcan, derfydd oll mewn awr.

4 Gwyn fyd y dŷn mae'i obaith ef
A'r DDUW yr *Israel*, a wnaeth nef:
Y ddae'r a'r moroedd, a'u holl lu;
Ac a wna'n dda'i Addewid gu.

5 'Fe 'weryd othrymmedig rai;
I'r tlawd rhydd fara yn ddi-drai:
Y flin gydwybod esmwythâ,
A'r carcharorion 'fe'u rhyddhâ.

6 Mae gan DDUW lygaid i roi'r dall;
Deil 'fynu'r meddwl gwan rhag gwall:
Rhydd Borth i'r dieithr-ddyn wrth raid;
I'r weddw a'r ymddifaid, Blaid.

7 Edwyn ei Saint, 'fe'u câr yn gu;
Ond dynion drwg i uffern try:
Byth *(Seion)* y teyrnasa'th Jôn;
O mawl ef mewn trag'wyddol Dôn!

SALM

SALM CXLVII. Y Rhan gyntaf.

Y Natur Ddwyfol, Rhagluniaeth a Gras.

1 MOlwch yr Arglwydd; can's da yw
A'r llais a'r gàlon foli Duw:
Ei Natur ef a'i Waith a'n gwa'wdd
I wneud y Gorchwyl hwn yn hawdd.

2 *Caerſalem* adeilada Duw,
Dwg bobloedd atto o bob rhyw:
A'i Nawdd y cyndyn meddalhâ,
A'r yſpryd drylliog 'ſe'i jachâ.

3 'Fe ' wnaeth y ſer uwch ben y byd;
'Fe ' ŵyr eu rhif a'u henwau i gŷd:
Doethineb Duw ſydd Ddyfnder mawr,
Lle ' ſawdd ein holl feddyliau ' lawr.

4 Mawr ydyw'r Jôn, a'i Nerth a'i Waith;
Anfeidrol ei Ogoniant maith:
Y llariaidd 'ſe'u gwobrwya'n fawr;
A goſtwng ddynion drwg hyd lawr.

Gorphwyſiad.

5 Cenwch i'r Jôn, dyrchefwch ef,
A dàn ei gwmmwl dros y nef:
Yno y darpar ffrwythlon wlaw;
I lonni'r ddaear ſych 'ſe ' ddaw.

6 A gwellt 'ſe ' hardda'r bryniau i gŷd,
A'r meuſydd llon 'ſe'u gwiſg ag ŷd:
A'r aniſeiliaid a byrth ef',
A'r cigfrain jeuainge pan ro'nt lef.

7 Beth yw cre'duriaid dewrion hy,
Y bywiog ŵr, a'r cadfarch cry':
Y ſynwyr glau, a'r aelod gref?
Nid ŷnt hyfrydwch iddo ef.

8 Ond Saint ſydd hawddgar ger ei Fron;
Ei Blant yw ei Hyfrydwch llon:
Eu gobaith gwel, a'u hofnau gŵyr;
Ei Ddelw'i hun mae'n hoffi'n llwyr.

SALM CXLVII. Yr ail Ran.

Haf a Gauaf.
Cân i *Frydain Fawr.*

1 O *Brydain,* mawl d'Alluog Dduw;
Dôd allan ei Ogoniant gwiw:
Gwna i'r ce'nfor lifo o'th gylch er lles,
I'th gadw'n well nâ barrau prês.

2 Dy blant ſydd ddiogel a di-gaeth;
Rhoes hedd i'th drefydd ac i'th draeth:
Dy feibion pyrth â gwenith pur;
Rhydd Fendith gyd â'u bwyd heb gur.

3 Mae'n anfon o'i Dryſorau draw
Y cynnar a'r diweddar wlaw:
Ac eira fel cydynnau gwlan;
A cheidw'n llyn yr egin mân.

4 A llwydrew 'fe ' orchguddia'r llawr;
Pair ' genllyſg ddiſgyn â thrwſt mawr:
Pa le mae'r dŷn o'r anian gref
Wrthſaif ei oerni erchyll ef?

5 Eirch i'r deheuwynt chwythu ar led;
A'r ja a dawdd, a'r llif a red:
Ond gantho mae gwell ffyrdd a hawl
I alw *Brydain* at ei Fawl.

6 Trwy'r ynys oll ei Ddeddfau cair,
A'i 'Fengyl lân ei thraethu ' wnair:
Ni wnaeth ef' felly â phob rhyw
Genhedloedd eraill. Molwch Dduw.

SALM

SALM CXLVIII.

Mawl i Dduw *oddi wrth yr holl Greaduriaid.*

1 HOLL lwythau *Addaf*, dowch,
Nef, daear, moroedd maith,
Mawl i'ch Creawdwr rho'wch
Yn eich amrywiol jaith:
Angylion glân,
Y diſglair Lu,
Mewn bydoedd fry,
Rho'wch ddechreu'r Gân.

2 Yr haul â'i lewyrch cry',
A'r lloer i'r nos ſy'n llyw,
A'r ſer gwreichionllyd lu,
Yn ddiſglair molwch Dduw:
Traethwch ei Nerth,
Lifeiriaint fry,
Cymmylau ſy
Mewn wybren ſerth.

3 Y bydoedd diſglair fry
Yn drefnwych ſaif pob rhai,
Neu yn eu cylchoedd try
Pob un wrth Arch Duw'n chwai:
A'i Air o'r nef
Eu defnydd gwnaeth,
O ddim i'w daeth,
I'w foli ef.

4 Troes ef' eu troellau hwy
Mewn oeſoedd pwy ŵyr bryd;
A'i Air cyflawnant mwy
Tra pery oes y byd:

Mewn

Mewn amryw ffyrdd
Y traetha'i Waith
Ei Foliant faith,
A'i Wyrthiau fyrdd.

Gorphwyſiad.

5 Chwi holl ddaearol hil,
A'r môr-fwyſtfilod mawr,
A'r pyſgod bychain fil
Sy'n noſio'r eigion lawr:
O for a thraeth
A'ch teyrnged de'wch,
Ac eglurhêwch
Nerth Duw a'ch gwnaeth.

6 Tarth, cenllyſg, eira ſyth,
Moliennwch Arglwydd nef;
A'r gwynt tymheſtlog chwŷth,
I wneuthur ei Air ef:
Pan ruo draw
Daranau clau,
A'r mellt yn gwau,
Rho'wch Barch i'w Law.

7 Mynyddoedd mawrion ſydd,
A chedrwŷdd uchel jawn,
Pob coed ac iſel wŷdd,
Sy'n dwyn eu ffrwythau llawn;
Ehediaid nef,
Bwyſtfilod fyrdd,
Mewn amryw ffyrdd
Clodforwch ef.

8 Brenhinoedd, barnwyr byd,
Bawb ofnwch Frenhin Nef,
Wrth ein rheoli' gŷd,
Rhow'ch Barch i'w Fawredd ef:

Tra

Tra ſoch yn byw
Mewn rhwyſg a bri,
Na 'nghoſiwch chwi
Nerth goruwch Duw.

9 Gwyryfon, llangciau llon,
Ymrowch i'w foli ef;
Plant bach, hen bobl o'r bron,
Rai ſydd â gwannach llef:
Trwy'i Deyrnas faith
I'w Enw glân
Boed didrangc Gân
Gan bob rhyw jaith.

10 Pawb pobloedd ofnwch Wg
Y Duw ſy'n llywio fry;
Ei Bobl yn agos dwg,
I broſi ei Gariad cu:
Tr'o dae'r a nef
Yn ceiſio'i Fawl,
Y Saint heb dawl
Dyrchafant ef.

SALM CXLVIII.

Mawl cyffredinol.

1 CYduned pob creadur byw
I foli'r Duw trag'wyddol:
Dechreuwch, nefol Lu, y Gân,
Ei Enw glân ef ganmol.

2 Yr haul a'i belydr euraid llon,
A'r lleuad gron ar gynnyrch:
A'r ſer gwreichionllyd fry'n y rhod,
Rho'wch iddo Glod trwy'ch llewyrch.

3 'Fe ' wnaeth y bydoedd ſydd uwch ben
Yn y ffurfafen accw:
Troi wrth ei Arch, neu ſefyll, ' wnant,
A thraethant byth ei Enw.

4 Chwi darth, pan y dyrchafoch draw,
Neu ſyrthio'n wlaw neu'n eira:
Taranau ' amgylch wybren ſerth,
Dangoſwch Nerth JEHOFA.

5 Gwynt, cenllyſg, a melldennog dân,
Cydfolwch y glân Arglwydd:
Mewn ſtormydd erchyll pan eich cair,
Gan wneud ei Air yn ebrwydd.

6 Bydded i'w holl Weithredoedd fry
Amlygu ei Ogoniant:
Ond Saint ſy'n profi 'i Gariad jach,
Rho'wch chwi amgenach Moliant.

Gorphwyſiad I.

7 Gwypped y ddae'r a'r ce'nfor, fod
I'w Lluniwr Glod oddiwrthynt:
Moliannent ef y dyfroedd mawr,
A'r pyſgod dirfawr ynthynt.

8 Oddiwrth fynyddoedd uchel fry
Dadſeinied ' fynu ei Glodydd:
Oddiwrth fân wŷdd a chedrwŷdd mawr,
Dyffrynnoedd, llawr, a maeſydd.

9 Chwi lewod a bwyſtfilod gwâr,
Pob 'ſgrubliaid a'r y borant:
Byw'r ydych ar ei fwyd bob cam,
Mae'n diſgwyl am eich Moliant.

10 Chwi adar ar yr aden fry,
Ei Foliant ' fynu dygwch:

Neu

Neu ſefwch ar ganghennau'r gwŷdd,
Mawl i'ch Creawdydd cenwch.

11 Chwi forgrug ac ymluſgiaid mân,
Rho'wch allan ei Ddoethineb:
Molwch ef ddiſglair ednog lu,
A roes i chwi'r diſgleirdeb.

12 Datganed holl ddaearol ryw
Anrhydedd Duw'r Goruchaf:
Ond Saint ſy'n profi 'Ras o'r nef,
Moliennwch ef yn bennaf.

Gorphwyſiad II.

13 Brenhinoedd ſydd o helaeth hawl,
Rho'wch Fawl i'r bythol Fawredd:
Rho'wch, farnwyr, Barch i'r unig Law
O'r lle y daw'ch anrhydedd.

14 Chwi je'ngctid cryfion yn eu rhod,
Seiniwch ei Glod hyd wybren:
Plant jeuaingc a gwŷr hen, heb dawl,
Rho'wch chwithau Fawl drachefen.

15 Cyd-zel gan bawb a fyddo'n bôd
I ſeinio'i Glod rhyfeddol:
Duw yw ein Jôr, a'i Enw cu
Sy'n unig haeddu 'ganmol.

16 Natur a chelfyddydau 'nghŷd
Molwch e' i gŷd bob rhywiau:
Ond Saint ſy'n agos atto'n byw,
Clodforwch Dduw yn orau.

SALM CXLIX.

Molwch Dduw, *ei holl Saint*; neu, *Y Saint yn barnu'r Byd.*

1 CHWI bawb ſy'n caru'r Arglwydd glân,
A newydd Gân ef molwch:
A llafar llon o fewn ei Byrth
Ei olaf Wyrth mynegwch.

2 *Juddewon*, pobl ei Ras, a gân
I'w Prynwr glân yn ddibrin:
Cenhedloedd a'u cydfolant e',
A *Seion* adde'i Brenhin.

3 Yr Arglwydd hoffa'r Cyfion pur
Sy'n ddibris gan wŷr diffaith:
'Fe ' wiſg y llariaidd ſy'n y llwch
A harddwch Jachawdwriaeth.

4 Y Saint a ddylent lawenhâu
Ar eu gwel'au wrth farw:
A chanu fel Nefolion byw;
Can's cyfyd Duw y meirw.

5 Bryd hynny bydd ei uchel Glod
Yn llanw eu tafod rhyfedd:
Pob un â'i gleddyf yn ei law,
I wneuthur braw a dialedd.

6 I'w Frawdle pan el Criſt ar frys,
A'r byd gael gwŷs i ympiro:
Darparwyd gorſeddfeydd i'r Saint,
A phawb o'i Geraint yno.

7 Cânt

7 Cânt lywio â gwialen haiarn ſwrth
Genhedloedd gwrthryfelgar:
A chyd â'u Duw roi'r goſp barhâus
Ar wŷr trahâus y ddaear.

8 Gwel'd rhwymo drwg frenhinoedd cânt,
A llawenhânt o'u herwydd:
Hyn a fydd Braint y Saint a'u Bri.
O molwch chwi yr Arglwydd!

SALM CL. Adn. 1, 2, 6.

Cân o Fawl.

1 YN Nhy Dduw, lle datgûdd 'fo'i Ras,
Rho'wch yno ' ma's ei Foliant:
A chodwch eich calonnau i'r ne',
Anneddle ei Ogoniant.

2 Cyffrôed eich holl anwydau glân,
Wrth ddatgan ei Weithredoedd:
Ond gwaith ei Ras ſy goruwch clod,
Rhy fawr i'ch tafod adrodd.

3 Pob perchen bôd ac anadl byw,
Rho'wch Fawl i'r Duw a'ch lluniai:
Ond gwell y mawl ſy enaid ef
Pan ddarffo'm llef yn angau.

Ffurf Ogoniant y Criſtion.

Meſur hir.

I'R Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd Glân,
Un Duw a Sylwedd di-wahân:
Boed Moliant ac Addoliad cu
Gan bawb trwy'r ddae'r a'r neſoedd fry.

Meſur cyffredin.

ADdoler Duw y Tad, ynghŷd
A'r Mab a'r Yſpryd Sanctaidd:
Ym mhlith ei Saint dan wybren ſy,
A'r diſglair Lu nefolaidd.

Un arall.

I'R Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd Glân,
Boed Moliant hoywlân hylwydd:
Gan bawb trwy'r nef a'r ddaear faith,
Lle byddo Gwaith yr Arglwydd.

Meſur byr.

ANgylion cylch Maingc Duw,
A'r Saint ſy'n byw trwy'r holl-fyd:
Addolwch y Tad, i'r Mab rho'wch Fawl,
Ac i'r Trag'wyddawl Yſpryd.

Fel

Fel Salm cxiii.

'NAWR i'r Tri Sanctaidd ar un tro,
Tad, Mab, ac Yſpryd Glân, y bo
Mawl bythol a Gogoniant cu:
Trwy'r bydoedd oll lle 'dwaenir Jôn,
Gan yr Angylion wrth y Thron,
A Seintiau'r ddae'r a'r nefoedd fry.

Fel Salm cxlviii.

GOgoniant ſo i'r Tad
Hyd entrych nefoedd wen;
Gogoniant i'r Mab rhad
A'n prynodd ar y pren:
I'r Yſpryd Glân
Gogoniant byth
Trwy barch dilyth.
Amen, Amen.

DIWEDD.

Rhai SALMAU, wrth eu 'ſgrifenu o'r naill Gopi i'r llall, mewn rhyw fodd wedi aros heb eu goſod mewn Trefn yn eu Lle priodol, a oſodir i lawr yma.

SALM XXXII.

Y Rhan gyntaf. Meſur hir.

Edifeirwch, a Phardwn Rhad; neu, *Gyfjawnhâd a Sanctteiddiad.*

1 DEdwydd yw'r dŷn, byth ddedwydd yw,
Bai'r hwn 'faddeuwyd gan ei DDUW:
S'â'i bechod wedi adde'n driſt,
A'i guddio â Gwaed ei Brynwr *Criſt.*

2 Gwyn fyd y dŷn nad yw Duw'r Nef
Yn cyfrif ei anwiredd ef:
Ni phledia haeddiant gwobor ddwys;
Ac nid ar waith, ond Gras ma'i bwys.

3 Ei enau ef a'i gàlon ddofn
Di-ddichell ŷnt; ei ſanctaidd ofn:
'I orfoledd, a'i 'difeirwch prûdd,
A brofant ei ddiffuant ffydd.

4 Mor glodfawr yw'r Cyfiawnder drud
Sy'n cuddio a maddeu'i feiau ' gŷd:
Tr'o profiad diſglair o wir Ras
Trwy'i fywyd oll yn torri 'ma's.

SALM XXXII.

Yr ail Ran. Meſur hir.

Eſmwythâu Cydwybod euog trwy Gyfaddefiad a Phardwn.

1 TRA tawyf ſon, a chelu o hŷd
Euogrwydd trwm ſy enaid drud:
Pa boen yn fy nghydwybod ſydd!
Pa ing o'm mewn wy'n brofi'n brûdd!

2 Addefa'i mhechod ger bron Duw,
A'm dirgel feiau'n brûdd bob rhyw:
Fe draetha'th 'Fengyl Bardwn rhŷdd,
A'th Yſpryd yn ei ſelio ſydd.

3 Am hyn pob enaid iſel fryd
Gweddïant wrth dy Faingc mewn pryd:
Pan lifo temtaſiynau mawr,
Ni chânt nesâu i'w ſoddi ' lawr.

4 Mor jach wyf dan d'Adenydd cu,
Mewn ſtormydd a thywyllwch du:
A phan fwy'n rhodio, d'Olwg ſydd
Oddiwrth bob magl i'm dwyn yn rhŷdd.

SALM

SALM XL. Adn. 5—10.

Meſur-hir.

Criſt *ein Haberth a'n Mechnïaeth.*

1 Y Gwyrthiau, Jôn, a wnaethoſt ti,
S'uchlaw ein mawl a'n meddwl ni:
Pe ceiſiwn dd'we'yd eu niſer maith,
Fe ballai'm rhif, llewygai'm jaith.

2 Nid gwaed 'nifeiliaid cymmain un
All olchi euogrwydd enaid dŷn:
Ond ti a roiſt o'n blaen, O Dduw!
Un Aberth Holl-ddigonol yw.

3 Wele'th drag'wyddol Fab a ddau;
I'th Gyngor rhoddai ' Gluſt yn glau:
Cymmerodd Gorph parodol pur,
I gwpla'r Gorchwyl mawr ei gur.

4 " Wele fi'n dyfod" (meddai ef',
A Golwg ſerchog, uſudd) " ſef:
" I ddwyn pechodau dynol-ryw,
" A gwneuthur d'W'llys di, O Dduw!

5 " 'Sgrifenwyd yn dy Arfaeth fawr,
" Wyf yn dy Lyfyr di ar lawr:
" Rhan Prynwr rhaid i mi gwplâu;
" Ac wele'th Ddeddf i'm Calon ma'i!

6 " Bydd im' dy Gyfraith lân fawrhâu;
" Rhai cyndyn tynna' i uſuddhâu:
" Pan ar ſy Nghroes y coder fi,
" Neu ' fynu'm Coron fawr ei Bri.

7 " Caiff d'Yſpryd ddiſgyn ' lawr, a d'we'yd
" Dy Waith, a'r hyn wyf finnau'n wneud:
" A'r byd yn ſyn a ddyſg dy Rad,
" Dy Jawnder a'th Ddoethineb, Dad!

SALM XLV. Meſur cyffredin.

Gogoniant perſonol a Llywodraeth Criſt, *a'r Eglwys Genhedlig.*

1 MYnegaf Glod fy Mrenhin glân;
Ei Ddull, tra gwiwlan ydy':
N'all neb plant dynion farwol ryw
A'm Harglwydd Dduw gydmaru.

2 Tywalldwyd Gras i'th Enau gwiw;
Can's melus yw d'Ymadrodd:
Dy Dduw â Doniau mawr dros ben
Dy ſanctaidd Ben coronodd.

3 Gwregyſa'th Gledd, Dywyſog glew,
A marchog mewn Awdurdod:
Trwy'th holl elynion tery'th Fraw,
A'r byd a ddaw i ufudd-dod.

4 Dy Faingc, O Dduw! byth erys hon;
A'th Air i'th Ddwylo'n wastad:
Fydd Hedd-Deyrnwialen fawr ei Braint,
I lywio'th Saint trwy Gariad.

5 Jawnder a Gwir, o'th gylch maent hwy;
Ond ceri'n fwy Drugaredd:
A Duw, dy Dduw, a rydd, o'i Ddawn,
I'th Enaid llawn Gorfoledd.

6 Wele'r *Genhedlig* Eglwys draw
Ar dy Ddeheulaw'n dwad:
Fel Priod-ferch hardd-wych ei llun;
T'wyſogion fy'n ei gwarchad.

7 Clyw, derbyn, Ferch, ei Gariad rhad;
A thy dy dad yn ebrwydd:
Yn angof gâd, a'th dduwiau gau,
Gan ufuddhâu i'th Arglwydd.

8 O gâd i'th Dduw a'th Frenhin, Ferch,
Gael dy holl ſerch yn ufudd:
A'th Blant a gân ei Fawl ar g'oedd
Mewn Llyſoedd o lawenydd.

SALM CXLVI. Fel Salm cxiii.

Mawl i Dduw *am ei Ddaioni a'i Wirionedd.*

1 FY Nuw, â'm genau molaf ef;
A phan yn angau ' collwy'm llef,
Dŷd Mawl fy ngallu gwell ar waith:
Ni dderfydd byth mo'm dyddiau o Glod
Tra fyddo bywyd im' na bôd,
Neu'n para Drag'wyddoldeb maith.

2 Pa'm y rhof hyder ar ddyn mwy?
T'wyſogion, trengu a wnant hwy;
Help cig a gwaed ſydd ofer beth:
Eu ffun ymâd, eu gwychder mawr
A'u hamcan derfydd oll mewn awr;
Ni's gallant gwpla'u gair heb feth.

3 Gwyn fyd y dŷn mae'i obaith ef
Ar Dduw yr *Iſrael*, a wnaeth nef,
A'r ddae'r, a'r moroedd, a'u holl lu:
'Fe ' wared orthrymmedig rai,
I'r tlawd rhydd fara pan ddêl trai,
Ac a wna'n dda'i Addewid gu.

4 Mae gan Dduw lygaid i roi'r dall;
Deil ' ſynu'r meddwl gwan rhag gwall;
Y flin gydwybod eſmwythâ:
Rhydd Borth i'r dieithr-ddyn wrth raid,
I'r weddw a'r amddifaid blaid;
A'r carcharorion a ryddhâ.

5 Edwyn

5 Edwyn ei Saint; 'fe'u câr yn gu,
Ond dynion drwg i uffern dry;
Byth, *Seion*, y teyrnaſa'th Jôn:
Boed i bob oedran a phob jaith
Ymrwymo'n hyn o uchel waith.
Molwch ef mewn trag'wyddol dôn.

6 Tra rhoddo im' anadl, molaf ef;
A phan yn angau ' collwy'm llef,
Dŷd Mawl fy ngallu gwell ar waith:
Ni ddeſydd byth mo'm dyddiau o Glod
Tra fyddo bywyd im' na bôd,
Neu'n para Drag'wyddoldeb maith.

SALM CXLVII. Meſur cyffredin.

Adn. 7—9, 13—18.

Tymhorau'r Flwyddyn.

1 A Cherddi Mawl ac uchel dôn
Cenwch i'r Jôn yn llawen:
Tros neſoedd tannu'i gwmmwl ' wna,
A'r gwlaw ' orchuddia'r wybren.

2 Cafodydd Bendith enfyn ' lawr
I lonni'r llawr-dir obry:
Gwna'r gwellt goroni pen y bryn,
Ac ŷd mewn dyffryn dyfu.

3 'Fe ' rydd i'r ŷch ei fwyd i fyw,
A'r cigfrain ' glyw e'n gweiddi:
Ond dŷn, ſy'n proſi ' wenith da,
A ddylai'n fwya'i foli.

4 Ei Gyngor gwych ſy'n newid gwêdd
Tymhorau ddiwedd blwyddyn:
'Fe ' eirch i'r haul gwttogi ' daith,
A'r Gaua' llaith a ganlyn.

5 Ei lwydrew ' ſyrth, a'i eira mân
A wiſg fel gwlan yr holl-dir:
Ni lifa ffrydiau dyfroedd mwy;
Gan rew hwynt-hwy a rwymir.

6 Pan fyddo o'i Dryſorau mawr
Yn bwrw ' lawr ei geſer:
'Sawl â'r Duw hwn ymherrio ' wna,
Caiff wel'd y metha'i gryſder.

7 Enfyn ei Air, a thawdd yr ja,
A'r tir ni alara mwyach:
Geilw'r awelon gwreſog mwyn,
A'r Gwanwyn ' ddychwel bellach.

8 Y cwmmwl ſy, a'r gwynt wrth droi,
I'w Air yn rhoi ufudd-dod:
A Chân a Mawl, ag uchel dôn,
I'r Arglwydd Jôn rhowch Fawr-glod.

D I W E D D.

Thomas John
His Book
David Evans

David E.